BARDD, A BYRDDAU

AMRYW, SEIGIAU

NEU

Gasgliad O Gynghanedd,

SEF

Carolau a Cherddi a Chywyddau, o waith *Jonathan Hughes*, Pengwern wrth *Langollen* yn *Sir Ddimbych*.

Llawenydd, yw cynnydd, cân,
Dawn hoen, dyna ei hanian.

Gwir Iaith, awen faith, Iawn fodd,--Ymgeisio,
Am gyson, ymadrodd,
Pawb a'i Chwennych, rwydd-wych, rodd
Ond rhyw ben, a'i Derbyniodd.

---

rgraphwyd yn y *Mwythig* gan STAFFORD PRYS,
yn y Flwyddyn 1778.

Y RHAGYMADRODD.

FY ngharedigol wladwyr, o Ardaloedd Cymru, wele fi 'n anfon attoch y Llyfr hwn, o'm llafur aniben, yr hwn y Crybwyllwyd am dano er ys Llawer o ddyddiau, o'r diwedd daeth y bwriad i ben. Ac nid wyfi 'n ameu na fydd ef yn dderbyniol gan y rhai fydd yn hoffi canu; mae 'r ddawn hon yn y byd er y dechreuad, ac a bery hyd y diwedd. Canys mae hi 'n un o'r celfyddydau di ddiben; ond fe ddweudir fod Caniadau 'r oes yma 'n waeth ac yn llai eu fylwedd, na rhai 'r oes a bafiodd, a gwir yw, mewn un yſtyr, o herwydd ein bod ni yn fwy difraw ac eſgeulus am ddefyddio ein Talentau, ond am y ddawn nid yw hi ddim byrrach nag o'r blaen, Canys megis yr oedd yn y dechreu mae 'r awr hon ac y bydd; ac mae pob talent yn ynnill ychwaneg atti wrth ei harferu, mae gennyf i brawf amlwg o hynny, pan fyddwyfi yſbaid hir o amſer heb ganu, bydd raid ei chodi hi fel o'i bedd i ail ddechreu: O blegyd mae pob dawn yn Diflannu ac yn gwywo pan gaffo pethau eraill le yn y meddwl. A phethau eraill a orfu i mi eu croeſawu yn fy meddwl agos drwy fy holl oes, yr hyn a barodd i'm cynhanedd, fod mo'r anghywir a muſgrell ac yw hi: Anffyddlon ac anufudd a fum i i'r gelfyddyd, wedi i mi yn y dechreuad ei hoffi a'i dymuno 'n fwy na dim a allai 'r byd ei fforddio immi.

Ac y roedd gan i awyddfryd çyn i mi fedru canu dim mewn ſylwedd, roeddwn hefyd yn meddwl fod yn ammhoſibl i mi byth wneud gwaith cyffelyb i'r hen Brydyddion, ac fellu byddwn yn aml yn fy nghyfri fy hun yn ffôl, fod yn myfyrio dim ar beth mor ddieithr ac allan o'm cyrredd, y meddyliau hyn a gynhwyſais i pan oeddwn ynghylch 15 oed ac o hynny hyd yn 20, pan oeddwn o ddeutu 20 oed dechreuais gael gwell gafael ar y gwaith, mi wnawn rigymmau yn fy nhyb fy hun, ac oedd yn ganu go hynod, ac y roeddwn yn dechreu rhyfeddu oblegyd fy ngwaith, tybio n ddiau, yr awn i yn Brydydd, a hynny oedd fy naturiol ewyllys, yſgryfennu rhai rheffynnau o gan a'u danghos i eraill, a chael molach mawr a llawer o wag ogoniant gan y wlad. mynd ymlaen ymhellach o nerth hynny, a gwneuthur gwaddh chwerrig neu anterliwt, cael mwyſwy o foleſt, erbyn hyn roeddwn i wedi mynd yn ben Bardd; er na wyddwn i y pryd hwnnw am Farddoniaeth, na rheolau 'r gelfyddyd na ſylweddol ffurfiadau 'r gynghanedd, nac enaid y gerdd: Ddim cyſtal ac y gwyddai llawer dyn na fedrai ganu dim.

Ac yn awr yn 57 oed, a chwedi gweled llawer iawn ychwaneg, a dal ſulw ar amrywiol wrth-ddrychau Gramadegau, a geirlyfrau, gan dybio wrth hynny yr awn i 'n ddoeth yn y gelfyddyd, ac o'r diwedd mi aethym gan ddoethed a hyn; mi wela nawr nad wyfi na phrydydd, na chymro, nac yſgolhaig, nid wyfi Brydydd o herwydd i mi eſgeuluſo 'r ddawn oedd ynofi, canys nid oedd gennyf mo'r cymmaint o ffydd ac ſydd gan yr aderyn. Fel y dweudodd rhyw un,

Ond dedwydd yw 'r aderyn,
Ni hau ni fed un gronyn,
Ni wna fe orchwyl yn y byd,
Ond canu hyd y ſlwyddyn.

Ond

Ond llafurus a thrafferthus a fum i ynghylch llawer o bethau drwy fy holl oes, ac wyfi ettto; Ac nid wyfi gymro, am fy mod yn gymmydog rhy agos i'r faefon, canys hên arfer cymmydogion ydyw benthygio oddiar eu gilydd, fellu finnau wrth ganu, mi fenthycciais fwy o eiriau Saefonaeg nag a dalaf i fyth adref.

Ac nid oes mor achos i mi fod yn yfgolhaig am na chefais i fawr addyfg yn Ieuangc, ac etto drwy yr holl wendidau hyn, y rwi 'n rhyfygu rhoi llyfr o m fgrifenyddiaeth a'm gwaith fy hun, i fynd i wyneb holl Gymru; ond er hyn rwyfi 'n rhoi fy enw am Brydydd, ac y mae 'r wlad yn fy ngalw i fellu fel y mae pob clyttiwr yn cael i alw 'n Dailiwr, pa faint bynnag a fydd rhyngddo ef a bod.

A chwaith nid wyfi 'n gwadu 'n gwbl mo'r gelfyddyd ac nis gallaf hynny, canys mi wn fwy arni nac a wyr pawb yn gyffredin.

Ac wele fi yn rhoi fy ngwaith dan ei fai, gan ddeifyf nawdd y rhai a'i derbyniant, am fy efgufodi pan welont fy ngwalliau, nid oes yngallu neb ddwyn allan ô'i dryfor amgen na'r hyn a fo ganddo; ac fel y ddwedodd un, aur nag arian nis meddaf eithr yr hyn fydd gennyf a roddaf i chwi.

Edrych ar feithder y gelfyddyd hon yn ei pherffeithrwydd, a dyfnder gwreiddyn yr iaith Gymraeg, a'm lleihaodd i, onid te roeddwn i yn gryn fardd, pe cowfwn i fynd ymlaen hyd wyneb iaith gyffredin y wlad, yr hon fydd yn Gymraeg ac yn Saefnaeg oll Blith traphlith, yn awr mae 'n wradwydd gennyf eifiau mod wedi cadw 'r iaith yn well canys cadw 'r iaith yw 'r peth mwyaf o alwedigaeth prydydd, un peth a'm cymmhellodd i roi fy Llyfr allan oedd o'r achos fy mod i wedi ei addaw ef o'r blaen, a pheth arall hefyd oedd oblegyd fod fy holl waith i ar wafgar hyd y wlad, ac nid oedd gan

i fy hun o honaw ond ychydig iawn: A phan gefais i beth o'r gwaith ynghyd, yr oedd ef yn fwy amherffaith nac ar y cyntaf, peth wedi ei gam yſgrifenu, peth arall yn gandryll ac yn fudr, ac arnaw bob màth o annhrefn, fel na allaſai neb mo'i ddewygio oni bae i mi gymheryd y gwaith arna fy hun; a bydded hyſbys i rhai fydd wedi dyſgu rhai o'm Carolau neu 'r Cerddi, ei bod wedi newid llawer o eiriau ag odlau a rhai penhillion cyfa; am na chefais i ond darnau o rai o honynt, ac fellu y rhai a ddyſgodd o'r blaen, pan weloch hwy etto chwi gewch ychwaneg o newydd.

Ac am enw neu deitl y llyfr, nid fy nyfais i yw hynny, ond mi fum yn myfyrio peth am enw arnaw ac nid oeddwn yn cael yr un enw cymmwys nes imi gyfarfod a brawd, fel finneu 'n enw prydydd, ſef William Roberts o'r pentref wrth gorwen, yn Sir Feirionydd, ac mi ofynnais iddo a ſafai efe, yn Dad Bedydd im llyfr i, ac ni ommeddodd ei gymwynas, ac efe anfonodd at ſrawd arall (fel y ceid dau dyſt,) un Rowland Hugh Bardd o drêf Rhywaedog, ar Ddau hyn a ddanfonaſant chwech o enwau, i mi gymryd fy newis o honynt; un oedd Duw-fawl dryſorfa neu brif ganiadau 'r oes breſenol, un arall oedd maen prawf neu 'r Tyſt ffyddlon, un arall oedd crŵth awen-gerdd, arall oedd Tywalltiad Blwch o ennaint, ac un arall gemmwaith awen o blwyf Collen, ac yn ddiweddaf Bardd a Byrddau amryw Seigiau Roedd pob un ar goreu.

Ond bod rhai enwau, 'n rhy enwog,
A minnau am cân am enw côg.

Fellu mi ddewiſais y diwaetha gan ei fod yn gymhwyſach na'r lleill, wrth yſtyried y gwaith ei fod o amryw deſtynau, ac nid allafi lai na diſgwyl barn gan rai am roi cymmyſg-waith, o'r fath allan

ond

ond yſtyried y cyfryw, fod Traul fawr yn mynd i'w hargraphu, ac nas gallwn i mo'u gwneud yn unig at feddyliau un rhyw neu fath a'r bobl rhag na chawn eu gwerthu, a minneu 'n cymryd y draul arna fy hun i gyd, fellu os bydd rhai heb gael ei bodloni ar un mann, troant ddalen a hwy a gant newid eu ſaig.

Am nad yw pob Taflod genau yr un Archwaethiad, y mae pob bwyd yn cael ei fwytta, ag os oes dim daioni yn y caniadau a gyfrifir yn oreu yn y llyfr hwn, fe eill y dyn gwagſaw daro wrtho, er iddo brynu 'r llyfr er mwyn y maſwaidd ſydd ynddo, ag onid oes daioni yn y Carolau, a rhai Cerddi ſydd ynddo, gwell a faſai ei fod yn wagedd ei gyd; Fellu profwch bob peth, a deliwch ar yr hyn ſy dda, ond pa fodd medd rhyw un y daliwn ni yr hyn ſy dda? Nid yw pren drwg yn dwyn ffrwythau da.

Atteb. Gwir yw hynny, etto chwi godwch ddryll o arian o'r yſgubion neu o'r dommen, ac a gymrwch fel o'r ceubren budr a llychwinog, mae 'r Lili ymyſg y drain, ar gwenith ymyſg yr Efrau, Brenhin Iſrael ymyſg y dodren, a Chriſt yn bwytta gyda 'r pyplicanod ar Pechaduriaid; efe ofynnod i'r Phariſeaid pam na wnaent y pren yn dda a'i ffrwyth yn dda neu yn ddrwg a'i ffrwyth yn ddrwg, ac nis gallent ei wnenthur yn yr un o'r ddau; ac nis gellir etto, canys dyn yn y dechreuad a fwyttaodd o ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg, a dyna 'r ffrwyth y mae ef yn ei ddwyn hyd y dydd hwn; fellu nid yw dyn na phren da, na phren drwg yn unig; ond pob un o'r ddau ynghyd, eithr Duw ſydd yn gwahanu 'r glân oddiwrth yr aflan, ac yn neillduo 'r duwiol iddo ei hun; canys nid oedd *Eſau* a *Jacob* ond cyffelybiaeth o'r ddwy anian ſydd mewn dyn,

mae

mae 'r eſeilliaid hyn etto yn ymryſon yngroth y meddwl, ac un o honynt ſydd i gael yr enedigaeth fraint a'r fendith, mae dau yn y maes, dau yn yr un gwelŷ, (yn nes attad nag yw dy grŷs di ſydd am dy gefn) un a gymherir a'r llall a adewir: A'r ſawl a fedro ymwrthod a'r drwg ac Ethol y da, ymenŷn a mêl a fwytty, ac nid eill y drwg gyffwrdd ag ef

Os bydd ichwi ddal ſulw yn rhai o'r Carolau cewch ychwaneg o eglurhâd am y pethau hyn.

Mae genif lawer iawn ychwaneg o ganiadau y baſwn yn gwyllyſio ei bod yn y Llyfr hwn ond nid oedd mo'r lle i w cynwys, o blegyd i fod (ond odid) yn ormod o bris, o herwydd hyn y rwy 'n bwriadu caſgliad arall o gerddi, canys mae gennyf nifer mawr o honynt gymmaint ac ellir gynwys mewn Deunaw neu 20 o bapur lennau ac fe ſydd rhaid i mi gael cynnorthwy ymlaen llaw, at y llyfr hwnnw onid te nid â 'r gwaith ddim ymlaen.

Yn awr nid oes gani ond cyflwyno fy Llyfr hwn i ddwylo y rhai a'i derbyniant, dan obeithio y bydd ef yn gymeradwy ganddynt, hyn yw dymmuniad eich dieithr gyfaill,

JONATHAN HUGHES.

Englynion yn *hyſbyſu* am *Achau'r* Llyfr, *a'r Byrddeu* a'r *Seigiau.*

1. GWelwch, edrychwch, drwy Achau, Fy Llyfr,
Fall afrwydd ganiadau,
O fôn-cyff hen, ond coffau,
Coed Merddin, caed y 'myrddau.

2. Mein-llin Talieſin yw 'r 'tlyſau, gwnnion,
Wawr gannaidd lieiniau,
O gell Homer, clwm pêr, clau,
Doeth diſglaer, daeth y dyſglau.

3. Hwyrach, daw rwgnach, dewr egni, yma,
Ammorth, herwydd i mi,
Yrru rhan, ar y rheini,
O Seigiau nawr, ſy gan i.

4. Etto, am feiddio, rwyſi, a'r Awen,
O ryw ſy Rheini,
Fal corr, yngafael Cawri,
Amdrwch hoen, ymdrech a hi.

5. Mae i mi, wedi ei Adel, ol traed,
Eu troiadau dirgel,
Ceir Briwſion Tawlion, ond hel,
Byrddau Achau Beirdd uchel.

6. 'M Seigiau, nodau, ofnadwy, ſiwr yw,
Sy ar rai 'n lled aſwy,
'S oes fowr-lwngc i ſaws f' arlwy,
Anturiaf a henwaf hwy.

7. Bara Haidd, beraidd, bur-yd, a berthyn,
I borthi 'r newynllyd,
Tew-glem Tammaid ſŷch taglyd,
Sy'n burion i fodlon fyd.

8. Ffrwythau, gwyrdd lyſiau, gleiſion, pob hedydd,
Pob pedwar Carnalion,
Gyrra ŷch brâs, ger eich bron,
Ochrau Teirw 'n chwartorion.

9. Ymbell ben mul, cul, cwla, a gyrchwyd,
O r gwarchau 'n *Samaria*,
Moethus at hon ni 'mwthia,
Mewn byd toſt, mae a'i bwytta.

10. Wrth raid, i enaid, byw anian, ceiff rith,
O ffrwythau gwlad *Canaan*,
Mêl a Llaeth archwaethan,
A mawr fudd, o amryw fan.

11. Seigiau, mewn mannau, mae mynnod, drwy [dwyll,
Rhag i'r deillion wybod,
I'r cynfab 'dae nhw 'n canfod,
O chwith y cae 'r fendith fod.

12. Bras-gelloedd, gwleddoedd, Arglwyddi, bryſiais
Hel briwſion y rheini,
Y meiddiai gŵn ymddigoni,
Dyna Saig, ordeiniais i.

13. Mae cig oen, pe doen, a'i 'dwaeno, 'n iſel,
Pob naws yn ei guddio,
Pob uchel olwg drwg drô,
Drwy drwch, trawſt, edrych troſto.

14. Mae cnau gronynnau Grawnwin, byw Adar,
A bwydydd cyffredin,
Bara dŵr, bryd i werin,
A phryd o ddail, ffrydoedd o win.

15. Seigiau pob cangau cyngan, o mwydtŷ,
Mae etto Saig egwan,
Cawl breſych, crŷch, o'r crochan,
'Bartoais, yn berwi i'r tân.

16. At hon, daw digon, o redegwyr, Clau,
Lle clywant ei ſawyr,
'Mr Chwant y cnawd, a'i ſawdwyr,
Rheibiant, a llyſant, hi 'n llwyr.

17. Saig Trachwant, nwyſiant, hoen ofer, a gwlêdd
Yr Arglwyddes pleſer,
Cig yn eu pig, Ciniaw pêr,
A'r ſeppin roir i Swpper.

18. Praw 'r ſeigiau, byrddau, di ball, a'r dyſglau,
P'run orau, praw un arall,
Oni ddoi, yno 'n ddiwall,
Cymro llon, cymmer y llall.

GWêl yma ddanghoſiad o feiau 'r argraph, canys lle gwelych air o'i le, heb allu gwneud rheſwm o honaw yn y gynghanedd, tro i'r ddalen hon, ag di gei eglurhad o'r cyfryw air, wrth rif y Carolau, neu 'r Cerddi, a rhif y Penhillion; ond am lythyren goll, nid wyfi 'n ameu na ddaw pob darllenydd o hyd iddi wrth y rheſwm, heb chwilio am dani:---- Gwêl yn y Carol cyntaf a'r 8fed pennill, air fel hyn, Ynu; ag fellu 'n feius, *yn un*, y dylai fod; a'r 9ed pennill, mae eiſiau 'r gair *mae*; yr ail carol a'r 15 pen. *ddilys*; y v. ed car. 1 pen. *fel*; vi. car. 4 pen. *Iſori*, a'r 5 pen. *llawen*; vii. car. 4 pen. *drwg falais*; y viii. car. a'r 9 pen. *folach*; a'r 11 pen. mae 'r gair *orphwys*, allan o'i le, ſef yn y llinell neſaf, ix. car. 5 pen. *cydfod*; xi. car. a'r 4 pen. *gwaetha*; xii. car. 13 pen. *gwiwdeg*; xiv. car. 5 pen. *a'r eiddo*; xxi. car. 2 pen. *na*; a'r 7 pen. *ddel*; xxv. car. 6 pen. *gwedi ei gael*; xxviii. car 4 pen. *rhoed mae ganddo ſiarad ſiwr*; xxix. car. 5 pen. *a'r cwmmwl*; xxx. car. 2 pen. *edifaru*; xxxii. car. 12 pen. mae 'r gair *corlan*, allan o'i le dos heibio iddo, canys ar ymyl y ddalen y dylaſai fod, i amlygu 'r gair *cail*; xxxix. car. a'r 2 pen. *doeth*; a'r 5 pen. *foleſt*; *roed*; a'r 6 pen. *bydol*, *I'w troi*; xlii. car. 1 pen. *iddi*; yr ail rhan y gerdd gyntaf, 2 pen. *bryſg pe llyſnen*; a'r 7 pen. *reffynne*; xxx. cerdd. pen. 11, *rhed*; xxxii. cerdd. pen. 11, *flodeu*; xxxiii. cerdd. pen. 2, *bloedd*; xxxiv. cerdd. pen. 17, *a'i enaid*. Y iii. cywydd, *gwnniad* yw 'r gair yn lle twnniaid; ynghynwyſiad y iv. cywydd, gweledigaeth y creaduriaid, ſef y Llew a'r Llwynog y March a'r Dylluan.

Carol Plygain ar King's Farewell.

I.

1. DEFFROWCH o gyſgu a boreu godwch,
Dyma 'r boreuddydd ymddibruddwch,
Dihunwn bawb o'n cwsg yſprydol,
Down i fywyd anian fywiol,
Dyma 'r dydd ar wawr a gode,
I rhai fu'n cyſgu nghyſgod ange,
Dan gwmwl du, a gorchydd cry,
Yn dallu eu hwynebe,
Diſgleiriodd haul cyfiawnder gole
I dynnu adwyth eu heneidie,
Danghoſodd delw Duw ei hunan,
Ymherſon dyn yn blentyn bychan,
Daeth ir byd, ar frawdol fryd,
Cadd febyd yn faban,
Dattododd nerth gweithredoedd Satan,
Er bod ei agwedd fel dyn egwan.

2. Fe'n rhwymodd Sattan wrth ei wllys,
Trwy ddoethineb ſarph oedd gyfrwys,
A Chriſt a'n rhoddodd oll yn rhyddion,
Trwy ddiniweidrwydd clommen wirion;
Cyflawnai 'r yſgrythrau 'n gyttun,
A'r addewydion ddweudodd ynddyn,
Mai cywir had, y wraig drwy rad,

A ſigai ſiad gyndyn,
Y ſarph arw oedd ſur offeryn,
Mewn llwyr gilwg yn llaw'r gelyn,
Aberthodd iawn dros ein pechode,
Ar y groes drwy loes ei ange,
Gorchfygodd lu, pyrth uffern ddu,
Agorodd fry, ei gaere,
I'r ſawl ſy'n credu 'r efengyl ole
Ac yn ei dilyn fel y dyle.

3. Ond gwylied neb er dim ryfygu,
Drwy gam dybio eu bod yn credu,
Wrth fynd ym mlaen mewn hyder gnawdol
Heb gredu 'rioed mor ffydd griſt'nogol,
Mae Criſt ei hun yn cywir dyſtio,
Y bydd cadwedig pawb a gredo,
A chyda hyn, mae'n dweud yn dynn,
Am ddyn na fynn, mo'no,
Oni bydd e'n un o'i euddo,
Mewn gwiſg briodas addas iddo,
Ac na ddanfonwyd mo'no 'n fugel,
Ond at golledig ddefaid Iſr'el,
Sy a'u baich yn drwm, fel y plwm,
Yn orthrwm gyſtuddiol,
Dyna 'r dynion gwir grediniol,
Sy am ymwared yn ymorol.

4. Hawdd yw genym heddyw ganu,
A dweud fod Criſt wedi 'n gwaredu,
A gwir yw hynny fe'n gwaredodd,
Ond pwy gredaſant i'w ymadrodd,
Fe a waredodd bob gwir griſtion,
Ac ni ddamniodd mo'r Iuddewon,
Achubai 'r byd, oll i gyd, fei prynai ddryd ddigon,
A gwerthfawr waed ei gywir galon,
Drwy daer gynyg ei ſargenion,
A'i waed oedd werthfawroccach ganwaith,
Na dim arall drwy ei frenhiniaeth,

A dyna 'r pam, yn ddi nam,
Y mae damnedigaeth,
Sin bod ni 'n gwrthod iechydwraeth,
Wedi ei dwyn uwch pob drudaniaeth.

5. Mae 'n hyfryd genym glywed cyfur,
Fod Duw 'n drugarog wrth bechadur,
Pa fath drugaredd a ddymunem,
Mund i baradwys fel yr ydem,
Er bod Duw yn hollalluog,
Nid allai fod ddim mwy trugarog,
Na chwfu 'r gwaed, o'i ben i'w draed,
Pan wnaed e'n weinidog,
I dderbyn cyflawn wobr cyflog,
Dros garcharorion rhwym cadwynog,
Duw trugarog ydyw 'r Arglwydd,
Ped fae ni yn uffern yn dragywydd,
Fe wnaeth ei ran, ym mhob man,
I'n dwyn dan ei adenydd,
O's damnedigaeth ini a ddigwydd,
Yngwaith ni 'n hunain yw'n dihenydd.

6. Nid all un enaid fod gadwedig,
Ond trwy enw Criſt yn unig,
Na thrwy griſt ond wrth y geirie,
A ddweudodd Criſt ei hun o'i ene,
A dyma amod Criſt yr Arglwydd,
Sy yn yr efengyl ini 'n rhybudd,
Ymwaded dyn, ag ef ei hun,
I'w galyn yn ufudd,
Coded, cymred groes a cherydd,
Chwerw bwn i'w chario beunydd,
Dyna 'r ffordd y bu 'r hen dadau,
Yn teithio i *Ganaan* wiwlan olau,
Ol traed y praidd, aeth rhag y blaidd,
Y ſanctaidd wir feintiau,
Nid oes un ffordd ond hon i ninnau,
O's awn i gyraedd *Sion* gaerau.

7. Hyffordd lanwaith i'r ffyddloniaid,
Ydyw hon i gadw eu henaid,
Nid oes un drwg weithredwr arni,
Na gwas angall yn ei fengi,
Cyfyng yw, a chul a chynwys,
I bawb a rodio i baradwys,
Pob duwiol wr, aeth hyd ddi'n fiwr,
Drwy dan a dwr, dyrus,
Ni cheiff un dyn wrth foddio 'i wllys,
Mor gafael arni 'n gyfeiliornus,
Ag er nad oes ond un ffordd ole,
Mae amryw fwn o ymryfone,
A hyn ni phaid, gwel pawb eu plaid,
Wen euraid, yn ore,
Rhai 'n dweud ny ni, ag eraill ninne,
Sy yn yr eglwys iawn arogle.

8. Ag nid yw Duw dderbyniwr wyneb,
I ddewis plaid nag un cymundeb,
Ond o bob cenedl rhai a gymer,
A fo'n gweithredu gwir gyfiawnder,
Gwir bechaduriaid a dderbynie,
Gwaethaf pennaf mwya eu pynne,
Os atto 'r ant, ganddo cant,
Faddeuant yn ddie,
Ond nid i ddilyn eu pechode,
Ond i dduwiolach da feddylie,
Nid yw'n cafhau 'r pechadur mwya,
Nag yn caru 'r pechod lleia,
A phechod dyn,
Sydd ynddo nglyn, ar ddau ynu cyfa,
Ond oes ir Arglwydd fawr gyfyngdra,
I dorri rhwymiad y rhai yma.

9. Ow! Clyw bechadur calon galed,
Mae Criſt yn cynyg itti ymwared,
Y mae fe 'n barod i dy gymryd,
Os wyti a chalon i ddychwelyd,

Y

Y mae fe'n d'alw er pan i'th ganed,
I'th gadw 'n ddyfal gyda'i ddefed,
I fywyd rhodd, bu farw o'i fodd,
Fe dalodd bob dyled,
I'th gael ath ddewis, oth gaethiwed,
Pa ham yr wyt yn damnio d' ened,
Mae gwyfg briodas barod ganddo,
Na chais dy hunan mor ymglyttio,
Er maint dy bwn, fe ath gymer, gwn,
Ow! tyr'd at hwn, heno,
Am dy gael yn briod iddo,
'N y ftat yr wyt, os troi di atto.
10. Mawr iawn yw'r golled fod pechadur,
Yn dilyn pechod cwrs ei natur,
Crift er ei fwyn yn colli ei fywyd,
Ag ynte 'n colli ei enaid hefyd,
Os eiff yr enaid gan y cythrel,
Nid oes ir Iefu ond gwobr ifel,
A digon gwael yw ei fael,
Ped fae fe 'n cael gafel,
Ar ein calonnau beilchion uchel,
Iw gwneuthur nhw iddo ei hun yn demel,
Er iddo 'rwymo a figo fatan,
Ag ynnill pawb o'i deyrnas allan,
Er iddo o hyd, orchfygu 'r byd,
Drwy ei benyd, ei hunan,
A chondemnio pechod aflan,
Ychydig ddefaid fy yn ei gorlan,
11. Ei holl ogoniant a ddiofgai,
A gwarth a gwradwydd yr ymwyfgai,
Fel y diofgem ni 'n holl bechod,
Ag yr ymwyfgem a'i deilyngdod,
Fe rodiodd yn ein cnawd brycheulyd,
Fel y rhodiem ninnau yn ol ei yfpryd,
Ag oni wnawn, hynny 'n iawn,
Pa fodd y cawn wynfyd,

'Does ond yr Arglwydd glan wyneb-pryd,
A dynn ein beie i'n dwyn i'r bywyd,
Ceiſiwn droi o'n buchedd aflan,
Cowleidiwn Ieſu 'r hyfryd faban,
Mae 'n rhad mae'n rhydd, i'w gael heb gudd,
I ddwylo ffydd wiwlan,
Duw dyro ffydd a newydd anian,
Llwydda 'n henaid lladd ein hunan. *Diwedd.*

1753.

Carol Plygain ar King's Farewell.

II.

1. DOWCH yn nes wir bechaduriaid,
Clywch wirionedd clych yr enaid,
Rhown yn deg wirionedd dygyn,
I'r ſawl a allo ei wrando a'i dderbyn,
O'ni dderbynir hwn yn benna,
Nid rhyfeddol yw hyn yma,
Canaan, iaith, ymadrodd maith,
Nid dyna 'r waith gynta,
Y darfu ei wrthod na'r ddiwaetha,
Hyn yw tueddiad hen blant Adda,
Am fod gwirionedd Criſt yn erbyn,
Doeth ſynhwyrau 'r ſarph gas gyndyn,
Hon etto byth, o'i thywyll nyth,
Atto chwyth wenwyn,
Gwyliwn goelio llais y gelyn,
Sydd yn ein mynwes heddyw am ennyn.

2. Mae geiriau Criſt ei hun yn g'ledion,
Fel drain yn pigo cnawdol galon,
A'r un geiriau 'n gluſtog fanblu,
I gywir ffyddlon weiſion Ieſu,

Yr

Yr un gwirionedd ond ei yſtyried,
A yrrodd *Pharo* 'n galon galed,
Ac a ſeddalhadd, y rywiog radd,
Rhag cael ei lladd, mewn lludded,
Y *Ninifeinaid* wedi eu glywed,
A ddarfu ei dderbyn yn ddi arhed,
'R un gair a laddodd *Judas* leidyr,
Ac a ſywhadd y lleill o'r frodur,
Yr un haul ſydd, ac etto ſydd,
Yn toddi ar ddydd tyner,
Y cwyr pan dwymo i feddal dymer,
Ac yn caledu 'r clai r un amſer.

3. Er bod Criſt yn borth i'r bywyd,
I'r duwiolion atto a alwyd,
Mae'n ſaen tramgwydd a chraig rwyſtyr,
I'r drygionus cyfrwys natur,
Y ſe ydyw 'r maen ſydd wedi wrthod,
Gan adeiladwyr ar y tyfod,
Ac etto efe, ydyw congol gre,
A ſylfaen preſwylfod,
A phen ei demel mewn da amod,
Hon yw ei braidd, a'i anwyl briod,
Pan gadd ei eni yn nyddiau *Herod*,
Nid oedd neb yn medru ei 'nabod,
Ond pawb yn ffoi oddiwrtho 'n troi,
Gan ruthro i roi iddo athrod,
Nid oeddynt abal ſyth o wybod,
Fod Criſt mor iſel wedi oſod.

4. Tebygol yw fod rhai yn pregethu,
Yn *Judea* 'r dyddiau hynny,
Ond ni wnai neb rhag colli ei enw,
Bregethu Criſt mor wael a hwnnw,
Fe orfu i'r Arglwydd anfon ſeren,
I'w bregethu ſe or ffurfafen,
A gofod hon, ger ei fron, i'r doethion wyr deithio,
Ond te ni ſedrai rhain mor çoelio,

Heb ddim croes dyniad fod Criſt yno,
Ag etto nis gwyr neb ar aned,
Y mha galon mae fe'n gowled,
Oni rydd, Duw olwg ffydd,
Ini yn nydd ei nodded,
I edrych ar yr oen diniwed,
Union ddyfais yn ei ddefed.

5. Mae Criſt yn groes i gnawdol natur,
Ymhob doethineb pwngc ag yſtyr,
Ni ddichon neb gael addyſg ganddo,
Nes mynd mor ffol a phlentyn ſugno,
Ag anhawdd gan ddoethineb natur,
Fynd yn ffol i nol gwir ſynwyr,
Ail ddechre eu hoes, dyſgu Criſt groes,
Gwers nad oes, mo'i dwyſach,
Ni fedrai *Paul* un wers amgenach,
Ag nid aethai un gronun doethach,
Holl ddoethineb Criſt yr Arglwydd,
Oedd dyſgu 'n waſtad oſtwngeiddrwydd,
Goſtyngai ei hun, i ddyſgu i ddyn,
Ddilyn ei ddelw,
Ar ſawl oſtyngo ir llwch ar lludw,
Dyna 'r criſtion union enw.

6. Mae pawb am chwennych bod yn griſtion,
Neb am gario 'r groes yn ffyddlon,
Pawb am deyrnas Criſt ai goron,
Neb am ymladd a'i elynion,
Pawb am fynd ir ne yn y diwedd,
Neb am ddilyn buchedd ſanctedd,
Beth a dal hyn, Duw ni fynn,
Na gwenwyn nag anwir,
Na llid na gwawd na geirie ſegur,
Ond union ddeiliaid yn addolwyr,
Dyma 'n harfer ni bob plygain,
Canu moliant ini 'n hunain,

Y rhai a leiſio 'n deg, o fronddi freg,
Bydd naw neu ddeg yn union,
Yn canmol cegai 'r dynion coegion,
Heb fawr yn cofio 'r Arglwydd cyfion.
7. Ag er bod weithiau rai 'n ei gofio,
Does neb yn offrwm calon iddo,
Neb yn ſymud gyda *Simeon*,
I gowleidio 'r Baban gwirion,
Na neb ai cymer ef yn ei freichie,
Yn oreu dodren i fynd adre,
Och! nag oes, mae ganddo groes,
I bob moes a maſwedd,
Does neb eill yſtyn un o'i fyſedd,
I wneud i'r gowled wen ymgeledd,
Er hyn mae blys dychmygion cnawdol,
I addoli delw Duw anfeidrol,
Ond Duw gwael ddrych,
Mewn preſeb ych, pwy edrych am dano,
Addoli plentyn wedi rwymo,
Ni feder cnawd ymoſtwng iddo.
8. Gofynnwn i'n cydwybod effro,
Pa fath attebiad a gawn i yno?
Beth pe byddai 'r Arglwydd Ieſu,
Heddyw 'n faban yn y beudy?
Gyda 'r ychen mewn cadache
Pwy o honom a'i haddole?
Pa ddyn byw, ai gwelai 'n gyw,
A ddweuddai Duw wrtho?
Heb neb or byd yn rhoi iddo groeſo,
Ond roedd raid iddynt ei wradwyddo,
Os gallwn ni adde r gwir yn groyw,
Dyna 'r modd y mae fe heddyw,
Er nad yn llun, daiarol ddyn,
I neb un, iw nabod,
Gwir olwg ffydd fydd yn ei ganfod,
Yn cael ei daflu a'i werthu a'i wrthod.

9. Hi a'i gwel e yn noeth ag yn newynog,
Yn chwylio heddyw am gaion ddrylliog,
Ag yn dlawd ac yn ſychedig,
Yn chwylio am yſpryd cyſtuddiedig,
Y mae ſe 'n cerdded am bechadur,
Blinderog, llwythog yn dwyn dolur,
Droſto 'n friw, yn goch ei liw,
O' i ſawdl i'w goryn,
Yn methu rhodio a'i faich yn rhydyn,
Nid oes neb arall yn ei dderbyn,
Ond am y rhai ſy a chalon gyſa,
Yn wych o ddynion iach ddi ana,
Pa beth a wna, y rheini a,
Meddyg da, moddus,
Tra bo pechod yn bleſerus
Nid yw 'n anrhydedd ond i'r rheidus.

10. Pell yw'r byd mewn anwybodaeth,
Och ni thron' at iach athrawiaeth,
Ceir clywed llawer yn pregethu,
Yn erbyn dyſg yr Arglwydd Ieſu,
Dyma bregeth yr holl dyngwyr,
Ac a'u profant hi o'r yſgrythyr,
Gan ddweud yn gall, bu ar beder ball,
Nod angall o ddyngu,
Er hyn ſe gafodd ras yr Ieſu,
A gwir ydoedd garw ei wadu,
Ond gwylia ſiarad mewn yſgafnder,
Mae'n hyn o deſtyn ddyfnach dwyſter,
I olchi 'r haint, gad weld rhyw faint,
O ddagrau Saint *Peder*,
Cyn eſguſodi llyfon ofer,
Praw ei dammaid chwerw dymer.

11. Dyma eſgus y gwyr meddwon,
Meddwdod *Lot* a *Noah* gyſion,
Dyſgu pechod yr hen dadau,
Heb ddyſgu dim o'u dwys weddiau,

Ag

Ac eſgus eraill fynd o'r lleidyr,
Oddiar y groes ir nefol gyſur,
Gwrandewch yn glau, 'roedd yno ddau,
Gan angau 'n 'r un gongol,
Un a fu'n gall, ar llall yn benffol,
Ac ni bu farw 'n edifeiriol,
Er mynd or lleidr i baradwys,
Fe fethodd rhai gwyr goneſt cymwys,
Proffeſwyr cred, o *Pharaiſed*,
Fe wrthoded y rheini,
Oedd gan oneſted a degymu,
Y mintys gwrddion llyſiau 'r gerddi.

12. Yr unfed awr arddeg medd rhywun,
I winllan Duw mi geiſiaf gychwyn,
Fel pe byddai ar ei ddwylo,
Iddo ei hunan addo honno,
Ond gwrando fel mae Duw 'n dy atteb,
Yn ol ei farn a'i wir ddoethineb,
Heddyw dewch, a neſhewch
Gwrandewch fi 'n llefaru,
A gwyliwch eich calonnau gledu,
Rhag na lefarwyf etto foru,
Heddyw yw 'r dydd i dderbyn gwobrwy,
Yn awr yw 'r amſer cymeradwy,
Criſt ni ad gladdu tad, cyn dwad i'w galyn,
Na dweud ffarwel wrth ffrins na pherthyn,
Mewn cwyn ac achos cyn ei gychwyn.

13. Dowch i ymofyn bawb o ddifri,
Am lwybyr glanwaith y goleuni,
Llwybr cul a llwybr caled,
Heb ond ychydig yn ei gerdded,
Er bod y byd i gyd o'i gyrre,
Yn mynd i'r neſoedd ar eu geirie,
Nid a fyth ſaint, i'r ffaſiwn fraint,
Heb echryſhaint, a chroeſe,

A llawer iawn o orthrymdere,
A thywallt ymaith amal ddagre,
Er mai hawdd yw gwag hyderu,
Mae 'n rhaid cael cryfder Duw cyn credu,
Nid ydyw gras, Duw mor fas,
Na theyrnas yr Iefu,
Yn fefyll ddim mewn geiriau fellu,
Ond mewn gwir wllys nerth a gallu.

14. Nyni fy'n tybio mewn yfgafnder,
Yr awn i'r nefoedd bob rhyw nifer,
A Chrift yn dweudyd mai praidd bychan,
Sydd mewn gwir-lwydd yn ei gorlan,
Ag nad oes le ond braidd ychydig,
Ir cyfiawn wr fod yn gadwedig,
Gweddio raid, yn dybaid,
A Chrift o'n plaid, hefyd,
Ag ymladd dwys am bwys, y bywyd,
A tharo i lawr biccellau tanllyd,
Rhaid torri 'r cedrwydd talion cedyrn,
Y bwa dur ar barriau heiyrn,
A dryllio 'n rhes, y pyrth pres,
A thorri 'r tres, fel treifiwr,
Cyn gallu diangu o faglau 'r heliwr,
Sy'n tanu rhwydau, ar ffordd pob rhedwr.

15. Chwi wyddoch oedran Crift yn hyfbys,
Nid rhaid mo'i adrodd yn gyhoeddus,
Gadawn ir pethau hyn fynd heibio,
A chanwn ganiad newydd etto,
Pa fodd y gallwn fod yn ffyddlon,
Weifion Crift a boddio dynion?
Pob Criftion byw, a gadd ddawn Duw,
I ganu rhyw gwynion,
Ymogeled rhag iw galon,
Ganu i foddio yr anufuddion,
Canwn bawb ar gerdd foniarus,
A phob rhyw weddi 'n bur awyddus,

Duw

Duw tynn ni yn ol, o'n ffyrdd sy'n ffol,
A'n pennau ir ddol dillys,
Fel glan ddyweddi pura d' eglwys,
I gwrdd priod fab gardd paradwys. *Diwedd.*

Y CAROL *hwn a wnaed, ag a ddatganed yn* Llangollen *y flwyddyn*, 1751.

CAROL Plygain ar y fedle fawr.

III.

1. DEUWN canwn a chlodforwn,
Cyd ymdeimlwn ag ymgrymwn,
A gwir addolwn Dduw,
Pob perchen ened, a chlust agored,
Fel gwir oen diwair, doed, gwrandawed,
Derbynied air Duw byw,
Nad awn fel delwau maen a physt,
A chanddom glyst heb ystyr,
Neu 'n ail i'r neidar fyddar fain,
Na wrendi ar sain y swynwyr,
Clywn archiad drwy gariad i ddwad bawb at Dduw,
Mae'n galw 'n gry groyw, cysodwch feirw 'n fyw.

2. Mae yma feirwon laddedigion,
A gwahangleision cloffion deillion,
Byddarion, mudion, mall,
Mae yma ddiffyg, mawr am feddyg,
Ar briw 'n guddiedig anweledig,
I'r di rym lloerig dall,
Fel y mae ein hysprydoedd bod ag un,
Dan erwyn wydyn adwyth,
Fel esgyrn meirwon sychion synn,
Ar wyneb dyffryn diffrwyth,

A rhan gnawdol naturiol, mewn ſiriol fywiol fyd,
Ar yſprydol dragwyddol, yn farwol ac'n fud.

3. Nyni ſydd yma 'n byw rymuſa,
Dan farn oeddym feirw yn Adda,
Pan bechodd gynta i gyd,
Pechaſom ynddo r amſer honno,
Ag ynte ſy ynom ninne etto,
Yn pechu heno o hyd,
A llais y drwg mewn gwg i gyd,
Sy'n dweudyd yn y galon,
Ni fyddwch chwi etto feirw chwaith,
Er torri 'r gyfraith gyfion,
A ninne wrth ein chwante,
Sy'n blyſio 'r 'fale fyth,
Dymuniad chwant y llygad,
Sy o'r un archwaethiad chwyth.

4. Da ydyw 'r newydd geni yr Arglwydd,
Yn Ninas Dafydd, ar blygeinddydd,
Hyn ſydd lawenydd mawr,
Faint well ym etto o'i eni ſe yno,
Onid yw ſe 'n trigo ynom heno,
A ninne ynddo 'nawr,
A chyn del Criſt i'n mynwes ni,
Mae 'n rhaid ein geni o newydd,
A'i eni ynte 'n faban gwynn,
Ym mhob credadvn dedwydd,
Nid dechre corpholedd na diwedd 'i fab Duw,
Ond mae dechre i'w aelode cyn y bo eneidie byw.

5. Cenhedlir beunydd Griſt yr Arglwydd,
Ym mhob creadur natur newydd,
I'r hynod wirffydd hon,
Y ffydd gatholig lan buredig,
A eſgor arno 'n anweledig,
Mewn cla friwedig fron,
Mae 'n rhaid croeſhoelio adda hen,
A lladd dwy en ei wynniau,

Fel

el hyn teyrnaſa had y wraig,
r wddwf draig y drygau,
id a i'r nefoedd byth bythoedd,
rwy 'r cyfyngderoedd caeth,
nd ſhiloh a'r glan ddwylo,
n ddyn oddiyno a ddaeth.

6. A'r ffordd y noethlyd hen-ddyn ynfyd,
Mae 'r cleddyf tanllyd etto 'n yſgwyd,
gadw 'r bywyd byth,
Nid a neb etto i'r ddinas honno,
Ond a gadd ym mywyd Criſt ei guddio,
Gan wneuthur yno ei nyth,
Er gwneuthur Adda ynghryfder Duw,
Ni fedrodd fyw 'n ddi feie,
A gwneuthur Criſt yngwendid dyn,
Ei ddeddfau ei hun a gadwe,
Does un amſer gyfiawnder,
Pan chwilier dyfnder dyn,
Nag un pechod i'w 'nabod,
Yn hanfod Criſt ei hun.

7. A chwedi ei eni heb arno frychni,
Bu dan y gyfraith cadd dynn gyfri,
Hon oedd i'w holi o hyd;
A'i di ydyw 'r cywir gwirion geirwir?
Ai 'n feichiau i'th roed i'r drwg weithredwyr,
Cei brynu ſynwyr drud?
Rhoed llinyn barn yn llawn o bwys,
Cyfiawnder dwys hyd Ieſu,
Cadd gwialen *Moeſen* ffyrnig ryw,
I gyllwng i'w fflangellu,
Bu 'n diodde eu dyrnodie hi rwyge 'n gwyſe ei gig,
Gwaed gwirion ei Archollion doe'n ffynnon dan ei phig.

8. Chychwi ſy'n arfer llyfon ofer,
Mae Criſt a'i efengyl ar eich cyfer,
Yn galw 'n dyner dowch,
Cyn troi 'r wyntyll archiad erchyll,

Tyrr

Tyrr hoh yn gandryll furiau ceſtyll,
Du ffrewyll yw deffrowch,
Mae'n bryd galaru ag wylo'n driſt,
Anghofio Criſt a wnaethom,
Aeth ffurf ein bedydd gyda'r gwynt,
Yn ddwyſedd gynt adawſom,
Er llyfnion wyddorion annoethion ydym ni,
Rhy brinnion dyſgaſon, yn *Sion*, A, B, C.

9. Duw ddel o ddifri ein hargyhoeddi,
Rym yn baganiaid heb ein gehi,
Or yſpryd difri ar dwr,
Ag heb wen addas wyſg briodas,
Yn clywed arnom fynd ir deyrnas,
Fel ſuddas hyn ſydd ſiwr,
Er clywed ſon ſod uffern ddu,
Am dyngu rhegu a rhwygo,
Tra bo'm heb glywed dim or gwres,
'Dyw 'n talcen pres ni'n priſio,
Er gwybod na cheir cymod,
Heb wrthod pechod byth,
Mae'n gwag hyder goeg hudol,
Yn addo 'r neſol nyth.

10. Medd Criſt yn ddifri na cheir ſengi,
Mor bur deyrnas baried arni, nes gwir adeni dyn,
Gobeithio 'r gore meddwn ninne,
Fod duw'n drugarog dan droi geirie,
'R 'ſgrythyre oi lle a'u llun,
Bu raid i Dduw gael cnawd o ddyn,
Cyn bod yn un a nyni,
A rhaid ir dyn gael yſpryd Duw,
A ddelo yw addoli,
Addewyd o fywyd yr Ieſu o hyd ni roes,
Heb blygu ag ymwadu, ag ymgrymu dan y groes,
Oed Criſt yn berffaith mewn cnawdoliaeth,
Mil ar unwaith, deg ar bumwaith,

Saith

Saith ganwaith ſydd ac un,
Beth yw 'n hoed ninne ynddo ynte?
A ddaeth y Criſt hwn i'n calonne,
A'i hynod ddeddfe ei hun?
O's daeth ef yno darfu 'r chwant
Cawn tyw mewn ſeibiant ſobor,
Ond te daw ſattan ac a'n lluſg,
I feddwi heb ddyſg nag ordor,
Ac nid diwrnod i feddwdod,
Yw 'r ddefod hynod hon,
Dydd pyngcio i'r ſawl allo,
Ac i bawb ſobreiddio ei bron. *Diwedd.*

Carol Plygain ar y fedley fawr.

IV.

1. CANTORION dewra ſain gyſona,
Pa fawr neges pwy fynega,
Yw 'n gorchwyl ni yma 'nawr,
Pawb a redant ac a ganant,
Heddyw ag enw i roi gogoniant,
A moliant i Dduw mawr,
Yr Arglwydd hael, a'i ddwylo ei hun,
Fo i'n diſgyn ac a'n dyſgo,
A genau mwyn i ganu mawl,
Sylweddawl iſel iddo,
Nid gweddus, can felus yn ol ein hwllys ni,
O'n genau gwnawn ganu Duw 'n ol dy fynnu di.

2. Y Mahometan twrc a'r pagan,
Sy wrola eu cariad, i'r alcoran,
A rith addolan Dduw,
Pa faint ym ninne, gwell na nhwythe,

Er llais crwth euraid y 'ſgrythyre,
Tra bo'm mewn beie 'n byw,
Mae 'n rhaid i'r gwir addolwyr gwiw,
Addoli Duw 'n ddi duedd,
Mewn goſtwngeiddrwydd iſel fryd,
Yn yſpryd y gwirionedd,
Diſgyner ni ar fyrder o'n balchder trowſter trwch,
I 'mgrymu o flaen Ieſu fel rhai fae'n llyfu'r llwch.

3. Mae ar y doetha o heppil adda,
Ddifyg, am ddoethineb yma,
A'r cryfa am noddfa nerth,
A'r goreu 'n rhodio eiſie ymendio,
A'r iſel eiſieu ei oſtwng etto,
Rhag iddo fyrthio 'n ſerth,
Da inni gynyg Dwyn ar go,
Egluro tyſtio 'r teſtyn,
Y modd y ganwyd tywyſog hedd,
O fair oedd waeledd forwyn,
O'r teſtyn yſtrayol gwybodol ydyw 'r byd,
Traddodes pob proffes, ei hanes ini o hyd.

4. Ein holl garole ni er's blynydde,
Synbal ydynt ſain balede,
Fel clyche o brenie brau,
Nid ynt feddygon, dyfn archollion,
Ond gwiſgo croen ar eſgyrn crinion,
Fel gwaith athrawon gau,
Pur hyſbys ym ni o Adda hen,
Yn *Eden* a'i droyade,
Cyfarwydd doeth mewn gwledydd pell,
A hurt a muſgrell gartre,
Chwyliaſom, dyſgaſom y peth ni's gwelſom gwn,
Heb 'nabod ein pechod y diwrnod hyn od hwn.

5. Y mae 'r hen Adda heddyw yma,
A'r ſarph gam ellyll a'i cymhella,
I fwytta 'r ſwga ſaig,
Ein gwniau blyſig ſy etto 'n cynyg,

Torri ffrwythau 'r pren gwarddedig,
Trwy ryfyg fel y wraig,
Cawn weled hyn cyn hanner y dydd,
Mi wn heddyw bydd gan Adda,
Fwy gwaddedigion wrth ei ffâr,
O ſywaith na'r Meſia,
Rhai Meddwon a gwyr Mamon ſy a'u calon yn eu ciſt,
Er hynny 'n rhyfygu eu bod yn credu Criſt.

6. O's eir o ddifri i'w hargyhoeddi,
Rhon ddail ffigus i gyſgodi,
A chuddio eu noethni nawr,
Trwy wneud march gynfas o'r *Meſias*,
A labro ar dwymyn lwybrau *Demas*,
A ſuddas ddrwg ei ſawr,
Lle byddo Criſt gwna galon lan,
Mae ſe fel tan y toddydd,
Fel purwr arian lluſg ei wres,
Bob alcwm pres, ac efudd,
Fel ſebon y golchyddion,
Fe ganna 'n wynnion wedd,
Ei eglwys filwrus, ſy'n boenus hyd eu bedd.

7. A ych chwi 'n tybied, bechaduried,
Mai ſon am eni Criſt yn gowled,
Yn awr a'n gwared ni,
Mae pawb yn coelio 'r hanes honno,
I gnawdio 'n ſaledd a'i groeſhoelio,
A'i friwio 'n wael ei fri,
Fel hun 'roedd *Judas* ddiras ddall,
I hun yn deuall hynny,
Ond eiſiau cario calon well,
Mewn dichell gwnae ei fradychu,
Swm Simſan ar amcan,
Bwhwman trwſtan triſt,
A'r gydwybod heb 'nabod,
Grym cryfder Duwdod Criſt.

8. Tyſtiai 'r apoſtol, ddyn oedd ddoniol,
Fod yr holl Dduwdod yn gorphorol,
Yn Ieſu raſol ryw,
Pan oedd e'n Blentyn ynghroth y forwyn,
Duw tad ydoedd Duw 'r mab wedyn,
Duw 'r yſpryd loywyn liw,
Ac etto 'r tri mewn modd di driſt,
Oedd yn 'r un Criſt mewn undeb,
A llenwi 'r nef a'r ddaiar yr oedd,
Pan ydoedd yn y preſeb,
Duw *Iſr'el* uwch angel dyn iſel yn ei oes,
Duw nefol, yn gn wdol,
Ddyn graſol ar y groes.

9. Mae'n cnawd gan wacced, ni all amgyffred,
Mae gan yſgafned genym glywed,
Fod troyad ened triſt,
Mae 'r deincod ſarphedd, ar ein dannedd,
A'n rhwyſtra i fwytta bara o buredd,
Wirionedd croywedd Criſt,
Pe 'i bwriem ſyrffed y ſarph goch,
Ar gibau 'r moch ni ymborthem,
Y llo paſgedig diddig da,
A'r cuddiedig fanna fynnem,
A'r nefol ddwr bywiol,
O'r gref yſprydol graig,
Efe lanwe ein calonne cyfogai ddryge 'r ddraig.

10. Gwyliwn orphwys, mewn byd dyrus,
Yn yr Adda anwireddus,
Twyllodrus bregus brau,
Yn ddwys gweddiwn na ddiffygiwn,
Am gael mael euraid, a milwriwn,
O's medwn hwyliwn hau,
Tra bo'm ni'n cilio ar ol ein gwadd,
Oddiwrth y porthladd cyfyng,
Yr ym ni felly 'n priſio 'r ne,

Na

Na thal eu pherle ffyrlyng,
Hiraethol ddiffygiol, nid ym am nefol nyth,
Yn y cnawd etto gwnawn dario,
Pe cae'm ni ein boddio byth.

11. I gadw'r arfer nid yw ond ofer,
Chwedleua am Grift, er's yfpaid amfer.
Mil a thri chwarter maith, 1750,
Rhown heddyw 'r bore rhwng ein bronne,
Bor yr eglwys a'i ber arogle,
Gwnawn ddechre ei wylie i waith,
Na thybiwn fod mewn hynod hoen,
Dan fel yr oen a'i rinwedd,
Cyn inni erioed archwaethu blas,
Ei deyrnas addas weddedd,
Oen *Ifrael* nid yw'n fugel,
I ddynion uchel iach,
Y credadyn mae'n dderbyn,
Fe'i mynn fel plentyu bach. *Diwedd.*

Carol Plygain ar y fedley fawr.

V.

1. DYMA'R diwrnod ddifyr ddefod,
I ymgyfarfod a Duw 'r drindod,
I ganu mawrglod mwyn,
Dyma'r boreuddydd cynydd caniad,
Dyma 'r gwyliau mawr eu galwad,
Yn dwad etto ar dwyn,
Dyma 'r dydd ar dymer da,
Y llawenha 'r Angylion,
Dyma 'r wyl diameu roed,
Ddiddana erioed, i ddynion,

Nadolig gwir unig,
Anedig fab Duw nef,
R.own ſeingar, addolgar,
'Wyllyſgar lafar lef.

2. Hiſtori 'r teſtyn, fel y mae'n canlyn,
Yr ym yn dderbyn, er yn fechgyn,
Bob blwyddyn yn ein plwy,
Carolau newydd fwyfwy beunydd,
A llailai ſobrwydd o flaen yr,
Arglwydd bob dydd o'u herwydd hwy,
Paham na byddai 'n well ein flrwyth,
Beth ydyw 'r adwyth ſy arnom?
Pa amla 'r hauo Duw ei had,
Bydd ileia 'n dwad ynom,
Mae ſattan fel cigfran,
A'i amcan gyfan gas,
A'm dderbyn pob gronyn,
Rhag ennyn gwreiddyn gras.

3. Tir anffrwythlon, ydyw 'n calon,
Yn llawn mieri llwyni mawrion,
Grawn ſurion ynddi ſydd,
Creigl e ſychlyd, galed hefyd,
O herwydd heſbrwyddd bronnau ein,
Hyſpryd, am ffynnon bywyd ffydd,
A dyfn yw gwraidd efengyl gras,
Oddiwrth ein bas ddych'mygion,
A thrwy 'r llythyren wyddor wan,
Sy ar wyneb glann yr eigion,
Hawdd inni fynegi fod wedi geni gy'nt,
Griſt Ieſu, i'n gwaredu dan ganu geiriau gwynt.

4. Gwirionedd unig ſy'n ſgrifenedig,
Fe 'i ganwyd e ar y dydd pwyntiedig,
O'r fendigedig fair,
Ein Duw tragywyddol, anherfynol,
A wnawd yn gnawdol ddyn naturiol,
Trwy ei fywiol wrol air,

Pan

Pan gredai mair y gair heb gel,
A ddweudai 'r Angel wrthi,
Trwy 'r gwr a'i gwnaeth ae'r gair yn gnawd,
Pan ddaeth y traethawd atti
Bu yno, 'n ymffurfio 'n cenhedlu o hono ei hun,
Nes gwneuthur creadur, a Duw o natur dyn.

5. Nid wrth ddiſgwyliad cluſt na llygad,
Y daeth ein ceidwad ond wrth archiad,
Portreiad un Duw tri
Addolai *Iſrael* ef yn ei demel,
Ac a'i diyſtyrent e wrth y Buddel,
A'i fron mor iſel fri,
'Doedd nemor un a gredai 'n dda,
Mai 'r cu Feſia cyfion,
Barnwr lluoedd nef a llawr,
Oedd yno a'i wawr, mor wirion,
'N rhyfeddod i'w ganfod,
Dan ormod ſyndod ſen,
Mewn mebyd gwael nychlyd,
Heb agorud gair o'i ben.

6. 'R Iuddewon cyfrwys doeth Deuallus,
A hir ddiſgwylient yn ddiſgeulus,
Am dano 'n ddawnus Dduw,
Ac ar ei amſerol ddydd penodol,
Ni adwaenant mo'no 'n Griſt dymunol,
Ffanſiol reiol ryw,
Er Darllen y prophwydi hen,
A chyfraith Moeſen ddifri,
A chael datguddiad Eglur iawn,
Trwy gywir lawn oleuni,
Danghoſiad dyfodiad agweddiad mab Duw gwyn,
Yn mynegu ei dlodi ni chredai rheini er hyn.

7. 'Rym ninneu etto 'n diſgwyl wrtho,
A'm gael ein rhifo 'n ddefaid iddo,
O nifer euddo ei nyth,
Chwanegwyd inni at y prophwydi,

Athrawiaeth Criſt a'u brif eglwyſi,
Yn fwy goleuni fyth,
Er hyn ni adwaenom ninneu chwaith,
Mo'i lais na gwaith ei yſpryd,
Mwy nag y 'dwaenai nhwythau ei ddrych,
Wrth edrych ei wynebpryd,
Nid yw 'n coeg-ddall gnawd angall,
Yn deuall yſpryd Duw,
Na ſ'mudiad cynhyrfiad,
Ei rodiad yn ei ryw.

8. Nid yw fe 'n dyfod a llais tafod,
Er hyn mae yngwaelod ein cydwybod,
Yn taro traethod trwm,
Ni feddwm ninne, yn ein calonne,
Un gluſt yſprydol fywiol fodde,
A glyw reſyme heb ſwm,
Duw ynom ſydd yn fawr ei ſel,
Bob dydd heb gel yn galw,
Clyw deffro di gyſgadur ſwrth,
A chwyd oddiwrth y meirw,
A ninneu a'n barn anian,
Sy 'n caru heppian i wy,
Heb ddirnad byddarni, trueni cledi ein clwy.

9. Mae Eſa yn blyſio ynom ni etto,
Gwell genym wrando 'r ſarph ſy'n twyllo,
Na Duw ſy'n briwo ein bron,
Gwell yw *Barabbas*, na'r *Meſias*,
Gwell troyad rhediad traed *Herodias*,
Na phen Elias lon,
Gwell bwytta ſiwgwr chwant y cnawd,
Wrth wneuthur gwawd o'n gilydd,
Fel Eſau 'n gwerthu ein braint an hawl,
A'm ſaig o gawl mae 'n gywilydd,
Feb meibion afradlon,
Yn ymborthi ar weigion wyg,
Gweddillion moch budron,

10. Ym'hle

Ein chwantau ffolion ffug.

10. Ym'hle mae rwan neb yn gruddfan,
O'i fod e'n ddrwg weithredwr truan,
Carcharwr trwſtan triſt,
A'i bechod arno yn faich i'w ſlino,
Ac yn gadwyn rymus gwedi rwymo,
I hwn mae croeſo Criſt,
Nid rhaid i'r rhydd, mo'r cael rhyddhad,
Na'r iach wellad phyſygwr,
Nid rhaid i'r dyn ſy'n ddi ddyled,
Na gair na chred meichniwr,
Na'r wrachan mo'r trottian,
Ac arian yn y giſt,
Na'r pechadur di ddolur,
Mo gyſur Ie.u Griſt.

11. Nyni 'r prydyddion, pennau rhyddion,
Sy 'n cymryd arnon fod yn loywon,
A'n rhoddion heb ddim rhwd,
Yn gwaeddi 'n uchel dyma 'r demel,
Dan ganu i'n Duw a'n genau'n,
Dawel, a'n bronnau 'n rhyfel brwd,
Gwrandawn y farnedigaeth driſt,
A ddarfu i Griſt egluro,
Gwyliwn dybio ein bod yn gall,
Wrth dwyſo 'r dall i'w dwyllo,
O's oes ganddon ni 'r awron dros demel Sion ſel,
Yn groyw i'w gwir enw a gawn ei galw heb gel.

Pa beth yw defnyddiau r eglwys.

12. Nid ſectiau crefydd, hen na newydd,
Nid teiau gweledydd, maes na mynydd,
Nid llennydd trefydd triſt,
Nid cyfarfode, nid piniwne,
Nid adeiladaeth ond aelode,
Sy 'n diodde croeſe Criſt,
Mae gwir aelodau 'r eglwys wen,
Yn un a'i pen puredig,

A Chriſt yw'r pen, a'i gorph di frych,
Yw 'r eglwys wych gatholig,
Ty nefol yſprydol, o feini bywiol yw,
Llys uchel, oen *Iſr'el* a dirgel demel Duw.

13. Cynlleidfa defaid y ffyddloniaid,
Medd egwyddorion agwedd euraid,
Ein hen henafiaid ni,
Mae ei henw cymwys, felly 'n gorphwys,
Yn llyfr cyffredin weddi 'r eglwys,
Dawn hwylus dyna hi,
Pan eir i'w chwilio hyd at ei gwraidd,
Nid yw hi braidd i'w gweled,
Wrth leied ſydd yn yr oes hon,
O ffyddlon ddofion ddefed,
Gwir eglur yw 'r 'ſgrythyr o's gellir yſtyr hyn,
Mai praidd bychan ſy ynghorlan,
Y bugail gwiwlan gwyn.

14. Mae etto yſpryd *Saul* yn erlyd,
Y gywir eglwys ſy a'i gwir oglud,
Am fynd i'r bywyd byw,
Ac yſpryd *Judas* rhagrith rhy-gas,
Y gweſyn dieflig guſan diflas,
Lle del cymdeithas Duw,
Er nad yw *Herod* yma ei hun,
Na *Pharo* 'n ddyn corphorol,
Mae eu hen yſprydoedd nhw etto 'n fyw,
Yn ol eu rhyw, anuwiol,
Yn eigion y galon, maent fel gelynion glas,
A chwedi ymarfogi'n ymgodi i groeſi gras.

15. Rhwng *Criſt* a *Belial* mae 'r ymddial,
A'r enaid coſtus ar y cyſtal,
Am hwn mae 'r treial triſt,
Ond yw hi 'n amſer colli cellwer,
A mynd yn ſawdwyr mewn dwys,
Hyder, dan faner cryfder Criſt,

Addowſom

Addowſom hyn er's llawer dydd,
Er mwyn cael bedydd mebyd,
Ond beth dal addaw gwaith fel hwn,
Oni chywirwn hefyd,
Milwriaeth nid chwryddiaeth,
Yw bywyd perffaith pur,
Y criſtion gwir ffyddlon,
Mae ar ei galon gur.
Roedd llawer iawn ſwn achos diwygio,
Calendr y dyddiau hynny a newid gwyliau.
16. Am droi 'r amſerol ddyddiau misol,
Ni cheir ar ſiarad anſefurol,
Gan ddynion bydol baid,
Na farned ffolion, gwerin gwirion,
Mo n penaethied yn annoethion,
Roedd rhyw anghenion rhaid,
Ni ofyn Duw a i farn yn drom,
Pa wyl a wnaethom gadw?
Ond pa fath gred a chalon gron,
Sydd tan ein bron ni heddyw?
Fath gariad derbyniad ſy i air ein ceidwad cu?
A pha bobl fucheddol,
Sain duwiol ſy yn ei dy?
17. Gochelwn weigion gau gynghorion,
Derbyniwn ddyſg ym myſg pob moddion,
Bo bwriad calon bur,
Mewn ffydd griſtnogol ddi bartiol,
Safwn yn ein lle trigianol,
Heb bwyſo ar farwol fur,
Mae oedran Criſt i'w rifo ar fyrr,
A mynd trwy yſtyr troſtynt,
Saith ddeddeg ugain a ſaith ddeg,
A dwy flwydd wiwdeg ydynt,
Y rhif yna o'r oes ola,
A ddaeth heb ana i ben,

A

A'r lleill etto fy'n bryſio,
Duw atto a'n mynno Amen. *Diwedd.*

Carol Plygain ar Farwel ned pyw.

VI.

1. YN y dechreuad yr oedd y gair,
Grymusair purair parod,
Cyn i'r Arglwydd un a thri,
Wneud ſyflaen ei breſwylfod,
Duw oedd y gair a thrwyddo 'n faith,
Y gwnaethpwyd gwaith y drindod,
Ac heb y gair ni wnaeth ef ddim,
Ond wrth ei rym wir ammod,
A'r peraidd air purion, hwn ydyw 'r ail perſon,
O'r drindod glan galon, yr un ar tad cyfion,
Yn gwiſgo 'r un goron deg euraid,
A'r bywiog air bywiol, ſef had y wraig reiol,
A' ſigai 'r ſarph hudol ae'n fugail tragwyddol,
I gadw oddiar ddiafol ei ddefaid.

2. A'i wir gnawdoliaeth glanwaith glod,
Hon yw y rhyfeddod fwya,
Er dechre 'r greadigaeth faith,
A'r golwg waith dirgela,
Ac er nad yw y rhyfeddod hon,
Yn deg ger bron ein llygaid,
Gwir olwg ffydd a wel ei gwawr,
Fel pettai 'n awr yn euraid,
Mari wen ydoedd yn dala Duw 'r lluoedd,
Ac ynte 'n dàl nerthoedd ffurfafen y nefoedd.
A thiroedd a moroedd a mari,
Hi ddaliai ei hanwylyd ei phriod a'i phrophwyd,

Ei

Ei thad a'i mab hefyd ei Duw a'i brawd hyfryd,
Yn cymryd ei febyd yn fabi.
3. O gwelwch fair fun ddiwair ddwys,
Ym methlem wiwlwys ole,
Yn eſgor ar y gwr a'i gwnaeth,
Ac yn rhoi iddo laeth ei bronne,
Mair yn blentyn Dduw tad,
Drwy râd ei gariad gwrol,
A Duw yn blentyn i'r forwyn fair,
Cenhedlai o'r gair rhagorol,
Ni cheiſiodd frenhines o'r bonedd fawr,
Baenes, na madam na meiſtres,
Ond morwyn ddi rodres,
Ae 'n gynes i fynwes y fenyw,
Yn union pan aned, mewn brattiau fe'i rhwymed,
A rheſwm eill dybied, mai gwellt anifeilied,
Oedd dano i bawb weled yn bulw.
4. Efe oedd pia 'r tir a'r tai,
Y ddaiar a'i chyflawnder,
Ac etto heb le i roi ei ben y nos,
Mewn achos a chyfyngder,
Mawr na fynaſai dy a than,
Mewn plaſau glan Arglwyddi,
A dewis yn lle tuſw o wair,
Gael gwely i fair o'i fori,
Diyſtyrwch mawr 'ydoedd yngolwg llaweroedd,
Weld geni Duw 'r lluoedd, brenhin brenhinoedd
Gwneuthurwr y bydoedd mewn beudy,
Pob achau pen uchel yſtyriwch ſanct *Iſrel*,
Yn lletty'r anifel,
A'r ych wrth ei fuddel,
A'r preſeb cryd iſel rhoed Ieſu.
5. Gwelwch y Duw ſy'n llond pob man,
Yn baban egwan agwedd,
Yn dal y moroedd yn ei ddwrn,
Fel dafn o gelwrn gwaeledd,

Na

Na thybiwch ddynion calon iach,
Mai rhyw beth bach yw pechod,
Nid tan beth bychan gwan ein gwydd,
Y plygai 'r Arglwydd eurglod,
Cynhaliai r ffurfafen wir hylwydd a'r haulwen,
A'r lleuad wawr cawen,
A chlob y ddaiaren, i'w ddwylo fel pellen heb ballu,
Ond trwmlwyth ein pechod,
A wasgodd ei hanfod,
Cyn ised ar beddrod, i'r ddaiar dri diwrnod,
Gwnae dyfod yn waelod i'w wely.

6. Ni a glywsom son am lawer loes,
Gadd Crist a chroes echryslon,
Ni a fedrwn adrodd gwn ar goedd,
Mor ddued oedd yr Iuddewon,
Ni a fedrwn ladd ar Herod gynt,
A'i filwyr helynt filen,
A dweud gelynion dynion dig,
Gwenwynig addig oedden,
Ond cymrwn beth hamdden,
A chwyliwn ein hunen,
Nyni roes y wialen a r groes ar ei gefen,
A'r gorsen yn gywren i w guro,
Ein pechod ysgeler sy 'n llefain bob amser,
A'r gyfraith cyfiawnder,
Y tad o'r uchelder croeshoelier,
Croeshoelier, y *Shilo*.

7. Ystyriwn ddynion hyn yn ddwys,
Mai baich a phwys ein pechod,
Oedd ymdrech Crist a'i waedlyd chwys,
Lafurus boenus benod,
Ei borphor wisg euogrwydd yw,
Du ebwch liw 'n cydwybod,
A'n rhagrith oedd y bustul pur,
Ar gwppan sur a'r sorod,
A'r goron fawr ddreiniog,

A'r

A'r waywffon finiog, ar haelion dur llidiog,
Yw 'n gwynniau afrywiog,
Fu'n rhwygo 'r Duw enwog da union,
Ychydig fy'n canfod, fod arnyn fath bechod,
A hoelio pob aelod i'r Iefu ar dir ifod,
Prin gellir i ddannod o i ddynion.

8. Rhai fel y phariſeaid fydd,
Fel hyn yn rhydd gweddian,
I Dduw 'rwy 'n diolch am fy nghred,
Nid wyf gan waethed weithian,
Nid wyf na lleidr llofrudd chwaith,
Na meddwyn llaith, rwyn meddwl,
Nag yn cribddeilio dim ar gam,
Fel cybydd am y cwbwl,
Nhw welan yn ole fod pob peth ar gore,
'N breuddwydio am griſt weithie,
Yn iach eu calonne,
Heb deimlo eu pechode ond ychydig,
Pob un fy'n gwir gredu,
Clyw faich mae 'n clefychu,
Fe gyfyd i fynu a'i archollion 'n gwaedu,
I nefu o flaen Iefu 'n flin yſig.

9. Caniadau 'r byd i gyd ar goedd,
Sy'n dweud fel yr oedd ar Adda,
Dyma 'n rhefymmau ninnau ei blant,
A geir gan gant yn gynta,
O's Adda a'n trodd, mewn cyflwr triſt,
Trwy 'n ceidwad Criſt fe'n codwyd,
Ond nid ein codi at Ffanſi ffol,
I fyw 'n anrafol rywfut,
Peth yſgafn yw adrodd,
Dweud Adda 'n condemniodd,
A Chriſt a'n gwaredodd,
Pawb felly eiff i'r nefoedd,
Heb ffydd na gweithredoedd fydd reidiol,

Eiff

Eiff meddwon a'u pottie,
Maſweddwyr o'u ſwydde,
I *Seion* wen ole, er dweud o'r 'ſgrythyre,
Nad a yno mo'u bathe byth bythol.

10. Er diodde o Griſt dros Adda e'i frawd,
Drwy weiſgo i gnawd a'i Eſgyrn,
Does neb eiff atto i *Seion* fry,
Heb waith ymdrechu 'n drachwyrn,
Ac er mai Criſt ei hun i'w 'r ffordd,
Dda euraid briffordd ore,
Mae 'n dweud ei hun mai cul yw 'r porth,
Drwy 'r dyrus orthrymdere,
Y Criſt bendigedig, anſonwyd yn unig,
At ddefaid colledig brau adwyth briwedig,
Sy a diffyg am feddyg ufuddol,
Y byddar a'r dall, gwahanglwyfus a
Mall: ſy'n gweled eu gwall,
A'u bywyd ar ball, ni ddaeth ef am arall i 'morol.

11. Gwir oed yr Arglwydd ar un gris,
Heb uwch nag is i'w goſod,
Chwarter mil o ſeithiau ſydd,
Ar foreu ddydd y ddefod,
O's daethom yma i ganu mawl,
I'r Duw tragwyddawl gweddus,
Dyledſwydd ydyw canu ei glod,
A ddyleu fod yn dilys,
Criſt nogion fe'n henwed, i Griſt fe'n bedyddied,
O nifer ei ddefed, i fyw yn ddiniwed,
Rhoed arnom adduned ddaionus,
Cofiwn mai cyfion, yw Duw a'i amcanion,
Ni ddaw ond y dynion, a elwir duwiolion,
I *Seion* wledd union lwyddianus. *Diwedd.*

CAROL

Carol Plygain ar Farwel Ned Pyw.

VII.

YMLAWENHAWN ac awn i gyd,
Wel dyma 'r pryd priodol,
I ganu hymnau 'r boreu ddydd,
I'n brenhin ufudd nefol,
Hon ydyw 'r adeg wiwdeg wen,
Y cowſom lawen lewyrch,
Haul cyfiawnedd duedd da,
Goleua gwnna gynyrch,
Pan oeddem mewn Tyw'llni,
Ag angau i'n cyſgodi,
Diſglaeriodd goleuni yn ganwyllddeg inni,
I doddi 'r du oerni doe arnom,
Pan welodd Duw 'n eglur,
Ein dialedd a'n dolur, cyfeiriodd ni ar lwybyr,
Tanghefedd lan gywir,
Penadur o gyſur a gowſom.

2. A hwn yw Criſt y gwir oen gwyn,
A'n codai o'r dyffryn diffrwyth,
I fynydd Seion at Dduw ſant,
I fyw mewn oſmant eſmwyth,
Chwi glywſoch adrodd gwir ar goedd,
Dylotted oedd ei letty,
Ym mhlith di gred, greaduried mud,
Y daeth e' i'r byd mewn beudy,
Pan ânwyd e'n faban, o'r forwyn,
Rowioglan, ſe gymerth ein hanian,
Yn faich arno ei hunan,
Yn egwan fab bychan heb bechod,
I'n codi ni i'r wyneb, o lŷnn tragwyddoldeb,

A than ei ddoethineb,
Gwnae ei ddiwdod mewn purdeb,
Ffyddlondeb da undeb a dyndod.

3. Am hyn o eiriau byngciau bâs,
Rho fwy o ſpâs i hyſbyſu,
Pe rhoid pendefyg ffrolig ffraeth,
Mewn chwerwder caeth garchardŷ,
Ag yno ei droi a'i gloi mewn glyd,
I dario o hyd ei hoedel,
Heb obaith chwaith tra bae ynddo chwyth,
Ammodau fyth i ymadel,
O's byddai mewn power,
Yn perchen da lawer, darfyddai am ei bleſer,
Mewn ing a chyfyngder,
Ar fyrder ei gellwer a golle,
O's dweudai gwr llariedd,
A llawn o drugaredd, dowch adre o'ch caeth annedd,
Mi af droſoch am drawſedd,
Anwiredd wan fuchedd yn feichie.

4. Ond dyna 'r gair cyſurus iawn,
Ai gwnae fe 'n llawn llawenydd,
Gael cyfaill clir mor bur a hwn,
I gario pwn ei gerydd,
Pa faint llawenach hoywach hynt,
O herwydd helynt hyllwydd,
Y dylem ni ymddigrifo 'n ddiwys,
Wir eurglwys yn yr Arglwydd,
Nid yw meichiau dyn bydol,
Ond amſer terfynol, mae Criſt yn feichniol,
Rhag diſtryw tragwyddol,
Tân yſol uffernol a'i ffwrnais,
Er maint oedd dichellion,
Y ſarph a'i gynllwynion,
I'n cau'n garcharorion,
Doe 'r Ieſu yno i 'mryſon,
Gan dorri gafeilion drwy falais,

5. Criſt yw'n craig a'n Brenhin cred,
A'n gwrol nodded gore,
Criſt yw ein bugail clan ſail clos,
Iachawdwr dros bechode,
Criſt yw pen ein heglwys bur,
Cadarna mur ymwared,
Criſt ydyw 'n porth i'r nefoedd glaer,
Fe a'i gwnaeth hi 'n gaer agored,
Criſt ydyw ein Hetholwr,
Pur union a'n prynwr,
A Chriſt yw'n rhyſelwr,
Da lywydd dadleuwr,
Cyfryngwr a rhoddwr yr heddwch,
Criſt ydyw 'r penna yn y nefoedd oleua,
O'i ſynwes gyfiawna,
Criſt yn ein cyfyngdra,
Wnaeth yma i had Adda ddedwddwch.

6. A ffydd ynghriſt yw 'r union ffordd,
A'r llwybr hyffordd hoffwn,
I fynd i'w noddfa happuſa pwys,
Drwy agwedd crydwys credwn,
Ar ganwyll fydd gan bob dŷn byw,
Hon yw gair Duw i'w dywys,
A'r lamp i gario 'r goleu heb gudd,
Yw 'r galon brudd alarus,
A'r olew fy'n cynne hôff eglur yn ffagle,
Yw grâs a rhinwedde, yſprydol ſynhwyre,
Meddylie 'n troi eu gore at drugaredd,
O's cymrwn ni 'n ddifri yr olew a'r eli,
Nid allwn ni golli, mo ffordd y goleuni,
Awn drwyddi rhoed inni 'n rhad anredd.

7. Ceiſiwn ar ei blygain ddydd,
Egwyddor ffydd a gweddi,
Trown ein hwynebau atto i gyd,
Mewn bryd ddiofryd ddifri,
Gwedi gwrando 'r efengyl gu,

A'n llenwi i fynu o'i fwyniant,
Awn adre o'r eglwys gymwys gôr,
Mewn ordor ſobor ſeibiant,
Nid myned i'r unfan i'r eglwys,
Wen gorlan; i dderbyn llawn gyfran,
O air Duw ſancteiddlan,
A mynd yn wâg allan i'w golli,
Cofiwn mai arfaith,
Y drindod dirion-daith,
Mewn cariad pur perffaith,
A luniodd er gobaith,
Ar foregwaith y lanwaith wyl inni.

8. Addawſai Duw i Abraham,
Hen brophwyd dinam doniol,
I gadw ei wir gyfammod clau,
Cyflawnai 'r geiriau gwrol,
Ag yno 'r ail flodeuai 'r pren,
Yn Eden lawen leuad,
O flagur *Jeſſe* yr impie ei wraidd,
A Dafydd iraidd dyfiad,
A hwn yw mab cyntaf,
Anedig *Maria*, a'r llew o lwyth *Juda*,
Alpha ac *Omega*,
Meſſia ac ail Adda goleuddawn,
Mil ſeith-gant ſy'n paſſio,
Wyth chwe-gwaith i'w rhifo,
Er pan aned Duw ſhilo,
Ac er cymaint aeth heibio,
Fyth etto da cofio Duw cyfiawn. *Diwedd.*

Carol Plygain ar Farwel Ned Pyw.

VIII.

1. DOWCH drigolion union iath,
Ar foreu gwaith arferol,
I ganu mawl eglwyſawl glod,
I'r Ieſu ar ammod raſol,
Pan ddelo ar dir newyddion da,
Y llawenha pob calon,
Bydd cân a gwledd a chadw gwyl,
A phawb mewn hwyl yn hoyw-lon,
A dyma 'r newyddion da gyſur a gowſon,
Gynt gan yr Angylion,
Drwy nefol ſadroddion,
Canaſon deg union ogoniant,
A'r newydd mawr yma oedd geni 'r *Meſſia*,
Ym Methlem *Judea* drwy ſoddion rhyfedda,
I heppil goll Adda, gael llwyddiant.

2. O'r newydd howddgar lafar lef,
Cynhyrfai 'r nef mewn afieth,
Ac uffern dywyll erchyll wg,
Cynhyrfai o gilwg eilweth,
A'r Saint ar wyneb daiar dir,
A lanwai o wir lawenydd,
A'r annuwolion oll i gyd,
Fileniai o lid aflonydd,
Rhyfeddol o newydd ſod cynnwrf mor ebrwydd,
Ym mhob man o'u herwydd,
Llawenydd llidiawgrwydd,
A thramgwydd o'r gwir lwydd ac erlyd,
Newydd hyfrydlon yn llawenhau calon,

Y Saint a'r angylion,
Ac yſpryd drwg ddynion,
Mewn blinder ddyblygion o'i blegyd.

3. Fe ddweudai *Simeon* galon gu,
Pan deimlai 'r *Ieſu* 'n dyner,
Mai cwymp a mawr gyfodiad oedd,
Ar goedd i luoedd lawer,
Fel gwerthfawr faen yn ſylfaen ſai,
I'w ddefaid a'i haddefai,
Maen tramgwydd craig o rwyſtr byd,
I'r lleill i gyd a'i gwadai,
Rhaid yma wrth ddoethineb,
I ymholi ac ymatteb, fod Criſt yn ei burdeb,
Yn ſylfaen duwioldeb,
A thramgwydd afrwydd-deb i'w fradwyr.

Hol. Oni ddaeth y *Meſſia*,
Di ameu i'r byd yma.
I'n tynnu o'n cyfyngdra,
Cadd holl heppil Adda,
Rhag uffern ddu gafa dda gyfur?

4. *Att.* Mae hynny 'n wir mewn ſiccr fail,
Y bugail arail euraid,
A ddaeth i gadw ei braidd ei hun,
Rhag difa 'r un o'r defaid.

Hol. Ond ydoedd heppil Adda i gyd,
Yn ddefaid llid colledig?
Ac etto 'n ſiwr drwy *Iſrael* ſant,
Hwy fyddant yn gadwedig.

Att. Gwirionedd ſeliedig,
Eu bod hwy 'n golledig,
A gwirionedd yn unig,
Sy'n dweud mai ychydig,
Yw 'r defaid cadwedig a didwyll,
Yr yſgrythur a draetha dueddiad had,
Adda, yr eiff rhai i orphwyſa,

R nef lawen oleua,
A'r lleill i letteua i wlad dywyll.

5. Mae 'n brŷd i ni rhag bod yn ol,
Ymorol heb ymaros,
Pa rai ydyw nifer nefol fro,
Ac uffern ogo geuffos,
Na thybiwn fod trugaredd Duw,
At ddynol ryw mor helaeth,
Nad oes dim lle i fynd heibio hon,
Heb dirion Iechydwriaeth,
Pe byddai hi felly, mae'n ofer
Proffefu; ac yn ofer gofalu,
Cynghori a phregethu,
A dyfgu bucheddu 'n wŷch addas,
Ond tybia rhai pobol,
Drugaredd Duw nefol, yn beth cyffredinol,
I bawb yn feddiannol,
Y cnawdol daiarol a diras.

6. Gofynner hyn o gweftiwn da, i'r anuwiola rwan,
Y tyngwr meddwa lleia ei râs,
Sy'n byplig wâs i fattan,
A wyt i'n credu ynghrift,
A ddaeth, yn iechydwriaeth heddyw?
A'i tybio 'r ydych medd y dŷn,
Mai angredadyn ydw?
Rwy'n credu'n rhagorol,
A'm fywyd tragwyddol, ac ynte 'n drigianol,
Mewn buchedd annuwiol,
Mor ffyddlon i'r diafol a Deifes,
Nid dyma'r ffydd fywiol,
Sy i'w galw 'n griftnogol,
Ond ffydd y farph hudol,
A dyfodd o'r diafol,
Yn Efa ein mam wreiddiol fo'i rhoddes.

7. Ni fyddwch feirw meddai 'r ddraig,
I dwyllo r wraig a'i dallu,

Hi goeliodd hithe gelwydd hon,
O'r galon yn ddi gelu,
A Sattan ſy etto 'n ffroſtio'n ffraeth,
Yr un athrawiaeth reiol,
Pregethu Criſt i ddynol ryw,
Heb ruſo byw'n anraſol,
Bodlona iddynt gredu,
Ynghnawdoliaeth yr Ieſu,
Ac iddo eu gwaredu, o ffwrnais y fagddu,
Mae felly 'n llonyddu llin Adda,
O's creda neb amgen,
Fod perygl drachefen,
Fo faga gynfigen, try 'r heddwch yn gynnen,
Fo gyfyd i filen ryfela.
8. A gredo'r ffydd griſtnogol iawn,
Nid ffydd heddychlawn ydi,
Ond ffydd y groes rhyfelgar gred,
Hon ein bedyddied iddi,
Rhaid ymladd y filwriaeth lân,
Yn erbyn ſattan gyfrwys,
Dan faner Criſt ein Brenhin cu,
Mal euraid lu milwrys,
O's heddwch 'dawn iddo,
Heddwch gawn ganddo,
Ni chyfid mor cyffro,
O'n blaenau ni i'n blino,
Ond prattio i'n dyhuddo,
Mewn heddwch,
Hol. Wel pam rhaid ymryſon,
Ac ynte 'n heddychlon?
Ond gwell yw byw 'n ſodlon,
Mewn heddwch tra caffon,
Mae'n dda gan y galon ddiogelwch.
Att. Nid rhaid mor diolch iddo 'ſbydd.
Yn llonydd heb gynllwynion,
Tra byddo ganddo awdurdod gre,

A ſiwr ſeddianne ar ddynion,
Rhyſela a'r ſarph ſydd raid i'r ſaint,
Cyn cario braint eu coron,
Fo aeth a'u cyſur noetha cais,
Drwy dwyll a thrais anghyſion,
A ſyddwn ni llowaith?
Wrth elyn mor ddiffaith,
A ddygai ein llywodraeth,
Mae ganddo dreſtadaeth,
A honno ymrenhiniaeth ein henaid,
Na cheiſiwn ym mhellach,
Mo'r celu ei gyfrinach,
Na gwrando ar ei ffolach,
Mae'r ſarph yn gyfrwyſach,
A challach a ffelach na ffyliaid.

10. Fo gais gadwyno dŷn yn dynn,
Rhag credu hyn o hanes,
Gan ei berſwaedio i goelio 'n well,
Ei fod o mhell o'i fynwes,
O'r achos yma traha triſt,
Y ganwyd Criſt yn ddiau,
Am fod gan ſattan ſeddiant ffri,
Yn eich mynwes chwi a minnau,
Wrth fyned llywodraeth,
Y ſarph a'i gelyniaeth,
Trwy yſpryd naturiaeth,
Adda a'i hiliogaeth,
Criſt yn ein cnawdoliaeth a'i daliai,
Gan weled agoſed, oedd gelyn mor
Galed; y gorſu i'r oen eured,
Ddwad attom gan neſed,
Yn gnawd ac yn ened fel ninnai.

11. Yn yſpryd Adda 'r cynta o gâs
Gwnae 'r ſarph i'w deyrnas,
Ynghnawd *Maria* Adda 'r ail orphwys,
Oſododd ſail paradwys,

Fel

Fel hyn fe wreiddiodd had y wraig,
Yn is na'r ddraig uffernol,
I ſiglo dyfnder trawſter trais,
Grymuſter dyfais diafol,
Pan anwyd y plentyn, o'r wryf wir forwyn,
Fe grynodd pob gronyn, o deyrnas y gelyn,
I'w yrru fo i ddygyn eiddigedd,
'Mddanghoſiad Criſt iddo,
Oedd yn ei benydio, nid eill o ddim etto,
Ddwad byth i'r lle bytho,
Na goddef gair yno o'r gwirionedd.
12. Na thwyllwn ni mo'n henaid drud,
A geiriau ynfyd ofer,
O's awn i'r nef na thybiwn Jai,
Na mynd trwy grai cyfyngder,
Plant *Iſrael* aeth drwy ddwr a than,
I *Ganaan* i breſwylio,
A maith anialwch dryſwch drain,
A Duw 'n eu harwain yno,
Tir *Canaan* pan welſon oedd lawn o elynion,
Plant *Anac* oedd greulon,
Y cowri tal-gryfion,
Gwyr blinion arfogion rhyfygus,
A rheini fe orfu iddynt filen ryfelu,
A lladd wrth ymdrechu elynion o'u deutu,
Cyn iddyn feddiannu 'r wlad ddownus.
13. O's teithiwn ninnai i Seion frŷ,
Ar ol yr Ieſu raſol,
Cawn faith anialwch drwch di râd,
A llawer brad yſprydol,
Mae 'r ffordd ini fel iddynt hwy,
I'r ddinas drwy 'r *Jorddonen*,
Sef dagrau edifeirwch prydd,
O's credu ein bedydd yr yden,
Ac os ŷm am gychwyn ceiſiwn ymofyn,
Pob math ar offeryn, i'r rhyfel ſyn perthyn,

I yrru pob gelyn i gilio,
Cleddyf dau finniog, yr yſpryd galluog,
A tharian ffydd wreſog fel byddin fanerog,
Dan frenhin coronog yn raenio.

14. Na ruſed neb er bod yn wan,
Mor ymladd dan yr Ieſu,
O's gweiniaid ŷnt mae eu brenhin gwiw,
Yn gadarn i'w, gwaredu,
Ni adawodd brenhin *Iſrael Sant*,
Erioed 'w blant mo'r colli,
O flaen un perchen bwa dur,
Er bod eu gwyr yn gowri,
Goliah 'r ffiliſtied, gan lengcyn a ladded,
A byddin y ſiried, yn ffoi rhag y cripled,
Ond Duw oedd i'r gweinied yn gynnyrch,
Pob rhyfel a chynnen fu 'rioed ar ddaiaren,
O's byddai 'r pen capten,
Sant *Iſrael* i'w harwen,
Ni chododd neb amgen, mewn ymgyrch.

15. A hwn ſydd frenhin mawr ei fri,
A anwyd inni 'n fachgen,
O'r forwyn fair dda ei gair ddi gâs,
Y boreu glas ar blygen,
Tywyſog hedwch yw ſe o hyd,
I'w anwyl gyd griſtnogion,
A phen rhyfelwr milwr mawr,
I daro i lawr ei elynion,
Ni thyccia i ni etto mo'r ſiarad am dano,
Rhaid inni fynd atto, a glynu nglau wrtho,
A gymryd heb wrido 'n briodol,
A'r Arglwydd Dduw ſanctedd,
A roddo ei drugaredd, i newyd ein buchedd,
I'w galyn a'i goledd,
Hyd ddiwedd mewn agwedd griſtnogol. *Diwedd.*

Carol ar Greece a Troy.

IX.

1. POB perchen cred a bedydd,
Yſtyried mewn diſtawrwydd,
Beth ydyw 'r fawr ddyledſwydd,
Hylwydd hon,
Sydd genym ni 'n gyffredin,
Dan enw addoliad ddichlin,
I foli Duw 'n gwir frenin ger ei fron,
Deffrown o anyſtyriaeth.
O's ydym ar orchwyliaeth diweniaeth Duw,
A chofiwn bwynt y diwrnod,
A'r achos o'n cyfarfod,
Rhyw ammod tra mawr yw,
Nid diwrnod gorfoleddus,
I borthi 'r cnawd trachwantus nwyfus nod,
Ond diwrnod i'm hyfrydu,
A goneſt gywir ganu,
Mawl Ieſu i glymu ei glod.

2. Mae pawb yn bur gyfarwydd,
Am hanes Criſt yr Arglwydd,
Nid ydyw hynny newydd chwaith i ni,
Mae gan y byd wybodaeth,
Yn deg o'i anedigaeth,
O'r Beibl hen athrawiaeth un a thri,
Ei gael e' i'r byd yn blentyn,
A'i eni o Fair y forwyn addfwyn oedd,
A'i fod ar y ddaiaren,
Dair blwydd ar ddeg ar hugen,
Mae'n gywren hyn ar goedd,
Yn dilyn buchedd ſanctedd,

Yn

Yn dyſgu pob gwirionedd yn ei ryw,
Yn gwneud rhinweddol wrthiau,
Arwyddion rhyfeddodau, trwy weithrediadau Duw.

3. Ni a glywſom ei gondemnio,
I farwolaeth a'i groeſhoelio,
Rhwng lladron i wradwyddo ei euraid wedd,
Ac iddo 'n bur aberthu,
Ei gorph a'i waed i'n prynu,
A'i gladdu a chodi i fynu 'n fyw o'i fedd,
Ni a glywſom ei dderchafu,
I'r nef a chydâ hynny,
Y daw fe i'n barnu 'n bur,
Ac y bydd rhai 'n cael cymmod,
A'r lleill mewn gwarth eu gwrthod,
Am bechod ſorod ſur,
A hyn i gyd i'w gadel,
Sydd genym fel hên chwedel uchel iawn,
Wrth glywed y pregethwyr,
Yn dwyn tyſtiolaeth eglur,
O'r 'ſgrythyr llythyr llawn.

4. Yr awrhon gellid meddwl,
Y gwyddom ni 'r holl gwbwl,
Wrth hyn o hanes fanwl hynaws ſas,
Ond etto mae i ni ychwaneg,
O athrawiaeth fwy cywireindeg,
Am Ieſu Griſt oen gwiwdeg rwyddeg ras,
Geill pob hudolwr diles,
Wneud cyffes mewn gwag broffes,
Wrth hanes hyn,
Ac etto byw 'n ddieithrol,
I byngciau 'r ffydd griſtnogol,
Heb râs digonol Ieſu gwŷnn,
Yn bwyllus deuwn bellach,
Etto 'n fwy agoſach at y gwir,
Agorwn hwn drwy gariad,

Mewn

Mewn ffordd o argyhoeddiad,
Neu hunan holiad hir.

5. Wel profwn faint a wyddom,
Pwy ſy 'n teyrnaſu arnom,
Neu'n Arglwyddiaethu ynom heno ei hun?
Pa un ai Criſt ai pechod?
Nid eill y ddau mo'r cyfod,
Ond mae gan un, awdurdod ar bob dyn,
Pe Criſt a fai 'n rheoli,
Fe dynnai fwy daioni goleuni i'n gwlad,
Ni fyddai 'r fath annuwdeb,
Ddull annoeth o ddallineb,
Yn torri yr undeb râd,
Ond pechod ſy 'n teyrnaſu,
Mae 'n gorfod ar yr Ieſu ffaelu a ffoi,
I'r Aipht neu ryw dir anial,
Rhag Herod yſpryd *Belial*,
'N dal treial rhag ein troi.

6. Er dyfod iechydwriaeth,
Drwy Griſt a gwaredigaeth,
Rhag digwydd damnedigaeth i'r un dyn,
O's pechod ſy'n teyrnaſu,
Gelyniaeth ſy etto 'n glynu,
Mae Criſt a ninneu 'n tynnu 'n anghytun,
Yſtyriwn beth yw pechod,
Etifedd uffern iſod câs y drindod cu,
A than ei Arglwyddiaeth,
Nid oes na Chriſt na'i gyfraith,
Ond drwg hudoliaeth du,
Ond pechod ſy'n tywyllu,
'R efengyl rhag llewyrchu a dyſgu dŷn,
Lle mae gan Griſt awdurdod,
Mae 'n gwared oddiwrth bechod,
Ei hynod euddo ei hun.

7. O'ch! gymaint twyll y galon,
Gwna i ddynion gredu 'n hyſion,

Eu bod yn wir griſtnogion digon dâ,
Cyn chwylio 'rioed na chredu,
Fod *Judas* bradwr Ieſu,
O bechod ynddi 'n llechu a'i nafu wnâ,
Ond chwiliwn y ſgrythyre,
O's ydym yma'n ame cywirach gole gawn,
Na ddichon gwir griſtnogaeth,
Gyd dario a chwrs naturiaeth,
Lle mae gelyniaeth lawn,
'R yſgrythyr a fynega,
Hanes y ddau Adda, 'r cynta a'r ail,
Edrychwn mewn gwirionedd, (mwya ſail.
A'r br'un o'r ddau mae 'n buchedd, mewn ſylwedd,

8. Geill twyll y galon etto,
Mewn hyder wag ein hudo,
Mae 'r ail ſydd wedi ſelio ganddi 'n ſiwr,
Fel y dweudai 'r hên *Iuddewon*,
Eu bod yn etifeddion,
Blant *Abraham* oedd ffyddlon union wr,
Attebwyd eu tŷb wyrgam,
Pe byddech blant i *Abra'm*,
Hwn ydoedd ddinam ddŷn,
Canlynech ei weithredoedd,
Chwi adwaenech borth y nefoedd,
Ac o ble 'r hannoedd Criſt ei hun,
Ac fellu ped fai ninnau,
I Griſt yn wir aelodau breintiau bri,
Gweithredoedd Criſt mewn urddas,
A rheol gair ei deyrnas,
A fyddai 'n addas gydâ ni.

9. Mae 'n eglur wrth hyn yma,
Mai tan y ſarph gyfrwyſa,
Yn yſpryd yr hên Adda noetha ei nyth,
Yr ym ni 'n byw 'n annianol,
Ynghadwyn pechod gwreiddiol,
A chalon wagobeithiol ynom byth,

Ond

Ond wrth eu ffrwyth mae nabod,
Canghenau hen gŷff pechod,
Cydwybod ſydd,
O'n blaene 'n cywir dyſtio,
Na ddaethom ni at Griſt etto,
I wir berffeithio ein ffŷdd,
Pe caem ein himpio 'n gangau,
O'r ber winwydden oreu ei ffrwythau ffri,
Fe fyddai grŷn gyfnewidiad,
Ar ddull ein hymarweddiad,
Wedi ein troiad at dduw tri.

10. Garedig anwyl frodyr,
Dowch ceiſiwn bellach yſtyr,
Mae 'n buchedd ni yma 'n amhur ſegur yw,
Na chyſgwn mewn eſmwythder,
Be dâl breuddwydion ofer,
Gwag hyder a byw'n dyner heb un Duw,
Awn at yr Ieſu raſol, wrth oleu 'r ſeren ſiriol,
Fel y doethion gwrol gynt,
'R efengyl ydyw 'r ſeren,
A'i chynnyrch llewyrch llawen,
I'n harwen atto ar hynt,
Cyfrifir pawb yn ddoethion,
Am offrwm iddo anrhegion ffyddlon ffydd,
Gweddion gwir gyffeſiad,
Mewn edifeiriol fwriad,
Drwy deimlad profiad prudd.

11. Mae oedran Criſt ein ceidwad,
Mil ſaith-gant o gyfrifiad,
A thriugain mlwydd ar ganiad tair ac un,
Trown bawb ein calon atto,
Fe 'n derbyn credwn ynddo,
Pan gollai ei waed i'n ſafio o hono ei hun,
Mae'n gwahodd yn gyſurus,
Bob llwythog pechadurus ſy 'n glwyfus gla,

O's

O's byddwn yn golledig,
Bydd hynny o wall a diffyg,
Mynd at y meddyg dâ,
Nid Criſt ſydd yn ein gwrthod,
Ny ni ſy'n torri 'r ammod pechod yw,
Yr achos o'n gwrthodiad,
O eiſiau 'n bod ni 'n dwad,
Att lais y galwad gwiw, *Diwedd.*

CAROL Plygain ar *Chaxity Miſtreſs.* Yſtyriaeth o gyflwr pechaduriaid mewn gwag hyder am drugaredd, heb ganddynt dyſtiolaeth y gwirionedd argyhoeddiad i'r cyfryw o'u camſyniad, a gwahoddiad at Griſt.

X.

1. AGORWN gywir ganiad, cyhoeddiad hŷ,
Mewn cariad cu,
I'r Arglwydd yn gyſurus, modd downus yn ei dŷ,
Mewn yſtyr cywir deimlad,
Gwnawn ganiad gwiw, o raſol ryw,
Cymhwyſa tecca tycciant,
Fo 'n dal gogoniant Duw,
A'r ffordd i roi i ogoniant,
Drwy fawr lwyddiant heddyw ar led,
I'w ceiſio gwadd y rhai ni chadd,
Mo'u dwyn mewn gradd i gred,
Fe gân yr holl Angylion,
A lluoedd *Seion* llawen ſwydd,

Fod priddin brau, 'n edifarhau,
Gan ymwellhau mewn llwydd.

2. Nid canu gwâg ddoethineb ffolineb lawn,
O ddynol dawn; at bwynt ein cyflwr,
Eglur: drwy ſynwyr da neſawn,
Mae'n bryd deffroi o gyſgu gan gredu'n grŷ,
Ar gyfnos du; mae'r dydd yn agos ini,
Lle cawn oleuni cu,
Trown heibio ein coeg ddigrifwch,
'Sef gwaith y tyw'llwch ſyniwch ſydd,
Mewn llawer lle a'r nâſ o'r ne,
Am ein dwyn i ole 'r dŷdd,
Mae 'r ſeren wedi codi, ond chwilio 'm dani,
I fforddi ein ffydd, i'n tywys ni,
At fab Duw tri ſydd am ein rhoddi 'n rhydd,

3. Na ddweudwn mewn rhyfygus,
Huantus ffydd ein bod yn rhydd,
Ar hyn o yſgafn hyder yſywaith llawer ſydd,
Yn tybio eu bod yn rhyddion,
Ag etto er hyn, mewn dalfa dynn,
Gan ſattan drwy dwyll pechod,
Heb ganfod Ieſu gwyn,
Na gweled fod eu hened, mewn trwm,
Gaethiwed galed gur, 'n cael ei warchau,
Fel wedi gau dan farrau dorau dur,
Ond clywſom i Griſt ddattod,
Cadwynau pechod fellu gwnaeth,
A rhoddi 'n rhydd garcharorion prudd,
A'u dwyn o'u cyſtudd caeth.

4. Deallwn i Griſt Ieſu Aberthu 'r hun,
Yn lan ei lun, rhoes gyflawn daledigaeth,
Am iechydwriaeth dyn,
A ſiol y ſarph a 'ſigai condemniai,
Ynghyd: bechodau 'r byd,
Gorchfygodd nerth uffernol,

Ag angau marwol mud,
Dirymodd wg y gyfraith, yn dda helaith,
Ynddo ei hun; nad allai hon,
A phwys ei ffonn gondemnio calon dyn,
Agorodd Seion gaere i bawb a grede,
Am friwie ei fron,
Gofodai iw Saint, dda hawl ddi haint,
Mewn hylwydd fraint yn hon.
5 Er credu hyn gnawdol haneſiol naws,
Nid ym ni haws, a dilyn ein pechodau,
Camweddau troyau traws,
Gochelwn rhag tramgwyddo,
Wrth-dreiglo 'r maen tramgwyddus raen,
Fe gollodd rhai eu heneidiau,
Er bod eu Beiblau o'u blaen,
A'u colli allwn ninnau,
Eiſiau d'allt 'ſgrythyrau Duw,
Wrth ffyddio 'n ffol, heb galyn rhôl,
Y rhain yn ol eu rhyw, (ffydd,
Credu 'r gair trugaredd ar draws gwirionedd ffiedd
Cyn ein rhyddhau na'n cyſiawnhau,
Rhaid credu 'r ddau ryw ddydd.
6. Yn unig ynghriſt Ieſu cyfartu 'nghŷd,
Ar frawdol frŷd, drugaredd a gwirionedd,
I fyw mewn hedd o hyd,
Maent yno 'n ymguſanau yn gwenu'n gu,
Mewn wllys crŷ; i wared pechaduried,
Sydd dan gaethiwed du,
Pan geiſiom ni drugaredd,
Ni rydd gwirionedd inni 'r un,
Fe' i ceidw 'n driſt fel aur mewn ciſt,
Yn hawl i Griſt ei hun,
O's awn at Griſt i'w cheiſio,
A'i gofyn drwyddo 'n ddi ymdroi,
Gwirionedd ſydd, lle gwelo ffydd,
Yn hwn yn rhydd i'w rhoi.

7. Ond deliwch ſulw ar ſylwedd y geiriau,
Hyn: ſy yw d'allt yn dynn,
Ni thal i ni mo'r credu ond yn yr Ieſu gwynn,
'Sef byw ynghriſt nid tybio,
Cyn rhodio 'n rhydd a Chriſt trwy ffŷdd,
Ynom, trwyom, troſom, am danom
Nos a dydd,
Cyn ſiwred i ni a'n geni,
Y cawn ni brofi hyn mewn braint,
Cyn fyth y cawn, mewn llwyddiant llawn,
Orſeddfa 'r cyſiawn Saint,
Nid ſôn am Griſt ſy'n tyccio,
Nid canu a thiwnio i'w gofio gynt,
Nage, nage, awn atto fe,
'N lle adrodd geirie gwynt.

8. Awn atto heddyw heno ond ceiſio cawn,
Drwy Dduwiol ddawn,
Mae'n derbyn pechaduried,
Dan faich a lludded llawn,
Holl waith ein hiechydwiaeth,
Fe a'i gwnaeth i gyd, pan fu'n y byd,
'Does dim yn fyrr o hynny,
Mae wedi 'n prynu 'n ddrud,
Ond eiſiau i ni fynd atto,
A glynu wrtho heb wyro 'n bur,
O hyd ein hoes, gan deimlo ei loes,
Wrth gario ei groes a'i gur,
Hedd yw mae fe 'n galw ar i ni godi,
O feirw i fyw; y foru gall,
Fod arnom ball, yn awr, mae deuall Duw.

9. Un peth ſydd angenrheidiol i ddyncl ryw,
Peth hynod ŷw, ymuno mewn gwir,
Gariad; modd diwad a Mab Duw,
Clywſom ſôn o ddifri am eni dŷn,
O Griſt ei hun, neu megis ei ail fwrw,
Ar ddelw loyw ei lun,

Mae

Mae ſôn dracheſn am urddas,
Gwir briodas addas wedd,
Rhwng Criſt a ni, mewn braint a bri,
Hyn ſy'n cyhoeddi hedd,
Mae'n rhaid i'r cywir griſtion,
Brofi'n gyfion hyn i gyd,
Gyda ſôn mewn oeredd dôn,
'Madroddion meirwon mud.

10. Mae felly'n beth naturiol, i'r Duwiol gael,
Nefolaidd fael; wedi genhedlu yn yſpryd,
Yr Ieſu hyfryd hael,
A'i wneuthur yn briodol,
A'i freiniol frawd, fel gwraig un gnawd,
Hon ydyw 'r wŷſg briodas,
Mewn urddas i ni a wnawd,
Heb hon nid allwn atteb,
Pan farno purdeb Duw ni i'r pair,
Ond mynd yn fûd, y cyfyng brŷd,
Bo reitia agorud gair,
Gweddiwn o'n calonne, gael Criſt a ninne,
I fyw yn un; dwg at ei dâd,
I'r nefol wlad, ei briod hâd ei hun.

11. Mae oedran Criſt oreuſant. mil ſeithgant lawn,
Yn amlwg iawn,
Trugain mlwydd mae'n eglur,
Mewn cyfrif cywir cawn,
Coſiwn hyn drwy 'n henioes, nad oes i ni,
Na braint na bri,
O'r nefoedd heb iachawdwr,
Yn lân offrymwr ffri,
Nag un iachawdwr hefyd, heb undeb,
Yſpryd: rhyddid rhydd,
Nag undeb chwaith, mewn pechod maith,
Annuwiol daith bob dŷdd,
Dowch ceiſiwn daer weddio,
Am ffŷdd i deithio yn ffordd y doeth,

Rhag bod yn ol, fel morwynion ffol,
Yn ſtol 'r annuwiol noeth. *Diwedd.*

CAROL yn cynwys tair yſtyriaeth, y cynta ſydd yn dangos truenus gyflwr dŷn, dan bechod gwreiddiol; a'r ail, yſtyriaeth ſydd am waith grâs; y drydedd ſy'n dangos am nodau 'r gwaredigion. I'w ganu ar y ſedle ſawr.

XI.

1. GWrandewch ar ganiad gwîr adroddiad,
O dair yſtyriaeth mewn dwys doriad,
Yw ſyniad yma 'n ſynn,
Yr yſtyr cynta yw'n cyflwr ni yma,
Dan bechod gwreiddiol yr hen Adda,
Mewn gwaſgfa dalfa dynn;
A'r ail yſtyriaeth helaeth yw,
Gwaith gras y gwirdduw ſanctaidd,
A'r modd y mae 'n rheoli 'r fron,
A'r galon yn dirgelaidd,
A'r trydydd ſy'n arwydd,
Pwy ydyw 'r ufudd rai;
Diogel waredigion ar fynydd *Seion* a ſai.

2. Yr yſtyr cynta i chwi mynega,
Treuni dynion trwy nod ana,
'R hên Adda garwa gur,
Maent mewn gelyniaeth ac anghrediniaeth,
A du bwdr anwybodaeth, o'r gyfraith,
Berffaith bur,

Mae

Mae dŷn wrth natur eglur yw,
Yn farw i dduw a'i fowredd,
Yn ddwl yn ddall mewn pechod ſwrth,
Ym mhell oddiwrth wirionedd,
Dan enw anianol yn ddŷn annuwiol noeth,
A'i yrfa 'r ffordd letta yn benna i uffern boeth.

3. Pechod gwreddiol etiffedd diafol,
Sy fel torr greithiog y Sarph ragrifhiol,
Yn dangos reiol raen,
Gwna i ddŷn ymdeimlo 'n eſmwyth arno,
A'i elyn ynddo am ei ddiniſtro,
Heb oſio ei ſlino o'i ſlaen,
Prin iawn y barna 'r dŷn ei fod,
A natur pechod ynddo,
Oni ddigwydda gwaeth gwg,
Wneud gweithred ddrwg a i ddwylo,
O's gwna niwed mewn gweithred mae'n dechreu,
Gweled gwall,
Osgatfydd ſo genfydd fod arno beunydd ball.

4. Ond etto wrth yſtyr y goreu ei natur,
Corph pechod ſydd ym mhob creadur,
Nôd anwir dyna ei dwnn,
Nid yw gweithredon, y gwaſtaha o ddynion,
Ond ceingliau ceimion a darddaſon,
O hên ſon cyffion hwn,
Mae'r corph ſylweddol yma nglŷn,
Ym mhob rhyw un, a'r aned,
Er nad yw 'r ceingliau drwg di drai,
Yn tyfu o rai gan amled,
Paul ddifri oedd yn gwaeddi,
Pan ganfu fryntni ei fron,
Rhag diffeth lywodreth, corph y farwolaeth hon.

5. Hon yw'r elyniaeth a'r yſgariaeth,
Rhwng Duw a dynion wrth naturiaeth,
Gwnaeth hwn wahaniaeth hynt,
Hwn ydyw colyn angeu a'i ddychryn,

Ac arwynt gwenwyn y ſarph gyndyn,
A chwthai 'r gelyn gynt,
A'r pechod ymguddia 'n gel,
Pa ddŷn a wel ei waelod?
Ni ddichon neb ond Duw ei hun,
Roi Drŷch i'r un i'w ganfod,
Hwn ydi 'r cyfeiliorni fu'n ſoddi 'r phariſed,
Fo ddalle eu calonne rhag rhodio llwybre cred.

6. Wel dyna hanes byrr a roddes,
Am bechod gwreiddiol ſy yn ein mynwes,
Yn cadw lloches llid,
Yr yſtyr neſa at hwn y tynna,
Sef gwaith gryuus downus dyna,
Y pwngc howddgara i gid,
Pan ddelo gras yr Ieſu ei hun,
I galon dyn yn dyner,
Hwn ſydd yn iawn ddatguddio'r nod,
Am bechod a'i holl ffalſter,
Fe ddengys, yn hyſbys fâth fwyſtfil
Ofnus yw,
Yn bwrw 'n wiberedd anwiredd gafredd gyw.

7. Mae pechod wedi cael ei eni,
Yn gnawd anianol gyda nyni,
Sal yw 'r trueni ſydd,
Ond grâs yw cariad Criſt a'i anadliad,
Trwy ail anedigaeth,
Mae'n cael dygiad i'r galon gauad gudd,
Hwy ydyw 'r perl ſydd decca ei lun,
Pan 'dwaeno dŷn ei anian,
Gwerth oll a feddo i gyd yn grwn,
I brynu hwn ei hunan,
Hwn ydi 'r goleuni, a'r olew i loſgi 'r lamp,
A'r hedyn mwſterdyn,
A'n fonyn gwlyddyn glamp.

8. Gair Duw 'r gallu, ſy'n ei genhedlu,
Mae 'n dechreu megis, llin yn mygu,

Lle

Lle rhydd Duw fynnu ei fod,
Ar galon gnawdol fy 'n wrthwynebol,
I'r gwaith yſprydol cynydd bywiol,
Cynhyrfol nefol nod,
A gwir waith grâs yr Arglwydd iôr,
Sy 'n eſgor mewn iawn wyſgiad,
Ar y dyn newydd dawn y ne,
Yn etifedd gore tyſiad,
Dirgelwch yw gwaelod gwaith hynod Duw ei hun,
Mae ei yſgog rymus-gall,
O gyrredd deuall dyn.

9. Hyn fy'n ddieithrol i rai pobol,
Pa beth medd rhywun ydyw y rheol,
A'r ffordd wahanol hon?
Hon ydyw rheol, y ffydd griſtnogol,
Mun Duw greadur newydd nefol,
Gwir freiniol ger ei fron,
A llawer man o air Duw gwŷnn,
A wiria hyn o arwydd,
Mae rhaid ein gwneud trwy ras a chred,
Yn wir greaduried newydd, 2 *Cor.* v. 17.
Y credadyn cry dedwydd, *Gal.* vi. 19.
Creadur newydd yw,
Ni fyn y nefoedd un iddi,
Nes y byddo ei eni o Dduw.

10. Hyn yw gweithrediad grâs drwy gariad,
Troi tueddiad cyſnewydiad,
Iawn dyniad yn y dyn,
Ond deuwn bellach a chrybwyllwn,
Y trydydd yſtyr cywir gweſtiwn,
Dilynwn yma ei lun,
Hwn yw 'r gofyniad holiad hir,
Pwy ydyw 'r gwir ffyddloniaid?
Neu 'r gwaredigion union wedd,
Gwâr ddofedd gywir ddefaid,

Wrth

Wrth fodde eu buchedde ceir node eu ffrwythe ffri,
Yn abal anhebyg i'n dull anelwig ni.

11. O air Duw union wir diweniaeth,
Nag arbedwn roi gwybodaeth,
O hyn o yſtyriaeth dwys,
'Sef am y ffyddlon waredigion,
Sy 'n cario Coron brenhin *Seion*,
Mewn llawer moddion mwys
Nid meddwon na maſweddwyr chwaith,
Nid tyngwyr araith ddiras,
Nid neb ſy'n rhodio yn ôl y cnawd,
Nid cybydd frawd i *Demas*,
Nid Twyllwyr rhodreſwyr nid Cenſigenwyr yw,
Nid beilchion nid trawſion,
Mo waredigion Duw.

12. Mae lle i rhai'n etto i gyd ond ceiſio,
I fod yn waredigion iddo,
Drwy 'mroi i grio am râs,
Ond rhaid eu ſymud a'u dychwelyd,
Drwy wrol aſbri 'r duwiol yſpryd,
Oddiwrth eu bywyd bâs,
Y gwaredigion ydyw 'r praidd,
Sydd rhag y blaidd yn diangyd,
Gan deithio o hyd drwy 'r bŷd a'i boen,
Ar ol yr oen eu 'nwylyd,
A'r Oen euraid diniwaid,
A'u gwared dyna 'r gwir,
Oddiwrth feichie eu pechode,
A'u holl flindere ar dir

13. Trwy eneu 'r prophwyd ſe fynegwyd,
Beichiogai morwyn bur ei bywyd,
Ar fâb mewn mebyd mwys,
'Sef Criſt oddiuchod i roi gollyngdod,
A gwared pawb o'i bobol briod,
Rhag pechod penod pwys,
Oni chawn ni 'r gwaredwr gwir,
Rhag pechod anwir wenwyn,

Ni

Ni wared mo'nom ond trwy râs,
Rhag uffern eirias erwyn,
Am mai pechod yw 'r achos, o uffern geuffos gaeth,
Ac o's tario, wnawn ynddo,
Mae 'n ſiwr awn yno 'n ſaeth.

14. I hyn y ganed Criſt gogoned,
Er mwyn gwared ei holl ddefed,
Rhag pechod tynged doſt,
Mae pechod etto a'i ffordd fel *Pharo*,
Am rwymo dynion i ſyw dano,
A'u ffrwyno 'n fawr eu ffroſt,
A'r gwaredigion oll a gred,
Mai caled mae fo 'n delio,
Nhw ffoant o'r *Aipht* rhag gwobr gwaeth,
Gan ſwn marwolaeth ſy yno,
Rhaid diangyd am ſywyd,
Yr Ieſu a'i hyfryd râs,
Marwolaeth ddi waelod,
Yw cyflog pechod câs.

15. Y rhai'n yw 'r ethol hâd brenhinol,
A'r tŷ yſprydol o feini bywiol,
A reiol wraig yr oen,
Ar un fawr eglwys fawr filwrus,
Ymdrechwyr awchus i baradwys,
Drwy bob helbulus boen,
Y rhai'n yw plant y wîr wraig rŷdd,
A theulu 'r ffŷdd gatholig,
Sy 'n ſugno didwyll laeth y gair,
Grymus-air goreu miwſig,
A dyna rhai ordeinwyd,
I ſywyd hyfryd hir,
Y doe 'r *Shiloh* groeſhoelied,
Yw gwared dyna 'r gwir.

16. Ond da i ni glywed gwir agored,
Cyn myned fel y *Babilonied*,

Oedd

Oedd râdd o anghred ryw,
Am ddringo 'n gyfrwys i baradwys,
Wrth eu gallu nerth ac wllys,
Heb gyngor downus Duw,
Mae 'n rhaid cael yſgol *Jacob* gu,
Sef gallu 'r Ieſu oreuſant,
Ac eſgyll clomen *Noah* gynt,
I gynal gwynt gogoniant,
A ffordd ſanctedd gwirionedd,
Cyn mynd i'r annedd wen,
Duw 'n dyſgo ni ar honno,
Hyn 'rwi'n ddymuno, Amen.

Hwn a wnaed yn y flwyddyn, 1757.

Carol Plygain ar Greece a Troy.

XII.

1. WEL dyma 'r ddefod gofus,
A'r dŷdd fydd anrhydeddus,
I ganu moliant melys, parchus pur,
Am eni Criſt ein brenhin,
I'n gwared a'n hamdiffyn,
Rhag maglau 'r cythraul cethin,
Gerwyn gwr,
Yr ŷm ni bawb yn hyſbys, o'r anaf gwymp,
Truenus: Enbydus cyn ein bod,
Yn nyddiau 'n hên dâd *Adda*,
Anufudd a'n mam *Eſa* 'n rhieni clafa eu clôd,
Nyni a glywſom ddarllen,
Y gair a wnaed yn gywren i ni gynt,
Yn nechre llyfre *Moſes*,
Am dwyll hudoliaeth diles,
Mae hanes am eu hŷnt.

2. Dichellion

2. Dichellion Sattan gyfrwys,
Pan gollodd hwn baradwys,
Oedd ceiſio mynd yn wiwlwys yn ei ol,
Ac nid oedd ffordd o ddiangfa,
Iddo fyned i orphwysfa,
Nag ynnill yno eiſteddfa ei hên yſtôl,
Ond 'r ydoedd o 'n grwydredig,
Yn yſpryd anweledig iddyn creuedig ryw,
A malais fawr i dwyllo,
Y dŷn oedd newydd ffurfio,
'S cae ganddo ddigio ei Dduw,
Ac ni allai ddangos allan,
Mo'i hynod rith ei hunan aſlan wg,
Rhag ofn y bwrient amcan,
Amheueth arno 'n fuan,
Ei fod o'n darogan drwg.

3. Fo welai 'n fwy cymheſur,
Ymrithio ar lun creadur,
I ddweud ei broſes bryſur llythyr llawn,
Gan dybio mai 'r creaduried,
A wnaethai Duw gogoned,
A goeliai 'r dyn diniwed gynta 'n iawn,
Lluniaſai Duw 'n gyffredin,
Ymluſgaid mawr a bychin,
Ac adar edyn llaes,
A'r ſarph oedd fwy gwybodol,
Na'r holl fwyſtfilod cnawdol,
Grymuſol ar y maes,
A'r gelyn fel hyn yma,
Ar lun a dull y doetha ei dwyllo daeth,
I 'mweled a'n tâd Adda,
Ond at y lleſtr gwanna 'n mam Efa rwydda 'r aeth.

Y ſarph yn gofyn i'r wraig.

4. Ai diau ddweud or Arglwydd,
Na chewch chwi fwytta o ffrwythydd,

Yn

Yn pren gwybodaeth dedwydd hylwydd hwn?
Fel hyn attebai 'r fenyw,
Gorchmynodd Duw ei gadw,
O's bwyttwn, byddwn heddyw, meirw mi wn,
Ni fyddwch ddim yn farwol,
Er bwytta 'r grawn danteithiol,
Dymunol ffrwythol ffri,
Ond gwneir chwi megis duwiau,
Fel Duw, a Duw fel chwithau,
Mo'r oleu eich breintiau a'ch bri,
Gwrandawai 'r wraig yn fuan,
Arno 'n dweud yn gyfan hyn ar goedd,
Fe flyfiodd chwant naturiaeth,
Gael bwytta o'r pren gwybodaeth,
O's d'alltwriaeth, odiaeth oedd,
5. Ac fellu nhw fwyttaefon,
Wrth ryfedd a thoraſon,
Orchymmyn Duw a gowſon eu dau gynt,
Am ddigio Duw ei hunan,
Fe' i troed ei natur aflan,
Newydwyd agwedd egwan ei hanian hwynt.
Y galon wîr ſanctteiddlan,
Oedd deml Duw ei hunan,
Drwy burlan bwyll,
A wnaed yn ogof lladron,
Neu yſpyttŷ gwag yſprydion,
Llu deillion llawn o dwyll,
Ym maes y gwenith gore,
Yr hauodd Sattan efre llyſie llêſg,
Yn lle twyſenau llownion,
Ni chai 'r llafurwr ffyddlon,
Ond gweigion hirion hêſg.
6. Ar bechod pan eſgorwyd,
Y ddaiar a felldithwyd,
A ninnai lwyr anrheithwyd yn ein rhyw,
Fe orfu i'r tir oedd ffrwythlon,

Ddwyn drain ac yſgall gwylltion,
Am dorri o ddŷn orchmynion,
Dyſnion Duw,
Teyrnaſodd angeu 'n fuan,
A phob creadur anian ae'n druan dan ei droed,
A dygodd llygredigaeth,
Y dylodedd bridd deiladaeth,
I'r pridd eilwaith yn ddi oed,
Ar adail anweledig, yſprydol oes buredig,
Hir barhâd,
Oedd tan y farn dragwyddol,
I'w neſu i'r ffwrn dân yſol,
Wrth haeddol gyfiawnhâd.

7. Cyfiawnder Duw oedd ddigllon,
I'n troi ni 'n garcharorion,
Nad allai rhwydda rhoddion mo'n rhyddhau,
Trugaredd oedd yn canfod,
Ein carchar byth heb ddarfod,
Hi a godai i geiſio cymmod heb neccau,
Cyfiawnder byth heb attal,
A fynnai waed i ddial,
Am wneuthur diofal dwyll,
Trugaredd ar ei gore, oedd yn ymofyn meichie,
I fadde ei beie,
Drwy fawr bwyll,
'Roedd rhaid cael abeuth prydlon,
A gyllwng gwaed un cyfion,
Rhoddion rhwydd,
Ac nid oedd angel perffeth,
O fewn yr holl greadigeth,
'Wnae waſaneth hyn o ſwydd.

8. Duw tad anfeidrol fawredd,
Sydd un yn dri di ddiwedd,
Tri pherſon mewn un ſylwedd gweddedd gwiw,
'R ail perſon cenhedledig,
O'r drindod bendigedig,
Aeth yn gyfryngwr diddig o flaen Duw,

Wrth

Wrth weld ſod pob drud aberth,
A gwaed creaduriaid prydferth,
Yn ddinerth werth am ddŷn,
Fe ddaeth yn wîr waredydd,
Dan ddwylo 'r du ddialydd,
Hyn oedd ddihenydd iddo ei hun,
Dadleuai o flaen cyfiawnder,
Mae genif dan dy digter,
Hyder hedd,
Cei olchi 'th dwylaw 'n lanwaith,
Yngwaed fy nghalon berffaith.
I ladd gelyniaeth min dŷ gledd.

9. Y cyfammod hwn pan luniwyd,
Digofaint a ddiffoddwyd,
Ac yno rhoed addewyd rhâd i ddyn,
Cyfiawnder erbyn hynny,
A thrugaredd ymgyfartu,
Nhw gowſant ymguſanu mglymmu ynglyn,
A'r amſer pan gyflawnwyd,
Blodeuodd pren y bywyd,
Ganwyd prophwyd hyfryd hedd,
Yn anwyl oen eneiniog,
O gnawd *Maria* rywiog,
Gu enwog lân ei gwedd,
Yn Dduw anfeidrol allu,
Yn blentyn bach mewn beudŷ lletty llwm,
Yn Frenhin rhwng *Cerubiaid*,
Yn waeledd rhwng nifeiliaid,
Och! Saledd oedd ei ſwm.

10. Pan aeth e'n wythnos oedran,
Enwaedwyd arno 'n fuan,
I gadw r ddeddf yn gyfan oll i gyd,
A'r gyfraith gaeth a gadwodd,
Un pwngc erioed ni thorrodd,
Pob pechod fe i harbedodd yn y bŷd,

Ond

Ond etto 'roedd y gyfraeth,
Yn gofyn ei feichniaeth,
Am lygredigaeth dŷn,
Er cymaint ei deilyngdod,
Am gymryd arno bechod,
Caes roi ei hynod waed ei hun.
Cadd dalu 'r ffyrlŷng eitha,
Dros feiau 'r Dynion gwaetha,
Brynta eu bron,
A hynny wnaeth ar unwaith,
Rhoes iawn oedd gwbl berffaith,
I'r gyfraith helaeth hon.

11. Rhoe 'r nefoedd yn agored,
I'r penna o bechaduried,
A ddeuai i geisio ymwared gan Dduw mawr,
Mae pechod wedi ddamnio,
Siol Sattan wedi sigo,
Pa beth fydd yn ein rhwystro,
Ni yno yn awr,
Mae etto rwystrau cryfion,
'Sef angredinaeth dynion,
A'u llwybrau ceimion câs,
Am nad oes fawr yn gwerthu,
Mo'u pechod er mwyn prynu,
Y gwir Jesu goreu ei râs,
Ond odid rhai a ddweudan,
O's prynodd Crist ni 'n gyfan oll i gyd,
Pa fodd y bydd colledig,
Un dyn er maint ei ryfyg,
Does arnom beryg yn y byd.

12. Crist hyn fy'n ddigon eglur,
A brynodd bob pechadur,
Wrth wisgo'n cnawd a'n hamhur, natur ni,
Er mwyn gwneud ffordd i ninne,
I wisgo ei natur ynte,

Drwy gario glân galonne ffrwythe ffri,
Bu farw dros y cyfan,
Fel na chae'r byw mewn unman,
I fyw ynddo ei hunan hedd,
Ac ned i fuchedd aflan,
Y prynodd Crift ni i'w gorlan,
Ond i anian wiwlan wedd,
Pob un fy'n difgwyl nodded,
Gan Jefu Grift, madawed yn ddi dwyll,
Oddiwrth bob anghyfiawnder,
Gwarddedig blyfig blefer,
Gan arfer purder pwyll.

13. Mae oedran Crift oen gwifdeg,
Yn ben dau cant ar bymtheg,
A deigain mlwydd a deuddeg,
Lawn a dwy,
O ceifiwn oll ymgadw,
Rhag pob gweithredoedd meirw,
O's cawn ni ar ol heddyw dreial hwy,
Ceifiwn edifeirwch,
Da yftyr duwiol driftwch,
Gwneud heddwch a Duw 'n Tad,
Cytunwn a'n gwrthwynebwr,
Tra bytho Crift yn fforddiwr,
Gwaredwr goreu ei rad,
Rhown barch o burder calon,
I wyl yr Jefu raflon dirion dwr,
Rhown heibio wag chwareuon,
Mae gwir lawenydd cyfion,
Yn feion i ni 'n fiwr.

Diwedd.

CAROL

Carol I gynulleidfa Clwb, ar fefur *Farwel Ned Pyw.*

XIII.

FY ngharedigion union laith,
Mewn torriad taith naturiol,
Sydd wedi ymgafglu i'r gorlan glyd,
Ar achos yn gyd-ddrychiol,
Chwi ddaethoch yma 'n llowna llu,
Fel howddgar deulu dilys,
I dderbyn addyfg Duw 'n ei air,
Mae 'n waith dianair downus,
I wrando gwafaneth, hoff rugul a phregeth,
Cynghorion yftyrieth, wrth rowiog Athrawieth,
I garu Brawdolieth a'i dilyn,
Nid oes un o honoch gan ffoled na wyddoch,
Y diben y daethoch, a r ddyled fydd arnoch,
I'r Arglwydd na chammoch ei orchymyn.

2. A dyma 'r adeg deg a dâ,
I wledda mewn hwyl addas,
Yn gwmni brawdgar clanar clyd,
Cu ethol frŷd cyweithas,
A chofiwn y gorchymyn fy,
I'n galw i garu ein gilydd,
Gan helpio 'r gwan a hybu hwn,
A chario ei bwn ef beunydd,
Ond ple mae gorchymyn, gair Jefu gu refyn,
O's planwyd yr hedyn, Edrychwn mewn dychryn,
Oes ganddo fe wreiddyn i arwyddo,
Lle planno Duw 'n anwyl, had gair yr efengyl,
Di efgus mae 'n difgwyl, o'i eirchion a'i orchwyl,
Am ffrwythau 'mhob perwyl ympirio.

3. Ni wiw pregethu teyrnas ne,
Na dangos geirie o gariad,
Ni ymddengys ffrwyth paradwys wen,
Lle bo cenfigen fagad,
O's llid ac ymryfonau fy,
Hawdd i ni farnu yn gymwys,
Mae yn ôl y cnawd yr-ym yn byw,
Heb yfpryd Duw 'n ein Tywys,
St. Paul fy'n rhoi gole, i weled y node,
Mai llid ymryfone, ymfennu croes ddadle,
Yw ffrwythe drwg gnyde rhai cnawdol,
A dyma flaen darddiad ffrwyth yfpryd mabwyfiad,
Tanghefedd lân dyfiad,
Gwirionedd a theimlad,
A chariad mewn dygiad cymdogol.

4. Mae cynlleidfaon hyd y wlad,
Mewn ymddanghofiad weddus,
Yn clybio eu harian, gweithred hoff,
I gadw'r cloff a'r clwyfus,
Mae hynny 'n burion yn ei le,
O's bydd calonne ffyddlon,
I drin y fwydd yn rhwydd mewn rhol,
Yn rafol heb ymryfon,
Drwg lyfie mewn pwyfi, fy'n chwerwi ac yn drewi,
Yn ffiedd arogli, y lafant a'r lili,
A'r rofe mari tw gerddi teg urddas,
A chenfigen drwg foefe, yn troi 'n helufene,
Yn wrthun Aberthe, heb garu'n cyd radde,
Mae ffrwythe 'n rhinwedde 'n anaddas.

5. Aberthodd Cain er hyn i gyd,
Roedd ynddo lid Gelyniaeth,
Gweddiau 'r Phariſed er hyn,
Roedd gwenwyn yn ei gweniaeth,
Ac Ananias a'i wraig wen, a roent Elufen lwyfedd,
Heb dderbyn llwyddiant na gwellhad,
O herwydd cariad oeredd,

Eu barn fu gyhoeddus, drwy angeu gwradwyddus,
Am rannu i'r anghenus, Elufen dwyllodrus,
A chalon awyddus, anweddol,
Mae barnedigaethe, mor gyfion i ninne,
Ac oedd iddynt hwythe, oni chymrwn ni fiample,
Wrth node eu hên greithie, rhagrithiol.

6. Y diffyg mwya fy yn ein gwlad,
Yw diffyg cariad brawdol,
Pe ceid yn lloegr wraidd ei hâd,
Hi ae'n *Ganaan* wlàd ddigonol,
Mae ynddi ddigon o bob peth,
At wneud bywolieth hwylus,
Pob math o ffrwythau ordeiniai Duw,
Ped fai ifi 'n byw 'n gariadus,
Ond beth a dâl Mamon,
Tryforau tra furion,
Gwinllanoedd yn llawnion,
O ffrwythau cyfreithlon,
A dynion heb goron o gariad,
Er hardded eu hurddas, yn cadw cymdeithas,
Bydd diben eu pwrpas, 'r un dymer a *Demas*,
Geill pawb yn y deyrnas eu dirnad.

7. Heb gariad Brawdol gweddol gwiw,
Ni chyfri Duw gogoned,
Mo'n helufene gore eu gwerth,
Ond megis aberth ffylied,
Cariad gynt oedd fylfaen gwaith,
Y Gyfraith a'r Prophwydi,
A Chrift a'i Apoftolion pur,
Nad allai dur mo'i dorri,
Ac oni cheiff cariad, fod etto 'n fylfaeniad,
Yn cynal amcaniad,
Pob Brawdol gynhaliad,
Ni wna nhw fyth deilad i dalu,
O ran cariad yw cwbwl, fodlonrwydd y meddwl,
Er cymaint y cwmwl, o derfyfg a thrwbwl,
Fei ceidw nhw n fanwl i fynu.

8. Yſtyriwn fel yr ym ni 'n byw,
Pa un a'i Duw a'i Mamon?
Yr ŷm ni fwya yn ufuddhau,
Rhown farn o enau union,
Mae genym ddynol ordinhâd,
Rhag Tyngu llefiad llyfon,
Tra bo ni am ddwyawr yn y tŷ,
A'u celu nhw yn ein calon,
Attelir y llywon, fe'i gwthir yn gaethion,
Er mwyn euddo Mamon,
Yn fwy na gorchymynion,
Y cyfion dda union Dduw enwog,
Wrth hyn gallwn adde fod yn ein calonne,
Lai pris ar dryfore, 'r ddau Deſtament gole,
Nag fydd ar degane dwy geniog.

9. Attal llywon coegion câs,
Yw gweithred gras yn gynta,
A throi pechodau 'r genau 'n fud,
O'r mwya hyd y lleia,
Fel ceingciog bren ynghanol perth,
Yw Tyngwr anferth ynfyd,
Gweithrediad grâs i lawr a'i tyrr,
Pan raenio mewn byrr ennyd,
Mae'r penſaer cyfarwydd,
Heb ddechre mo'i gelfydd,
A'r goed fy'n y llwynydd yn tyfu 'n wyrgamwydd,
Heb arnynt naws arwydd meſure,
A gras gwirioneddol, heb ddechre 'n gynhyrfol,
Mewn dynion anianol, fy ac araith uffernol,
O afrol anfoeſol wefuſe.

10. A bario llywon hyn fydd fiwr,
A wna poh Tyngwr afraid,
Pan ddelo grâs fel hedyn gwan,
Unwaith i ran yr enaid,
Beth yw dwy geniog o ddyled,
I fod yn fforffed arnom,

Pan

Pan ddown ni 'n llu i'r Dre neu'r Llan,
Neu 'r fan y cyfarfyddom,
Heb ras Duw gogoned, pa faint ydyw 'r fforffed,
Pe medrem yftyried a chyffrif y golled,
Dim llai nag yw'n hened ein hunen?
Gweddiwn am gynydd, mewn grâs a gwir grefydd,
Fel y bo ni byw beunydd, 'n un galon a'n gilydd,
I foli 'n pen llywydd yn llawen.

11 Penod ein cyfarfod fydd,
A'r nodol ddydd Enwaediad,
Y dydd cadd Jefu 'n faban gwan,
Ei rwymo dan 'r ordeiniad,
Ac ar y diwrnod hynod hwn,
Rhoed arno bwn o benyd,
I felie dan y ddeddf i gyd,
I'w chadw cyd a'i fywyd,
Aeth dan ei chyfrifon' oedd fanwl ofynion,
Aeth dan ei melldithion,
Ac eitha ei bygythion,
Oedd fwy nag y gwyddon i'w godde,
Cyfiawnder Duw 'n fuan a fachai ynddo 'n fychan,
Gofynai o'i waed purlan,
Yn wyth niwrnod oedran,
Am bechod dyfn anian ddefnynne. *Diwedd.*

Carol Ar Dole Bell, neu Clôch alar, a wnaed ag a ganed ynghymdeithas Clwb *Llangollen*, y flwyddyn, 1759.

XIV.

1. CLOWCH, Clowch: Gynlleidfa ffyddlon dirion
Mewn bwriad da ymbarodtowch, [dowch,
A throwch

A throwch at un a thri, [byw,
Beth ſydd howddgarch yn y byd, na gweled brodur yn
Ynghyd; Mewn caredigol frawdol fryd,
Fel defaid o'r un gorlan glyd,
Mewn pura hedd yn para o hyd,
Gan gynorthwyo 'r naill y llall;
O'r gwael i'r gwŷch lle gweler gwall.

2. Da, da: Ydyw gweithred hoff i'r cloff ar clâ,
Nid eiddo ei hun i'r dyn yw 'r dâ,
Pwy na chyfranna a'i frawd? [fodd i fyw,
Tryſoreu 'r byd ordeiniodd Duw; I ni fe'i rhodd yn
Creaduriaid rheidiol o bob rhyw,
O fôr a thir ei fowrwaith ŷw,
Ehediad nêf pob llef a lliw,
Maent etto i 'n rhan er maint eu rhi,
I fod yn awr yn fwyd i ni.

3. Mawr, mawr: Na yſtyriem ninnau 'n ſtor yn awr,
O Eiddo llywydd nef a llawr,
Mor roddfawr yw ei ras, [ein Tad,
Na fedrem gwedi cael yn rhad, feddiannu tir ag Eiddo
Drwy ffydd a phwyll heb dwyll na brad,
Yn ol ei air a'i ordinhad; gwneud Eluſenau o leſhad,
Lle bo ſylfaeniad cariad cu,
Mae hyn i fod a hynny fu.

4. Byd, byd: Yw hwn iw dreulio heibio o hyd,
Mewn gwaith a gofal dreial drud,
Am fywyd howddfyd hwy,
Mae geiriau Criſt yn ein coffau,
Am Dduw mewn gwaith a Mamon gau,
Nad allwn glos waſanaethu 'n glau,
Dan wir ddeddf, ond un or ddau,
Er hyn mae Duw yn caniadhau, [rheini 'n rhwydd.
Tryſorau amſerol yn eu ſwydd; I wneud daioni a

5. Trais, trais: A thrachwant Elw Garw gais,
Sy'n codi enllibaidd Lewaidd lais,

Och,

Och, oera clais ir clwb,
Os yn ein myſg bydd dyſg a dawn,
I'w dreſnu 'n oneſt ag yn lawn, [gwneir yn llawn,
Or dâ yn ei gwrs daioni gwan, y gwan ar lleſg fei
Ond os i genſigenu 'r awn, [iddyn drwg.
Yr ariangarwch oera gwg, Ar eiddo dro'n yn wre-

6. Gwir, gwir: Nid gwreiddyn un drygioni 'n glir,
Ond gwreiddyn dyſn pob drwg ar dir,
Y gelwir henwir hwn,
Gorthrymder Trawſter, Balchder byd,
Segurud meddwdod trallod drud, [i bryd,
Swydd ymgais trais, a malais mud, brad a briw o bryd
A phob anghariad ſy ynddo nghyd, [ei hâd.
Pob pechod arall dileſhad, o raddau hwn daw wraidd

7. Wel, wel: Oni ddylai 'n ffydd ni ddal yn ſſel,
Os gwreiddyn pob drigioni del, yr ŷm yn ei hel ynghyd,
Rhown weddi am ras di ſas i ſyw, [Duw,
Fel brodur ffyddlon radlon ryw, yn cario Enw a delw
Mewn cariad ag agweddiad gwiw,
Trwy ſwyna ſel o'n treſnus yw,
Fod cynulleidfa o gymaint lled,
Yn dilyn Criſt, yn deulu cred. [hoes,

8. Croes, Croes: ym ninne i hyn yn nyddiau ein
A llawn oferedd ſaſwedd ſoes, pwy etto droes ei dreſn?
Er hyn ir eglwys gymwys gor, [gwan yſtor,
Down i weddio dan Dduw Jôr, ſel rhai 'n yſtyrio ein
Pan ddeuwn allan dros y ddôr,
Troi yn y man ſel trai yn y môr, [un a thri.
Cilio 'n ol mae'n calon ni, Rhag iawn athrawiaeth

9. Cael, Cael: gwir ſwn gwaſanaeth helaeth hael,
A phregeth ddownus ſelus ſael,
Cynghorion diwael dwys,
A ni ſel gwinllan ſur ei ffrwyth,
Mewn trychni trachwant methiant mwyth,
'N aflawen drin yr aflan drwyth,

O bechod

O bechod llawn gwneud baich yn llwyth,
Ag yn ein byw ni wnae ni bwyth,
Ond calyn natur eglur yw,
Sydd wagedd daith i ddigio Duw.

10. Doeth, doeth: mae Iago 'r cu apoſtol caeth,
Yn adrodd gair gwirionedd noeth; mae'n boeth ir annoeth un,
Nad eill un ffynnon roi dau ryw,
Dwr hallt a chroyw 'n loyw ' liw,
Na thafod dyn addoli Duw, ag yn y man ei anian yw,
Enllibio brawd mewn lle bo briw,
Mae hynny 'n amal yn ein myſg,
Ymrown yn ddoeth cymerwn ddyſg.

11. Paul, Paul: cynghorian hwn gwnawn ar eu hol,
Rhown heibio groes gweſtiwnau ffol,
Apſenol afrol iawn,
Heb dynnu cledd anwiredd wawd; I lwyr anrheithio briwo brawd,
Na gorthrymu 'r dyn tylawd,
Na'i ſpelio ei ffwrdd i yſpwylio ei ffawd,
Nad awn i gnoi mo'n dyn un gnawd, [ledd dda.
Aelodau ydym Iach â chlâ; I 'n gilydd oll o mge-

12. Gwall, gwall: yw i'r un aelod fod mor fall,
Dan fwrw llid y naill ir llall, y corph nid all ei dwyn,
Yn ol y gyfraith lanwaith lun; dy fynni ddial ar ryw un,
A thitheu heb weled yn dy wŷn, [un dyn,
Dy fod o hyd ar fai dy hun; heb anian groes nid oes
Y gyfraith oreu i gyd a gawn,
Cyttundeb mewn ffyddlondeb lawn.

13. Co, co: y wraig a ddaliwyd cyn cael ffo,
Ar weithred odinebus dro, ag etto ei ſafio gadd,
Wrth gyfraith nef a daiar gron,
Roedd hi iw llabyddio 'n brudd ei bron,
Pe cowſid gwr heb frycheu i'w fron,
I daflu 'r garreg gynta at hon,

A'r

A'r barnwr ai gollyngai 'n llon,
Am ffoi 'r cyhuddwyr bod ag un;
Bawb wrth ei brofi a holi ei hun.

14. Bloedd, bloedd: yr hen yſgrifenyddion oedd,
Cyflawni 'r gyfraith arni ar goedd,
A'u haeddiant ydoedd hyn,
Drwy reſwm gwell yr Ieſu gwynn;
Cyflawnai r gyfraith hon fel hyn,
Wrth faddeu 'n rhad, droſeddiad ſynn,
Dan ei faich oen Duw ni fynn,
Ag un pechadur ddelio 'n dynn,
Cyflawniad cyfraith Duw a dyn,
Yw cariad teg a byw 'n gyttun. [ydd iawn;

15. Gwnawn, gwnawn: o eiddo ein gilydd ddeun-
Ein galw i gyfri i gyd a gawn,
I'r farn yr awn ar fyrr,
Yn noeth y daethom bawb i'r byd,
Yn noeth rhaid etto ymado a mud,
Er bod rhai mewn cloſdai clŷd;
Y mwya ſiar o'r ddaiar ddrud,
Nid yw ar hon, ond Aer ei hyd,
A'i lêd o'r gro, pan lwydo'r grudd,
Dwyn ein braint mynd yno 'n brudd.

16. Braint, braint: dragwyddol ag anfeidrol faint,
Arglwyddus hedd yw gwledd y ſaint,
Nid oes un haint yn hon,
Ond mynd i'w cheiſio mae hi i'w chael,
Yn barod rwydd ond bwrw 'r drael,
Sy yngair yr Arglwydd hylwydd hael,
Dowch ymofynnwn am y fael,
A'n ſwydd na welwn yn rhy wael,
O Ieſu raſlon *Seion* ſant;
Dwyn ni yno i blith dy anwyl blant.

CAROL Cariad; ar Grimſom Velvet. A wnaed i gymdeithas Clwb yn *Llangollen*, wŷl enwaediad Criſt: y Flwyddyn 1763.

XV.

1. GYmdeithas addas weddol, naturiol hardd ei toriad,
Sydd yma 'n genedl unol, tan enw brawdol gariad,
Clywch ddatgan pwynt pennodol,
Perthynol i'r fath ddynion,
Sy'n gwneuthur ymgynhulliad,
Ar ſwriad hyn o arferion,
A dyma'r pwngc ſy n canlyn,
I'r dyſa o air di derfyn; gwir orchymyn dygyn Duw,
Sef y gorchymmyn cariad, [rhyw,
Hwn ydoedd or dechreuad; yn bura profiad i bob
Ar mwyaf or gorchmynion, [union un,
Yw caru heb gelu o'r galon; yr Arglwydd cyſion
A'r ail or un gyffelybiaeth, [hun.
Car dy gymmydog eilwaith; ſawl diwahanaeth fel dy
2. Ped fae ni 'n meddwl canlyn; y ddau orchymyn
Nyni fyddem yn ddi drwbwl, [yma,
Yn gwneud y cwbwl cyfa,
Ag oni wnawn ni rheini; nid oes mòr cyfri o honom,
Ni thal dim arall yma; or gwaith anwyla wnelom,
'R gorchmynion cariad ydi,
Y cedyrn gongolfeini; fy'n dal daioni dwylo dyn,
Ag heb y fail a bwyntied,
Ni thal un werthfawr weithred,
Fyth er llyfned fytho ei llun,

Ni

Ni ſaif un annedd enyd, heb iddi ſylfaen hefyd,
Yr un ffunud i roi ei phwys,
A chariad yw ſylfeini, y gyfraith a'r Prophwydi,
Mae'n eu cyflawni 'n ddifri ddwys.

3. Gwnawn unwaith helaith holiad; pa beth yw cariad cwyrain?
Ond caru brawd heb rodres,
Mae 'r hanes fel ni ein hunain,
A gwneud a phawb yn gynnes y lles 'r ŷm yn 'wyllyſio,
Iddynt hwythe wneud a ninne,
Fel hyn mae'r geirie 'n gwirio,
Rhoi cymorth i'r anghenog, rhoi bara i'r newynog,
Dilladu 'r dyn anwydog noeth,
Cyd ddiodde a'r claf a'r cloffion;
'R amddifaid gwan ar gweddwon,
Dyna arferion dynion doeth, [ganddo,
Gorchmynnodd cariad etto, drwy fel ir fawl fydd
Ddwy bais am dano yſbaried un,
Yn aberth o drugaredd; I'r gwelw truan gwaeledd,
Sy 'n byw 'n bur oeredd heb y run.

4. Wel dyna arwyddion cariad,
Ple mae'r canlyniad lanwaith? [weniaith,
A phwy ſy'n gwneud gorchmynion, Duw union ynddi-
Mae 'n cnawd ni 'n barnu 'n barod,
Fod hynny 'n ormod cariad, [ddillad,
I ddyn fod mor haelionus, 'rhwydd wyllys rhannu ei
Ond dammeg ydyw hynny, i ddangos mor anallu,
Yw dyn i berffaith garu'n bur, (honno,
Ond gallwn ddirnad etto, pwy wnaeth y weithred
Heb ddiffygio 'n cario ein cur,
Mae r cariad hwn mor frawdol,
Nid cig a gwaed naturiol, ſy'n dderbyniol o hono byth,
Wel bellach mi ddanghoſa, (ei nyth.
Ymhle mae'r cariad yma, yn gwneuthur trigfa noddfa

5. Y ffynnon y mae fe'n codi o honi, yw Duw ei hunan,
Yn unig oi ddaionus ddoeth wllys, fe ddaeth allan,

Ai

A'i anwyl fab Criſt Jeſu gadd ei feddianu 'n ddoniol,
A'i dderbyn yn ddau ddyblyg, puredig fraint priodol,
A hwn a gadwai 'n ffyddlon, y gyfraith ar gorchmynion,
Wrth garu' ei elynion gwrol waith,
O gariad ar Dduw 'n ddiwyd, ai gymydogion hefyd,
Offrymmai ei fywyd yma 'n faith, (gwyſgo,
Gan hwn mae dwy bais gyfrdo, un iddo ei hun iw
Ar llall iw 'ſbario, 'n euddo i'r noeth,
Sef dau gyfiawnder pybyr, un iddo ei hun heb rwyſtyr,
Llall i'r pechadur cyſur coeth.

6. A'r ſawl ſydd am gyflawni, gair Duw o ddifri i ddwyfron,
Rhaid iddo wyſgo 'n waſtad, wir gariad fel aur goron,
Gan gyfrif nad oes gyfran; ei hunan ganddo o hono,
A chredu y ceiff ef hefyd; trwy ddiwyd daer weddio,
Ymwadu a'i henw ei hunan; yn wael bechadur truan,
A dyn yn gruddfan dan y groes,
A chalon ddrylliog hefyd, ai bechod arno 'n glefyd,
Tylawd o yſpryd yn ei oes,
A gochel rhoi gwag hyder, fod genym ddim cyfiawnder ond y llymder ymhob lle,
Dyma'r fath drueinied, mae cariad yn amgyffred,
Cyneſa nodded îs y ne. (union,

7. Ped fae ni 'n cyraedd profiad, o hyn ar dynniad
Caem yma ein gwyſgo a chariad,
Da alwad y duwolion,
Fel gwir gynulleidfa frawdol, priodol blant Paradwys,
Fe fyddai ffrwythau ein cariad,
'N arogliad yn yr eglwys,
Y cariad hwn lle'r ydoedd, fu'n gyru llawer lluoedd,
Drwy dân a dyfroedd, yma ar dir,
Zacceus pan brofai ei dymer,
A rannai ei dda yn eu hanner,
Ni roes ar bower hyder hir,
Nid oes ymhlith ei berchen, na rhagrith na chenfigen,
Na thwyll mewn bargen yn y byd,

Na

Na dim ond teg oneſtrwydd, dwys dirion a diſtaw-
rwydd,
Goleuni hylwydd glan o hyd.
8. 'R gorchmynion cariad perffaiſh, wrth araith,
Y ſgrythyre: Yw' r ſer goleua i'r duwiol,
Pan agorir nefol gaere,
A rhain yw'r marwor poetha, yn uffern gula galar,
I rhai na dderbyniaſon,
Y fath gynhygion howddgar, (demnir,
Pa beth fydd gan yr anwir; iw ddweudyd pan gon-
Ond dweud yn rhywyr air fel hyn,
Wel dyma warth a dirmyg, am wrthod cariad diddig,
Dewiſol gynyg Jeſu gwynn,
Ped faſwn gynt wrth feſur, yn caru Duw a'm brodur,
Mi gowſwn gyſur eglur yw,
Y rwan rwi'n cael dirnad,
Mai 'r gair gorchymyn cariad,
Sydd i mi 'n brofiad mwya briw. (mynion mwya,
9. Gan fod yr Arglwydd cyfion, yn rhoi ei orch-
Mewn gair neu ddau o gariad,
Ymrown mewn bwriad bura,
I geiſio gwneud ei wllys yn bwyllus gwyliwn ballu,
Mae gwobor mawr yn Seion,
I bob duwiolion deulu,
Trown galon at eu gilydd, fel wyn a defaid ufudd,
Tra bo ni beunydd yma 'n byw, (pleſer?
Goſtyngwn ymchwydd balchder, beth fydd hyfrydach
Nag i ni 'n dyner uno a Duw, (ymyn,
Cans hyn mae Duw 'n ei ofyn, arch amal yn ei orch-
Cariad dygyn geiriau teg,
Os torrwn hwn ei hunan, ni feddwn-ni yma'n gyfan,
Mae'n wir diogan yr un o'r dêg. (gwirionedd,
10. Hawdd i ni farnu 'n gyfion, wrth union Iaith
Pa yſpryd 'r ŷm ni 'n gynwys, i'n tywys ymhob tuedd,
Os awn ni heno i feddwi ag i ſorri yn achos arian,
Mae cariad yn ein gadel, cyn caffel gafel gyfan,

Gobeithio

Gobeithio hyn fy mrodur, y cymrwn ni bwyll a ſynwyr,
I ddoſi natur chwidir chwant,
Ag y ceir ni'n wyr heddychlon,
Yn troi 'n gymdeithas ffyddlon,
Oddiwrth arterion blinion blant,
Mae oedran tywyſog cariad, iw nodi ddydd enwaediad,
Wrth wneud y bwriad yma i ben,
Mil ſeithgant nawſaith hefyd,
Duw roddo ei ras a'i yſpryd,
I ni bob munud bawb, *Amen.*

CAROL arall ar *Kings* farwel, ir un diben, yn dangos fel y mae rhagrith yn ymoſod yn lle cariad, ag nad oes dim gwir gariad ond yr undeb a *Chriſt.*

XVI.

1 CYD ymunwn mewn amynedd,
I agor wyneb y gwirionedd,
Daw cyfrif o'n geirieu a'n holl orchwyliaeth,
Gan Dduw union yn ddi weniaeth,
Goreu yw'r gân a geir o'n geneu,
Wrth gymryd teſtyn o'n cyflyreu, (dechreu,
Holwn hyn, o flaen Duw gwynn, mewn dechryn cyn,
Ymhle mae'n calon a'n meddylieu,
Ar hyn o bryd yn rhoi eu bwriadeu?
Gochelwn ganu heb lyſu o bleſer,
Y mae Duw cyſion ar ein cyfer,
Yn gwylio'n gall, yn gweld ein gwall,
Dull afiaeth dall, ofer,

Mynn

Mynn bwyſo a meſur pob yſgafnder,
Wrth linyn barn a phwys cyfiawnder.

2. 'Rŷm ninnau gwedi ymrwymo i'r amod,
Gyfa yrfa i ymgyfarfod,
Dan enw brodur dawn briodol,
Mewn cywir dyniad cariad unol,
Fel un corph yn cynwys ynddo,
Aelodau lawer yn cyd weithio,
Er parch a chlod, mae'n gofyn bod, pob aelod o hono,
Yn caru 'r llall, nid all fod hebddo,
Dros ddioddef gofid gydag efo,
Mae hyn o ſtad cynhaliad hylwydd,
Yn burion yſtyr mewn goneſtrwydd,
Ag angenrhaid, yw plannu plaid, fel defaid ty dafydd,
A ſafo 'n gwlwm efo eu gilydd,
Ar fryd arafa yn frodur ufudd.

3. Gwyliwn demptaſiwnau 'r cythrel,
Sydd ai ergyd yma 'n ddirgel,
A gwyliwn gynal clwb o gynnen,
Giaidd obaith a gau ddiben,
Byw Dan Enw bod yn frodur,
Gwall rhy greithiog geill rhagrithwyr,
Un ai ſtâd, reiol rad, o gariad pur geirwir,
Neu 'mado 'n loyw ar enw anwir,
Torri 'r undeb pawb iw randir,
Be dâl priodas gwyr a gwragedd,
Oni bydd cariad yn eu cyredd, (dydd, diwedd,
Gwell byd a fydd, i rhain fyw 'n rhydd, a gwneuthur
Gwell hyn i ninnau rhag hyll, anhunedd,
Neu gyda 'r enw gadw gwirionedd.

4. Cariad brawdol mewn gwirionedd,
Hwn yw rhwymyn pob tanghefedd,
Ag enw cariad rhith brawdoliaeth,
Ar fyrr a leinw fawr elyniaeth,
Dull y ſarph yn twyllo Efa,

Rhydd eglur brofiad o hyn yma, (yn gynta
Dyna r fann, mewn gweniaeth gwan, daeth Sattan
I blannu r agrith oer-chwith archfa,
Yngwinllan cariad lle cywira,
Cariad perffaith yno a dorred,
A chenfigen och! a faged, (pob deilied,
A hon pan ddaeth, oeri a wnaeth frawdoliaeth
Rhoe r brodur cynta hyna ar aned,
I ladd eu gilydd hyn oedd galed.

5. A'r un genfigen gwedi a gode,
Yminronnau brodur amryw bryde,
Gwnai ei feibion *Jacob* oedd wyr cywrain,
Werthu eu hanwyl frawd eu hunain,
A dwendyd celwydd mawr mewn dichell,
I gyfgodi eu moelni mufgrell, (agell,
Rhoi gweniaeth gwâd, o flaen eu tad, ar wyfgiad aur
Fel hyn mae rhagrith dan ei fantell,
Cyd ag allo yn cadw ei gyllell,
Fel caffo ladd y gwyr grymufa,
Wrth ddangos cariad a mwyneidd-dra, (*droya*,
Trwy ragrith claer, bu 'r terfyfg taer, cur dreial *Caer*.
Trwy ragrith ffraeth, yr aeth, *Dalila*,
A *Sampfon* wŷch fel ŷch ir lladdfa.

6. Y rhagrith yma eu gyd a godai,
Ag yn lle cariad 'r ymddanghofai,
Gwelwn yma 'r fath fradwriaeth,
Wnaeth enw cariad a brawdoliaeth,
Nid wyfi 'n gofod mo hyn allan,
I'ch digalonni mewn gwael anian,
Na blino 'r blaid, i brofi heb raid, eu henaid, ei hunan,
Ond nid heb achos mae i fawr a bychan,
Chwylio eu futt a gochel Sattan,
Câr dy gymydog medd yr *Iefu*,
Fel di dy hunan da ydyw hynny,
Ag os ymroi, a wnawn ni a throi, i gnoi a thraflyngcu,

Bob

Bob un eu gilydd, yn ddi gelu,
A dwylo 'r fall, fe ein delir fellu.
7. Mae'r fgrythur lân yn rhoi tyftioleth,
Mewn amryw fan am gariad perffeth,
Does fawr o ddynion yn i feddiannu,
Hyn fy'n wirionedd ellir gredu,
Down at wir brofiad bwriad burion,
Pa fath yw cariad perffaith union?
Gorchymyn ŷw, i ddynol ryw, garu Duw yn ffyddlon,
A'r holl enaid corph a chalon,
Ar nerth a'r meddwl eitha 'r moddion,
A charu ein brodur a'n cymdogion,
'Run fath oludog a thlodion, (gwirion,
A charu 'n fwyn, deg ar dwyn, fel gwaredd wyn
Y rhai fy'n dweud yn ddrwg am danon,
Ag yn ganlynol ein gelynion.
8. Wel dyna gariad y gwirionedd,
Pwy bynnag allo ei gario ai gyrredd,
Nid neb yn fyw nes cael ei glymmu,
Yn baradwyfaidd briod Iefu,
Cariad perffaith rhwng creaduried,
Yn 'r hen Adda ddihenyddied,
Ni cheir ef chwaith, ond trwy wir waith,
'R ail Adda faith ludded,
Nid oes gwirionedd dyfg i'r ened,
Ond or dyn newydd ŵr diniwed,
Gan fod ein cariad mo'r ddiffygiol,
Trown at Grift fe'i gwna'n ddigonol,
Rhydd inni 'n rhâd er llawn wellad,
Wir gariad rhagorol,
'S ŷm yn bwriadu ymroi 'n briodol,
I Dduw ei hun yn ddiwahanol.
9. Pe troe ni 'n frodur cywir union.
Yn ol ein proffes a'n hadd wydion,
Fel hyn rwy'n coelio 'r altrai ein calon,
Fel troi paganied yn griftnogion,

Ni fyddai raid rhoi ffin i'n gwarchad,
Rhag ofer lyfon garw lefiad,
Gwirionedd yw, y byddem byw, yn ofn Duw, ai gariad
Gan gadw ein geirie a'n hymarweddiad,
Mewn côf rymus o'n cyfrwymiad,
Mae ffurf ein bedydd inni 'n bregeth,
Agoriad purffydd cariad perffeth,
Dilynwm hi, ar frawdol fri, hi a'n dwg i reolaeth,
Mae'n gofyn dygyn droeadigaeth,
A grâs ein torri o gwrs naturiaeth,
10. Gan hynny frodur cyd fwriadwn,
Rhag mawr gywilydd ymogelwn,
Fyw drwy ein hoes yn groes i'n proffes,
Rhown heibio oferedd dialedd diles,
Cofiwn *Ninefeh* 'n ddi wegi,
Pan ddaeth gair Duw i'w hargyhoeddi,
Troi a wnaen, trwy rowiog raen, grâs a gaen i 'mgroeſi,
Trown ninneu 'n brudd, drwy ffydd a gweddi,
Duw fydd i'n rhan un fodd a rheini,
Mae gwir adewydion i'r ffyddloniet,
A Chriſt yn galw pechaduried,
I'w llwyr wellau, a'i glanhau oddiwrth bob gau weithred
Duw yn ei ras mewn addas nodded,
Wir nâf a'n dygo i'r nef fendiged. *Diwedd.*

XVII.

CAROL arall a'r yr unrhyw deſtyn, holiad am 3 chweſtiwn; yn 1 pa beth yw r clwb? Yn 2 pa fath ddynion ſy 'n ei gynal? Yn 3 pwy ſydd yn torri 'r cariad rhyngthynt? Ag ychydig eglurhad ag yſtyriaeth arnynt i'w ganu ar Greece and Troy.

XVII.

1. POB cymwys wiwlwys aelod; ſy wedi ymrwymo
I ddyfod i'r gyfarfod hynod hon, (i'r amod,
Mewn geiriau yma agorwn,
Rhowch oſteg i dri chweſtiwn,
Eglurwn a hebryngwn hwy ger bron,
Mae 'r cweſtiwn cynta 'n holiad,
Pa beth yw 'r clwb ar bwriad a barai ei fod?
Yn ail pa fath ryw ddynion,
Sy'n cynal hyn o amcanion?
Yn union cewch eu nod,
Ar trydydd cweſtiwn ydi,
Pa beth ſydd yma'n torri ag oeri 'n gas,
Y cariad rhwng ei aelodau,
Ag yn gwneuthur ymryſonau,
A dadlau am bethau bas? (mynega?

2. Ag am y cweſtiwn cynta, pa beth yw'r clwb
Cymhwyſiad bwriad bura glana gwledd,
I gadw 'r dyn anghenus; yn hen ag yn ddolurus,
I gael ei raid yn foddus hyd ei fedd,
Dan alar mae'n dwyn elw,
A nodded i'r wan weddw, ſy'n chwerw ei chwyn,

I'r 'mddifaid anghyſurus,
Cynorthwy lân haelionus, ddaionus mae'n ei ddwyn,
Mae'n gymorth i'r gymdogaeth,
Yn darian i'r wladwriaeth dalaith dêg,
I gadw tlawd aelodau; heb os afyddai 'n bwyſau,
Dan glwyſau briwiau brêg.

3. Mae fel brawdoliaeth hefyd,
Pe cae ſe ei iawn arferyd,
Ny ni allem fod mewn bywyd hyfryd hedd,
Mae 'n howddgar ag yn gymwys,
Ei agwedd yn yr eglwys,
Fel brodur praidd paradwys wiwlwys wedd,
Pe medrem iawn yſtyriaeth,
A throi at wir athrawieth di weniaeth Duw,
Drwy ffydd a gweddi wreſog; bawb oll mewn,
Anian bwyllog,
A rhywiog yn ein rhyw,
A diffodd pob gwreichionen,
A fago drwy gynfigen cynnen câs,
Cyd ddwyn a beiau eu gilydd, fel ŵyn a defaid ufudd,
Dan grefydd dawn a gras.

4. Trown at y cweſtiwn neſa, ſy'n gofyn etto'n gyſa,
Pa ffaſiwn ddynion ſy yma ſynna i'w ſôn,
Nid allwn mewn gwirionedd,
Mor henwi fawr o'n rhinwedd,
Na'n galw 'n frodur gwaredd dofedd dôn,
O honom mae rhan fwya, heb ddygiad dan oſtyngfa,
Neu ddalfa deddfol ddyſg,
Heb gofio Duw ſydd gyfion, (wryſg,
Na'n dyled i'n cymdogion, fel gwlltion ryddion
Yn ddynion anwybodus,
Yn codi llid trallodus dyrus du,
Ymſennu o ddiffyg ſynwyr,
I ddirnad barn ag yſtyr, ſwm cywir rheſwm cu.

5. Gwerinos a gwirioniaid, annoethion heb ben,
I gynal pennau gweniaid yn y gwaith, (naethiaid
Fe

Fel tŷ heb gongol feini,
Fel llong heb heb ddim hwylbreni,
Nid rhyfedd inni fethi rhwyfo'n faith,
Fel corph heb ben heb lyged,
Fel milwyr heb gaptenied, nid lludded yw eu lladd,
Fel cowrt neu gweſt anghyſon,
A helied o'r gwehilion, heb fawr oreuon radd,
Mae cenedl heb flaenoried,
Fel meirch heb ffrwyn gan ffrymed yn eu ffroſt,
Fel eirth o warthus anian,
Fel twrw teirw *Baſan*, neu daran erwyn dôſt.

6. Fel yr oedd yr hen epheſiaid,
Yn feirwon ag yn ddeilliaid,
Nes agor cwrr eu llygaid i wellau,
Yn ofer eu myfyrdod, yn blant yr anufudd-dod.
Gyn dyfod rhybydd hynod i'w bywhau,
O's holwn nine 'n buchedd,
Cyffelyb ydyw 'n tuedd i'w hagwedd hwy,
Fel y cenhedloedd angred,
Mae ynom ond yſtyried, yw glywed yr un glwy,
Mae llawer iawn o honon,
Heb ddallt ein hegwyddorion union wir,
Na'n cyſon gateceiſio,
Gan dad na mam ein fforddio, i gywir deithio ar dir.

7. Yn rhodio mewn anrhydedd,
Wrth foeſe 'r byd ai faſwedd,
A'r cnawd a'i drachwant burdredd llygredd llawn,
A chrefydd yn ddi gyfri, fel peth afreidiol inni,
A phechod yn blaenori ei dorri ein dawn,
Yn dyngwyr ehud angall,
Yn dyſgu pob cyfrwyſgall air coeg-fall câs,
Yn llwyr anghofio 'n ſydyn,
Air Duw ar ol ei dderbyn,
Fel pettai 'n beiſwyn bâs,
Cwerylu geiriau creulon,
Cyffroi am emmau Mamon waelion wâr,
Ond dyna 'r fath rai ydem,

Rhyw rybndd ow! na chymrem,
Na fariem hyn o far.
8. Ar trydedd gweſtiwn gwaſtad,
Swydd fanwl ſydd ofyniad,
Pa beth ſy'n torri 'r cariad,
Rhwygiad rhydd?
Mae hwn yn hawdd i atteb,
Os gwir yw 'r ail eglurdeb,
Wrth gymaint anghyſondeb yma ſydd,
Y cythraul ſy'n ei dorri,
Hen awdwr pob drygioni, mae 'n oeri ei naws,
Drwy weithio yn ein calonnau,
Bob dichell drwg anwydau,
Rheſymau troiau traws,
Lle bo cynulleidfa o frodur,
Mae hwn yn gweithio 'n bryſur, eglur yw,
I'n gyrru ni gyhuddo, (ei friw,
Bob un ei frawd a'i wawdio, a'i daro i friwo
9. A'i ameu yr ydym ni yma,
Nad ydyw 'r cythraul taera,
Ymhob terfyſg yn ein tyrfa brynta bri,
Fe ddaeth yn hyf heb eiriach,
At frodur oedd ffyddlonach,
Duwiolach ag unionach na nyni,
Tri meibion *Noah* gyfion,
Doe att y rhain yn union i ennyn un,
A'i droi 'n gyhuddwr pechod,
I ddannod noethni anafod, ei hynod dad ei hun,
Fe i gelwir o yn y ſgrythyr,
Cyhuddwr bradwr brodur natur hwn,
Yw 'n gyrru ninnau beunydd, (twnn.
Bawb ei gyhuddo eu gilydd, gwneud deunydd o bob
10. Nid rhyfedd mo'i ddichellion,
Dro llidiog a'i drallodion,
Yn ceiſio diwyno dynion, breuon braidd,
Fe geiſiodd drwy bob gogan, gyhuddo Criſt ei hunan

I fod'

ſod fel ynte o anian aflan flaidd,
phan ddewiſodd Ieſu, Apoſtolion happus deulu,
n glos i'w garu 'n glau,
well dyfais ni allai diafol,
a neſu yn wâs mynweſol, a gwedd Apoſtol gau,
Vel bellach eber Sattan,
li ddoais i'w dŷ ſe i hunan dan ei dô,
radychaf gwnaf wasgariad,
'w deulu ag yn ei adeilad, mawr rwygiad yma ro.

11. Ag ſellu fyth mae ei amcan, ei gynnyg ei ddrwg (anian,
Ymhob cynlleidfa ſechan ledwan lu
Ei 'wyllys a'i holl bleſer, i'w torri ein parch a'n purder
A'n dwyn i'w ogof eger dyfnder du,
Fe fyddai 'r llew yn llawen,
Pe gallai 'n gyrru benben, aflawen lêf,
A'r ol bod yn yr eglwys,
Yn gwrando athrawiaeth iachus, a grymus weddi grêf,
Gobeithio y cymrwn gyngor,
I fyw mewn buchedd ſobor ordor iawn,
A chofiwn pan ſo cyffro neu ymſennu ſattan ſy yno,
Yn ceiſio duo ein dawn.

12. Fel hyn y gallwn ddirnad,
Mai 'r cythraul ſydd yn waſtad,
Yn torri ag oeri 'r cariad bwriad bur,
Duw ro i ni ras ei yſpryd,
A chalon i ochelyd,
Rhag bod yn ddihir ehud, waedlyd wŷr
Caſawr ei frawd cawn brofiad,
Mae Duw yn ei alw'n lleiddiad, anghariad yw,
Pob math o amryfuſedd,
Rhown heibio hyn o ffoledd, ſy lygredd drwg i liw,
Wrth weled ſod y cythrel,
Yn ceiſio cynal rhyfel i barhau,
O! byddwn ddoeth ſynhwyrol,
I ennyn cariad brawdol, yn rheol i'n gwarhau.

CAROL Plygain ar Greece a Troy
yſtyriaeth am gwymp Adda,
ninnau ynddo, an cyfodiad ynghri
yn anian newydd o fywyd yn y
Enaid.

XVIII.

1. YSTYRIWN fel y creuwyd, ſylweddau dyn o'
Ei gwymp a'i godiad hefyd gwedi hyn, (cynfy
Fe a'i gwnaed yn llaw 'r creawdwr,
Yn enaid byw di lygwr,
Cyn iddo goelio 'r twyllwr temptiwr tynn,
Y cyntaf ddyn daiarol, a wnaed yn enaid bywiol,
Yr Apoſtol ſy'n coffau,
A'r ail dyn a gyfodwyd, i adnewyddu 'r bywyd,
Yn yſpryd yn bywhau,
Yn 'r enaid yn ail anian,
Yr Arglwydd nef ei hunan, ydyw hwn,
Duw yn ein cnawd a'n hyſpryd,
Fu'n gorph ag enaid hefyd, mewn penyd dan ein pwnn
2. Golygwn droſodd etto, fel y darfu i Adda gwympo
Fel y mae'r gair yn gwirio am dano 'n dêg,
Fe gwympodd o a ninnau, dan lwyth o farwolaethau,
I fro a chyſgod angau briwiau brêg,
A daliwn olwg eilwaith, ar nodau 'r cwymp a'i effaith,
Anrhaith oedd,
Marwolaeth cywilydd colled, i ran y corph ar ened,
I'w gweled inni ar goedd,
Ag wedi 'r gwall ar golled,

Nid

Nid allai 'r corph amgyffred ened byw,
Bu tarw mewn oferedd, cywilyddo yn noeth a gwaeledd
Rhag dialedd ger bron Duw.

3. Griſtnogion union enweu,
Mae'n rhan yſprydol ninneu,
Yn noeth yn awr fel nhwytheu a'n beieu 'n bwnn,
A'm ein bod eu gyd yn gyf., ynghyfri Duw gorucha,
Yn ſyrthio gyda 'r Adda hyna hwn,
Fel y mae canghenau brigin,
Y pren yn byw 'n ei wreiddin,
Pan ſo 'n eginin gwan,
Fel hyn roedd pawb ar aned,
Yn lwynau hwn pan lunied,
'N cyd fyned yn r un fan,
,R un ffunud y mae ynteu,
Ynglyn yn ein calonneu ninneu nawr,
Yn wreiddyn yn ein llygru,
'N rhoi nodd i'r drwg gynyddu,
A thyfu i fynu yn fawr.

4. Mae arno henwau amrywiol,
Wrth araith yſgrythyrol,
Fe i galwai rhai oedd ddoniol o 'r hen ddyn,
Waith arall y dyn cynta, neu'r dyn daiarol oera,
A'r dyn marw ſulw ſala lleſga llun,
Waith arall y dyn pechod,
A'r cnawd, mae ei henw hynod yn briod yn ein bron,
Roedd *Paul* mewn adnabyddiaeth,
O flinder llygredigaeth, corph y farwolaeth hon,
Chwyliwn ein calonnau,
Wrth reol gwirioneddau dehau Duw,
Pwy ſy ynom ni 'n drigianydd?
Ai 'r marw ddyn di ddeunydd,
Yn dw beunydd, a'i 'r dyn byw?

5. I gadw lle 'r cwympiedig,
Hen leſtr brau methiedig,

'R

'R anfonwyd Criſt yn feddig unig oen,
Ag yn ei le fe ſafodd, a'i natur arno gymrodd,
A'i gerydd a dderbyniodd drwy ddir boen,
A daliwn ſulw i'r eitha,
Mae 'n rhaid i'r ail ddyn yma,
Gael lle 'r dyn cynta 'n llwyr,
Os gallwn ni 'mwahanu, a'n priod cynta a'i wadu,
A hynny cyn rhy hwyr,
Hwn yw mab waſnaeth-ferch,
I'w gyfri megys ordderch yma ſydd,
Ni cheiff fod yn gyfranol,
A mab y ſtât briodol, ryw graddol o'r wraig rydd.

6. Ond priod fab mynweſol ydyw 'r gwir Ieſu grafol
Duw dyn yn un ai bobol raddol rydd,
Mae 'r priod fab cyfaddas, yn ſtafell y briodas,
Nid allan megys caethwas bas y bydd,
Yſtyriwn garedigion, beth yw priodas ffyddlon,
Ond cloi dwy galon gu,
Serch manwl cyd ym uno,
Mawr amod i'e ymrwymo, o ran tario 'n y 'r un tŷ,
Dinam i'r diben yma,
Y daeth y gwir feſia, yn benna i'r byd,
I ymofyn am ddyweddi, 'n iachawdwr pur i'w chodi,
O'i dyfn drueni drud.

7. Yn nirgel ddyn y galon,
Ag nid ymhell fel eſtron,
Mae Duw yn delio a dynion yn eu dydd,
Ny ni ſydd yn eſtronedd,
Yn dweud dychmygion gwagedd,
Fod Duw ymhell o'n cyrredd mewn lle cudd,
Mae'n calon ni pe teimlem yn llawn fel dinas *Bethlem*,
Ucheldrem ſy yn ei chau,
Pan ymddanhoſo 'r Ieſu, ni bydd mo'r lle yn y lletty,
Na gwely i'w 'mgleddu 'n glau,
Ag oni ollyngir meddyg,
I dŷ 'r dyn claf ni chynnyg mo'r iachau,

A Chriſt oddiallan hefyd,
Ni ddichon roddi iechyd, i'n ſymud na'n lleſhau.
8. Mae ſe wrth y drws yn curo,
Ar yr enaid ſwrth i ddeffro,
Gwrandawn agorwn iddo goreu nawdd,
Os clywn ei lais yn galw, pechadur wrth ei enw,
Ei gwmni gawn ni heddyw 'n ddigion hawdd,
Ond ynom ni 'n waſtadol,
Mae ſwn rhyſel-wynt cnawdol,
Coeg hudol cig a gwaed,
Pan alwer ni i ddihuno, mae ſattan etto 'n Sio,
Yn ceiſio tripio ein traed,
Rhown gluſt i'r gwir leſerydd,
Mae ſe 'n tawelu 'r ſtormydd fel hafddydd hin,
Ag yno cawn wir broſiad,
O wledd yr oen dda raniad,
Sy a'i gariad megis gwin.

CAROL Plygain ar Grimſon Velvet yn dangos fel yr oedd Adda yn droſeddwr y deg gorchymyn yng-hardd Eden.

XIX.

1. DYMA 'r dydd nodedig, nadolig unig enw,
Y ganwyd nef etifedd, duwioledd ar ein delw,
H. Pa beth oedd yr achoſion,
I frenhin *Sion* ſanctedd,
Gael yma ei eni heddyw o forwyn ſalw ſylwedd?
A. Yr achos oedd cwymp Adda,
Yn torri 'r amod trymma,
Muſgrella ag anedwydda dyn,

Hwn

Hwn oedd greadur hoyw, Duw a'i gwnaethai,
N wryw a benyw;
Ar ei ddelw a'i henw ei hun,
A chwedi ei gwneud yn gymwys,
I rodio gardd baradwys,
Dros fyth i orphwys yn ei wydd,
Ond dyn er maint ei orfoledd,
Nid erys mewn anrhydedd,
Syrthiai i lygredd faledd fwydd.

2. *H.* Ni thorrodd Adda a'i bechod,
Ond un gorchymyn bychan,
Pa fodd na chowfai fadde,
Am un o afale 'r berllan?

A. Nid bychan oedd ei bechod,
Ond chwilio 'r gwaelod gwelwn,
Nid un; Mae'n ddigon amlwg,
Ei fawrddrwg oedd yn fyrddiwn,
Fe dorrodd Adda ar unwaith,
Y deg gorchymyn perffaith,
Geirwir gyfraith lanwaith lun, (hylla,
Torrai 'r gorchymyn cynta wrth gredu i'r bwyftfil
Yn fwy nag i'r *Jehova* ei hun,
A'r ail fe ddelw addolodd,
Gwneud Duw o'i fol pan flyfiodd,
O'r pren na roddodd Duw i'w ran,
A'r trydydd, henwai 'n ofer,
Ei Dduw pan aeth dan faner,
Y Cythraul eger gwfmer gwan.

3. 'R pedwaredd arch a dorrodd,
Ni chadwodd mo'r orphwysfa,
Roed iddo 'n Saboth hyfryd,
Dros dragwyddolfyd ddalfa,
A'r pumed ni roe 'n weddedd,
Anrhydedd i'w dad rhadol,
A'm hyn ni yftynai ei ddyddieu,
Cae ei fwrw 'n foreu 'n farwol,

Ar

'r chweched arch a dorrai,
N ddilwydd ei hun a laddai,
ngau arno agorai, ei geg,
'r ſeithfed aeth i'w galon,
)dineb ei olygon,
Vrth chwantu 'r aeron tirion tég,
A'r wythfed ſo ladrattodd,
)'r eiddo Duw na roddodd,
)nd a wahanodd iddo ei hun,
A'r nawfed heb yſtyriaeth,
Derbyniodd gam dyſtiolaeth,
Y ddraig a'i gweniaeth ddrwg ei gwyn, (uchel,

4. A'r degfed a droſeddodd chwennychodd fynd yn
A bod yn wr deuallus fel Duw neu megys Angel,
Fel hyn mae 'n eglur inni,
I Adda dorri 'r cwbwl,
Pob rhan o'r gyfraith gyfion,
A'r holl orchmynion manwl,
'Roedd hwn ei hun yn euog o holl bechodau,
Llwythog: Y byd cwmpaſog dan eu pwys,
Ag euog fyth ŷm ninne, o'i fai a'i bechod ynte,
Yn torri 'r deddfe tirion dwys,
Er na wnaeth llawer yma, lofruddiaeth,
Na phutteindra: na lledratta brynta bri,
Pan ddelo barn wrth linin,
I chwylio brig a gwreiddin, mae rhain yn egin,
Ynom ni.

5. Er na roed y gyfraith, nag araith Duw mewn geirau
Nes y derbyniodd *Iſr'el* ddeddf uchel ar ddwy lechau,
Er hyn roedd cyfraith *Moeſen* yn eden le hynoda,
Duw fynnodd ei ſgrifennu, i aneddu 'nghalon Adda,
A phan droſeddodd Adda,
Un pwngc o'r gyfraith yma,
Fe a dorrai 'r cyfa ffola ffair,
A'm fod y gyfraith ſanctedd,
O eneu Duw 'r gwirionedd,

I gyd yn gorwedd mewn un gair,
Sef ceri yr Arglwydd cyfion,
Heb gilio yngwraidd dy galon,
Dyna 'r holl orchmynion mawr,
Pan ballodd Adda unwaith,
Gyflawni hyn o'r gyfraith,
Yr holl deiladaeth aeth i lawr.

6. Wrth hyn y gallwn brofi, i ninne dorri 'r gyfraith
Nid peth y cwbl drwyddi,
Hon fy'n ein holi 'n helaith,
Pan dorrer cyfraith brenhin,
Mae barn yn gerwin gyrredd,
A'r iawn a fynn yw 'r enioes,
Drwy dduloes arw ddialedd,
Fel hyn mae 'r gyfraith gyfion,
Yn ein dal yn garcharorion,
Tan ei bygythion trymion trift,
A ninneu fyth heb deimlo, fod arnom berygl etto,
Wrth wag obeithio croefo Crift,
Mae yma le i gweftiwno,
A oes genym Grift a'i peidio?
Pa fodd y daethom atto ar dir?
Mae'r gair yn dweud mai 'r gyfraith,
Yw'r athraw hylaw helaith,
At Grift a'i berffaith araith wir.

7. Oni ddaethom ni at yr Iefu,
Drwy ein gyrru gan y gyfraith,
Ni ddaethom un ffordd arall, i gyrredd di ball obaith
Hon fy'n dadcuddio pechod, a gwaelod ei ddirgelion,
Hon fy 'n gwneud dyn yn llwythog,
Flinderog yn ei galon,
Amlyga i r enaid truan, ei gyflwr euog aflan,
Ym meddiant Sattan lydan lid,
A'i wrth y gyfraith honno, y cowfom Grift yn eiddo
Ond te 'r ŷm etto hebddo o hyd,

Pa

Pan welo dyn ei g'ledi, dan farn y gyfraith ddifri,
A'i fod yn llawn trueni trift,
Rhag darfod fyth am dano,
Mae 'n dechreu curo a cheifio,
A chalon effro grio am Grift. [holiad,

8. Mae 'n amfer in i bellach droi at fanylach
Pa beth yr ŷm ni 'n farnu,
Am Iefu mewn cymwyfiad?
Mae 'n ddiau ein bod yn fynied,
Fel y ganed e' yn eginyn,
Yr hanes hwn drwy 'r bydo'dd,
A ffrydiodd yn gyffredin,
Ond beth ydyw 'n tyftiolaeth,
Am Grift yn iechydwriaeth,
Heblaw gwybodaeth plant y byd?
Fe wŷr y rhain hyd heddyw,
I genhedlu ar lun ein delw,
A'i groefhoelio i farw ar ifel fryd,
Mae 'r fgrythyr yn rhoi cyfri,
Am fant a phlant y goleuni,
Pwy ydyw rheini, i'w nodi 'n iawn?
Am Grift maent yn gyfrwyddach,
Na phlant y byd, fy'n gallach,
Dan bwyfau bafach duach dawn.

9. Mae plant y byd yn dehe,
Mewn pyngcie a geirie gwrol,
Yn ol goleuni natur a fynwyr defofionol,
Er hyn mae plant y deyrnas,
Mewn gwiwras yn rhagori,
Dirgelwch Crift amlygwyd,
Fe'i rhanwyd rhwng y rheini,
Wir anwyl garedigion, rhown farnedigaeth union,
Prun ŷm ni o'r dynion yn ddi dwn,
A'u plant y goleuni bywiol,
Gwir eglwys Crift a'i bobol?
A'u plant naturiol y byd hwn?

Cofiwn bwngc ein gweddi,
Duw doed dy deyrnas i ni,
A'th wir oleuni hardd ei lun,
Mae 'r deyrnas hon yn dyfod, i galon a chydwybod,
Pob aelod hynod Criſt ei hun. (goleuni,

10. Os ydym heb wybodaeth, gwir lanwaith o'r
I fynd at Griſt gogoned, yn ddeilied i'w addoli,
Diame yr aem ni atto,
Pe medrem chwylio 'r llwybyr,
Ond anhawdd yw 'n cyfarwyddo,
Ni etto wrth ganwyll natur,
Trown at ein cydwybode, o'u gwaelod cyfyd golc,
'R ſeren fore ſiwr a fydd,
Wrth lewyrch hon yn union,
Awn atto fel y doethion,
Rhown iddo anrhegion ffyddlon ffydd,
Y goleuni ſy 'n llewyrchu, yn y tywyllwch pygddu,
Nes iddo enynnu i fynnu 'n fawr,
A'r tywyllwch dû gan dewed,
Heb fedru mo'i amgyffred,
Fel hyn mae 'n heneid ninne yn awr. (ſuro,

11. Ond cymrwn heddyw i'n harwen, y ſeren i'n cy-
Fe gyfyd haul cyfiawnder, o'r uchelder heb fachludo,
O's Criſt a lan ddilynwn, nis rhodiwn mewn tywyllwch,
Fe egyr ei ddamhegion i'r galon a'i ddirgelwch,
Nid Criſt o bell i'w henwi, ond Criſt oddiagos ydi,
Criſt i ni ymborthi yn ffri drwy ffydd,
Criſt i breſwylio ynom, os ynddo y gwir gredaſom,
A'i wyſgo am danom nos a dydd,
Fel hyn mae plant y deyrnas, yn derbyn y *Meſiaſ*,
Gwrol urddas gore ei lwydd,
Ei lais maent yn ei adnabod, yn 'r enaid a'r gydwybod,
Ag yn ei ganfod yn ei gwydd.

12. O Dduw ni a glywſom d' eiriau,
A'n cluſtiau a'th deddfau dyfal,
A'n tadau fynegaſant d' ogoniant i ni i'w gynal,

Caniadhâ

Caniadhâ i ni heddyw ddal ſulw ar ei ſylwedd,
Ag iawn ddeunyddio 'r cwbwl,
Mewn manwl wir amynedd,
Na âd i ni gledu ein gwarrau,
Dan gerydd dy ddyrnodiau,
Fel *Pharo* wrth blauau d'wrthiau di,
Neu 'r Neidr fyddar foddion,
Oer ſŷnn na wrendi ar ſwynion,
Y Rhinwyr doethion ffrwythlon ffri,
Mae 'n barn yn fwy bygythiol,
Na *Sodom* wlad arſwydol,
Os byw 'n annuwiol a wnawn ni,
Dod i ni ar hyn o blygen, oleuni 'th efengyl lawen,
A gras: *Amen* i'w harwen hi.

CAROL Plygain ar Grimſon Velvet, wrth ddammeg y dryll arian, dang-hoſir agoſed yw Criſt at enaid pob dyn.

XX.

1. RHyfeddol fyth mo'r fanwlyw meddwl y'ſgrythyre
A'm Griſt y cywir Brophwyd,
A nodwyd i'n heneidie,
Hwn ydyw 'r gwir oleuni daioni o'r Duw unig,
Yn llewyrchu yn y tywyllwch, anialwch byd anelwig,
A'r tywyllwch heb ei amgyffred,
Ni fedrwn ni mo'i weled na'i yſtyried megis Duw,
Er bod ei ddirgel yſpryd,
Heb bwys na ſwm yn ſymud, yn ein bywyd anian byw,
Er hyn yn anwybodus, i'r galon ofer goelus,

Ag anhyſbys iddi hi,
Ei thwllwch ſy'n ei guddio,
Ag etto 'r gair yn gwirio,
Ei fod ef yno yn eiddo i ni.

2. Mae dammeg y dryll arain,
Yn eglur ddatgan ini,
Fod Criſt yn ein ſtafelloedd a'n celloedd wedi colli,
Goleuai 'r wraig ei chanwyll,
I chwilio ei thywyll gongle,
Nes cael y dryll dewiſol, gwych lleſol a gollaſe,
Fe orfu i hon yſgubo, a chwalu 'r ſothach heibio,
Oedd yn ei guddio 'n ddyfn o'i gwydd,
Wrth iddi lân arloeſi,
Hi a'i cadd, bu lawen ganddi,
Roedd hon yn llonni o ran ei llwydd,
Mae calon dyn 'r un ffunud,
Fel achles ſudr lychlyd,
Yn y tŷ priddlyd, tomlyd hwn,
Er hynny mae 'r dryll arian,
Neu 'r gwerthfawr berl ſydd
Burlan: Mewn pridd a graian ynddi 'n grwn.

3. Criſt ydyw 'r dryll a gollwyd a gafwyd etto 'n goſus
A'r wraig a'i chwyliodd allan, yw ei rywioglan eglwys,
A'r yſgub ſydd gyfflybiaeth,
O weinidogaeth ddidlwyll,
A'i ffydd i gredu 'r efengyl,
Wedd gynil oedd y ganwyll,
Fe â 'r yſgyb hon a'r cyfan,
Mae 'n ſgubo 'r glân a'r aflan, y llwch a'r arian,
Allan oll; a'r ganwyll wrth oleuo,
Sy'n peri i'r perl ympirio,
Oedd yn ymguddio yma ar goll;
A chwedi ei gael ef yno, pob dyn a rydd am dano,
'Rhyn oll a feddo 'n llawen fodd,
Gan ragor werthfawrogi,
Ei geidwad am ei godi, o'r llwm drueni lle 'r ymdrodd.

4. A'i

4. A'i ameu genym yma, fod mab *Maria* rwan,
I'w gael yn fael gorfoledd,
Drwy rinwedd i wir anian,
Pan gollo dyn beth anwyl, yn ei ymyl bydd yn ameu,
Na ddaw i r golwg eilwaith,
Oedd unwaith i'w feddianeu,
Fe gollwyd y dryll yma, yn y dyn daiarol cynta,
Sef delw hardda Duw ei hun,
Ag ar gyfyrgoll erys, oddiwrtho dim ni wyddys,
Hyd oni ymddengys yr ail ddyn,
Yn hwn mae 'r ddelw nefol, yn enaid byw yſprydol,
Anian dwyfol un a Duw,
Ae 'n anian un a ninne, cnawd, yſpryd, gwaed, eſgeirie,
Cyneddfe yn radde o un ryw

5. Mae Criſt y gwir flaguryn,
A dyfai o wreiddyn Dafydd,
Yn nheyrnas gras yſprydol,
Drwy 'r holl gris'nogol grefydd,
A'r deyrnas megis hedyn, eginyn yn ei gynydd,
Y lleia o had y llafur, mewn meſur yn y meuſydd,
Mae 'r deyrnas oleu wiwlwys,
Tu fewn i gorph yr eglwys, yn cael ei chynwys,
Coeliwch hyn: A'r eglwys yn yr yſpryd,
Ymmynwes Criſt ei bywyd,
Dan alwad gwaith ei nwylyd gwynn,
A Chriſt yn y gydwybod, heb neb yn medru ei nabod,
Ond ei briod wiwnod wen,
Mae ei weithrediadau yſprydol,
A'i hanfod anfeſurol, i'r dyn allanol dan y llenn.

6. Peth rhyfedd iawn i'w yſtyr,
I ſynwyr byd preſenol,
Fod Criſt mo'r agos atto, yn athro mo'r ddieithrol,
Nid dim rhyfeddach iddo na llunio a gair lleferydd,
Y byd: A'r un gair bywiol, wnai 'n gnawd,
O ddynol ddeunydd,

A hwn yn ddyn yn rhodio,
Môr troſodd heb betruſo,
A'r gwyntoedd iddo 'n ufuddhau,
Yn codi 'r meirw i fywyd,
Gwneud cluſt a llygad hefyd,
A phob clefyd fu 'n Iachau,
Er gwrthiau anghyffredin, ni chredai 'r byd un tipyn,
Mae fe oedd gwreiddyn y gwir Griſt,
Doe'n atto i hel ei holion,
Heb deuall ei attebion,
Oddiwrtho troen yn ddynion triſt,

7. Nid oes gan yſpryd natur,
I'w wneuthur mwy na nhwythe,
Ond cweſtiwno ag ymrwſtro,
Tramgwyddo wrth ei eirie,
Er bod yn cario proffes, a hanes wan o hono,
Wrth arwydd y llythyren, canhwyllbren heb oleuo,
Wrth hon gwnawn ddwyn ei achau,
O *Abraham* a'r llwythau, hyd fair a'i dygai forwyn deg
O'i lân hiliogaeth liwgar,
Yn genhedlaethau howddgar, cyfrifir dwy,
A phedwar dêg,
Rhown hanes am ei febyd,
A'i fuchedd yn ei fywyd,
A'i angau hefyd waedlyd wedd,
A'i gladdu yn y ddaiaren,
Derchafu o hwn drachefen,
I'r nef ddiſglaerwen lawen wledd.

8. Hyd yma gwnawn ei ganlyn,
A'i dderbyn yn ddiddarbod,
O hirbell nid yn gyfell,
Tu fewn i'w ſtafell briod,
Fel gynt yn *Galilea*, 'roedd tyrfa fawr o'i gwmpas,
Yn lanwaith a'i dilyne, tros donne môr *Tiberias*,
Wrth weled ei rinwedde, a'r cleifion a Iachauſe,
A'r dyrfa borthe a'r torthe haidd,

Pan

Pan aeth ef yn fanylach,
I'w dyſgu ei gredu 'n gryfach,
'Roedd natur grwgnach yn ei gwraidd,
Pan ddweudodd y gwir brophwyd,
Mae efe oedd bara r bywyd, y rhain a dagwyd,
Yn eu dyſg: Ei ymadrodd wrth ei wrando,
Oedd galed iddyn goelio,
Ni fynnen mo'no i fyw yn eu myſg.

9. Rhain oll oedd yn Broffeſwyr,
Gwrthgilwyr gyrrith galon,
Ag maent yn ſiampl heddyw,
I bawb ſy a'r enw Criſtion,
Nad ydyw pyngciol broffes,
Ond anwes ſydd mewn dynion,
Enynnant opiniwnau,
Fel lampau 'r ffol forwynion,
Cyffeſu Criſt a'n gene, a'i wadu yn ein calonne,
Fel hyn y bydde gweiſion *Baal*,
'Roedd proffes yn ei chario, gan rai a ddweudodd wrtho
Fod cythraul ganddo i ſwyno 'n ſal,
'Roedd yſpryd yn ei gredu, ag yſpryd yn ei wadu,
A'r ddau 'n croes dynnu n geccrus daer,
Mab Duw medd un heb ame,
A'r llall mewn diball dybie,
A'u byrr feſure 'n fab i'r Saer.

10. A ydym ni 'n cyffeſu,
'R pur Ieſu fu'n y preſeb ?
Gwir ydyw 'n bod mewn proffes,
Wrth hanes ei ddoethineb,
Ag er cyffeſu ei enw,
Pe deuai heddyw ein profi,
Mae ynom ninneu anian,
A'i gwad e'n fuan gwedi,
Ni welſom mo'no 'n eglur,
Yn croeſi cnawd a natur,

A chraig o rwyſtyr ochrog ryw,
Poen penyd i bob hunan, maen tramgwydd,
A chwymp allan,
A phawb na adwaenan e'n fab Duw,
Adnabod ein perthynas, ag eſo mewn priodas,
Fel mae 'n gyſaddas i ni ſod,
Yn ddall, yn gloff, yn gleifion,
I'r meddyg dyna 'r moddion,
Y down ni yn union dan ei nod.

11. Ond pwy ſynegodd i ni,
'N trueni trwy air union,
Ein bod yn gleifion fellu,
'N ddiallu ag yn ddeillion,
Does neb a ddichon ddatgan,
Ond Duw ei hunan hynny,
Mewn goleſyneg eglur, i wan greadur gredu,
Fe alwodd yr *Iuddewon*,
Gynt yn dwyſogion deillion,
Ag ni chredaſon i'w air doeth,
Ond dweud eu bod yn canſod,
Am hyn arhoſai eu pechod,
Ar eu cydwybod naſod noeth,
Dallineb o'r un llenne, ſydd arnom ni a nhwythe,
Heb yſtyriaethe yn adde 'r nŷch,
Yn ddall, ag ni ddeuallwn,
Gan feddwl y canſyddwn,
Gobeithio gwelwn bethau gwŷch.

12. Pan deimlom mewn ffyddlondeb,
Ddallineb ein calonnau,
A'n bod yn bechaduriaid,
O'r enaid daw gruddfannau,
Mae Criſt yn rhoi goleuni,
Ag eli wrth ein golwg,
Cawn weled rhodio ei lwybyr,
Yn eglur ag yn amlwg,
Ond dyſgwn na wiw diſgwyl,

I lewyrch yr efengyl, dywnnu a'r ddelw,
Bwyſtfil byth,
Hon ydyw anian pechod, a lygrodd ein cydwybod,
Hen ſarphedd ſurdod chwer'dod chwyth,
Mae Criſt y gwir oleuni, yn gwmwl tywyll iddi,
A dallach ydi o'i dwllwch ê'
Fel yr oedd e'n dallu 'r anghred,
Di gywilydd oedd yn gweled,
Gan ameu eu llyged yn eu lle.

13. Mae goleu 'r *Iſraeliaid*,
Yn tywllu 'r *Aiphtiaid* etto,
Mae ynom ninneu *Aiphtiaid*,
Dae'n henaid yn dihuno,
Fe geir ond chwylio 'r galon,
Ddwy anian dynion dinerth,
Sef had y wraig a heppil, y ſarph anghenfil,
Anferth; Fel hyn mae Duw 'n gwahanu,
Rhwng tywllwch a goleuni,
Sydd efo nyni am fyw yn un,
Neillduo 'r duwiol anian,
Oll iddo ei hun yn gyfan,
Oddiwrth yr hunan a'r hen ddyn,
Gan ſarwolaethu beunydd,
Yr hen a chodi 'r newydd,
Yn union lywydd yn ei le,
I hwn mae Drws agored,
I ymorol am ymwared,
Enw a nodded yn y ne.

14. A ddelo i'r profiad yma,
Fo ſeinia ſawl cyſonedd,
Fe egyr Duw ei lyged,
I weled pethau rhyfedd,
Cyſgodai 'r hwyr yn cilio,
Oddiarno a diſglaer ddiwrnod,
Y ſeren foreu eglur dan wybyr i'w dynabod,

Celff

Ceiff weld pyrth uffern dywyll,
Oll wedi torri 'n gandryll,
A oedd yn erchyll iawn i ni,
A phyrth Caerſalem newydd,
Yn agor cyrre eu ceurydd,
I fyned i'w heolydd hi,
A chlywed utgorn cyhoedd,
Yn galw 'r holl genhedloedd,
A theyrnas nefoedd yn neſau,
A'r newydd da a'i gwna 'n fywiog,
O eni Criſt eneiniog,
Oen galluog i'n gwellau.

Carol Plygain ar gwel yr Adeilad; yn cynwys amrywiol yſtyriaethau am Griſt a'i eglwys.

XXI.

1. MYfyriwn fel arferol,
Pob pen ag awen raſol, gân i'r Ieſu,
Mewn odlau pêr yſprydol,
A phwy ſydd yn ddigonol heddyw i ganu?
Pwy ſydd: Yn perchen yſpryd ffydd?
O fewn ei fynwes, i ganu 'n gynes,
Yn lle gwag ogles, yn ol yr hanes rhydd,
Nid ydyw 'r hyn ſy i'w canfod,
Ond cyſgod pethau cudd,
Gwir lun: A hanfod Criſt ei hun,
'Doedd ei gnawdoliaeth, ond cyfflybiaeth,
O'i yſprydoliaeth diweniaeth ymhob dyn,
A delw corph yſprydol tragwyddol tri ag un.

2. Pa

2. Pa beth yw corph yſprydol,
Creadur newydd nefol duwiol anian?
Pa beth yw corph yr eglwys,
Priodas ferch paradwys, berlwys burlan?
Beth yw: Corph pechod yn ei ryw?
Cyrph dirgeledd heb ſwm pa ſylwedd,
I'n golwg gwaeledd,
Gwan clafedd ag ein clyw,
Er hynny 'n agos attom,
Bob dydd tra byddom byw,
Ond dyn: Pan ddarfu lygru ei lun,
Goleuni perffaith, a giliodd ymaith,
Nis gwyr yſywaith, mo i hanes maith ei hun,
Gŵyr well ſy mhell oddiwrtho,
Na 'r pethau ſy ynddo nglyn.

3. Am anedigaeth Ieſu,
Mae genym hanes hynny 'r ocs breſenol,
Or forwyn bur ym *Methlem*,
A hyn ſy mhell oddiwrthem ar lle 'n ddieithrol,
Pwngc clir: Yw hwn ers amſer hir,
Un mil a ſeithgant, a ſeith-ddeg rhifant,
A phedair meddant dan warant i ni 'n wir,
Er pan ſu hyn dros foroedd,
Filldiroedd pell o dir,
Nid yw! Yr hanes yn ei rhyw,
Er mae gwirionedd, ond pell o'n cyrredd,
Ag yn rhy wannedd, i'n dwyn,
Mewn hedd a Duw,
Neu 'n hargyhoeddi heddyw,
I godi o feirw i fyw.

4. Ffordd nes gan *Paul* danghoſwyd,
Amlygu Criſt yn ſywyd i'r cynlleidfaon,
Nid Criſt o bell oedd ganddo,
Ond Criſt oedd gyda 'g eſo, i'w gadw 'n gyſion,
Eſe ſu: Yn ei elwys gymwys gu,
Yn ei dyweddio, fel morwyn iddo,

Gwedi

Gwedi ei phuro, i flodeuo yn ei dŷ,
Yn hardd fel Lili 'r dyffryn,
Yn deg heb frychŷn du,
'Roedd cenn: O frychni 'n llenwi 'n llen,
Yr eglwys eurgod, ſef brychau pechod,
Ond pan gae nabod ei phriod Criſt ei phen,
Hi ae fel yr eira yn Salmon,
A'i gwawr yn ddigon gwen.

5. Yn apſen Criſt o'i winllan,
Doe rhuad teirw Baſan a'u twrw 'n bwyſig,
Y baedd o'r coed a'i turiai,
Pob bwyſtfil drwg a'i porai, a dreigiau peryg,
Ar lawr: I'n dyſgu ninneu 'nawr,
'Roed gwerſiau 'r doethion, adwaenai yſprydion,
Bwyſtfilod hyllion, a ſurion drwg eu ſawr,
Oedd fel llwynogod cyfrwys,
Yn 'r eglwys wiwlwys wawr,
Mae rhain: a'u hanghyſonol ſain,
Hyd heddyw 'n torri i 'n holl eglwyſi,
Mae 'n hawdd eu profi fel drwg fieri a drain,
Geill pob dyn gael eu hanes,
Ond chwylio ei ſynwes fain.

6. Pa beth yw gwreiddyn gwagedd,
Balch agwedd ffrwd oferedd ffair difyrrwch?
Y llywon a'r holl awydd,
Y dwyll a'r drais doſt arwydd, a'r diyſtyrwch?
Beth yw: Ond apſenoldeb Duw,
Fod gallu Sattan yn goſod allan,
Yr yſpryd aflan y rwan yn ei ryw,
Yn rhodio 'r byd mewn rhydid, heb newid dim o'i liw
Y fath lun: Sy ar eglwys Duw ei hun,
Cynifer aelod ſy'n dilyn meddwdod,
Trachwantau pechod, drwg dafod gormod gwyn,
Fel mwg y pwll diwaelod, yn dyfod o fewn dyn.

7. A rhai mo'r anyſtyriol,
Fel pettai Duw na diafol ond dwned ofer,

Nag

Nag angau a barn i'w credu
Nag uffern boeth ei gallu, ond peth i gellwer,
Cyn hir: Ceir clywed matter clir,
Daw dydd bydd cyfri, pan Dduw celi,
A ſwyddog difri ein torri oddiar y tir,
Cawn weled fod yr eſengyl,
A'r gweryl plaid y gwir,
Beth ddaw: O fronnau ſy 'n ddi fraw,
Yn gwneud yſgaſnder o farn cyfiawnder,
Difyrru 'r amſer, i drymder neſu draw,
Holl foeſau da ein henafied fe'u llygred yn ein llaw.

8. Y plygain ddyd nadolig,
A wnaed i'n galw'n yſtig ein heglwyſdai,
I addoli Duw ſe ddylid,
A'i dyna ſwydd ieuengctyd, ſydd yno 'n fintai,
Nage: Os ceiff y gwir ei le,
Ond maent yn dyfod yn ol y ddefod,
I ddiſgwyl canfod rhyfeddod ynddo ſe,
Sydd well gan feddwl gwibiog,
Na Chriſt eneiniog ne,
O'r fan: Yn lluoedd eir i'r llan,
Heb fawr o brofiad,
O'r llawn ddarlleniad, am eni ein ceidwad,
Gynt mewn agweddiad gwan,
A mwy o ffanſi ffoledd, na rhinwedd yn ein rhan.

9. Trueni ſad arſwydol,
A ddygodd pechod gwreidiol ar bob gradde,
Er gwneuthur dyn mewn glendid,
Hwn yn y lle creuaſid nid arhoſe,
A'i le: Oedd fuddiol iddo 'ſe, yngardd paradwys,
I'w enaid orphwys, pob da 'n ei dywys,
Yn gymwys eſo ag e,
Mewn ſtât o anfarwoldeb,
Dan undeb a Duw ne,
An 'noeth: Fu berw natur boeth,
Pan gollai ei goron, hardd wyſg angylion,

Wrth

Wrth gilio o galon y gwirdduw cyfion coeth,
I'r byd ar cnawd a'r cythrel, a'r ddelw 'r nifel noeth.
10. Gwaith *Moſes* a'r Prophwydi,
Oedd dangos y trueni trwy wirionedd,
Ag er fod camwedd cymaint,
Fod nodded trwy ragorfraint o drugaredd,
A rhai a gredodd bwys eu bai,
Er cyfur cowfant gan Dduw faddeuant,
A'u dwyn i ogoniant, a u llwyddiant ni bu'n llai,
A rhain mewn gwysgoedd gwnnion,
Ar fynydd *Seion* a fai,
Hyn fy: Mae etto le 'n ei dŷ, ni yrr ef allan,
Na mawr na bychan,
Pechadur aflan yn druan atto drŷ,
Fe ŷlch yr anghyfiowna, fy a'r dolur mwya du.
11. Hyn allwn ddweud a'i wrando,
Mewn trymgwfg heb ddihuno yngwraidd ein henaid,
Yn feirw Dduw yn fyrion.
Ag etto 'n fyw a dewrion efo 'i greaduriaid,
Gwir yw: Ped fae ni 'n fyw i Dduw,
Fe fyddai pechod, ar y gydwybod,
Yn fraw a chryndod i 'n bronnau 'n ormod briw,
Mae n faich ag yn afiechyd, yn boen i yſpryd byw,
Mo'r ffri: 'Roedd Dafydd yn rhoi cri,
Rhag haint echryſlon, pechodau cryfion,
Maent yn rhy drymion a mowrion yma i mi,
Fel gwallt fy mhen o amledd,
Mo'r rhyfedd yw eu rhi.
12. Does dim a wir fodlona,
Yr enaid byw yſtyria ei ſtyria ei ſtat doſturus,
Ond Ieſu craig yr oeſoedd,
Phyſygwr da i laweroedd, o rai dolurus,
Pawb mi wn: Sy ag eiſieu 'r meddyg hwn,
Pob cnawd ag yſpryd a gadd y clefyd,
Mae pechod brychlyd yn crino 'r hollfyd crwn,
Heb fawr yn teimlo niwaid cwymp enaid cymin pwn,

Am

Am hyn: Cadd Ieſu dalu 'n dynn, ei daer gondemnio
A'i watwor etto, ei ſâl groeſhoelio,
A'i waed yn llifo 'n llynn,
I gadw 'r dyn a gollodd, a hwnw o'i fodd ni fynn.
13. Rhoi cynig miwſig maſw,
Uwch ben corph dyn yn farw dyna oferedd,
Mae corph yr eglwys hithe,
Yn farw ynghyſyng gaere, angeu 'n gorwedd,
A than: Gyfodo oddiyno i'r lan,
Nid yw tyſtiolaeth, am anedigaeth,
Criſt a'i farwolaeth, ond megis gweniaeth gwan,
Er maint ſy'n curo cerydd i'w mennydd ymhob man,
Nid dyn: Er addyſg roddo 'r un,
A ddichon agor y llen gagendor,
I ddirnad nemor o gyngor Duw ei hun,
Er bod pregethwyr nifer yn gwneuthur llawer llun.
14. Ond ffyddlon dyſt yr Arglwydd,
Yr yſpryd glan diddanydd Duw a'i ddoniau,
Hwn ſydd yn chwylio 'n fanwl,
Holl gyngor Duw a'i feddwl cywir foddau,
Y llef: A ddel o'i anian ef,
Gwna i'r byd gwynhyrfu, a'r cnawd ddiflannu,
A'r cythraul gredu dan grynu o'i gadwyn grêf,
A'r eglwys lan drwy 'r hollfyd,
Wir adde ei nwylyd nêf,
Ei chlô: Duw eill ei agor o,
A'n gwir ddychwelyd, dadebru ein hyſpryd,
A'n ddeffro i fywyd, o'n breuddwyd yn ein bro,
Amen, a Duw yn mynnu, a byth boed fellu bo.

Carol Plygain ar Grimſom Velvet; yn dangos y mynn Criſt Deyrnaſu yn yr enaid.

XXII.

1. CYD ganwn ag Addolwn,
Molianwn yma ar liniau,
Yr Arglwydd Hollalluog,
Duw enwog am ein doniau,
Hwn ſydd er tragwyddoldeb,
Yn ei ddiſgleirdeb cyhoedd,
Yn oll, yn oll, ei allu, 'roedd cyn ſylfaenu 'r nefoedd,
Yn un mewn hanfod ſanctedd,
Heb rannau corph heb ſylwedd,
Heb ddechre, heb ddiwedd rhyfedd yw,
Yn dri drwy 'r un gwirionedd
Tad, Mab, ag Yſpryd puredd,
Mewn arwydd weddedd yn wir Dduw,
Yn llenwi 'r nef a'r hollfyd, yn anweledig hefyd,
I gnawdol fywyd nychlyd naws,
Yn nes at ein calonne, na'n cryſe ſy am ein,
Cefne: Yn barnu 'n geirie a'n troie traws.

2. Heb rinwedd hwn diame, nad alle bwyd a dillad,
Mo'n cadw 'n fyw na 'n cynal,
Er cyſtal ŷnt yn waſtad,
Pa beth yw dyn wrth hynny, ond llwyr anallu,
Hollawl? I ffroſtio yn ei rymmuſter,
Ar dafod ofer difawl,
Pa ham yr ymderſyſga, cenhedloedd y byd yma,
Ag y myfyria rhain mor fawr?

Am

Am bethau darfodedig,
Mewn byrroes megys barrig,
Sy'n toddi 'n llithrig tu a'r llawr,
Ond eiſiau credu a nabod,
Cyflawnder mawr y duwdod, yn yr hanfod hynod hon,
Sef yn y corph ſylweddol, a wnaed trwy 'r gair
Tragwyddol: O'r forwyn freiniol union fron.
3. Hyn ydyw grym gwir grefydd,
Ei chynydd a'i chychwyniad,
Heb hyn mae 'n ofer broffes,
Yn ddiles bob addoliad,
Diolud a di elw, fydd enw Criſt i ddynion,
Heb 'nabod Criſt yn ddeddfwr,
Pen gwyliwr yn y galon,
I'r diben hwn o bwrpas, y daeth y gwir *Feſſias*,
I lawr o'i deyrnas ar ei daith,
Yn unig i gyflawni, y gyfraith a'r Prophwydi,
Ni cheiſiodd oedi gweini 'r gwaith,
Ag nid er mwyn ei gablu, ei watwar a'i ddirmygu,
Ond i deyrnaſu a meddu ein myſg,
Frenhiniaeth dan ei goron,
Ag i reoli 'n ffyddlon,
Galonnau dynion glana dyſg.
4. Pob brenhin ſy'n teyrnaſu,
Gan Arglwyddiaethu 'n ethol,
Fe gedwir ei reolaeth, ymhob llyfodraeth fydol,
A Chriſt fydd frenhin heddwch,
Cadarnwch yn ei deyrnas,
Mae ganddo fodd i'w threfnu,
Ag i'w harddu 'n deg ei hurddas,
Yr wan ceiſiwn ddyfod,
At eiriau Criſt er gwybod,
Fod yr amod yn ei rŷm,
Mae 'n dweud fod teyrnas nefoedd,
Tu fewn i ymyſgaroedd,
Ein hyſprydoedd lleoedd llym,

A ydyw 'r deyrnas honno,
O'n inewn yn ein goleuo,
Sydd wedi ei haddo 'n eiddo i ni?
Ymhle mae genym deimlad,
O'r deyrnas chwaith na'i cheidwad,
Mewn barn a phrofiad yma 'n ffri?

5. Oni welwm hyn yn oleu, wrth rai rhesymeu sumul,
Yn ol yr ysgrythyr berffaith, y gyfraith a'r efengyl,
Fod ynom ni 'n teyrnasu,
Elynion Iesu yn oesog,
Y byd a'r cnawd a'r cythrel,
Mae 'n oerfel yma 'n arfog,
Mae balchder a chybydd-dod,
Cenfigen, diogi a meddwdod,
Cyfrwysta, pechod, trallod trist,
Yn ceulo 'ngwraidd ein calon,
Bob moment milwyr *Mamon*,
A hen elynion creulon Crist,
Mae plesser ofer nwyfiant,
Pob brychni, trychni, trachwant,
A gwag ogoniant goeg ei gwŷn,
Mae cabledd enllib celwydd,
Drwg araith ag ynfydrwydd,
Ond sal yw deunydd sywedd dyn.

6. Gorthrymder, trawster, cnafri,
Sydd yn rheoli 'n helaeth,
Am elw 'n cadw malais,
Swydd-ymgais am orchafiaeth,
Ymrysón calon gledwch, dihirwch erthwch wrthun,
Ymddial a drwg wllys, i gynwys llid a gwenwyn,
Dig ag anghymdogaeth,
Bryd oeredd a bradwriaeth,
Ag anghrediniaeth syniaeth sal,
Angharíad twyll a ffalster,
Sy'n llygru eglwys lloegr,
I'w dwyn yn biler i dy *Baal*.

Tra

Tra delo rhain i'w dilyn,
Yn ffrydoedd mo'r gyffredin,
Y maent yn fyddin mintai fawr,
Yn cadw brenhin ſhilo, rhag dwad i'w dihuno,
Dan ſalurio ei dŷ ſe i lawr.

7. Nid ydyw 'n lleſiad llafar, ſel adar difawledig,
Am Griſt ond rhyw gymyſgedd,
Go ryſedd a gau ryſig,
O's ŷm am gredu gwridwn, cywilyddiwn er cael,
Addyſg: Deuallwn i ni ymdwyllo,
Rhyw ymrwyſo 'n rhy amryſuſg,
Mae dyſais gan y diaſol,
Gwnaeth ſagwyr anorchſygol,
O hyſdwyll hudol reddſol ryw,
Yn orchgudd ar ein golwg,
I'n deiſio ni yn y duſwg,
A'n dwyn i ſowrddrwg amlwg yw,
Oni chawn ni nerth a gallu,
Hawl pwyſig o help Ieſu,
Mae wedi 'n dallu ni yn ei dwyll,
Gweddiwn Dduw o'r galon,
Gael agor ein golygon,
Gan geiſio 'n burion gyſon bwyll.

8. Ond ſe ellir cael gwrthddadle,
Mewn geirie dros drugaredd,
Fod pawb yn bechaduried, a'r aned mae 'n wirionedd,
A dyſod Criſt i'n cadw, a'n codi o feirw i ſowredd,
Yn gyfaill rhag digoſaint,
Er cymaint yw ein camwedd,
Ond gwyliwn oſod Ieſu, 'n achlyſur i ni achleſu,
Yn ffordd y fagddu o bechu byth,
Gan addo i'n hunan gnawdol,
Drwy foddion anrheſyddol, i gaere neſol gore nŷth,
Nid yw 'r yſgrythyr ſanctedd, *Heb.* xii. 14.
Yn addaw dim trugaredd, *Iag.* ii. 13.
Heb dduwiol ſuchedd gliriodd glain,

A chredu yn y gwrthwyneb, ſy'n tro gair Duw 'n,
Ffolineb; heb ddim cyſondeb yn ei ſain.
9. Mo'r hawd i ddynion ehud,
Yw ſymud y mynyddoedd,
Cyfodi 'r meirw o'u beddau,
A rhodio ar donnau 'r dyfroedd,
Ag ydyw dringo i *Seion*,
Dra chyfion drwy orchafiaeth,
Yn erbyn yr yſgrythyr,
Hoff lwybr di gyfflybiaeth,
Sgrythyrau Duw drwy ei yſpryd,
Sy 'n cadw ffordd y bywyd,
Yn arfau tanllyd noethlyd naws,
Ni thorrir un o honyn, i gadw enaid undyn,
Nid â fyth trwyddyn elŷn traws,
Maent heddyw 'n daer wahoddion,
Addewydion o fendithion,
Wrth y gorchmynion rhoddion rhwydd,
Ond te maent yn felltithion,
Yn gloye a barrie cryfion,
A'n cau o *Seion* yw eu ſwydd.
10. Ni chafodd Criſt ei hunan,
Droi heibio 'r gwppan chwerw,
Rhag torri 'r gair cywira,
Pan fwried e' yma i farw,
Ped faſai fodd i feiddio,
Heb wyro dim o'r bwriad,
Drwy undeb cowſai ei wrando,
A'i ſafio ar dair deiſyfiad,
Er dweud yn gyffredinol, fod Criſt yn brynwr,
Breiniol; iawn digonol i ni gyd,
Ag iddo ddiodde 'n ddiddig, dros Adda,
A'i hil ſyrthiedig, oedd yn golledig yn y llid,
O's cymrwn ni 'r ffordd honno,
I'w chalyn heb ei chwylio,

Nid

Nid allwn ni yno wirio ei air,
Sy'n damnio 'r byd annuwiol,
Gan ddweud fod torf anfeidrol,
Yn mynd i boen tragwyddol bair.

11. Addefwn heb gau ddyfes,
Faith rodres fath rai ydym,
Nid ŷm ond adail dywyll, er bod y ganwyll,
Genym; Mae 'n lampau 'mron diffoddi,
O ddiffyg eli ag olew,
Yn cyfgu 'n fwrth a fegur,
Ym min y budr bydew,
Er codi o haul cyfiawnder,
Byw eurdeg yn ei burder,
I roi goleuder yn ein gwlad,
Daeth amryw ddiffygiadau,
I lwydo 'n goleuadau,
Dwl yw eu fiamplau dilefâd,
Sèr firiol feiri Seion, fydd Aerod ar fwydd
Aaron: Rhag haeddu achwynion heddyw 'n chwith,
Duw difgyn yma i'w dyfgu,
I fucheddu ag adeiladu,
Hyderu, plannu d'air ein plith.

12. Mil feithgant chwedeg ydynt a chweblwydd,
Attynt etto; fy am oedran Crift yr Arglwydd,
Brins hylwydd *Brenhin Shilo*,
Duw ro i ni ras i'w dderbyn,
A'i galyn fyth heb gilio,
Dan obaith ei adnabod, yn briod ein gwobrwyo,
Duw cadw ein brenhin ethol,
Y trydydd *Sior* yn firiol,
I ti 'n ddewifol weddol was,
A breiniol deulu 'r goron, rhag wllys drwg
Elynion: A thynn hwy i'r union wrth wir ras,
Dewygia gorph ein heglwys,
O'r fuchedd hen afiachus,

Sydd

Sydd yn yr ynys echrys yw,
Tro gyrrau 'r byd i'th garu,
Dan wybyr na'th adnabu,
A gwna ni fynu 'n deulu Duw.

Carol Plygain ar Grimſon Velvet; Adda 'r dyn Cynta 'n mynd yn lleſtr i amharch; yr ail Adda 'n cael ei wneud yn lleſtr i barch.

XXIII.

1 POB perchen enaid unol, anfarwol, union fwriad,
Gorfoledd i ni heddyw gael cadw gwyl ein ceidwad,
Cyflawnwyd y Prophwdi,
Fu 'n rhagfynegi o'r cynfyd,
Am had y wraig i rwygo, ag yſigo 'r ſarph wenwynllyd
Ein natur ni oll a lygrwyd,
Yn y dyn cynta greuwyd, collaſom fywyd ynddo fe,
Sef bywd o eſmwythdra,
Anadliad y gorucha, I fyw, mhreſwylfa noddfa ne',
Troi yno fodd truenus, I fuchedd bechadurus,
Cwymp anafus oedd i ni,
Fynd allan o'r meddianne, goſodwyd ni ar y dechre,
Uchel ddonie breintie a bri,
2. Beth oedd y ſtât a'r natur, y darfu ein gwneuthur,
Ynddi? Hon oedd y natur ddwyfol,
Dedwyddol oedd dwad iddi,
Gwir ddelw Duw ei hunan ſancteiddlan anian enwog,
O gariad a gorfoledd, diball amynedd bwyllog,
A'r natur yma roddwyd, mewn dyn o bridd a grewyd,

Fei

Fe'i cyfranwyd hi yn ei fron
A'r lleſtr pridd pan ſyrthiodd,
Naturiaeth ynddo torrodd, anſſurfiodd llwyr wahanodd
A Dyn aeth iddo ei hunan, (hon,
I gynwys meddwl aflan, o farus anian gyfrwys ŵg,
Yn lle diniweidrwydd code,
Dichellion traws ſwriade,
Gelyniaeth gwnie dreigie drwg. (anian,

3. A Duw oedd anghyſnewidiol, yn ei ſanctteiddiol
A dyn aethai 'n bechadur i natur ſudr aflan,
Nid allai fod cyſondeb, cymundeb na bodlonrwydd,
Rhwng y ddwy natur hynny,
Oedd yn gwrthwynebu eu gilydd,
Cyſiawnder y Duw perffaeth a lanwodd o elyniaeth,
At bechod llyredigaeth dyn,
A dyn aeth mewn llidiawgrwydd,
Yn erbyn gwir ſanctteiddrwydd,
Da anian hylwydd Duw ei hun,
Goleuni oedd un a bywyd, a'r llall yn dwllwch pyglyd,
Marwol yſpryd unfyd oedd,
A Chyfraith Duw yn ei ddala,
'N cyhoeddi 'r farn gadarna,
I 'w ddial yma blina bloedd.

4. Trugaredd daeth i edrych gan chwenych gwneud,
Achwynion: I gadw 'r natur ddynol,
Ddiniſtrol, aethai 'n eſtron,
Os aeth y lleſtr cynta, o r priddyn yma i ammarch
Gwnawn etto 'r ail ddyn perffaith,
Ar obaith I oreubarch,
Bydd hwnw 'n lleſtr ſanctedd, I bara hyd y diwedd
O rywiogedd had y wraig,
I ddwyn y natur ddynol, i'r undeb perthynaſol,
A'r natur ddwyfol gwreiddiol graig,
A phwyntiwyd y *Meſſia*, o fynwes y *Jehova*,
Yn wir ail Adda ar ei lun,
Ag ynte addawe ddwad, oen geirwir yn ei gariad,
I godi had i'w frawd ei hun.

5. Cyſiawnd

5. Cyfiawnder mewn tawelwch,
A heddwch ymgyfarfu,
Trugaredd a gwirionedd gyfonedd I 'mgufanu,
A'r gair am had di lygredd, yn gydwedd hwn a gadwyd,
A morwyn bur o'i gwirfodd,
Feichiogodd o'r Addewyd,
A'r gair yn gnawd fancteiddlan,
A wnaed gan Dduw ei hunan, yn faban bychan,
Yn y byd: I wyfgo natur Adda,
Ceneddfau 'r dyn truana, fe'i cariodd yma 'n gyfa i gyd,
Aeth dan y pechod gwreiddiol,
Oedd yn y natur ddynol, fel achos haeddol,
Iddo ei hun: Ag a'i cymherai 'n briod
I gael o'i gywir hanfod,
Ail eni 'r duwdod yn y dyn.

6. Ar ddelw 'r dyn daiarol, pan ddaeth y grafol Iefu,
O'r genedl a'i difgwylie,
Y rhai gore y 'roedd e'n garu
Pan welent e' yn ei waeledd,
Heb ddim anrhydedd iddo,
Eu brenhin nis derbynient, ag ni ddymunent mono,
'Roedd yfpryd prophwydoliaeth,
Wedi diflannu ymmaith,
A'i hanghrediniaeth oedd yn doft,
A thraddodiadau dynion, oedd wedi ceulo eu calon,
Wrth fyw 'n anffrwythlon yn eu ffroft,
A chwedi gwneud y demel, yn ogof lladron dirgel,
Megys *Babel* chwedel chwith,
Lle bafai Duw yn ei gariad,
Doedd yno ond ffair a marchnad,
A delw addoliad rhediad rhith.

7. Pan ymddanghofodd Iefu, i wir wrthwynebu pechod,
Ychydig a'i haddefe, er gwrthie na rhyfeddod,
Am yr Iuddewon etto nid allwn feio arnyn,
Eu bod drwy dwyll eu pechod, di ddarbod heb ei dderbny,

Yr

Yr achos o'i wrthodiad, hyn oedd ei ddaroſtyngiad,
Am fod cariad yn ei ran,
Roedd tan awdurdod arfog, y tair gelyniaeth lidiog,
Cleddyfau miniog ymhob man,
Llid a chynddaredd dynion, tu ag at ei dduwdod,
Cyfion: Yma 'n elynion am ei ladd,
Digoſaint Duw 'n dân yſol,
Tuag at ei natur ddynol,
Am ſeie gwreiddiol o bob gradd.
8. 'Roedd Satan mewn gelyniaeth,
At ei lywodraeth gadarn,
Gan geiſio ei demptio i bechod,
I ddyfod dan y ddufarn,
A'r temptiwr teg ei ymadrodd, nid allodd yma ei dwyllo
Ond daliodd dan hudoliaeth y broſedigaeth honno,
Pa ham 'roedd llid anghydfod,
Gan ddynion at ei dduwdod,
Ond eiſiau ei 'nabod ê yma 'n wir?
Am fod yr holl genhedlaeth, Iuddewig drwy
Ddidduwiaeth, yn gorwedd mewn gelyniaeth glir,
A pham 'roedd ergyd ddirgel,
Digoſaint Duw a'i gaſel, I daro ei fugel,
Na chae fyw? Ond am ei fod yn gwiſgo.
Y ſtât a'r natur honno,
Oedd wedi fyrthio a digio Duw.
9. Pa ham 'roedd llid mor llydan, gan Satan tu ag atto?
Am fod ei wir awdurdod, yn drom ei dyrnod arno,
Fe wyddai i'r Arglwydd addo,
Mai drwyddo ſe gorchfygud,
Pyrth uffern danllyd eirias, ei deyrnas a'i gadernid,
Fel hyn 'roedd pob naturiaeth,
Yn ymladd mewn gelyniaeth,
A'i thrwſt yn helaeth troſti' hun,
Heb neb i'r Brenhin Ieſu, ar ſaner wen i fynu,
I'w bardynu 'n fab y dyn,

Ag

Ag yntef rhoes ei ddyndod, yn Aberth i'r awdurdod
Bu farw i bechod dyrnod du,
Ag er ei roi yn y ddaiar, tan geulan mewn ty galar
Fe dorrod byrth y carchar cry,
10. Gorchfygai 'r awdurdode i gyd a gode iw erbyn,
Ag wrth y groes fe'u hoeliodd, fe orfoleddodd arnyn
Fe aeth i mewn i'w deyrnas,
Gyfaddas gywir feddwl,
A'r natur ddynol ynddo, wedi pherffeithio 'n gwbwl,
Cymododd Duw yn gyfain, y byd ag ef ei hunan,
Er mor aflan anian yw,
Mae llais yr efengyl groyw, cyhoeddi heddwch heddyw
Ag yn ein galw o feirw i fyw,
Fe ddarfu barnu pechod, dowch, mae pob peth yn baro
Llais gollyngdod yw eu llef,
Dowch bechaduriaid llwythog,
Dylodion a dyledog, at wir eneiniog Aer y nef.

CAROL Plygain ar Grimfon Velvet, Argyhoeddiad o anyftyriaeth rha 'n canu ag yn cadw Plygain gynal defod ag arfer.

XXIV.

1. POB genau cywir ganed, pob corph ag eneid unol
Gan yftyr beth yw trefniad, ein fyniad yn brefenol
Ein harfer ddydd Nadolig, fy am gynig yma ganu
Er cadw Coffadwriaeth, am anedigaeth Iefu
Mae hyn yn burion bwriad, o wreiddin ei ddechreuad
Fe weddai caniad i Dduw cu,
Ond dwad yn fucheddol, i'w babell fel ei bobol,
A'i braidd yfprydol lwyddol lu,

Ma

Mae canu i griſt ein brenhin,
Yn foddion gras cyffredin,
Trioed yn dilyn deiliaid Duw,
Er hyn mae'r moddion gore, yn llygru mewn defode,
Yn eitha 'r oeſe 'n waeth ei ryw.

2. Cenwch ganiad newydd, medd Daſydd mewn modd difyr,
A chenwch odlau yſprydol medd yr Apoſtol cywir,
Ped ſae ni 'n medru yſtyr y ddwy yſgrythyr honno,
Nid allem ganu 'n llafar,
Tan alar troe 'n i wylo,
A dweudyd gyda 'r eglwys, hen Iſrael oedd gaethiwus,
Gan bobol ynys Babilon,
Pa ſodd y canwn ſywiol, ganiadau Seion freiniol,
Yn y wlad ddieithrol hon,
Nid allai 'r ſaint mewn purdeb, (rydd,
Mo'r canu i Dduw gyſondeb, ond yn ei breſenoldeb
Pan gollent yr arweiniad,
Llais can oedd ar ddiſgyniad,
Yn troi 'n alarnad profiad prudd,

3. Yr ŷm ninne am gael ein cynwys,
Yn 'r eglwys gyffredinol,
Ni ſynnwn wadu ein bedydd, na'r greſydd wir griſnogol,
Er hyn ni cherddwn lwybre,
'R erthygle ſy wrth yr eglwys,
Na'u hegwyddorion eured, nag un adduned ddownus,
Mae 'r eglwys yn ein rhwymo,
Dan feichie, a ninne 'n addo,
Y gwnawn ni rodio heb wyro 'n bur
Wrth wllys Duw a'i feddwl, yn ei orchmyniol manwl,
A chadw 'r cwbwl heb ddim cur,
Ymwrthod a phob gwagedd, ceneddſe moeſe maſwedd,
A hên oferedd hyn o fyd,
A holl waith Satan gyfrwys, a'r amod dweud yn rymus,
Y gwnawn yn gotus hyn i gyd.

4. Rhyfeddob

4. Rhyfeddol mo'r druenus, wallgofus lleſg ag afiae
Yw 'n henaid heb ddihuno, mae'n amſer deffro bellae
Yn cyſgu ymyſg y meirw, a'i ddrych a'i ſulw 'n ſaled
Heb deimlo pwys bygythion,
Gair union y gwirionedd,
Oni ddaw 'r Arglwydd Ieſu, drwy ei yſpryd i lefaru
Nid ellir mo'r dadebru dyn,
Lleferydd Criſt yn galw, ſydd yn cyfodi 'r meirw,
Pawb ettyb wrth ei henw ei hun,
Heb hyn mae 'n ofer byngcie,
A chyflawniad ordeinhade,
A'r holl bregethe gore i gyd,
Pob egwyddorion creſydd, ſy 'n ofer fel ſain eſydd,
Dan enw bedydd yn y byd.

5. Oferedd cynal dyddie, a gwylie gofodedig,
Am fod yr oes breſennol, mo'r gnawdol a llygredig,
Nid ydyw cadw plygain, ond arwain i flindere,
Drwy gynwys mwy o bechod,
Mewn meddwdod a phleſere,
O eiſie ein bod mewn teimlad,
O achos ein cynhulliad,
A pha leſad oddiwrtho ſy,
Pe medrem roi derbyniad, i'r newydd da ſy'n dwad,
O eni Criſt ein ceidwad cu,
Mae 'r plant ſy ar fronne Seion,
Yn derbyn gwir gyſuron,
O'r newydd tirion heb ddim twyll,
A'u holl orfoledd beunydd, dan awyr yw 'r dyn newydd
Drwy gywir ffydd a gair a phwyll.

6. Pan aned y Meſeias, 'roedd plant y deyrnas lawen
Yn nabod gwedd ei wyneb,
Ym mhreſeb gwael yr ychen,
Bugeilied gwyliadwrus, oedd telus eu gorſoledd,
Yn derbyn y newyddion,
Gan yr angylion peredd,
A r doethion yn ymdeithio, i roi anrhegion iddo,

Doe

Doe *Simeon* i'w gowleidio 'n glau,
Drwy yſpryd y gwirionedd,
Fe aeth i'r demel ſanctedd,
Ag a fu 'n rhyfedd i'w ſawrhau,
Ag *Anna* hen Brophwydes,
A wnaeth i'w goffa gyffes,
Yn rhwydd ei hanes rhoddai hon,
Pob didwyll wir gredadyn,
Adwaenai Griſt yn blentyn,
Gywira brenin ger ei bron.

7. A phlant y byd annuwiol, mewn bydol anwybodaeth
Am dano oedd wag ſiariadus,
Watworus eu naturiaeth,
Cawn etto 'r un fath natur, drwy 'r yſpryd amur yma.
I wadu Criſt yſprydol, tueddol yw plant Adda,
Mae Criſt o'r dechre i'r diwedd,
Cyn creu daiarol ſylwedd,
Yn wir etifedd mawr y tad,
Un waith mewn taith naturiol,
Fe'i gwnaed o wraig yn gnawdol,
Gorph perſonol haeddol had,
A chwedi llwyr ddinyſtro, corph y farwolaeth honno,
Drwy ei groeſhoelio garw ſenn,
Mae Criſt a'i fywyd ynddo,
Heb drangc na gorphen iddo,
Yn gwir oleuo 'r efengyl wen. (feddianu,

8. Ond yn ei yſprydol Berſon, mae i dynion ei
Nid yma 'n gorph gwrthddrychiol,
Danghoſol yn teyrnaſu,
Yr yſpryd glan ſy'n deilliaw, yn ddiſtaw
Iawn dda yſtyr: O'r tad a'r mab mae 'n diſgyn,
Iach hedyn i bechadur,
A thrwy bregethiad bywiol, a ffydd a gweddi nerthol,
Y mae gair graſol y gwir Griſt,
Yn ymgenhedlu ei hunan, yn yſpryd bywyd buan,
Yn yr enaid egwan truan triſt.

A'r

A'r enaid fy 'n dihuno, a'r meddwl yn goleuo,
Pan gwir enynno 'r gair yn lawn,
Mae 'n adnewddu 'r teimlad, a'r ſerch yn gwyro,
I gariad, a grym yn dwad i bob dawn.

9. A dyna y rhagorfreintie, eodd gan y ſeintie ffyddlon,
A'r goedd yn wir egwyddor, yn agor y damhegion,
Ond dammeg i'r byd yma, a'r dynion mwya eu donieu,
Yw 'r ſgrythyr fendigedig, guddiedig gyhoeddiadeu,
Nid laith nag un ymadrodd, oddiallan a ddeuallodd,
Nag a brofodd eigion braint,
Y golud mawr dirgeledd, a'r fael o wir orfoledd,
Y ſydd mewn ſylwedd gan y Saint,
Nid hanes Criſt na'i henw, wrth y llythyren farw,
Nid llun ei ddelw a'i bwrw o bell,
Ond Criſt a'i berffaith natur,
Yn fywyd mewn pechadur,
A ddwg wrth feſur gyſur gwell.

10. Bydd fellu 'r gair oddiallan, yn wiwlan union
A'r tyſt tu fewn i'w ddeuall, (alwad
Nod diball yn attebiad,
Beth yw 'r wahaniaeth honno,
Sy'n ffurfio dyn yn griſtion, (galon,
Dim llai na Chriſt a'i eglwys, oen gwiwlwys yn y
Dim llai na gwir feddiannu, dewiſol yſpryd Ieſu,
Hwn ſy'n gorchfygu gallu 'r byd, (Satan
Hwn ſydd yn chwylio allan, ddyfnderoedd dichell
A chnawd a hunan dyn o hyd,
A Duw o'i fawr drugaredd, fo 'n caniadhau i ni gyredd,
Y briodoledd haeledd hon,
Fod Angel y cyfammod, ail berſon glan y drindod,
A'i enw 'n briod yn ein bron.

CAROL Plygain ar Greeks in Troy, yn cynwys ychydig yſtyriaeth am greadigaeth y byd, Happuſrwydd dyn cyn y cwymp; gwerthfawrogrwydd gair Duw, hudoliaeth y cythraul yn temptio 'r dyn; trugaredd Duw yn danfon gwaredigaeth.

XXV.

1. POB un ſydd ganddo gluſtie, I wrando 'r yſgrythyre,
Yſtyried nerthol wrthie donie Duw,
Yn gynta peth i'w henwi, rhagluniodd y goleuni,
Llewyrchodd hwn ond erchi yn lan ei liw,
Ag am yr holl greadigaeth,
Nid oedd ond archiad unwaith, er glanwaith glod,
Pan agorai Duw ei ene, a dweud bydded,
Fellu bydde; Pob peth a fynne fod,
Fe greodd y creaduriaid, a phob peth byw di enaid,
Cyn y dyn; ag yno lluniodd hwnw,
O'r llaid y pridd ar lludw, a'r delw ei henw ei hun,
2. Anadlodd yn ei ffroene, ſe ae 'n enaid byw di feie,
Yn llawn o bob rhinwedde, dethe doeth,
Gwybodaeth, pwyll a ſynwyr, I ffrwyno pob creadur,
I ymoſtwn i'w pen meiſtyr cywyr coeth,
Ag un peth mwy rhagorol, rhoes iddo rodd neillduol,
Ddymunol Iawn,
Sef gair gorchymyn ſanctedd, o gyfraith y gwirionedd,
A'r duedd, goreu dawn,

Y

Y perlyn gwerthfawrocca, i'w ddydd a gafodd Adda
Yn rhwydda rhodd,
Oedd y gorchymyn bywiol, i'w gadw'n fyw,
'N dragwyddol; ufuddol oi wir fodd.

3. Ond yfpryd cyfeiliorni, gelyniaeth y goleuni,
Ddraig hyll oedd wedi colli daioni Duw,
Hwn etto 'n ddrwg ei natur,
Sy heb ruſo 'n gweithio 'n bryſur,
Yn dywyſog yn yr awyr anwar yw,
Pan ganfu Adda ag Efa,
Mewn anrhydeddus drigfa,
Gan y *Jehovah* ei hun,
Dyfeiſiodd ffordd i'w twyllo, i dorri 'r gyfraith honno
Oedd wedi hordeinio i'r dyn,
Cadd rydid anwaredol, i fynd i'r ſarph gyfrwyſol,
Foeſol farn; A'i bregeth ffals a gredwyd,
Gorchymyn gair y bywyd, a ſathrwyd yno 'n farn.

4. Ag yno troed y gyfraeth, o fywyd i farwolaeth,
O gariad i elyniaeth drwblaeth drud,
Ag Adda aeth o'r goleuni, i'r twllwch a'r trueni,
O *Eden* ardd mawrhydi i ymboeni a'r byd,
I fwytta bara cyſtudd, drwy chwys a llafur beunydd,
Am ddigio 'r Arglwydd Dduw,
A'r ddaiar a felldithwyd,
Drain blinion ynddi a blannwyd,
Fe'u rhoddwyd o bob rhyw,
Ynghanol barn digllonedd, Duw goſiodd am drug aredd
Dofedd dad; addawodd had o heppil,
Y wraig i yſigo 'r bwyſtfil,
Drwy rym yr efengyl rad.

5. Wrth hynny o efengyl brydlon,
Diſgwyliodd y duwiolion,
Gan gredu i'r addewidion yn ddi wad,
O'r diwedd Duw gywirodd, ei air ei hun a feliodd,
Danfonodd ag fe'i coſiodd, heb neccaad,

Y gair a wnaeth y nefoedd,
Haul, lloer a ſer niferoedd,
Y tir a'r moroedd mawr,
A dyna 'r gair gae ei ddanfon, drwy 'r Angel,
Gabriel gyfion; at forwyn wirion wawr,
A'r Angel wrth lefaru, ni wnaeth ond ei chyfarchu,
Gyrru 'r gair; Pan gredodd hon fun addfwyn,
Darparwyd e'n fab purwyn,
Ynghrôth y forwyn Fair.

6. Y gair a wnaed yn gynta,
Yn enaid byw yn Adda,
Ae 'n gorph ynghnawd *Maria* mwyna mun,
A hwn yw 'r corph yſprydol, a wnaed yn fara bywiol,
Aberth enaid duwiol ymborth dyn,
Ond chwiliwn ni 'r ſgrythyre, a theimlwn ein cyflyre,
A phwys ein beie a'n bâr,
Mae hwn yn gorph dirgeledd,
Does neb yn ei drugaredd,
A'i cyrredd ond a'i câr,
Trugaredd ryfedd ydi,
Fod ſeintiau na phropwydi,
Gwedi eu cael,
Am nad oedd neb yn haeddu,
Na chyfion i'w derchafu,
I ymaelu a chymaint mael.

7. Pob un a garo ei ened,
Rhag myned hwn yn golled,
Yſtyried a difrifed, cymred fraw,
Edrychedd ar ei fuchedd,
Pa yſpryd mae 'n ei goledd,
Pa ddewis o Ddau ddiwedd, iddo ddaw,
Mae llawer yr ymddallu, wrth glywed i Griſt Ieſu,
Bardynu a phrynu dyn,
Yn diſgwyl am drugaredd,
Yn erbyn barn gwirionedd,

Mewn annuwioledd wŷn,
Mae hyn yn wir difrifol,
Ar goedd mai i'r tan tragwyddol,
Yr â 'r annuwiol noeth,
I ddiodde am eu pechode, loſgfeydd, a cholyn,
Ange; ar beirie uffern boeth.

8. Mae Criſt yn waredigaeth,
Yn awdwr iechydwriaeth,
I'w ddefaid ufudd llywaith ef fydd eu llwydd,
Nid ydyw fe 'n gwaredu mo'r lleill na chymro eu,
Dyſgu; na fedrant ond troſeddu, yn trin eu ſwydd,
Y rhai ſy 'n llwyr golledig,
Mewn yſpryd cyſtuddiedig,
A diffyg meddyg mwyn,
Dyna 'r carcharorion,
Mae Criſt yn roddi 'n rhyddion,
Fe'u geilw 'n union wyn,
Y rhai ſy a ſyched arnyn,
Ag yn dwyn yma newyn am y nef,
Ca'nt fwytta 'r manna bywiol,
A dwr o'r graig yſprydol, digonol gidag ef.

9. A rhai ſy'n llawn heb eiſieu,
Ag yn eſmwyth eu calonneu,
Yn ymborthi a'u melus chwanteu cibe coeg,
Ca'nt dderbyn a chymheryd, eu gwynfyd yn eu bywyd
O bleſer ofer ynfyd ſurllyd ſoeg,
Ymborthi ar fudron ſorod,
Fel cigfrain ar furgynnod, ſawyr pechod ſy;
'N ein cadw'n llawn heb ſatter,
Na newyn am gyſiawnder,
O fraint uchelder fry,
Ond Duw a'n hargyhoeddo,
Ni etto i droi ag i beidio a drwg y byd,
Cyn dwad hirnos angeu, a'n galw i'r farn,
Yn foreu; pan ſo ein tafodeu 'n fud.

Carol Plygain, ar Farwel Ned Pyw; Ychydig o yſtyriaeth ynghylch ffrwythau 'r pren gwaharddedig.

XXVI.

1. WEL dyma 'r ŵyl diameu erioed,
I'w henw rhoed mawrhydi,
O oes i oes, o awr i awr, mae dwned mawr am dani,
Gwyl ganedigaeth Ieſu Ior,
Doe 'r nefol gôr howddgara,
A newyddion da mewn addfwyn dôn,
Am nodded meibion Adda,
Mae achos rhyfeddu, a pheth ymreſymu,
Mo'r iſel doe 'r Ieſu i'r byd yn y beudŷ,
Heb lettŷ na gwelŷ nag aelwyd,
Ei fwriad cyfeiriol, oedd dattod annuwiol,
Weithredoedd y diafol, ag ymddwyn ei bobol,
Oedd farwol i fywiol ail fywyd.

2. Fe greuwyd Adda ag Efa gynt,
Mewn perffaith helynt hylwydd,
Ymharadwys wiwlwys wlad,
Cyn coelio tad y celwydd,
Yn fawr ei dwyll yn foreu daeth,
Drwg anghrediniaeth dynion,
Hwn oedd y pechod cynta i gid, i ennyn llid trallodion
Anghredu gair eglur, Duw tad ei benadur,
Rhoi cred i'r creadur, wnae Adda 'n bechadur,
Doe gwewyr y dolur i'w deulu,
A dyma 'r gynhyſgaeth, nid dedwydd dreſtadaeth,

Adawai i'w hiliogaeth, ar ol ei ſarwolaeth,
Trwm lwyth anghrediniaeth i'w dynnu.

3. Duw ddweudodd na fwyttewch o'r pren,
Rhag angeu celen cilwg,
A'r ſarph a ddweudodd, o's bwytaen,
Mwy gwiwlan caen eu golwg,
Ni fyddwch feirw chwi gewch fyw,
Nid ydyw Duw mo'r ddigllon,
Haws i chwi gyd ymgomio ag e,
Fel duwie dethe doethion,
A chredai 'r wraig hudol, bregethiad rhagrithiol,
O ſlaen gwirioneddol orchymyn Duw nefol,
A'r ffrwythau dymunol hi a'u mynnai,
Fel hyn anghrediniaeth,
Ae'n weithred llofruddiaeth,
Troſeddiad y gyfraeth, a barn damnedigaeth,
I'r hollfyd ar unwaith, a rannai.

4. Ond gair Duw cyfiawn uniawn wir,
Ni fynnai ar dir, mo'i dorri,
A geiriau 'r ſarph a'i thęg wers hir,
Ae 'n eglur anwir i ni,
Gwir delw Duw am gredu i'r fall,
Mawr oedd y gwall a gollent,
A delw Satan diles yw,
Dan gerydd Duw a garient,
Y cariad a oerodd, a'r deuall a d'wllodd,
Euogrwydd a gododd, a'r meddwl cymyſgodd,
Anhwyliodd newydiodd y nwydau,
Yn lle mynd yn ddoethion,
Hwy aen yn ynfydion,
I ymguddio eu cyrph noethion,
Rhag chwiliwr y galon,
Sy'n gweled dirgelion a goleu.

5. O breſenoldeb Duw ei hun,
Aeth Adda 'n ddyn daiarol,
I ymſerchu a'r ffrwythau drwg a da,

Newynu

Newynu am fara anianol,
Yn fawr ei boen i farw a byw,
A digter Duw yn ei dywys,
Heb arno chwant ŵr methiant mwyth,
I reidiol ffrwyth paradwys,
A ninne 'n wenwynig, yn blaſu ffrwyth blyſig,
Y pren gwaharddedig, drwg a dâ'n gymyſgedig
Fel Adda faeliedig ffol ydym,
Gwrandawn ar bregethe, gweddiwn ar linie,
Gwnawn borthi ein trachwante, gwnawn yma dda weithie,
A gwneuthur draw gaſtie drwg yſtŷm.

6. Rhoi eluſen ag un llaw, fel gweithred hylaw haelwych,
Ag a'r llaw arall gwaſgu 'r gwan,
Mewn amryw fan yn fynych,
Gwneud goneſtrywdd ſwydd ddi ſen,
Drachefen ymdderchafu,
Mewn cybydd-dod twyll a thrais,
Swydd ymgais cynfigenu,
A'r cwbwl a henwyd, a chwaneg ſy i'w ddweudyd,
Yw'r ffrwyth a waharddwyd y da a'r drwg hefyd,
Gein oll yn frycheulyd ond chwilio,
A'r ffrwyth yma gowſom, yn Adda ni a wyddom,
Rhyw ddiſtryw rhy ddwyſdrom,
Roe uffernol ſarph arnom, ſy mhob un o honom ni heno.

7. Gweithredoedd Satan lydan lid,
Yw rhain i gyd i'w gadel,
Er mwyn eu dattod trallod triſt, anfonwyd Criſt yn fugel
I'w ddefaid daeth yn ddifai twr,
Ag yn waredwr rhadol,
Rhag eu pechodau ceingciau caeth,
Y pren gwybodaeth bydol,
A'u harwain mewn rheol, I ddwad yn dduwiol,

I ſwytta o'r pren bywiol, wir ymborth yſprydol,
Pur ffrwythau priodol paradwys,
Gwirionedd a chariad, ffydd cywir ddychweliad,
Ag yſpryd mabwyſiad,
Newydd-deb ymdrwſiad,
Ym mhrofiad arogliad yr eglwys.

8. Wel dyna 'r ffrwythau peraidd flas,
Sy'n tyfu o ras yr Ieſu,
Heb eiriach i ni o bur iachâd,
Fe'u ceir yn rhad ond credu,
Fel hyn y gwir ddattodir gwaith,
Y ſarph a'r graith ragrithiol,
Goleuni Duw i'r lann a'n dŵg,
O dwllwch dufwg diafol,
Yr enaid ſy'n teimlo 'r tywyllwch hwn ynddo,
A ddaw i weddio, a Chriſt a dry atto,
I'w dwyſo ag i'w fforddio ceiff urddas,
A'r llall ſy 'n ddigonol,
Yn ddoeth ag yn ddoniol,
Adewir yn gnawdol, i'w chwantau naturiol,
A'r ddelw 'r daiarol ddyn diras.

9. Gwaſanaeth Criſt yn nyddieu ei gnawd,
Yn ddyn tylawd oedd ledio,
Pob un a gredai a chalon wir
I *Sion* dir i dario,
Gweithio 'roedd ar goedd wr gwiw,
Orchwyliaeth Duw, a'i chalyn,
Pregethu 'r efengyl i'n rhyddhau,
O gul gadwynau 'r gelyn,
Gwnae wrthiau yn ei nerthoedd,
Ar dir ag ar foroedd,
Danghoſai i'r cenhedloedd, y llwybr i'r nefoedd,
Oedd drwy bob ynyſoed yn oeſi,
Fe gymrodd waith meddyg, I rwymo y rhai yſig,
Gwnai 'n llariaidd y lloerig, (codi.
Rhoi bywyd creuedig, i'r meirw trangcedig a'u

10. Mae

10. Mae etto ei weinidogaeth deg,
Ar oſteg mewn gwir yſtyr,
Ymhorth yr enaid yno 'r aeth,
Nid mewn tywyſogaeth ſegur,
Sef dirgel weinidogaeth gu, yr yſpryd ſy 'n diddanu,
Yn hon mae 'n trin y meddwl tro,
'N llafurio ag yn llefaru,
Mae 'n ſymud mynydde, amheuon, drwg dybie,
Yn rhodio dyſndere, 'n goſtegu terfyſge,
Ar wyneb môr donne, anghrediniaeth,
Yn dyſgu 'n cyſarwyddo, eu braidd a'u bur eiddo,
A'u gwiwlan ſugeilio; a'r galon lle delo,
Mae yn y fron honno ei frenhiniaeth.

11. Nid digon i ni am Ieſu gwynn,
Yw derbyn hyn o hanes,
Ei fod ef wedi ei eni o fair,
Wrth goffa ei air ar gyffes,
Addef ein twyll mai Adda ein tad,
A'n gwerthai o frad afreidiol
A Chriſt a'n prynodd, eurfodd oen,
Rhag goddef poen dragwyddol,
Bodlonir ar hynny, mae mil yn hyderu,
Yr ant wedi eu prynu, yn fall i'r net fellu,
A'u twyll yn rhyw fagu 'n rhyfygus,
A'r enaid mewn dalfa,
Heb deimlo 'r cyfyngdra,
Na gwreiddiol ddrwg Adda, na ſwydd y *Meſſia*,
Yn eu tynnu nhw o'r ana truenus.

12. Onid oes yma ſynna i'w ſôn,
Ddallineb calon coeliwch,
Och! gymaint ſwm o honom ſy,
Ynghallu cry 'r tywyllwch,
Goleuni yw Criſt mewn glana cred,
A nodded union addyſg,
A rhai ſy 'n dyſgu ganddo don,
Dan argyhoeddion hyddyſg,

Pan

Pan oedd newydd eni llewyrchodd goleuni,
Fe rwygodd y llenni oedd gynt yn cyſgodi,
Tywynnodd Haul i ni hwyl ened,
Ond tra bo 'r ddaiaren, rhyngom ni a'r heulen,
Mae 'r nos yn yr wybren, yn t'wllu 'r ffurfafen,
Na welwn du dalen ein dyled.

13. A thra bo 'r ſyniad cnawdol ſy,
A'r wllwys du, daiarol,
Rhwng yr enaid gwan ei ſail,
A Chriſt yr haul yſprydol,
Mae hirnos gaua, pella pall,
Yn t'wllu 'r deuall duwiol,
Na welwn ni mo'r ffordd o'i phen,
Sy i'w rhodio 'n angenrheidiol,
Awn allan o'n hwllys, daiarol a dyrus,
A'n chwantau cybyddus,
Daw'r dydd anrhydeddus,
Ymddengys yr hwylus, wawr heulog,
Mae 'r eſengyl yn dyſgu,
I ni hunan ymwadu,
Gan ffyddlon wir gredu,
Fel 'r ŷm ni 'n proffeſu,
I galyn pwynt Ieſu ein pen t'wyſog.

CAROL Plygain ar Greece a Troy; yn dangos fel yr ym yn addef Criſt drwy ein ſyniadau canwdol, ag heb ddirnad gweithrediad yr yſpryd glân, yn yr oes breſenol.

XXVII.

1. POB Criſtion a fedyddied,
Ag enw Criſt gogoned,
Yſtyried ag edryched yn y drŷch,
Pa beth yw dyled Criſtion,
Ond cadw 'r gwir orchmynion,
A rhodio 'n ffyddlon galon, 'r union rŷch,
O's dyna 'n rhan a'n dyled,
Pob un a garo ei ened,
Ymholed yma ei hun,
Ni fynnwn ni att ein calon, nad ydym ni 'n Griſtnogion: bawb trwyddon bob rhyw ddyn,
Pe dweudai rhywun amgen,
Mai nid criſtogion yden digien wrtho 'n doſt,
Er hyn mae 'n eglur ddigon, nad eill fod anghred Ddynion: Ddim mwy anffrwythlon ffroſt.

2. Diameu ein bod yn credu,
Am bwngc cnawdoliaeth,
Ieſu; nid oes mo'r dadl am hynny i'w deuru'n dynn
Ond mae 'n y ffydd griſtnogol,
I'r dynion gwir grediniol,
Bwngc arall yn wahanol iawn i hyn,
'Rŷm ninne wedi addo, pan gowſom ein bedyddio,

Trwy

Trwy weddio triſt,
Y byddem ddefaid ufudd,
I gredu o air yr Arglwydd,
Holl byngciau crefyd Criſt
Dyſgaſom ddweudyd hefyd, ein bod yn credu 'n,
'R yſpryd: Glan hyfryd clir,
A bod eglwys lân ffyddlondeb, a ſeintie mewn,
Cymundeb, diweirdeb yma ar dir.

3. O frodur cyd fwriadwn,
Am helaeth wir ymholwn,
Ymhle mae rhain yſtyriwn bawb ei ſtad,
Da gwyddom yn gyhoeddus,
Nad oes duwiolion dilys,
Na ſeintieu gorfoleddus yn y wlad,
Er hyn 'r ŷm ni 'n bodloni, a'r hanes ddarfod geni,
Heb oedi Griſt i'r byd,
A'i fod ef wedi ein prynu 'n gu radol a'n gwaredu,
Gwnawn ddal ar hynny o hyd,
'R holl ddrwg weithredwyr aſlan,
Holl grwydraid a fall gredan' fellu 'n grŷ,
Does dim rhagoriaeth yma,
Rhwng ffydd y goreu a'r gwaetha,
Pawb a henwa Griſt yn hŷ.

4. A gawn ni ymhellach holi,
O'r llyfr cyffredin weddi,
A ydi 'n ddigon i ni o gyfri i gyd?
Yn lle holl byngciau crefydd, gyfaddef fod yr,
Arglwydd: mewn cnawd,
A chyſtudd beunydd yn y byd,
Addefwn ei genhedliad, ag fel bu 'n diodde,
O gariad; dan *Bontius Pilad* boen,
A'i farw a'i roi 'n y dyfnfedd,
A'i godi o feirw i'fawredd, drwy rinwedd eirwir oen,
Hyn allwn gredu 'n gyfan,
Drwy ddull ar eiriau oddiallan, anian Iach,
Ag etto byw 'n eſtroniaid,
A'r gwir eiriolwr euraid, heb uno a'r enaid bâch.

5. Ond

5. Ond dyma 'r pwngc dirgelaidd,
O'r grefydd wir griſtnogaidd,
Sef credu 'n yr yſpryd ſanctaidd gloywaidd glan,
Yr yſtyr hwn o'n credo,
Trown atto i'w gywir deimlo,
A'i gofio rwy 'n dymuno ar ſawr a mân,
Nid credu fod yn rhywle, yſpryd glan di fryche,
Ag yn y feintie gynt,
Nid ŷm ddim nes i'r Ieſu,
Na gwell wrth dybio fellu,
Neu gredu hynny ar hynt,
Mae 'r yſpryd cywir anian,
A'i reol yma rwan, yn ei ryw,
'N ddirgelaidd yn y galon,
At alwad y duwiolion, holl weiſion dynion Duw.

6. Fel ag yr oedd o'r dechre, y mae, bydd
Hyd ddiwedd dyddie,
'R gwir Griſt ymhob rhyw gongle o barthe 'r byd,
A'r byd nid yw 'n ei weled,
Ond fel mae 'n agor llyged,
Ei anwyl wir ffyddlonied druenied drud,
Pa fodd y profir allan,
Fod Criſt ein myſg rwan,
'Nd yw fe'n anian yn y ne,
Mo'r wir a'i fod yn Arglwydd,
Cyn *Abraham* oen ebrwydd,
Mae etto 'n llywydd ymhob lle,
Fe ddweudai o'i eneu ſanctedd,
Y byddai hyd y diwedd yma ar dir,
Yn 'r yſpryd glan diddanydd.
Yn cadw ei ddefaid ufudd,
Ond dyna ei arwydd wir.

7. Y gwir yſpryd ſy 'n goleuo,
Pob cywir ddyn feddiano,
At Ieſu mae 'n ei dwyſo heb wyro 'n bur,
A'r gwir addolwyr ſanctedd,

Adolant

Addolant Dduw 'n ddi duedd,
Yn yſpryd y gwirionedd waredd wyr,
'R Apoſtol ſydd yn tyſtio,
Sawl ſy heb yr yſpryd ganddo,
Nad eiddo Duw a ſydd,
'Does neb a gallu, ganddo i gredu na gweddio,
Hebddo ei ffforddio ei ffydd,
A'r ſawl ſy'n credu hebddo,
Nid ydyw 'r Criſt ſydd ganddo, i'w dybio ar dir,
Ond anghriſt heb oleuni, ag yſpryd cyfeiliorni,
Pan ddelo i gyfri gwir.

8. Nid eill un dyn daiarol, mo gredu 'r ffydd
Griſtnogol: Heb yſpryd bywyd bywiol ynddo 'n bod
Pe gallai nid gwahanol, mo ffydd y dyn annuwiol,
A ffydd y Saint bucheddol nefol nod,
Mae cymaint o wahaniaeth,
Rhwng ffydd mewn yſprydoliaeth,
A ffydd naturiaeth dyn,
Oes, cymaint rhagor heddyw,
Ag ſydd rhwng byw a marw,
Ni thâl yr enw ddim i 'r un,
Mae *Iago* 'r gwir Apoſtol, yn ſon am ffydd,
Anianol, Farwol fud,
A llawer iawn ſydd etto,
Yn credu ynghriſt a honno,
I'w twyllo er boddio 'r byd.

9. Pe meddei ni 'r ffydd fywiol,
Fodd union yn feddianol,
Yſprydol rodd Duw nefol duwiol ddawn,
Aem ni fel y bugeilied, â'r doethion wyr dieithred,
At Ieſu Griſt i 'mweled drwy wiw-gred iawn,
Nid pellach yw ei dduwdod,
I ni na nhwythe i'w ganfod, ar ammod rydd,
Ni allaſai rhain drwy gariad,
Ar ddeulin roi iddo addoliad,
Heb wir hyfforddiad ffydd,

Bu gynt mewn cnawd i'w nabod,
Anian mawr y duwdod yma ar dir,
Mae etto Grift 'r un ffunud,
Yn eglurhad yr yfpryd,
Yn agorud i ni 'r gwir.
Wrth hynny cyd ymgodwn,
Am Iefu ymorolwn,
A chwiliwn ymofynnwn am y fan,
Lle mae 'r *Meffia* fanctedd,
Yn yfpryd y gwirionedd,
Awn yno i gael o'i rinwedd anwyl ran,
Can's yno mae ei addewydion,
Gyfarfod a'r gwir griftion,
Mewn ffyddlon ffydd,
Ar'erwn fynych weddi, am lewyrch ei oleuni,
O naws difri nôs a dydd,
Duw gwarchad ni at y gorchwyl,
I gredu 'r wir Efengyl anwyl wen,
A dyro 'th ras yn bendant,
I gynal dy ogoniant,
Er mwyniant i ni. *Amen.*

CAROL Plygain ar gwêl yr adeilad; yr Angylion ſyrthiedig wedi torri 'r gvfraith eu hunain, yn hudo Adda ag Efa i gyflwr truenus, a Duw yn eu hadferu hwy o'r ſtad honno; ychydig o yſtyriaeth am anedigaeth Criſt ac anghrediniaeth dynion i'w dderbyn ef.

XXVIII.

1. WELE dyma 'r wŷl bennodol,
I ſeinio mawl cyſonol, arferol fwriad,
Er cofio ganedigaeth, gorchafiaeth,
Unig odiaeth union geidwad,
Duw mawr; cyn llunio nef na llawr,
'Roedd cyfraith ganddo, gwedi ei hordeinio,
Nad ellid altro na gwyro dim o'i gwawr,
I achub angel hyfryd na dyn am funud awr,
Di nam; fod Duw 'n eiddigus am,
Ei lan orchmynion, pan droe 'r Angylion,
Yn ddamnedigion 'roedd purion achos pam,
O herwydd troi nid alle, mo'i gymwys ddeddfe 'n gam.

2. 'R Angylion hyn oedd grwydraid,
Ar ol eu troi 'n gythreuliaid a gwaeth rheolaeth,
A dichell yn eu meddwl,
O ran eu bod yn gwbwl heb un gobaith,
Pan wnaeth: Duw Ddyn pwy gynta ddaeth?
Ond un o'u peniaeth, ſel glan gydymaeth,

A

wnae gymdogaeth a'u ffri athrawiaeth ffraeth,
ymweled a'r diniwaid, wirioniaid yno 'r aeth,
wir yw: Fo welai eu bod yn byw,
lewn cyflwr enwog, grafol gwrefog,
ardd goreurog coronog rywiog ryw,
chwedi gwneud yn hoyw ar lun a delw Duw.
3. Wrth weld mo'r ddedwydd oedden,
o fagodd fawr genfigen filen fales,
g mewn ymddygiad gweddol,
oe attynt yn ddieithrol ar foefol fufnes,
r lun: Y farph a hon oedd un,
r call fwyftfilod, goreu eu gwybod,
nhwythau heb ganfod, mo waelod eu ddrwg wyn,
Vrth ymrodrefu a'r ddynes, cae 'r fantes ar y fun,
i hun: Fo wyddai o's torrai dyn,
ir Duw perffaith, nad oedd mo'r ffafraeth,
od cledde ei gyfraith, gelyn aeth ar ei glun,
fafai colyn angeu yn eu calonneu ynglyn,
4. Ag fellu cadd o'i wllys,
wnaeth Adda 'n ddyn anhapus, a ninne ei heppil,
n lle perffeithrwydd natur,
Rhoedd ar y dyn heb yftyr nod y bwyftfil,
awb aeth: dan bechod fyndod faeth,
Drwy gwympiad Adda, o'r lle dedwydda,
r tywyllwch eitha, cyfyngdra dua daeth,
dygyn gofpedigaeth,
Am dorri 'r gyfraith gaeth,
Duw 'n twr: Sydd gyfiawn, uniawn wr,
i air mo'r waftad, heb ynddo droiad,
Na chyfnewydiad, heb ynddo fiarad fiwr,
D's dywaid ef wrth y creigie,
Nhw dron yn llynnie dwr.
5. Er dweud o'r farph wrth Adda,
Ni byddwch feirw er bwytta,
R ffrwyth tecca tycciant,

Nid

Nid oes am dorri afal,
Mo'r achos i Dduw ddial heb roi maddeuant,
Drwy dryth: Heb ddangos chwerw chwyth,
Troi 'r ammodai, mawr nid allai,
O ran Duw ddweudafai,
A i air a fafai 'n fŷth,
Na archwaethwch mo hwn accw,
Rhag i chwi feirw fyth,
Ar ol: Y fargen ddrud ddi rol,
A wnai 'n henafiaid,
Set gwerthu eu henaid,
Am felus dammaid, begeriaid ffyliaid ffôl,
I ardd paradwys etto nid allent neidio 'n ôl.

6. Er hyn tofturiai 'r Arglwydd,
I wneud cyfammod newydd arwydd wrol,
I Adda rhoes addewyd,
Am Grift gwir bren y bywyd a brenhin bywiol,
Hwn yw: Di dwyll eneiniog Duw;
A ddaeth i eiriol dros ei bobol,
Fel y cae 'r duwiol, ufuddol fodd i fyw,
Fe dynnodd golyn ange,
Iachaodd o'i fronne ei friw,
Yn ddyn: Fe gadd ei eni o un,
O ferched dedwydd, dinas Dafydd,
Heb iddi arwydd gwr beunydd gore bun,
Gair Duw orchmynnodd iddi feichiogi o honi hun,

7. A'r byd oedd er cwymp Adda,
Heb 'nabod mo'r gorucha, cywira ei araith,
Er iddo ei hargyhoeddi,
Drwy *Mofes* a'r Prophwydi a'i holi 'n helaith,
Pan ddaeth: E' o groth y forwyn faeth,
Yn wan eginyn yn nyddiau trablin,
Herod frenhin, gwr gerwin cethin caeth,
I'w erbyn yn arfogion cyffroadd gelynion ffraeth,
Doedd gwiw: Gan nemor un yn fyw,
Roi cred galonnog, mai 'r ior galluog,

Sef

Sef Crift eneiniog, ardderchog rywiog ryw,
A rwymid mewn cadache, pwy a'i haddole 'n Dduw?
8. Ond uwch ei ben i'w chanfod,
'Roedd feren arwydd hynod, i roddi ei hanes,
Ag at fugeiliaid gwaelion,
Doe 'r newydd gan angylion, amcanion cynnes,
Er hyn 'roedd anghrediniaeth dynn,
Yn calon g'ledu 'r byd o'i ddeutu,
Ni fedrent gredu ond fyniad hynny 'n fynn,
Mae gyda 'r ŷch mewn beudŷ,
Y genid Iefu gwyn,
Mwy fwy: O arwyddion iddynt hwy,
A wnaeth ei hunan pan ddaeth i oedran,
Rhoi 'r lleſg ar egwan ddyn anian yn ei nŵy,
Iachau y lloerig ddynion, a'r cleifion o bob clwy.
9. Ond dyna ei holl ddibenion,
Oedd prynu a denu dynion dan ei adenydd,
Mewn adfyd penyd poenus,
Cadd ar y fargen goſtus erwyn gyſtudd,
Heb glod: heb geniog yn ei god,
Er hyn fe fentre, ddrud bryniade,
Marchnatta tlyſe, eneidie oedd ucha eu nod,
Pob un mwy gwerthfawr ydoedd,
Na'r bydoedd ganddo 'n bod,
Fe roes, ei gorph i'w ladd drwy loes,
A'i waed heb feſur, yn aberth wiwbur,
A'i ddeufraich doſtur 'n ddi gyfur a'i ddwy goes,
I'w hoelio rhwng y lladron, yn greulon ar y groes.
10. Ag ar ei awr farwolaeth,
Gorphennodd Iechydwriaeth pechaduriaid,
Ag etto mae gorchymyn,
Rhwym ar bob dyn i'w ddilyn dyna ei ddyled,
Ond te: Mae fyth oddiwrtho fe,
Ffordd i fyned, i uffern *Tophed*,
Yn hawdd ei cherdded, a'i lloned ymhob lle,
O faglau caeth y cythrel i nadel pawb i'r ne,

Pob un: a ddylai ei holi ei hun,
Beth yw ei galon, a'i annedd dirion.
I'r Arglwydd cyfion,
A'i Mammon fy ynddi ynglyn?
Mae un o'r ddau 'n feddiannydd,
Ordeinydd ar bob dyn.

11. Pan ddaeth yr Iefu 'n gnawdol,
I'r byd gweledig gwladol daiarol dyrus,
Ni chadd ond anghrediniaeth,
Anhrefn ag anllywodraeth, ag occraeth geccrus,
'S daw fe: Yn awr o entrych nê,
I barthau 'r galon, drwy ei yfpryd union,
A'i lân orchmynion yn gyfion efo agê,
Ceiff weled yno ddigon o elynion yn ei le,
Rhag fen: Dy lid fydd uwch ei phen,
Duw tro dy eglwys, yn filwrus,
I 'mdrechu 'n owchus, am goron wiwlwys wen,
A dyro wir faddeuant, er mwyniant i ni. *Amen.*

Carol ar y fedley fawr i'w ganu 'r calan.

XXIX.

1. CANWN ganiad, gwir gyhoeddlad,
Dyma 'nodol ddydd enwaediad,
Criſt Iefu ein cidwad cu,
Y pryd y cym'rodd arno o'i wirfodd,
Farc wyn *Iſrael* fel cynes-rodd,
Fe' i daliodd hi yn ei dy,
A phan enwaedwyd arno 'n ddyn,
'Roedd gofyn ar ei gyfer,
Am gadw 'r gyfraith tra bae byw,

Ag

Ag ymoſlwng yw, grymmuſter,
I r ammod ſe 'mrwymodd o hyd cyflawnodd hon,
Nid oedd deddfau, na genau,
Ddanghoſai frychau ei fron.

2. Cae 'r ddefod gymwys, yma ei chynnwys,
Yn arwydd wiwglod,
Yn yr Eglwys, i dywys eiddo Duw,
'Roedd yr enwaediad, yn gyfrwymiad,
Ar y frawdoliaeth hyfryd alwad,
Iawn fwriad iddyn fyw,
Er nad oedd ond gwaith llaw dyn,
O hono ei hun mae 'n hynod,
Er hyn 'roedd Duw 'n ei ganiadhau,
I gadharnhau ei gyfammod,
I arferu wneid fellu, nes dyfod Ieſu ar dir,
Ar ol hynny, ei ddiddymu, fe ddarfu enwaedu 'n wir.

3. Ond yr Iuddewon oedd anfodlon,
I adel traddodiadau dynion gwyddorion meirwon mud
Er bod yr Arglwydd mewn perffeithrwydd,
Am wneud heb feth bob peth o newydd,
Ar gynnydd yno i gyd,
Yr oedd doethineb ynddo fe,
Yn uwch na donie dynion,
A'i wrthie 'n codi 'r meirw ar goedd,
Mo'r eglur oedd ei arwyddion,
'N amlygu fod gallu, Duw yn ei nerthu o'r ne,
Trwy 'r yſpryd, glan hyfryd, oedd fywyd ynddo efe.

4. Er hyn nid alle dynion odde,
Dim newydiad ordinhade,
'R hen dade wnaethe eu nyth,
Nhwy fynnent adel yn y demel,
Yr hen drefnuſrwydd oedd yn *Iſr'el*,
I'w chadw 'n babel byth,
Beth oedd yr addyſg newydd hon
I oſtwng dynion dani?
Ni fynnai 'r Iuddewon fod mo'r ddwl,
A gwyro eu meddwl iddi,

Mor anodd y cafodd Crift fel o'u hanfodd hwy,
Bregethu ag addyfgu, ag ymgleddu pob rhyw glwy.

5. Ag ynte 'n dywad, wrth ei alwad,
Ei hun i dawlu eu hen adeilad, gwahaniad,
Oedd i hon: Pan ddaeth i brofi meibion *Levi*.
Gorwyliaeth *Mofes* a'r Prophwydi,
A fail meini *Solomon*,
Yr holl gyfgode, gole gynt,
Daeth cwmmwl droftynt yma,
Pan y newydiodd gwedd ei wawr,
Ar fynydd mawr *Moriah*,
Cawn hanes, fod *Mofes*, ag *Elias* yno 'n glau,
A cwmmwl a'u cuddiodd, diddymmodd rym y ddau.

6. A rhain a giliodd ag a gollodd,
Ag yno 'r Iefu ei hun arofodd,
Fe fafodd yn ei fwydd,
Danghofwyd yma i'r pethau cynta,
Roi lle i'r ail urddas, rheol hardda,
'R *Meffia* llowna llwydd,
'Roedd *Mofes* ag *Elias* lân,
Yn dangos allan fellu,
Fod fylwedd y gogoniant gynt,
Oedd ynddynt i ddiflannu,
A lleferydd yr Arglwydd,
Yn arwydd mawr o'r nêf,
Hwn yw f' anwyl fab perffaith,
Gwrandewch ei araith ef.

7. Hwn ei hunan fy am y cyfan,
Mae 'n oll ag oll, i mewn ag allan yn darian,
Ag yn dŵr:
Nid yw enwaediad yno wedyn,
Na dienwaediad yn dwyn undyn,
Friwfionyn gwell yn fiwr,
Creadur newydd deunydd da,
Yw fwm y cyfa cofiwn,
O enau Apoftol Iefu gwyn,

Yn

Yn olau hyn a welwn,
Wrth yſtyr gwir natur, yr hardd greadur hwn,
Meddylie am ei radde, ſy i'n penne yn ormod pwnn.

8. Ond ſe ddaeth allan o bur anian,
Fel un gair hynod gwir ei hunan, nid bychan,
Yw ei bwys: Mae 'n air yſprydol gwirioneddol,
Wedi tyfu o'r bywyd dwyfol,
Urddaſol a'i roi 'n ddwys,
Creadur newydd dedwydd doeth,
Yw 'r gair i'w goeth bregethu,
Fe ddeil yr eſengyl ger ein bron,
Y taner hon i fynu,
Gwir gyſur pechadur ydyw 'r creadur hwn,
Pob gwynfyd ſail bywyd a greuwyd ynddo'n grwn.

9. Mae 'r hen greadur ſwrth a ſegur,
Gwedi ei ddallu a llygru ei natur,
A cholli ei bybyr bwyll,
Tra bo'm ni ynddo 'n ceiſio gwrando,
Lleterydd Duw; ni chlyw fo mo'no,
Ni fedr deimlo ei dwyll,
Pan fo 'r gorchymmyn cariad cu,
Yn ein galw i garu ein gilydd,
Mae yn ei dderbyn am y tro,
Heb wneud o hono ddeunydd,
O's canu o's pregethu,
I 'n dyſgu i fyw mewn dawn,
Er geiriau a rheolau,
I'r unrhyw feiau 'r awn.

10. Am fod y creadur o'i anrhydedd,
Wedi ddaroſtwng i oferedd,
Yn chwerwedd wrth ei chwant,
Nid yw ond ofer dim a ddweuder,
Pwy ddaw a theſtyn o'r fath ddwyſter,
I dorri pleſer plant,
Does neb a ddaw a braw i'n bron,
Trwy foddion dynion dinerth,

Oni ddaw ſain ei adlais e',
'R priodfab eirie prydferth,
Gair Ieſu ond ei blannu,
Sy 'n tyfu fel hâd da,
Heb hwnnw 'n ein galw,
Nid oes un enw a wnâ.

11. Lle mae derbyniad, i'w ddiſgyniad,
Y gair hwn ydyw 'r gwir enwaediad,
Cyfraniad oddi fry,
Enwadiad dirgel, brenhin *Iſr'el*,
Y mae 'r nod yma yn ei demel,
Hyd heddyw a gafel gu,
Ond nid enwaediad yn y cnawd,
O ddim a wnawd gan ddynion,
Enwaediad yſpryd Duw ei hun,
Dirgelwch dyn y galon,
Profiadau 'r hen ſeintiau,
Yw 'r hynod bethau hyn,
A phob gene a'u harchwaethe,
Eu hadde un fodde a fynn.

Carol haf, ar dôn elwir mwynen mai.

XXV.

1. POB perchen gwir gydwybod,
Deffrowch o drymgwſg pechod,
Ymburwch bawb yn barod,
Cyn dyfod dyrnod dwys,
Byrr ydyw 'n pererindod,
Mae 'n horiau a'n dyddiau 'n darfod,
Diſgwyliwn am y diwrnod,
I'n goſod yn y gwys.

2. Fe archai 'r Arglwyd Ieſu,
N ddi eſgus i ni ddyſgu,
Credu ag edifarn cyn llwyr ddibenu 'r byd,
Wrth weled coed y meuſydd,
Yn giwſgo eu dillad newydd,
Mae hyn yn dangos arwydd,
O'r hafddydd i ni o hyd.

3. 'R arwyddion ſydd i'w canfod,
Wrth node eu henwe hynod,
Rhai ddarfu 'r Ieſu oſod,
Cyn dyfod mab y dyn,
Mae 'n agos wrth y dryſe,
O's credwn i'r 'ſgrythyre,
Lle nododd Criſt y marcie,
A i hynod ene ei hun.

4. Mae 'r byd yn llawn o draha,
Fel gynt yn nyddiau *Noah*,
Heb feddwl yn ei 'ſmwythdra,
Mo'r gaeth i'w dalfa Duw,
Cybydd-dod, twyll a ffalſter,
Sydd yn rhagflaenu nifer,
A phawb am gyrredd llawer o bower yn eu byw.

5. Gwr bychan yw trugaredd,
Gŵr ynfyd yw gwirionedd,
Gwŷr dieithr yw tangnhefedd,
A rhinwedd p'le mae rhain,
Gwr marwol ydyw cariad,
Fo rynnodd gyda bagad,
A rhagrith ſy yn ei ddillad,
Yn ſynio anfad ſain.

6. Gwr diffrwyth yw cydwybod,
Mae 'n glôff o'i bedwar aelod,
A chwedi torri ei dafod, rhag dweudyd gormod gwir,
Er dewred yw cyfiawnder,
Cae ynte ei ladd gan drawſter,
Oni bae Cyfraith Loegr, a i gloyw ddager glir.

7. Mae llawer o 'mryſone,
A ſwn am gau grefydde,
Ag aml opiniwne, a phleidie, ſectie ſydd,
Heb ddim ond un ffordd gymwys,
I ſyned i Baradwys,
Un bedydd ag un Eglwys,
Hoff weddus ag un ffydd.

8. Nid eiff na Phroteſtanied,
Na Rowndied na Chwacceried,
Papiſtied, Methodiſtied,
Er maint eu lludded llawn,
Na neb i'r ddinas nefol,
Wrth enw eu plaid neillduol,
Heb galon edifeiriol, ſucheddol dduwiol ddawn.

9. Nyni 'r cyffredin bobol,
Ow! P'le mae 'r ffydd griſtnogol?
A ph'le mae 'r bywyd bywiol,
Yſprydol duwiol da?
Ymh le mae pyngciau 'n crefydd,
Ag addunedau ein bedydd?
Ymh'le mae 'n mawl i'r Arglwydd,
Am dywydd hirddydd hâ?

10. Mae 'r hâf yn dwyn cyff'lybieth,
O ddyddiau 'r efengyl berffeth,
A'r gauaf oer naturieth,
Yn † deip o'r gyfreth gaeth,
Pell ydoedd haul cyfiawnder,
Yn oeſoedd yr hen amſer,
Yr wan yn ei gryſder,
A'i wreſog dymer daeth.

† *Cyffelybiaeth.*

11. O's mynnwn gael ei ganſod,
Ymgodwn fel Eryrod,
Yn lle bod fel y Tyrchod,
Yn turio 'r tyſod du,
A gorchgudd ar ein llygaid,

Er

Er tywynnu 'r haul yn danbaid,
Ni wêl ein hanwyl enaid,
Mo 'i lewyrch cannaid cu.

12. Y ddamnedigeth ydi,
Fod yn y byd oleuni,
A ninne 'n caru 'r twllni,
Drygioni bryntni brad,
Oni ſarnem ni yn ynfydion,
Rai dariai 'n gàrcharorion,
Ar ol eu gwneud yn gyfion,
Tifeddion rhyddion rhâd.

13. Gwell genym ſwn y lingciau,
Cadwynau ein pechodau,
Na chlywed ſwn pibellau,
Organau deddfau Duw,
Nyni gowſom fwy o wynfyd,
Mewn pleſer o'er ynfyd,
Nag yn ein Beiblau hyfryd,
A gair y bywyd byw.

14. Ni a welwn bob creaduriaid,
Dwr, Tân ag Anifeiliaid,
Yſgrubliaid, Pyſg, Ymluſgaid,
A'r Hediaid yn eu rhyw,
Yn cadw eu terfynedig,
Orchymmyn bendigedig,
Heb un yn oſio cynig, rhoi dirmyg i air Duw.

15. Gorch'mynodd Duw i'r ddaiar,
Egino llyſiau 'n gynnar,
A hadu hadau howddgar,
A lliwgar yn eu lle,
A hon ſydd fyth heb ſethiant,
Yn datgan ei ogoniant,
Ei orchymmyn yn eu thyfiant,
Sydd foliant iddo ſe.

16. Gorc'hmynodd Duw i ninneu,
Ei garu a'n holl galonneu,

Ag

Ag yn ddyfal gadw ei ddeddfeu,
A gochel beieu 'r byd,
Torafon ninne 'n bryfur,
Orchmynion Duw heb yftyr,
Aeth dyn yn waeth ei natur,
Nag un creadur mud.
17. Mae oed ein llywydd llawen,
Tri phum cant dau bum ugien,
A deuddeng mlwydd a deugien,
I'w gorphen etto gâf,
Molianwm ef bob ennyd,
Bodlonodd golli ei fywyd,
I brynu i ni lawenfyd,
A gwynfyd hyfryd hâf.

CAROL Plygain ar ymadawiad y Brenhin.

XXXI.

1. DOWCH drigolion union anwyl,
A meddwl efgud yma i ddifgwyl,
Dyma 'r fan a'r gorlan gymwys,
Côr wych rywioglan cyrchfa 'r eglwys,
Dyma 'r winllan wiwlan ole,
Lle mae 'r llafurwr llafar eirie,
A'r hauwr hâd ddwy fron ddi frâd,
Ar gwyfiad ei gwyfe,
Yn hau ei wir buryd, hwyr a bore,
Ar iawn adeg yn ddyrneidie,
Ag rhag ofn iddo egino ar gynydd,
Ymhyrdd y gelyn mo'r ddi g'wilydd,

Yma

Yma i hau, geirie gau,
Mall efrau, mal llofrudd,
I droi gorchwyliaeth gwir a chelwydd,
Mewn maes gole ymyſg eu gilydd,
2. Cyhoeddwyd heddyw 'r ſengyl ole,
Mewn clau yſtyr yn ein cluſtie,
Hanes Criſt ein hiechydwriaeth,
Yn ei degwch a'i anedigaeth,
Nid yw 'r eſengyl râff o draethod,
I blant ofer ar flaen tafod,
Ond gallu Duw i griſtion byw,
Yn gwbwl yw gwybod,
Goleuni diball glan gydwybod,
'N amlygu bryche dirgel bechod,
Nid ydyw cofio mab Duw cyfion,
A meddwl hygoel yma 'n ddigon,
Nid ŷm ni haws, er dringo ar draws,
Ar naws, yr haneſion,
Heb wrthie 'r gair bur werthfawr goron,
Yn troi yr enaid, at yr union.
3. Duw oedd y gair yn y dechreuad,
A Duw i'w yſtyr etto 'n waſtad,
Dirmygu 'r gair ſydd weithred aflan,
Dirmygu yw hynny Dduw ei hunan,
Trwy 'r gair di ſêth pob peth a wnaethpwyd,
Ag heb ei oleuni dim ni luniwyd,
Y gair ar goedd, fel utgorn floedd,
Ynddo 'roedd bywyd,
Yn gnawd gwyn rhadlon hwn a genhedlwyd,
Mwya ei gynnydd yma ei ganwyd,
Gan fod y gweddus air tragwyddol,
Yn Dduw yn yſpryd bywyd bywiol,
Goleuni 'r byd, yn dryſor drud,
A'i wrthie 'n brydferthol,
Yn wir ffrwythlawn air effeithiol,
Mawr i ni wrthod ei rym nerthol.

4. Bu llawer iawn o bethe rhyfedd,
Yn y byd o'i ddechre i'w ddiwedd,
Ond daroſtyngiad Criſt o'i freintie,
Oedd ryfedd uwch pob rhyfeddode,
Arglwydd glew-ddoeth yr Arglwyddi,
Arglwydd rhadol pob mawrhydi,
Arglwydd ne, yn llond pob lle,
A i wrthie 'n rheoli,
Yn wan, yn ddinerth, newydd eni,
A'r ſeren wiwdeg yn ei nodi,
Brenin ethol Brenhiniaethe,
Brenin *Iſrael* a'r cenhedlaethe,
Brenin Caer Salem glaer,
Ag aer, o'r rhyw gore,
Brenin *Sion* wiwlon ole,
Cu waed uchel, mewn cadache.

5. Wrth hyn ond cymwys iawn ſe'i henwyd,
Mewn praw hyffordd gan y Prophwyd,
Hwn a'i galwodd yn rhyfeddol,
Gweddus enw, a oedd gyſonol,
Rhyfeddol gwrol oedd ei gariad,
Frenin doeth yn ei ymdeithiad,
Nid oedd un Gris, i'r Ieſu yn îs,
I'w ddewis ei ddwad,
Nag yn ddioddefus fel y ddafad,
I ddrws du ange, o ddaroſtyngiad,
Diodde dirmyg, dig a chabledd,
Diodde i ddynion, boeri i'w ddannedd,
Diodde brad, a phob ſarhaad, nes dwad o'r diwedd,
A du groeſhoelion Duw 'r gwir ſylwedd,
Rhwng dau leidyr yn dylodedd.

6. Hyn a ddioddefodd mewn amynedd,
I gadw cyfraith y gwirionedd,
Am nad oedd un o fewn yr hollfyd,
A'i cadwai a chalon ddi frycheulyd.

Er

Er bod yr Iuddewon wrth ddefodau,
Yn mynd i'w byrth a'u drud aberthau,
Heb arnyn ball, offrymu 'n gall,
Oll ar eu hallorau,
Yn ol eu ſynwyr a'u heluſenau,
A'u hardd odidog dradodiadau,
Ni fedrent ddirnad gwaith yr Arglwydd,
Yn adeiladu Temel newydd,
Ag yn rhoi nâg, i'r demel wâg,
Oedd gaerog fagwyrydd,
A wnaethai *Solomon* a Dafydd,
Wrth fawr ddonie o werthfawr ddeunydd.

7. Yr achos hwn o'u hanwybodaeth,
Oedd twllwch yſpryd angrhediniaeth,
Er cael goleuni o ſlaen eu llyged,
Nid allai dwllwch mo'u amgyffred,
Cyfriſen' Ieſu yn Frenin iſel,
I deyrnaſu ar Ieibion *Iſr'el*,
A nhwythe o hyd, yn beniaeth byd,
Bradychwyr bryd uchel,
Gŵr truan ydoedd troen' i'w adel,
Teuru a bygwth, taro eu bugel,
Er bod eu crefydd mewn diſgleirdeb,
Ni adwaenai dynion drwy ddoethineb,
Mewn lludw a llŵch, mo ddyfnder trŵch,
Dirgelwch duwioldeb,
Hwn o'u gwydd yno a guddiai ei wyneb,
A Duw a'u llenwodd a ddallineb.

8. Ag fellu fyth mae natur dynion,
I fod yn ddethe fydol ddoethion,
Heb yſtyr fawr fod holl ddoethineb,
Y byd ffel anian yn ffolineb,
Fel hyn mae llawer yn palfalu,
A'u rhwyd eu hunain yn eu maglu,
Wrth geiſio 'r gwir lwybr clir,
A gynhwyſir gan Ieſu,

Ag

Ag heb fodd unwaith i'w feddianu,
Fyth na'i ddiſgwyl heb ei ddyſgu,
Y llwybr hyffordd pawb a'i hoffo,
Mae'n daſg reidiol dyſgu i rodio,
Ag oni wnawn, hynny yn iawn,
Mi wn na chawn, mo'no,
Nid oes ond calon wedi dryllio,
Wag ag iſel yn ei geiſio.

9. Criſt yw 'r ffordd a Chriſt yw'r bywyd,
A'r gwirionedd hafedd hefyd,
Criſt yw ſylwedd y cyſgodau,
A diwedd deddf yr ordinhadau,
Ag nid oes gan y cywir griſtion,
Ddim ond Criſt a hynny 'n ddigon,
Mae gan y rhith, griſtion brith,
Rifedi 'r gwlith, gwlybion,
O gyfiawndere gole i'w galon,
A rheini 'n feirw ag yn rhy fyrrion;
Na fyddwn ddynion rhy ymddenol,
Rhag brad mawr mae 'n bryd ymorol,
A holi 'n driſt, a ydyw Criſt,
Fel tryſor ciſt, raſol,
A'i air drwy gynydd yn drigianol,
Efo nyni 'n cyd fyw 'n unol.

10. Ag onid yw fe 'n byw 'n ein mynwes,
Ofer grefydd ofer broffes,
Mae 'r galon hebddo 'n berth o ddryſwch,
Llawn o niwl yn llwyn anialwch,
Fel dinas *Bethlem* gynt lle ei ganed,
Y lletty oedd yno 'n llawn dieithred,
Nad oedd mo'r lle, yn y dre,
I frenin ne, fyned,
Ond i 'ſgubordŷ a'r gwelŷ 'n galed,
I gyd dario a'r mud gre'duried,
Ag etto 'r galon gyfeiliornus,
Fyth a ddyſgodd y fath eſgus,

Pan

Pan geiſio ſe, ynddi le,
Oer ſyniad reſynus,
Mae yno hen letteuwyr eufus,
I'w ſario allan ofer wllŷs.

11. Ag er i'r galon ei wrthgilio,
Fe geiff le ſalach i breſwylio,
Ymhorth y deuall a'r ſynhwyrau,
Lle mae ſwm yr holl reſymau,
Hwn ſydd fel beudy i'w yrru i orwedd,
I blith bwyſtfilod anifeiledd,
Mewn ſŵn a ſi, heb barch na bri,
Oer wegi gorwagedd,
A Chriſt ar dafod yſtyr dofedd,
A'r dyn yn farw dan ei oferedd,
Dyna gyff'lybiaeth o'r rhith griſtion,
Yn cadw Criſt o'i freſt yn eſtron,
Na atto Duw, i ni fellu fyw,
Ond annoeth yw dynion,
Heb Griſt i'w garu a'i groes a'i goron,
Yn wnna cowled yn ein calon.

12. Pob yſpryd a feddiano ddynion,
Rhaid iddo gael holl wraidd y galon.
Ni thale i'r cythraul fod o hirbell,
Gyda'g Adda ag Efa 'n gyfell,
Nag e ſo fynne fod yn Arglwydd,
Ar y galon o gwrr bwygilydd,
A'r Arglwydd ne, nid ydyw fe,
I'w alw 'n rheolydd,
Nes cael yr holl ſerchiadau 'n ufudd,
A'u dwyn i'w gariad dan ei gerydd,
Rhown atto ein gweddi heb oeri 'n buredd,
Am agor i ni mewn gwirionedd,
Diau y daw, a'i lwyddol law,
Dda hylaw, Dduw haeledd,
Duw yw fe am gymmod nid yn gommedd,
Mo'r neb a guro am ei drugaredd.

Carol Plygain ar Greeks in Troy.

XXXII.

1. WRTH ganu i Dduw gogoned,
Angenrhaid i ni yſtyried,
Ei fawredd ag ofered dwned dyn,
Mae 'n chwiliwr y calonne,
Fe ŵyr ein holl feddylie,
Cyn y do'n i'r bŷd o'n gene bod ag un,
Pa beth yw dŷn i'w gofio,
Neu i wneuthur cyfri o hono,
Gan Dduw ei hun,
Pan gaffo 'n ole weled,
Yn nrych y gair agored,
Aflaned, yw ei lun,
Rhagorol o drugaredd,
A'r cariad ſy'n ein cyrredd,
Rhyfedd yw,
Fod ceidwad wedi eni,
I'n gwared o'n trueni,
Mawr yw daioni Duw.

2. Er cadw coffadwriaeth,
Yn dêg o'i anedigaeth,
Mewn cwynion anian ſyniaeth canu ſydd
A Duw a ŵyr mo'r lleied,
Yr ydym ni 'n amgyffred,
Y diben yr ordeinied i ni 'r dŷdd,
Mae 'r 'ſgrythyr o'r dechreuad,
Yn ſôn am ei ddyfodiad,
A'i dyniad yma ar daith,

Ar

A'r gwir Brophwydi o'r cynfyd,
Rhag welſant e' yn yr yſpryd,
O hyd i'w febyd faith,
Drwy ffŷdd ag 'wllys calon,
Derbynient yr addewydion eirchion Iâch,
Gan gredu 'r gair gwirionedd,
Y genid e' yn Etifedd i r bŷd,
Mewn ſylwedd bâch.

3. Ag fel y diſgwylia ſant,
O gyſſur mab a gowſant,
Hwy welſant ei ogoniant clauſant clir,
Ag etto gallwn ddirnad,
Fod dau fath o ddiſgwyliad,
Am y *Meſiah* i ddwad hyn fydd wir,
'Roedd awydd yr Iuddewon,
I gredu 'r addewydion, am frenin cyfion cu,
Ond wrth eu cnawdol ſyniaeth,
Di frenien e' o'i frenhiniaeth,
Gan anghrediniaeth du,
Er bod y rhain wyr hynod,
Yn blant y gwir gyfammod undod iawn,
Hâd *Abraham* o'u mebyd,
Had Dafydd o hyd hefyd,
A diwyd yn eu dawn.

4. Er iddynt gael eu cyfri,
O genedl y Prophwydi,
Yn eglwys Dduw i'w henwi amſer hir,
Nid oeddynt o'r un bywyd,
Na than arweiniad yſpryd,
Y Brophwydoliaeth hyfryd helaeth wir,
Wrth hyn nis gallent brofi,
Mo'u Criſt â barn heb wyrni,
Mewn dryſni draw,
Am nad yw dynol ſyniad, yn cyrred,
Mo Dduw 'r cariad, i'w ddirnad fyth ni ddaw,
Fel hyn mae ymryſone, am Griſt,

A chroes gweſtiwne dadle dwys,
O ddiffyg barn yſprydol, i ſyned o'r tufewnol,
I'r gair ſy a bywiol bwys.
5. Y gair oedd o'r dechreuad,
O ene Duw yn dwad.
I roddi gwir ddatcuddiad i'r bŷd caeth,
A'r criſtion a'i derbynio,
Mae 'n llufern i'w oleuo,
Ag ymborth iddo 'n llifo 'n fél a llaeth,
Nid ydyw 'r enaid marwedd,
Yn medru cael gwirionedd y ſylwedd ynddo ſy,
Am nad yw 'r gair yn gwawrio,
Yn anadl einioes ynddo, ag yn tario 'n ŵr y tŷ,
Pa beth yw 'r gair medd rhywun?
Ond Criſt eneiniog blentŷn, y ſorwyn fair,
A wnaed yn gnawd naturiol,
Nid oes un Criſt achubol rhagorol ond y gair.
6. Nid ym yn dirnad mo'no i ſedru chwilio am dano
Ymmhle mae ſe 'n ymguddio o'n gwydd ni gyd,
O's arno daliwn ſilw, nid yma chwaith nid accw,
Nid yn y ſŵn a'r berw ſy yn y bŷd,
Mae 'r gair yn agos atton,
Yn nirgel ddŷn y galon llais tirion wllys da,
Deffrowch a chlywch eich galw,
I ſynu o blith y meirw, ſi heddyw'ch gwir fywhâ,
Trowch eich wynebau atta,
Holl gyrrau 'r byd yn gyſa, achuba chwi,
Dowch lwythog a blinedig,
Dowch gloffion a briwedig, da ſeddyg ydwy ſi.
7. A gaffo gluſt i wrando,
Y llais ſy 'n galw ynddo,
A ettyb ſe dry atto i deimlo ei dwyll,
Ond te nid yw pe hadur,
Yn yſtyr fawr o'i ddolur,
Er clywed yr yſgrythyr bybyr bwyll,
Mae 'n cyſri 'r llais allanol,

Yn

Yn alwad cyffredinol i bob dŷn,
Pa ham medd y cyfrwys-gall,
Y gwyrai mwy nag arall;
Nid wyf mo'r angall un,
Er galw y rhai trafferthus,
I'r ſwpper mawr cynfforddus troen i ffwrdd,
Yn eſgus tir ag ychen,
Ae'r cyfa 'n wyſg eu cefen,
Ni fynnen ddim o'i fwrdd.

8. Y gair ſydd yr un ffunud,
I'n gwahodd ninne hefyd,
Ag ergyd ei ſain diwyd nôs a dŷdd,
Mae ynom weithie deimlad,
Yn dewis rhoi gwrandawiad,
I fowredd y llefariad galwad gudd,
Mae 'n galw 'r cnawd oddiallan,
Ceneddfe 'r enaid anian, y glân a'r aflan rym,
A'r cnawd ſy a'i eſgus parod,
Priodais wraig drwy ammod, nid allai ddyfod ddim,
Mae hwn wedi briodi,
A'i hunan chwant a'i ffanſi ynghwmni rhain,
Er cael ei alw i'r ſwpper,
Nid yw fe'n cymryd amſer, i wrando 'r ſyber ſain.

9. Oddiyno y try 'r gwahoddydd,
Gan ſeinio 'r un lleferydd,
I'r ſtrydoedd a'r heolydd yn ŵr hael,
I alw ar yr Efryddion, Tlodion, Cloffion, Deillion,
Trigolion gwlad y galon gweinion gwael,
Set y gydwybod euog, a'r yſpryd gwag newynog,
A'r ſerch anwydog noeth,
Pan glywo rhain leferydd, y gair
Yn eu magwyrydd, tro'n at y dyſgydd doeth,
Dwy genedl o ddwy natur,
Sy ymmynwes pob pechadur eglur yw,
Ag un o'r rhai'n a gymrir,

A'r llall fel Eſau a lyſir,
Adewir dan farn Duw.
10. A'r ddwy genhedlaeth yma,
Sydd ynom ni 'n Rhyfela,
Yw heppil y ddau Adda 'r cynta a'r ail,
Sef cnawd ag yſpryd beunydd,
Sydd yn gwrthnebu eu gilŷdd,
A rhai'n mewn urddas hylwydd ar ddwy fail,
Y cynta 'r dŷn anianol, ſy o'r ddaiar yn ddaiarol,
A'r ail yſprydol yw,
Un ydyw 'r hunan enw, o ſylwedd dŷn a'i ſulw,
A'r llall yw delw Duw,
Am bechod Adda ein cyndad,
Rhyfeddol yw 'r fath ſyniad fyth y ſy,
A'r dŷn a'i dwaeno ei hunan,
A edwyn Adda rwan, a i fuchedd aflan ddû.
11. O's mynni 'nabod Adda,
Mae 'n agos iawn mynega,
Dy di a minne ſy yma, dyna 'r dŷn,
Lle dengys delw pechod,
Mae noethder Adda i'w ganfod,
A'i 'nabod yn ei hynod enw ei hun,
Nid yn ei gorph perſonol,
Ond yn ei gorph yſprydol,
Hanfodol ydyw efe,
'R hên ddŷn a'i wŷn aflonydd,
Rhaid cael yn awr ddŷn newydd,
Iawn lywydd yn ei le,
Mae 'n rhaid i *Eſau* golli,
A *Jacob* gael ei gyfri yn ei fraint,
Ag felly mae 'r ddau Adda,
Yr ail a ettifedda le 'r cynta, orſeddfa ſaint.
12. Nid ydyw 'n trwſt a'n trydar,
Yn canu carol ſeingar, ond ſwyno,
I'r neidr fyddar ehud farn,

Rhown faner Criſt i fynu oddiallan i'w
Dderchafu, ag oddi mewn yn mynnu ei ſathru 'n ſarn
Mewn geiriau ceiff y goron,
A'i alw 'n frenhin *Seion* union yn y ne',
A'r fuchedd oeredd ddiras,
Yn dewis cael *Barabbas* wael urddas yn ei le,
Fel hyn mae 'r dŷn oddiallan,
Yn griſtion ynddo ei hunan gwiwlan gwŷch,
A dirgel ddŷn y galon,
A geir yn Iuddew creulon,
Pan dreion e' yn y drŷch.

13. Ond at yr *Iuddew* yma,
Yr anfonwyd y *Meſſiah*,
I'w gyrchu o uffern iſa i noddfa nêf,
A'r *Iuddew* yn anwyllyſgar,
I gymryd Criſt yn feiſtar,
Hyd heddyw 'r eiddo *Ceaſar* a ddewis ef,
Mae yſpryd *Ceaſar* etto,
Yn byw 'n frenhinol heno a golwg ar[illegible] i gael,
Ag ynddo fyth dewiſir y cam o flaen y cywir,
A welir yn rhy wael,
Fel hyn mae ſhiloh 'r drindod,
Yn cael ei werthu a'i wrthod trallod drud,
Ymmhlith proffeſwyr crefydd,
Opiniwn hên a newydd ſydd beunydd yn y bŷd.

14. Er hyn mae 'r gwan greadur,
Yn addef Criſt heb rwyſtyr,
Yn ol goleuni 'r ſynwyr ynddo ſy,
Ond nid y dŷn gweledig,
Creaduraidd gnawd methiedig,
Yw 'r Ddafad ſy'n golledig yn y llu,
Yr yſpryd ſy'n eſtronedd,
O'r anweledig ſylwedd yn gorwedd yn y gŵg,
Hwn ydyw 'r mâb afradlon,
Sydd yn difuddio ei foddion,
Wrth drin cymdeithion drŵg,

A'r mâb ſy'n gwarchad gartre,
Yn dilyn dyleuſwydde deddfe ei dâd,
Yw 'r dŷn o'r llun allanol,
Y bywyd rhydd naturiol, yſtyriol wan yſtâd.
15. Ond nid y mâb ſydd gartre,
Sy n cael yr eur-wiſg ore,
Y fodrwy a'r arlwy ſeigie moethe mêl,
I r adyn fâb crwydredig,
Parodtoi r y llo paſgedig,
A'r miwſig yn ei ddirmyg mawr pan ddêl,
Er hyn mae 'r hyna 'n grwgnach,
I'w frawd oedd anufuddach gael molach mwy,
Yr hunan anſodlonrwydd,
Sy 'n tybied yma i r Arglwydd,
Gam ſynio o'u herwydd hwy,
Pwy edwyn yr afradlon?
Pwy edwyn gile ei galon golwg wael?
Pwy gadd ei Argyhoeddi,
O'i bechod a'i drueni i fod wedi,
Ei golli a i [illegible]?

Carol Plygain ar gwel yr Adeilad.

XXXII.

1. CEnhedlaeth i genhedlaeth,
Sy 'n cadw coffadwriaeth o'r oen dirweſt,
Angylion a Cherubied,
Yn canu 'r dŷdd y ganed e' ar duedd goneſt,
Dŷdd yw: yr ymddanghoſodd Duw,
I'r bŷd gweledig, yn ddatcuddiedig,
O groth morwynig, yn ddŷn creuedig ryw,
Yn faban vn ei febyd yn yſpryd bywyd byw,

Llu

Llu 'r nêf: A roeſant lafar lêf,
Fod preſenoldeb Duw yn y preſeb,
Wrth weld diſgleirdeb ei berffaith wyneb eſ,
I ganu i frenin *Salem*,
'Nhwy droen i *Fethlem* drêf,

2. Cyd ganodd ſêr y bore,
Cyn geni hwn flynydde flaenion addyſg,
Sef y Prophwydi duwiol,
Pa rai oedd yn ei gamol a dawn ddigymyſg,
Nid oes: Ni bu o oes i oes,
Yr un creadur daiarol natur,
Yn canu 'n gywyr, mewn meſur mwyna moes,
Ond yſpryd y rhai cyfion, yn ffrwythlon a ddeffroes,
Hwn ſydd: Yn deffro i deimlo 'r dŷdd,
Er budd a bywyd, 'r ŷm ninne 'n dweudyd,
Mai dyma 'r ennyd y rhoddwyd ni oll yn rhŷdd,
Ond pwy ſy 'n rhŷdd gyfreithlon, yn ſtât y galon gudd?

3. Mae llawer mâth o ryddid,
Am dani pe 'mofynid yma 'n fanw[illegible]
Mae dŷn a rhyddid ganddo,
I ddweud a gwneud a fynno, i foddio ei feddwl,
Yn rhŷdd: A'i fywyd yn ddi fudd,
Yn mynd lle paro trachwant iddo,
A rhyddid honno 'n ei dwyſo nôs a dydd,
O's gwneir ni 'n rhŷdd gan Ieſu,
Nid bywyd felly fydd,
Pob caeth: i dynnu rheini daeth,
O dŷ 'r caethiwed, y dŷn Archolled,
Ymmhlith y lleiddied, rhŷdd nodded iddo wnaeth,
Yn rhwym i dalu dyled yr ened hwnnw 'r aeth.

4. Dihareb glir a glywais,
Mai pob cyffelyb ymgais ag nid amgen,
Fel hyn daeth Criſt i geiſio,
Rhai oedd gyffelyb iddo tu pha le bydden,
Tlawd: Oedd e yn nyddie ei gnawd,
A dirmyg dynion ag i'r tlodion,

Drylliedig galon efryddion 'roedd e'n trawd,
Y rhai oedd ar y ddaiar yn watwar ag yn wawd,
'Roedd e': wrth rodio gwlad a thre,
Yn wr gofidus a dolurus,
Profedigaethus, trallodus ymmhob lle,
Ag felly 'roedd ei ddeiliaid diniweid dan y ne.

5. Rhoes air i attal rhyfyg,
I'r Iâch ni raid y Meddyg i roi dim iddo,
Nid oes air mwy cymhefur,
Mo'r gymwys at ein natur, ninne etto,
Ni bu: A dweud y gwir yn hŷ,
Er amfer Adda galonne cyfa,
Mo'r ddi ana nag fy nghynlleidfa 'n llu,
Pwy fydd yn gla ei gydwybod gan bechod?
Dyrnod du,
Ger bron: rhai fydd yn yr oes hon,
Nid yw 'n anghenraid, wrth Feddyg enaid,
Does neb yn ddeilliaid ond pawb a llygaid llon,
Ni eilw un dŷn am dano,
Nes caffo friwo ei fron.

6. Mae gair yn dweud fel 'n yma,
Fod llygaid a mawr ana i amryw ened,
Llygaid fy yn eu penne,
Ag heb ganhwylle gole i allu gweled,
Mawr yw: Dallineb dynol ryw,
A haul cyfiawnder, yn ei difgleirder,
Yn twnnu 'n dyner a'i bower i rai byw,
Ag nid i eneidie meirw fy heb wifgo delw Duw,
O hyd: Crift yw goleuni 'r byd,
Mae etto 'n galw i dleffro ei ddelw,
I w chodi a i chadw o blith y meirw mud,
I gael goleuni nefol yn ei briodol brŷd.

7. Eneidie anyftyriol,
Nid hanes byrr amferol yw hyn o fiarad,
Mae Crift a ddifri ddwyfron,

Yn

Yn ceiſio corph a chalon, at ffordd dychweliad,
Duw ŵyr: Faint yw 'n colledion llwyr,
Wrth garu molach gan fall gyfeilliach,
Ag oedi 'mhellach i'w heiriach hi yn rhy hŵyr,
Digofaint ſy uwch ein penne, fel fflame'n cynne cwyr,
Yn brudd: tra bo yn ein dwylo 'r dydd,
Gochelwn rydid rhwyſg Ieuengctid,
Rhag mynd dan ergid y farn a'r llid a fydd,
I fynwes Criſt gorchmynwyd i'n ffoi mewn bywyd
8. Gair gwir ſy'n glir i w ganfod, (ffydd.
Ffoi rhag y llid ſy ar ddyfod mae 'n ſiwr o ddifa,
A ni fel *Sodom* ofer yn clywed hwn fel cellwer,
Drwy ryfyg hylla,
Mae ſôn: Am hyn ymmhregeth Ioan,
I droi rhai diras o'i gymdeithas,
Rhaid ffrwythe Addas i'r deyrnas cyn y dôn,
Pob pren yn dwyn ffrwyth arall rhoe 'r fwyall ar ei fôn
Nid cyn: Dyfodiad Criſt 'roedd hyn,
Ond yn ei amſer 'roedd llid a digter,
At anghyfiawnder bu 'n arfer toſter tynn, (chwynn
I lwyr lanhau ei lawr dyrnu gwnae chwthu chwalu 'r
9, Gochelwn yma 'n wamal,
Fyw 'n ddiofal drwy ymgynnal mewn drŵg anian,
Nid ydyw Ieſu i'w oſod fel cyſgod mur ei bechod,
Mawr na bychan,
Hawdd iawn dweud cyffur llythyr llawn,
Trugaredd ened heb ffŷdd na gweithred,
Criſt i ni aned a'n gwared ganddo gawn, ddawn,
Cyhoeddi hyn yn hyddyfg heb ddim o'i ddyfg na i
Twyll yw: A rheol ddrŵg ei rhyw,
'R fath ymadroddion o benne 'n fydion,
Gwirionedd union rhaid bod yn griſtion byw,
Yn ſtât y wiſg briodas cyn mynd i deyrnas Duw.
10. Mae 'n bleſer genym ganu,
Gwers deſach i Griſt Ieſu a mynnu mo'no,
A Chriſt mo'r ddieithr heddyw.

Ag

Ag ydyw 'r Twrc mawr accw ſy'nhir Morocco,
Ar hynt: down bellach at hên bwynt,
Yr eglwys ffyddlon a'r prîf griſt nogion,
Nid Criſt fel eſtron oedd gan y dynion gynt,
Yn yſgwyd megis corſen ne gawnen yn y gwŷnt,
Criſt clau: Yn ymrwymo dan yr Iau,
Yn un a'u bywyd, nhwy 'dwaenent hefyd,
Ddelw eu 'nwylyd, yn yſpryd i'w bywhau,
Yn un cyd gorph agwnnw, nid oeddynt enw dau.

11. Trwy râs mae môdd i ninne,
Fod yr un fath a nhwythe a Duw i'n hethol,
Mae 'r gair yn ddrŵs agored,
Yn ein galw i fyw 'n ei nodded yn feunyddiol,
Heb wâd: Rhaid ſtyrio 'r ddwy yſtâd,
Mae ſtad ddaiarol, a ſtâd yſprydol,
A'r ddwy 'n wahanol, a Duw roes reol râd,
O'r naill i'r llall i'n codi, hyn ydi ei ordinhâd,
O's am: Wir grefydd *Abraham*,
Tâd y ffyddlonied yr ŷm yn ſynied,
Ol traed y defed nid ellir cerdded cam,
Nes mynd o'r ſtat ddaiarol i'r nefol yn ddi nam.

12. Diſgynſa 'r hen ddyn cynta,
Yw 'r ſtat ddaiarol yma drwy ucha dichell,
Sy o'r ddaiar yn ddaiarol,
Ag fellu doe ei holl bobol i'w dywyll babell,
A'r ail: Sydd ſtat ar ſiccrach ſail,
Preſwylfa Shiloh, hiliogaeth Iago,
A'r nefol Athro ſy 'n gwir fugeilio ei corlan gail,
Gwinwdden Duw gynyddodd ni ddylodd un o'i ddail,
Pob un: Sy i ddioſg yr hen ddyn,
A gwyſgo 'r newydd nid ffurf nag arwydd,
Nid ydyw crefydd, waith celfydd lliw na llun,
Na gwiſg o unrhyw gyſgod ond hanfod Criſt ei hun.

13. Mae 'r ſgrythyr i'w chyflawni,
A Duw yn addo i ni newydd anian, (wadu ei hunan
A gaffo ei gyflwr fellu ei waith o wedi hynny yw i

Fo

Fo wêl: o'i galon yn ddi gêl,
Gyflawni a gwneuthur yr holl yſgrythyr,
Gan Ieſu i'w gyſur mewn ſynwyr ag mewn ſêl,
Mae'n profi 'r gair yn lluniaeth 'r un mòdd a llaeth a mêl
Cyn hyn: Profaſai 'r deddfau n dynn,
Fel dyfroedd *Marrah*, archwaethiad chwerwa,
Yn ſaethe llyma a phenna gwayw ffynn,
Yn curo megis cowri ei geiſio i olchi 'n wynn.

14. Fel golchi 'r llewpart brycha,
Neu grwyn y dynion dua ar donnen daiar,
Fel plygu calon *Pharo*,
Neu ſwyno ar dir i foddio 'r neidr ſyddar,
Yw rhoi: Gorchymyn i ni droi,
O'r gadwynog, yſtât orweiddiog,
Lle mae 'r ſarph dorchog gelwyddog wedi 'n cloi,
O'r braidd oddiyno dichon,
Y cyſion ffyddlon ffoi,
Ffoi ble: I Griſt drwy weddi gre,
Mae porth cul bychan i ddyn fynd allan,
O hono ei hunan i mewn i'w anian e'
Does un ffordd arall gywrain yn arwain neb i'r ne,

15. Rhai gwyna mai go anodd,
A thywyll yw 'r ymadrodd,
Er medru ei ddweudyd,
Pwy oddef y fath addyſg,
Pam na roid geirie hyddyſg i rai gyrhaeddyd?
Pam y gwnaed: O gyredd cig a gwaed?
Ddyfndere 'r ſgrythyr fel môr o wydyr?
A chyfyng lwybyr pechadur byw ni chaed,
A redai ei yrfa 'n union rhy drymion oedd ei draed,
Er hyn: Mae 'r gŵr fy ar y march gŵynn,
Yn troedio 'r llwybrau 'r môr a'r tonnau,
A'r llyfr agorai oedd tan y ſelau tynn,
Mae ganddo agoriadau ar bob mannau i bawb a'u mŷnn.

16. Caniade 'r oes a baſiodd,
Sy'n coffa mewn ymadrodd am enw ei oedran,

Nid

Nid ydyw hyn ond anwes,
Fe ŵyr pob dŷn iawn hanes hynny ei hunan,
Mae 'i oed: hyd furie a chaere a choed,
Sy er pan ei ganed, yn ole ei weled,
Ond pwy gan ddoethed, a fedro rhifed rhoed,
Feſuriad ar flynydde ſy heb ddechre ei radde 'rioed,
Ar gân: Rhown foliant fawr a mân,
I'r tad a'n creue i'r mab a'n pryne,
A'r yſpryd gole, o wir galonne glân,
Tri pherſon mewn un hanfod byw hynod heb wahân.

Carol i gymdeithas Clwb, ar Grimſom Velvet, a ddatganed yn eglwys Llangollen, ddydd Calan.

XXXIV.

1. NA ſafwn yma 'n ſegur,
Ond fel gwrandawyr diwyd,
Yn ceiſio budd ag elw, gwir ddelw 'r gair yn ddilid,
Mawr orchwyl anwyl ynnill,
Drwy bebyll Duw a'i bobol,
Oedd gwrando 'r gair a'i wneuthur,
Gan frodyr ſwydd hyfrydol,
Gofynir goruchwylwyr, am gyfri o ffrwyth eu llafur,
A'u ddwyn yn gywyr i Dduw gwŷnn,
A phob gwas a dderbynio un dalent yn ei dwylo,
Rhon gyfri am honno, gwir yw hyn,
Mae 'n amſer i ni yſtyried,
Be 'r ydym yn ei glywed,
Pob un edryched yma 'n driſt,
Wrth wrando efengyl Ieſu,

Rhaid

Rhaid un a'i 'r galon gledu,
Neu gael ei enwaedu i gredu i Grift.

2. Dirymmodd *Paul* enwaediad,
Yn ol traddodiad dynion,
Ag etto cadwai ei fylwedd,
Dirgeledd ar y galon,
Enwaediad cnawd, oedd weithred,
Adduned i ddaioni,
Yn rhwymo i gadw 'r gyfraith,
Oedd helaith yn ei holi,
A r gwir griftnogion hefyd,
Mae nod enwaediad yfpryd,
Yn rhwymyn bywyd am bob un,
I fynd wrth farn cyfiawnder,
Dan yr efengyl dyner,
A byw 'n ei phower tra 'bo ffun,
Mae hwn yn rhwymo ei heddwch,
Mewn undeb a brawdgarwch,
Er da ddedwddwch harddwch hir,
Cyfrifir di enwaediad,
(Dan berffaith gyfraith cariad,)
Yn enwaediad i ni 'n wir.

3. Yftyriwn beth fydd ore,
Mewn geirie i ni yma gyrredd,
'Does dim fy well i'w glywed,
I'r ened na gwirionedd,
Beth yw gwirionedd union?
Pob bron a chalon chwilied,
Fe fethodd rhai gwyr doethion,
Oedd greiffion mo'u amgyffred,
Fe ffaeliodd *Pontius Pilad*,
Ddewr Uftus wyddor waftad,
Gael iawn gyrhaeddiad y gair hwn,
Er golchi ddwylo 'n wnion,
Rhag cul euogrwydd calon,

O fod gwaed gwirion arno'n bwnn,
Pe'i gwybuaſo 'n gwbwl,
Beth oedd gwirionedd manwl,
Fo welſai ei feddwl ffals ar fai,
Ei fod o'n troi 'n ddau ddyblyg,
Condemnio Criſt i ddirmyg,
I gadw rhyfyg gyda rhai.

4. I Nicodemus eilweth,
Oedd dan ddyſgeidieth gadarn,
Gwirionedd pan amlygwyd,
Ae'n ynfyd mewn union farn,
A Saul wrth draed Gamaliel,
A'i fanwl ſel a'i ſylwedd,
Ni dwaenai wrth lais y gyfraith,
Gywreiniaith y gwirionedd,
Ni welai mo'no 'n berffaith,
'Nes colli ei olwg unwaith,
A'i gael o eilwaith yn ei ol,
Goleuni Duw yn unig,
A d'wllai ei ddawn ddyſgedig,
Fe ei troes hi 'n rhyfyg, ffyrnig ffol,
Ond colli 'r olwg gynta,
Doethineb yr hên Adda,
Sy'n llawn cyfrwyſtra, ffraetha ffrwyth
Cawn olwg fwy cyfarwydd,
Diniwaid y dyn newydd,
A wnaed yn llywydd i bob llwyth.

5. Gorchmynwyd i ni hefyd,
Am ddweudyd y gwirionedd,
Bob un wrth ei gymydog,
Yn bwyllog mewn amynedd,
Oblegyd mae aelode,
Mewn gole ym i'n gilydd,
I gyd fwriadu rhodio,
Llafurio 'n un lleferydd,

Cymerwn

Cymerwn air Duw 'n gyngor,
A rhown i hwn ei ragor,
Nid oes egwyddor na dyſg well,
Hwn yma yw 'n hwyl a'n hammod,
A'n huſtus ben ein hyſtod,
Mae ganddo awdurdod benod bell,
Mae addyſg i'w deunyddio,
A Theyrnas nefoedd ynddo,
Pan ddown i'w chwilio, i ddyn i'w chael,
Trwy guro mae trugaredd,
Ond ceiſio mewn gwirionedd,
Bydd yn orfoledd i ni 'r faeł.

6. Yr achos mwya i'w ddweudyd,
Yn hyn o ennyd i ni,
I'w dangos cyflwr enaid,
Ond peth angenrhaid ydi,
A hyn yw cyflwr hwnnw,
Mae 'n farw mewn oferedd,
Lle cafodd ei ddaroſtwng,
Yn deilwng o bob dialedd,
Y man lle cwympodd Adda,
Mewn drygfyd y mae ei drigfa,
Sy fall ſefyllfa ddalfa ddig,
Lle fyrthio 'r pren yn gyfan,
Yr erys yn ei unfan,
A'r enaid truan yno trig,
Yn ol y cnawd mae 'n rhodio,
Am bethau 'r cnawd mae 'n fynio,
Erioed heb ddeffro i deimlo ei dwyll,
Yn arfer ei hên yrfa,
'N ol helynt y byd yma,
Y graddau pella o gyr'edd pwyll.

7. Hon ydyw 'r ſtat mae Satan,
Trwy ogan ynddi 'n trigo,
Yn ddwyſog ar y deillion,

A dynion yn byw dano;
Ymhlant yr anufudd-dod,
Mae 'n gweithio 'n hynod heno,
I'w tynnu i bob aflendid,
Mae rhydid hwn i'w rhwydo,
Hon ydyw 'r dywyll fagddu,
Mae pechod yn teyrnafu,
A chwedi tyfu i fynu 'n fyw,
Hwn ydyw mynydd Ebal,
Lle mae melltithion amal,
I ennyn dial anian Duw,
Does yma ddim cynhwyfiad,
I ofod cyfraith cariad,
Ni bu 'no ar rediad mo'no 'rioed,
O's digwydd dim ymryfon,
Daw dant am ddant yn union,
Cariad ffyddlon cerdded ffoed.

8. Y ftat a'r cyflwr yma,
Ydyw fteddfa pob gwatworwr,
Lle gwelir cnoi, traflyngcu,
A chynfigennu o gynnwr,
Ymgeccreth am y *Mamon*.
A thrin dichellion cyfrwys,
Nid ni ond pawb 'r un ffunud,
Mae'r yfpryd hwn i'w tywys,
I hyn yr ymddanghofe,
Mab Duw fel y datode,
'R fath gledion glyme o ddryge 'r ddraig,
Fe'i gwnaeth ei hun yn ddibris,
I'w ymddwyn yma nawmis,
A'i wafgu goris gwregys gwraig,
Lle gwnaed ef yno 'n gnawdol,
Ar ddelw 'r dyn daiarol,
'R un ftat anianol a ny ni,
Fel y dygai fe 'n pechode,

A'r

A'r bywyd yma i ange,
Ei gorph i ddiodde offryme 'n ffri.
9. Nid ſtat o lygredigeth,
Yw etifeddieth Criſtion,
Ond ſtat o Iechydwrieth,
A gaed trwy gyfreth gyfion,
Mae criſtion oddi cartre,
Ar ſiwrne 'r mab afradlon,
Tra bo fo 'n porthi chwante,
Ar goegedd gibe gweigion,
Er bod yn llwm ei ddillad,
I hwn 'roedd parch a chariad,
Wedi dwad i dŷ ei Dad,
Ei wiſgo a gwiſg gorfoledd.
Arlwyo ei fwrdd yn loywedd,
A phob anrhydedd iddo 'n rhad,
Fel hyn mae 'r criſtion ynte,
Yn derbyn parch a breintie,
Pan ddelo adre yn ei ol,
Wedi iddo fod yn fudredd,
Yn aros mewn anwiredd,
Annuwiol fuchedd ffiedd ffol.
10. Gwlad bell ag anghyfannedd,
Yw gwledd melyſwedd pechod
Gwlad lawn o foch afluniaidd,
Ac anifeilaidd filod,
Rhaid newyn ar yſtymog,
I'n hannog o'r fan honno,
A phrofi ffrwythe pechod,
Yn ſorod wedi ſuro,
Mae 'n henaid yn newynu,
A gwledd Efengyl Ieſu,
Wedi darpharu o'r perwyl hyn,
Danteithion brâs paſgedig,
A gloyw win puredig,
Yn ei gynig gan Dduw gwŷnn,

Cychwnwn o dŷ Pharo,
I'r Ganaan a'n digono,
Y wlad ſy 'n lliſo o fêl a llaeth,
Nid ydyw Criſt yn ſodlon,
I'n gadel tan law eſtron,
I ſyw fel gweiſion culion caeth.

Carol Plygain ar Charity Miſtreſs, a gyfieithwyd o gân Saeſnaeg o waith Sir *William Daws* gynt Arch Eſgob *York*.

XXXV.

1. POB criſtion llawenganed,
A moled ef, yr Arglwydd nêf,
A'r galon fel a'r gene,
A llafar eirie llêf,
Am nodded ogoneddus, daionus Duw,
Rhyfeddol yw, danfonodd i ni 'n Feddyg,
Ei fâb charedig ryw,
Yn fendigedig faban duwiol anian,
Deuai i lawr,
Mewn cariad cu, fel y caem ni frŷ,
'N derchafu i fynnu 'n fawr,
Angylion Duw hedaſan,
A'r newyddd gân fod i ni gyd,
Brynedigaeth goedd,
Gan frenin oedd, uwch ben Brenhinoedd byd.
2. Rhyfeddod oedd ei ymddwyn,
Gan forwyn rŷdd, a'i gael mo'r gudd,
Ag nid fel twyſog bydol urddaſol ar ei ddydd,

Ond

Ond mewn tlodi ag adfyd diyſtyrllyd fri,
Y troes Duw tri,
Bu 'n waeledd ben ei welŷ,
In gogoneddu ni,
Ni feddai ei fam ef yma,
Na thŷ na thrigfa orweddfa wŷch,
Er hyn fe i rhoed hi i'w eni heb oed,
Wrth ochor troed yr ŷch,
Hon oedd a *Joſeph* dduwiol,
Yn ymorol am ryw le,
Er crwydro n wan,
Nid oedd i'w rhân un drigfan yn y dre.

3. 'R un lletty ar eu ſiwrne,
Ni rodde un radd pawb a'u naccâdd,
Ond beudŷ i fam yr Ieſu,
A'i dwyn i'w gwelu gadd,
Dim ſidan gwych oſodiad,
Na dillad crŷd o drwſiad drud,
Ond preſeb yn obennydd,
I Arglwydd mawr y bŷd,
Ag yno cae fagwraeth,
Gan fammaeth wrŷf berffaith bur,
Nes daeth ger bron, wrth feren lon,
Dri doethion wiwlon Wŷr,
A'r baban Ieſu gowſant,
A rhoddaſant iddo n rhwydd,
Drwy barch a bri, offryme ffri,
Haelioni o union lwydd.

4. Yn hyttrach rhag bradychu,
Yr Ieſu gwŷnn drwy 'r derfyſg dŷnn,
Nhw droen i'w gwlad ffordd arall,
O herwydd deuall hyn,
'Roedd *Herod* frenin ffyrnig Iuddewig ddŷn,
Mewn gwaetha gwŷn,
A'i ddyſais am ei ddita,
Yn y modd creulona ei lun,

Ordeiniodd lâdd gwirioniaid,
Ar wedd diniwaid oedd dan oed,
Pob un dwy flwydd ne lai 'n ddi lwydd,
I'r cledde 'n rhwŷdd fe'u rhoed,
Gruddfannau dagre afonydd,
Drwy 'r holl heolydd cyfludd caed,
Yn gweled gwedd cyrph bach,
I'r bedd, yn gorwedd yn eu gwaed.

5. Babanod a'u haelode,
'N rhwygiade i gyd,
Mewn dirmyg drud,
Ar waywffyn y milwyr,
Donn fradwyr duon frŷd,
Nid allai eu cu rieni mo'r peri paid,
Wrth agenrhaid,
Na throi cynddaredd digllon,
Gelynion blinion blaid,
Ae 'r ddufarn drwy 'r wlad lydan,
I lâdd pob paban bychan bâch,
Heb 'wllys da 'n dweud trugarhâ,
Wrth blentyn clâ nag Iâch,
Bradychu rhai'n o'u cyrre,
Ar fronne eu mamme troye trift,
A'u diben du ymyfg y llu,
Oedd croes fradychu Crift.

6. Duw 'n fanwl a'u danfone,
Da gwydde ar goedd y ddichell oedd,
Fe gadwai ei fab caredig,
Rhag y fileinig floedd,
Gydâ ei rieni unol daiarol râdd,
Ei fagu câdd,
Nes marw 'r treifiwr gwaedlyd,
Yn erlyd ag yn lladd,
Pob perigl rhedodd drwyddynt,
A nefodd danynt nôs a dŷdd,

Mewn

Mewn iſel fri, fel bydde ni,
Oddiwrth y rhei'ni 'n rhydd,
Pa boene mawr eſg'luſodd,
Pa lafur na ddioddefodd ê',
I ſiccirhau happuſrwydd clau,
'N heneidiau yn y nê'.

7. Gweithredoedd da danghoſe,
A'u ſiample gaed i ninne wnaed,
Pa fodd y dylem etto,
Dlawd rodio hyd ôl ei draed,
Rhoi golwg i rhai dalla,
'N ddi ana ddŷn gwnae gloff ei glun,
Cyfodi 'r meirw i fynu drwy allu Duw ei hun,
Iachau y gwahan gleifion,
Gollyngai 'n rhyddion y rhai rhwym,
A bwrw i maes gythreuliaid câs,
Drwy nerth ei râs a'i rŷm
Anrhydedd ei briodas,
O'i nefol urddas doeth-was daeth,
Pan agorai fin i'w dreſnu a'i drin,
Dŵr yno 'n wîn a wnaeth.

8. Dau o byſgod pump o dorthe,
Fo'u rhanne 'n rhwydd, yn llowna llwydd,
I'r pummil gwag eneidie,
A newyne yn ei wydd,
Digonol wlêdd groeſawys i reidus rai,
Da fwyd di fai,
Rhoi diolch moliant iddo,
Ni fedrent yno lai,
Pan gaſglwyd y gweddillion,
Gan y diſgyblion wiwlon wêdd,
Addawſant hwy 'roedd yno fwy,
Na'r arlwy cyn y wlêdd,
A deuddeg llawn faſgeded,
I fynu helied ar eu hol,

Yn amalhau yn lle lleihau,
Heb neb mewn eiſiau 'nol.
9. Ei maint y rhyfeddode,
Ar gwrthie i gyd, roedd yno o hyd,
Iuddewon heb ei gredu,
Am ei ddibenu o'r bŷd,
Rhag bario grym y bwriad dymuniad mêl,
Rhoi gwobor gêl,
I *Judas* i w fradychu,
Wrth ei guſanu o ſel,
Ag yno ei ddal a'i rwymo,
Rhoi mwgwd arno a'i guro a gŵg,
Y cyfiawn wr gadd yno 'n ſiwr,
Ei drîn fel treiſiwr drŵg,
Poeri i'w wyneb puredd,
A'i wawdio 'n rhyfedd a wnai rhai,
Rhoi coron grych ei graen o'r gwrŷch,
Wnai ben o 'n ddrŷch o ddrain.
10. Ag un lleferydd gwaeddent,
Ni phallent hwy 'n annuwiol nwy,
Ar *Pilat* i'w groeſhoelio,
Na welid mo no mwy,
A'r barnwr drwg rhyfygus,
Bâs Uſtus bu, i foddio r llu,
Cyflawnodd eu dymuniad,
Rhag colli cariad cu,
Er mwyn i'r gynnen ddarfod,
Yn erbyn ei gydwybod aeth,
Rhoi Arglwydd clir y bywyd hir,
I farw 'n wir a wnaeth,
Ag yno i'r groes fel gwannwr,
Yr aeth Iachawdwr dynol ryw,
A'i arwain cadd fel oen i'w lâdd,
Hyn ganiadhadd brŷd Duw.
11. I achub ein heneidie,
Gollaſe eu lle yn nheyrnas ne,

Troed

Troed ni allan drwy gwymp Adda,
Yn gyfa gyd ag e'
Ei ddwylo a'i draed bendigaid,
I'n rhaid fe'u rhoes mewn chwerw loes,
I'w hoelio 'n ddirmyg dynion,
Warth greulon wrth y groes,
A gwaywffon trywanwyd,
A'i waed ollyngwyd yno 'n llŷnn,
Er maint i'w rhi 'n pechode ni,
Cae 'n yno eu golchi 'n wŷnn,
Yn rhâd ei fywyd rhodde,
I chwi a ninne a'n bathe o'r bŷd,
Ei nawdd a'i nerth fy'n fawr eu gwerth,
Am drefnu 'r aberth drud.

Hwn a gyfieithais mo'r gywrain ag y gellais yn ol meddwl yr eſgob yn y gan Saeſnaeg; y fl. 1776.

CAROL ar Kings Farwel, i'w ganu mewn cynulleidfa clwb wyliau 'r Nadolig.

XXXVI.

1. POB gwir genedl a gâr ganu,
Mawl i'n twyſog moliant Ieſu,
Dowch gwrandewch mawrhewch yr achos,
Y mae 'r efengyl yn ei ddangos,
Mae 'r gyfraith glos, yn dangos i ni,
Am ochel drwg a gwneud daioni,
A dyna ſwm y trawiad trwm,
A'r cwlwm ſydd arni,

Er ei hyſtyr ganwaith droſti,
Dim mwy na hyn ni wnawn o honi,
A'r gyfraith oll a gedwir allan,
Ar bob achos a gair bychan,
O's ceri di 'th gymmydog fri,
Fel ceri di dy hunan,
Y deunydd cofia dyna 'r cyfan,
Wedi grynhoi a'i roi n yr unfan.

2. Ag er bod hyn yn gwir gyflawni,
Cyfraith Moſes a'r Prophwydi,
D'oes un o heppil eiddil Adda,
A gadwodd ammod y ddeddf yma,
Nag oes un o ddŷn anianol,
Fel y tyſtiodd yr Apoſtol,
Pawb ymhob man, a ſyrthiodd dan,
Foddion anfuddiol,
Fel yr aeth cyflawniad cariad brawdol,
Yn ormod ſwm, ar gnawd rheſymol,
I Griſt gofynnodd rhyw wr enwog,
Pwy yma ydyw fy nghymmydog?
Pe cawn mi wn, adnabod hwn,
Mi a'i carwn yn ſerchog,
Mynegodd iddo ar ddammeg bwyllog,
Prun o'r tri gŵr oedd y trugarog.

3. Danghoſodd allan ddull a moddion,
Dyn a ſyrthiodd ymhlith lladron,
Pwy ydyw hwnnw heddyw i'w adde,
Ond pwy 'dŷm ni, myfi a chwithe
A phwy'd yw 'r gwr a wnaeth drugaredd,
Cymmydogaeth ac ymgeledd,
Mae hwn o hyd yn byw 'n byd,
A'i 'ddewyd, ddi ddiwedd,
Sef y gwir *Shilo* gore ei ſylwedd,
Fab oddi agos heb eiddigedd,
Hwn yw 'r cymmydog neſa i'n calon,
Hwn ſy 'n caru Duw a dynion,

'N

'N cwblhau gwaith, gofynion maith,
Y gyfraith wir gyfion,
O'i fodd yn madde oni fydd moddion,
I dylodi bob dyledion.

4. Gwir ydi hyn medd rhywun eilwaith,
Fôd Criſt yn caru pawb yn berffaith,
Ond oes gorchymmyn arnom ninne,
I garu 'n ſanctaidd megis ynte?
Ond wrth ymwrando a nerth yr undeb,
Mae Criſt a Chriſtion yn un wyneb,
Nid ydyw dŷn ei eiddo ei hun,
I'w ofyn na'i atteb,
Ond un a Chriſt mewn priodoldeb,
Duw a wnaeth hwn i ni 'n ddoethineb,
O'r undeb hwn nid wyf wybodol,
Medd un arall yma 'n wrol,
Aeth Criſt i r ne dyna 'i le,
A ninne 'n anianol,
Mewn bywyd dirym bŷd daiarol,
Pa fodd a nyni bydd o'n unol.

5. Fel y mae 'r corph a'r enaid beunydd,
Yma 'n gwlwm am eu gilydd,
Fellu mae Criſt a Chriſtion hefyd,
Yn un ſylweddol fywiol fywyd,
Na dwaeno hyn ſydd yn wahanol,
Mae 'n hel cweſtiwne ymgais dynol,
Pa beth a wnâ? Pa fodd y ca,
Fywyd tragwyddol?
Doethineb ſy 'n ei yrru i'r yſgol,
At y gorchmynion dwyfion moeſol,
Ac yno 'n gaeth y mae fo 'n gweithio,
Megis *Iſrael* tan law *Pharo*,
Yn ſad ei Siom, a'r llaw yn llom,
A'r daſg yn drom arno,
Dyna broffeſſwr heb orphwyſo,
Gwaetha bloedd a'r gwaith heb lwyddo.

6. Pa

6. Pa beth wrth hynny wneiff pechadur,
A'i byw yn llonydd ag yn ſegur?
Criſt yn goſod cyfraith allan,
Ag yn cyflawni honno ei hunan,
Mae hyn yn foddion i w ryſeddu,
Ag yn dywyllwch i'r diallu,
Ond deddfe Duw i bob dŷn byw,
Sy wrth raid i w gweithredu,
A'i wadu ei hunan wedi hynny,
'N anfuddiol wâs i feddwl Ieſu,
Mae dŷn ei hun pan fo 'n wahanol,
Oddiwrth ei briod perthynaſol,
A'i fryd yn glau ar gwbwlhau,
Y deddfau ammodol,
Wrth geiſio eu cadw 'n wers gyſgodol,
Fo una i w torri 'n fwy naturiol.

7. Hawdd i ni feddwl amryw foddion,
I ddweudyd geirieu a chynghorion,
Bas hel mewn defod Salmau Dafydd,
Carol cariad camad newydd,
A dweud mo'r dda 'd yw gweled brodyr,
Yn byw ynghyd, yn gyd gynhalwyr,
A dweud ar ol geirieu *Paul*,
Apoſtol, heb rwyſtyr,
Fod pob dawn rhad, heb gariad geirwir,
Fel Sŵn efydd ffals anifyr,
Nid mewn diotta gwledda gloddeſt,
Y ceir cariad cywir goneſt,
Mewn Tafarn dŷ mhlith un llu,
Sy 'n rhaffu ſŵn rhyffeſt,
'Rhai ddalio gariad toriad dirweſt,
Iawn eu Archwaeth, nhw wnan' orcheſt.

8. Pa beth yw 'r dull ymgynnull yma,
I 'mgau mewn unfan yn gymanfa?
Ond i wrando 'r gair a'i glywed,
Sy 'n Iechydwriaeth pechaduriaid,

Pa be 'roedd *Paul* yn caſglu r bobloedd,
O fannau tywyll yn fint-eioedd?
Mewn cariad cu, yn llawer llu,
At Ieſu fo'i twyſodd,
Fel morwyn bur fo'i gwir ddyweddiodd,
I w priod anwyl a'i pardynodd,
A chwedi eu dwyn o dref a dinas,
I mewn i ſtafel y briodas,
Hon oedd yſtâd anrhydedd rhad,
Ymroddiad mo'r Addas,
Oedd cymmod ethol eu cymdeithas,
Eu cariad hardd a'u cred a u hurddas.
9. A chwedi cael nhw i'r afael honno,
'Roedd hawdd rhoi cyngor i w perſwaedio,
Mae n hawdd i fugail heb ei arfogi,
Gadw defaid gwedi dofi,
Pa fath rai oeddynt cyn eu dyfod,
Etto profwn at eu priod,
Rhai 'n mynd ar ôl, eu ffanſi ffôl,
Yn bobol, heb wybod,
Rhai elwid plant yr anufudd-dod,
Yn dilyn buchedd lawn o bechod,
Rhai yn eſtroniaid naws druanach,
Yn dilyn meddwdod a chyfeddach,
Yn ddwl, yn ddall, mewn gwyn a gwall,
Co fall, eu cyfeilliach,
Yn caru melys chwant a molach,
A charu Duw a chariad oerach.
10. Wedi 'r Apoſtol efengylu,
I'w dwyn i fyw dan ras yr Ieſu,
Cyfadde eu 'lode 'n arfe aflendid,
'Roedd arnŷnt gywilydd yno o'u plegid,
Derbynient gyngor wyddor weddus,
I roi eu haelode a faſe nwyfus,
Yn arfe rhwydd, i ſerchog ſwydd,
Sanctteiddrwydd yn bwyllus,

Ag ei gyfiawnder arfer gymwys,
A hynny allent a rhydd wllys,
Pan oeddynt weifion pechod ofer,
Yn rhydd i fynd oddiwrth gyfiawnder,
'R ol ufuddhau, cael torri 'r Iau,
Honno 'n ddau hanner,
A'i rhwymo i fynu i fyw dan faner,
Cariad hynaws mewn cred dyner.

11. Ond ydym ni 'n cael clywed geirie,
'R efengyl weithian, bawb fel nhwythe,
Pa fodd na fydde ni yr un feddwl,
Ag yn 'r un fan yn gyfan gwbwl?
Rhai 'n dweudd eu bod yn clywed digon,
Nid ydyw hynny ond tybie gweigion,
Mae 'r 'fengyl fyw yn allu Duw,
Fe'i clyw, y byddarion,
A r hyn a wnaed gan 'r Apoftolion,
Sy 'n eifie etto i nefu atton,
Dychrynnu *Felix* ar ei orfeddfa,
Rhoi fŷch grap ar ferch *Agrippa*,
Llyfu llês, ag oeri gwrês,
Y Dduwies *Diana*,
Agor eigion calon *Lidia*,
Dyna fwm yr eifie fy yma.

Dechre CAROL Plygain ar Greeks yn Troy.

XXXVII.

1. WEL dyma orchwyl parchus,
Neu ddyle fod yn ddilys,
Sef moli Duw daionus, downus dad,

Bendithiwn

Bendithiwn ef heb weniaeth,
Am rad ein creadigaeth,
Oll yma ag am ein lluniaeth,
A n gwellad,
Pwy ond efe ei hunan,
Sy 'n cofio porthi r cyfan,
Bob anian fy yma 'n byw,
Tad ein hyfprydoedd ydi,
Duw unig pob daioni,
Mae 'n roddi ei ddynol ryw,
Pe edrychem yn y de hre,
O b le daeth yr elfenne,
Y gwnaed heb ame r byd,
Wrth chwilio 'r fath orchwylion,
Ni fyddai 'r doetha o ddynion,
Mewn moddion yma ond mud.

2. 'Roedd raid cael un anfeidrol,
Yn faer ag anfefurol.
A phob peth yn ddigonol,
Ynddo a gaed,
Drwy ryw ryfeddol foddion,
Uwch law dealldwriaeth dynion,
Y cwbl oll yn union fellu wnaed,
A Duw a greodd Adda,
Ar ddelw ei lun oedd lana,
Berffeithia gynta ar goedd,
Pa fut medd rhai cadd Satan,
Le i lygru hwn mo'r fuan,
O'r anian Iach yr oedd,
Mae hwn yn gweftiwn caled,
Y fawl nas geill amgyffred,
Na holed yn rhy hŷ,
Fe wŷr yr Arglwydd cyfion,
Drwyddo 'r holl fadroddion,
Ar ba ddibenion y bu.

3. Am hyn amlygai 'r mowredd,
I deilwng briodoledd,
Hon ydoedd ei drugaredd weddedd wiw,
A Duw ei hun pan holodd,
Adda gyfaddefodd,
A gwadu 'r gwir ni feiddiodd yn ei fyw,
Drwy 'r goſtwngeiddrwydd yma,
Addawodd y gorucha,
I Adda o'r rhwydda yr had,
I ſigo coryn Satan,
Am hudo 'r wraig oedd egwan,
Dwyll anian di wellhâd,
Cadd Adda wir dyſtioleth,
O'r dirion Iechydwrieth,
A gobeth heleth hir,
Fe gredodd ef heb amme,
Mai 'r Arglwydd a gyflawne,
Drwy wrthie ei eirie n wir.

4. Fe fethodd dichell Satan,
Rwyſtro Duw o'i amcan,
Mae 'n para hyd yr wan fel yr oedd,
Yn cynnyg Iechydwriaeth,
Drwy gariad heb ragoriaeth,
Pregethwyd hynny ganwaith,
I ni ar goedd,
Pa beth ſy 'n rhwyſtro ei dderbyn
Ond natur ſydd yn gyndyn,
Anhydyn ydyw hi,
Ag fellu 'r gair ardderchog,
Sy 'n colli drwy 'n côf tyllog,
Ein cnawd hannerog ni,
Mae eiſie teimlad yma,
O effaith codwm Adda,
Y waſgfa ſynna ſydd,
Addewydion Duw ddoent wedi,

A'i

A'i ſain yn felus i ni,
O gael ein rhoddi 'n rhydd.

5. I ddweud am ei ddaioni,
Cyfododd Duw Brophwydi,
Ag i argyhoeddi heb oedi 'r byd,
Yr Arglwydd oedd mae 'n eglur,
I'w dyſgu i ddweud a gwneuthur,
Ag adrodd gair i w brodur yn ei bryd,
Nid treuthu geirie cnawdol,
O wag ddoethineb ddynol,
Neu hudol yn eu hoes,
Ond geirie pwyll a ſobrwydd,
A glywent gan yr Arglwydd,
Am grefydd oen y groes,
Trwy ddioddefiadau r Ieſu,
Yr oeddynt yn llefaru,
A hynny i'w gwaſgu i'r gwaith
Er diodde cyſtudd creulon,
Y rhain oedd gwbl ſodlon,
Wyr tirion ar eu taith.

6. Pe gellid adrodd c'ledi,
A ddaeth yn rhan y rheini,
Ni chredai neb nes profi, hyn un pryd,
Son am groes a chyſtudd,
I'r Iuddew oedd yn dramgwydd,
Mae etto i lawer beunydd, yn y bŷd
I'w braich ei hun hyderant,
Ymgyſiawnhau a ſynnant,
A ſafant ſellu n ſyth,
Fel yd pen tai yn tyfu,
Brau gynnydd yn brig wnnu,
Heb iawn addfedu fyth,
O eiſiau teimlo a chredu,
Y gwnae 'r Iuddewon hynny,
Groeſhoelio 'r Ieſu heb rŷs,

A'i

A'i wyſgo ſe 'n ddiyſtyrllyd,
I'w ddryllio ar goron ddreinllyd,
Och! Wedi ei waedlyd chwys.

7. Geill llawer hwyrach deuru,
Na faſent hwy ddim ſellu,
Sef yn croeſhoelio 'r Ieſu,
Na'i wadu 'n wir,
Ow bernwch farn yn gyſion,
Beth yw eich erchyll lywon,
Ond dyrnod ar yr hoelion,
Dwyſion, dwyſion dur,
Pa beth yw brwnt odineb?
Ond megys poeri i wyneb,
Diweirdeb Duw
Pa beth yw 'r llid twyllodrus?
Ond fel y milwr dibris,
A wanai ei yſlus wiw,
Pa beth yw 'r croes ymdeuru,
Sy 'nghylch 'piniwne o'n deutu?
Rhai ſellu 'n cablu cawn,
Mewn tywyll ſel bartiaeth,
Ddi gariad heb ragoriaeth,
I'r hen elyniaeth lawn.

8. Edrychwn bawb ein mynwes,
A ydyw 'r hyn a henwes,
Yn caffael gwneud ei lloches ynddi 'n llawn,
Mwy ei thwyll na dim ſydd yma,
Yw 'r galon le dirgela,
Medd geiriau *Jeremiah* ddoetha ei ddawn,
Ezeciel gynt a welodd,
Y dwyll a'r delw gelloedd,
Dyſnderoedd oedd mewn dyn,
Mae yma addyſg hynod,
Pe cae 'm ond gole i ganſod,
Drwy 'r bennod i bob un,

Ar

Ar unwaith yr adnebydd,
Y dyn ei hun a'r Arglwydd,
Mewn ſobrwydd wiwlwydd waith,
Fe brofir hyn yn ddilys,
Yngeirie *Saul* o darſus,
Wr dyrus ar ei daith.

9. Pan glybu ef y geiriau,
Mai caled oedd, fe eu coeliau,
Ymryſon a ſymbylau croeſau Criſt,
Gofynnai i'r Ieſu 'n bryſur,
Pa beth a fynnai wneuthur, och wedi,
Fel pechadur tra amhur triſt,
Ni cheiſiodd ymgynghori, a chig a gwaed fyth
Gwedi, ond gwir Addoli ei Dduw,
A chario croes yr Arglwydd,
Trwy gariad tan ei gerydd,
Tra bu fe beunydd byw,
Ag fellu efe a fedodd, o'r ffrwythau gynt a hauodd,
Lle rhoddodd yma ar hyd,
Sef erlyd yr eglwyſi, cadd ynte ei erlyd
Gwedi, a'i boeni yn y byd.

10. Ag fellu fy nghyfeillion,
Mae Duw yn farnwr cyfion,
Yn gwneud a dyn yn union dan y ne,
A'r Sawl a blygo 'n ddibrin,
I gyfraith nefol frenhin,
Fe rodia hwn wrth linyn yn ei le,
Pan ddelo 'r Arglwydd uchod,
Yn farnwr i'r gydwybod,
Fe wna ryfeddod faith,
Daw pechod hen a newydd,
I'n golwg fel eu gilydd,
Bydd gywilydd i ni o'n gwaith,
Fel hyn mae 'r Arglwydd Ieſu,
Yn raddol yn ceryddu,

Ac fellu 'n dyſgu dyn,
Fel delo ef dan deimlad,
A chael o'r ſgrythyr gauad,
Ddehongliad ynddo ei hun.

11. Gweithiwr rhydd yw 'r Arglwydd,
Geill ddangos yma 'n ebrwydd,
Greadur hen a newydd, ynom ni,
Ond cyffwrdd a'n cydwybod,
Gwna i'r canol-ſur ymddattod,
Datguddir y ddau hynod ynddi hi,
Y naill fel *Jacob* dduwiol,
Yn noſio am bethe neſol,
Sy 'n lleſol ymhob lle,
A'r llall fel *Eſau* flyſig,
Am bethau darfodedig yn unig dan y ne,
Ag fellu 'r ddau efeillion,
O'r unrhyw grôth y daethon,
Drwy 'mryſon creulon cry,
Er hyn ſe orſu i'r hyna,
O rhain waſnaethu 'r Ieuenga,
Yn ol gair *Rebecca* bu.

12. Ag fellu 'r Adda cynta,
Raid roddi ei le i'r ail Adda,
Yr ola ſynd ymlaena ar yrſa o ras,
A'r blaena 'n ola i'w alw,
Yr hunan ydi hwnnw, ni una,
'R llall a'i enw chwerw a chas,
Fel hyn y dyn yſprydol,
A ddwg y ddelw neſol,
Yn lle 'r ddaiarol ddall,
Ag olew gras i'w galon,
Ac fellu 'n debyg ddigon,
I'r cu forwynion call,
Drwy raddol wir ymroddiad,
Mae 'r duwiol yma 'n dwad,

I'r

I'r cariad gwaſtad gwiw,
Ag mewn ſefyllfa ſellu,
Y gellir cywir ganu,
A doeth ſoliannu Duw.

Englyn

O's gellwch cenwch modd cu,
Yn ſelus: Foliant i'r Ieſu,
A chofiwn wir dderchafu,
Byth i fawl am beth a fu.

Daniel Jones a'i *Cant.*

Carol Plygain ar Kings Farwel.

XXXVIII.

1. DYMA 'r wyl, a Duw 'morolwn,
Pa waith goneſt beth a ganwn
Mae achos canu a cheiſio cynnyg,
Fel y dylem fawl nadolig,
Mae achos heſyd aſtud yſtyr,
Prun ydyw 'n cân a i glân a'i,
Amhur, ag ymha ſtad,
Yn rhoi mawrhad,
Mae lleſiad ein llafur,
Mae 'n hawdd gwneud lleiſiau.
Moeſau meſur,
I foddio byd a chnawd a natur,
Er bod achos llawenhychu,
Ymhob rhyw oes am eni 'r Ieſu,
Ond cofiwn hyn, pa beth a fynn,
Duw genym cyn canu,
Profi 'r teſtyn ac iawn farnu,
Pa ffaſiwn gariad ſy n ein gyrru.

2. Nid oes a gân i Dduw ogoniant,
Ond ei ddelw nag a'i haddolant,

Pwy yno ganodd pan ei ganed,
Ond yr Angylion a r bugeilied,
Rhyfeddod oedd gan yr Angylion,
Weled delw brenhin *Seion*,
Fel ag y gwnawd e'n ddyn tylawd,
Mewn dinerth gnawd dynion,
Doen ar wir nawdd ar da newyddion,
Gan eu gosod ar gan gyson,
A rhai dderbyniodd eu cyfarchiad,
A ganai 'n llafar yr un llesiad,
Doen yn gydtun am Grist ei hun,
O'u bron ar un brosiad,
Ag lle ni chae 'r dystiolaeth ddwad,
Du elyniaeth oedd y dilyniad.

3. Ac fel yr oedd hi yn y pryd hwnnw,
Yr un tueddiad sydd hyd heddyw,
Ni chân doethineb y byd yma,
Ddim i Grist ond hi a i herlydia,
A phettai hwn yn ei chyrhaeddiad,
Fe gae 'n druenus yr un driniad,
A gafodd e' ym mob lle,
Hyd ddyddie ei ddiweddiad,
Mae 'r sarph a'i cholyn o'r dechreuad,
Etto 'n ystyn atto 'n wastad,
Ond se gân dynion oerion areth,
Mewn enbydus anwybodeth,
Yn arwydd nod, i gynal clod,
Y ddefod yn ddifeth,
Heb 'nabod Crist mewn ysprydoleth,
Na dwys dalent ei dystioleth.

4. Mae 'n hawdd i rhain wneud sain cysondeb,
A llawen ganu 'n llon eu gwyneb,
Heb un chwith awel na chaethiwed,
A'i nad i ganu ar gnawd nag ened,
Mae cyflwr eglwys Dduw 'n gysnwydiol,
Weithie 'n gaeth ac yn gysluddiol.

Ac

Ac weithie 'n rhydd, o'r cyfnos cudd,
Fe dyrr dydd dedwddol,
Pan wel ei bod mewn ſtad achubol,
Hi gân am rydid ymwaredol,
Pan oedd yr eglwys dan beryglon,
Yn flin galonne o flaen gelynion,
A'r Arglwydd Ior, yn hollti 'r mo'r,
I agor yr eigion,
Ar ol y culni a'r oerni calon,
Yn gynhefol nhw ganaſon.

5. Weithie a'i chwyn yn waeth ei chaniad,
A llais gwael oernych lleſg alarnad,
Ac weithie am lwyddiant orfoleddus,
A chan gogoniant moliant melus,
Weithie a'i chân yn methu chynig,
Yn eiſte 'n adyn gyſtuddiedig,
Ym Mabilon, a thelyn hon,
A'r hoelion o helyg, *Pſal.* cxxxvii. 2.
Dan gaeth ammodau gorthrymedig,
Ni lyfaſai alw am fiwſig,
Rhai yno geiſiau ganddi 'n gyſon,
Ganu per ganiadau Seion,
Ag yn ei byw, ni chanai i Dduw,
Mewn diſtryw gwlad eſtron,
Wedi chaeth gludo,
A i chlymme 'n gledion,
A wnai ei chaniadau yn ochneidion.

6. Fel hyn y bydde 'r brenhin Dafydd,
Weithie 'n canu per leferydd,
Weithie 'n tuchan ag yn wylo,
A dyddie triſtwch yn dwad troſto,
I babell Duw drwy bwyll y deue,
A'i gerdd ſoniarus gyſon eirie,
Ag ymbell bryd fe fyddai 'n fud,
Heb gorud ei ene,
Ag fellu 'n ddifalch fe addefe,

Mai alltud ydoedd a'i holl dade,
Fe dwaenai r galon a'i dyfn gile,
Am hon yn ddidwyll,
Hyn a ddweude,
Mai gwagedd yw pob dyn byw,
Y gwyr o r rhyw gore,
A dyna 'r gwir da iawn i'w 'r geirie,
A phwy a feder eu brofiade.

7. Ped fae ni 'n yftyr barn a phrofiad,
Pobol Dduw a medru eu ddirnad,
Fe fyddai gwilydd arnom ganu,
Hyd hen arferiad i'n difyrru,
Canu ar redeg hyn yr ydem,
Fod wedi geni Crift ym Methlem,
Nid oes i'n gwlad ddim llefaad,
O'r ganiad fydd genem,
Heb nabod Shiloh Brenin Salem,
A'i fawl dilys fel y dylem,
Mae hanes ganedigaeth Iefu,
A'r modd y daeth e' i'r byd mewn beudy,
A phawb mo'r ffel, yn medru ei hel,
Hen chwedel yw hynny,
Sy ar flaen tafod wedi tyfu,
A gwir ydoedd hawdd ei gredu.

8. Fel wel pob Criftion calon effro,
Ymhle mae 'n henaid wedi huno,
Ynghyfgod angeu tywyll drigfan,
Ymro eulynnod marwol anian,
Yn y ftad y cwympodd Adda,
Dan gondemniad i'r byd yma,
Fe fyrthiai 'n tad, a'i heppil had,
O wlad ei orphwysfa,
Y lle roedd einioes llwyr ddiana,
I fethiant fuchedd chwant afiacha,
I yrru ar ddidol o ardd Eden,
I dramwy 'r ddyrus drom ddaiaren,

I

I dorri flŷs, ar fara ar frŷs,
Drwy nerth chwŷs ei dalcen,
At ffrwythau Duw rhag byw drachefen,
Ni chae mo'r dringo i dorri ei angen.

9. Fe gadd ſymudiad nid un unig,
Teg aelodau 'r corph gweledig,
Ceneddfau 'r enaid byw ar yſpryd,
O ddirfawr ſwm a ddarfu ſymud,
Cyn y cwymp yn ddyn yſprydol,
A chwedi hynny 'n ddyn anianol,
Y meddwl aeth, ganddo 'n gaeth,
Naturiaeth ddaiarol,
A gaue am dano ag amcan dynol,
A rheini a wyfai y rhinwedd nefol,
A ſwm ei anian ſy ynom ninne,
O ran y meddwl yr un modde,
Daiarol yw, dynol ryw, mae'n briw yn ein bronne,
Oddiwrth gwymp Adda fel pe bydde,
Yn llŷm gornwydydd lladdgar node.

10. A dyna 'r cleſyd Archolledig,
Yr anfodwyd Criſt yn feddyg,
Mae pawb yn glâf o r cleſyd yma,
Er hyn yn Iâch y rhan ſynycha,
Pob cleſyd trwm ſy 'n troi 'n y mennydd,
I yrru 'r taſod i 'mleferydd,
Cyffeſu wnawn fore, prynhawn,
Yn grŷf iawn o greſydd,
Adrodd geirie ar ol darllennydd,
Braf eu dawn heb brofi eu deunydd,
Ein bod yn ddrwg weithredwyr truein,
Heb ynom iechyd bawb yn ochen,
Cydwybod ſai i bwyſo 'r bai,
Wrth raid fath rai yden,
Ein bod yn ymleferydd darllen,
O'r hen weddi yr hyn ni wydden.

11. Am drugaredd ymdrin geirie,
Tosturia wrth drymder ein calonne,
Goleua ein twllwch, dattod etto,
Gadwynau pechod sy 'n ein rhwymo,
Mae rhain yn eiriau 'r hen henuriaid,
Prophwydi, Saint, a'r gwir ffyddloniaid,
Ymhle, ymhwy, mae eu hyspryd hwy,
Yn profi clwy r enaid,
Dyna 'r truan trom ochenâid,
Sy 'n derbyn budd yn nydd anghenraid,
A dyna 'r glan ei ddwylo a i amcan,
Sy a chlustie i wrando n cofio 'r cyfan,
Sawl sy am ymroi, i ffri ddeffroi,
Rhaid iddo ffoi allan,
I henw hwn, o hono ei hunan,
Cyn delo i ynill duwiol anian.

12. A chwedi hyn mae Crist yn eglur,
Yn yr yspryd nefol natur,
Ceir yno n dêg ei anedigaeth,
I'r byd a'i fywyd a'i farwolaeth,
Nid hanes Crist sy gan y cristion,
Draw o hirbell o'r golygon,
Ond Crist ym mro, ei enaid o,
Yn gwylio yn ei galon,
Pan fo 'n llesgau 'n Iachau ei glefydon,
Ac iddo 'n rhaglaw mhob peryglon,
I'w sirio 'n fawr yn seren fore,
Yn fugail hwyr rhag sawyr bleiddie,
Yn hawl o hyd, tra bo 'n y byd,
Yn fywyd, yn ange,
Yn adgyfodiad o'r gofidie,
Yn oll Amen, a'i 'n well y mynne?

Carol ar Greeks in Troy; Ychydig yſtyriaeth ar y gair goneſtrwydd, yr hwn a wnaed i gymdeithas y clwb yn Llantyſilio *Jonawr* y 6ed 1778.

XXXIX.

1. AGORWCH gluſt a chalon,
I wrando etto 'n fodlon,
Er i chwi glywed digon eirchion Iâch,
O'ch gweled efo'ch gilydd,
Am garol nid oes gerydd,
Ped fawn i 'n gyrru beunydd un gair bach,
A dyma 'r gair agora,
Goneſtrwydd yw mi a'i henwa,
Pawb a'i canmola mi wn,
Nid oes happuſrwydd i ni,
Na deunydd dim daioni,
Mewn un cwmpeini heb hwn,
A phawb ſydd yn ei chwennych,
I fod o'i blaen yn wrth-ddrŷch,
Fynych fawl,
Pob un a fynn mewn enw,
I fod o ganddo 'nghadw,
Ag ar ei helw 'n gywir hawl.
2. Pe holai cweſt ſynhwyr-gall,
Gynlleidfa hon ne arall,
Bob un ag un, hawdd deuall tel y doen,
Ceid pawb yn lân ei fuchedd,

Yn

Yn oneſt wr di duedd,
Attebion doedd a rhyfedd dethe rhoen,
Fel brodur *Joſeph* dweuden,
Gwyr cywir goneſt yden,
A ddaeth mewn diben da,
Ar gynulleidfa 'n gyflawn,
Er yno wyro 'r uniawn,
Fel hyn ym gyfiawnhâ,
Pryd arall holi 'n gywrain,
Ryw ddau neu dri ar ddamwain,
Pa mo'r ddwys
A thaglyd yw'ch erthygle,
Mae genych galed glymme,
Mewn pyngcie a barrie o bwys.
3. Attebai rhain yn union,
Mae 'n rhaid fod cyfraith ganddon,
I rwymo cnafiaid hyfion,
Rhag ofn twyll,
Mae yma ymbell gybydd,
A dynion drwg eu deunydd,
Di gywilydd heb na chrefydd ffydd na phwyll,
O's fellu 'mae 'ch tyſtiolaeth,
Anghenraid ydyw cyfraith,
I roi rheolaeth ar y rhain,
Lle bytho natur chwannog,
Rhaid cau ar draws rhai drygiog,
Awch droiog a gwrych drain,
Mae hyn yn wir yn arwydd,
Fod diffyg am oneſtrwydd ynom ni,
Er bod pob dyn am dani,
Wrth fanwl chwilio a phrofi,
Ceir llawer hebddi hi.
'Roedd brodyr *Joſeph* 'nhwythe,
'N ŵŷr cywir oll o'u cyrre,
Nes iddo eu dwyn dan rwyme,
Clymme clos.

A gwneud y gwyr yn lladron,
I fod yn garcharorion,
A'u gosod iddo 'n weision,
Yn ddi os,
Y gwyr cywir wrth eu chwilio,
A gaed yn Euog yno,
Erbyn teimlo eu twyll,
Tystiolaeth eu cydwybod,
Ir dynion hyn yn dannod,
Wneud pechod heb ddim pwyll,
Fel hyn y gwr cywira,
Iawn ystyr a'r gonesta,
Ei ana yw,
Twyll pechod, fel na welo,
Eisie gonestrwydd etto,
A byth tra bytho byw.

5. Medd llawer un gan honni,
Mae calon onest genni,
Heb nabod beth sydd ynddi 'n llenwi'n llwyth,
Fe welodd y prophwydi,
Ryw olwg arall arni,
Drygioni wrth ei phrofi oedd ei ffrwyth,
Ond gorchwyl maith a gorcheſt,
Yw chware teg gwr gonest,
Er rhoi iddo foles fawr,
Anhawdd ei gael o ir gole,
Ac anhaws troedio ei lwybre,
Fel y dyle ninne 'nawr,
Ni roedd erioed i w erbyn,
Na chytraith na gorchymmyn,
Cyndyn caeth,
Na barn na cherydd caled,
Na chywilydd hyll na cholled,
Am niwed yma wnaeth.

6. Pa beth yw 'r termau trymion,
Cyfreithiau a'r llyfre brithion,

Swyddogion

Swyddogion a'u bygythion mawr i gyd,
Oni bae r gyfraith gauad,
Ar ofnau bydof drefniad,
Ni byddai ond twyll a lledrad oll a llid,
Beth ydyw 'r blin ryfelon,
Sy rhyngon ni a'n brodorion,
I troi 'n elynion traws,
Dechreuad y llidiawgrwydd,
Rhwng lloegr hen a newydd,
Oedd anoneſtrwydd naws,
Wrth hyn ni wiw rhoi allan,
I 'run gynulleidfa fechan ogan air,
Gan fod penaethiaid gwledydd,
Yn gwyro barn goneſtrwydd,
Bob newydd beth a wnair.

7. Ond Duw roes yn y cynfyd,
Oneſtrwydd difrycheulyd,
Ynghalon dyn a'i fywyd gwynfyd gwir,
Yr hauwr mawr a hauodd,
Had da 'n ei faes ni fiſiodd,
O b le doe 'r Efrau a dyfodd yn ei dir,
A'r Gwenith a eginodd, a'r Efrau ymddanghoſodd,
A'i llanwodd ymhob lle,
Fellu goneſtrwydd ſafodd,
Ynghalon dyn lle gwreiddiodd,
Ond twyll a gododd gyda'g ê',
A dyna r dwyll ddichell-gar,
Sy n yſpryd call deuall-gar,
A gweithgar yn ein gwaed,
Cyfrwyſter chwant yr arian,
A dry oneſtrwydd trwſtan, yn druan dan ei draed.

8. Gwers galed i'r dyſgedig yw 'r gair goneſtrwydd,
Unig er medru ei ddweud yn llithrig ag yn llyfn,
Rhaid iddo ymdrechu llawer,
Yn erbyn twyll a ffalſter,

Ceiff

Ceiff brofi yma fatter doethder dyfn,
Er dyfned yw ei waelod, gair byrr yw hwn
Go barod, ar dafod gan bob dyn,
Ond dyfgwch hwn fob amfer,
Daw 'r gynulleidfa ar fyrder yn llawer
Gwell ei llun,
Hwyrfrydig yw fo am arian,
Nid cyfoethogi 'n fuan a wna fe,
Er hyn mae 'n byw 'n gymhedrol,
A'i geniog yn ddigonol,
A llwyddol ymhob lle.

Carol Clwb, ar Sufanna.

XL.

1. GAredigion dynion downus,
Cyd Aelodau corph yr Eglwys,
Sydd yma 'n gwlwm efo eu gilydd,
Yn difgwyl clywed rhyw beth newydd,
Pa newydd hefyd, nas mynegwyd,
Sy i'w ddweudyd i chwi 'n ddwys,
Chwi glywfoch eirie dyfg a donie,
Am amryw bethe mawrion bwys,
Chwi glywfoch ganmol, buchedd dduwiol,
Wrth reol perffaith ras,
Chwi glywfoch wedyn, farn yn erbyn,
Yn annuwiol-ddyn cyndyn câs.

2. Chwi glywfoch fon am elufene,
A gwir frawdoliaeth fel y dyle,
Ag adrodd llawer o gynghorion,
Bywiog ethol a bygythion,

Ni

Ni a glywsom hunio i'r duwiol ened,
Gael nodded yn y ne,
Ac uffern echrys, i'r drygionus,
Anhappus mewn wylofus le,
Nid ydyw hyn, ddim newydd i ni,
I'n bronn i beri brâth,
Ond peth cyffredin wrth ei wrando,
'R ŷm wedi hir gynfino a'r fâth.

3. Pa heth a ddweudwn i etto mhellach,
Ellir deunyddio dim newyddach,
Y mae 'r hen bethau 'n myned heibio,
Pob peth o newydd wedi llunio,
Ond gwin newydd yw gair yr Arglwydd,
A dysn leferydd dwys,
A'n clyftie ninne, 'n hen goftrele,
I gynnal pethe o gymmaint pwys,
Rhaid wrth newyddion leftri cryfion,
I ddal ymadroddion Duw,
Nid oes un dirym ddyn daiarol,
A'i ceidw 'n fanol yn ei fyw.

4. Car dy gymmydog fel dy hunan,
Ymadrodd fellu rodd Duw allan,
A rho d' elufen gan ddirgeled,
Na wyppo'th law dy hun mo'th golled,
O's yftyriwn hyn a farnwn,
Na fedrwn ni 'r un fodd,
Yn ddi wyrni mo'r cyflawni,
'R geirie rheini i'r gwr a u rhodd,
O's heb gyflawniad y gair cariad,
Sail holl adeilad Duw,
Mae pob yfgrythyr, heb ei gwneuthur,
Gan bechadur eglur ŷw.

5. Cydwybod fy 'n ein hargyhoeddi,
Nad ŷm ni ddim yn ei gyflawni,
Am hyn mae 'r galon yn condemnio,
A barn y gyfraith yn ein rhwymo.

A

A chyfiawnder yn ei digter,
Yn dangos eger wŵg,
Ein gwneud yn hyſbys adnabyddus,
O'n truenus fywyd drwg,
Rhaid i ni bellach gael manylach,
Cywireiniach doethach dyſg,
I lynu wrtho byth ne beidio,
A henwi mo'no yn ein myſg.

6. Mae 'n boſibl gyda r Arglwydd cyſion,
Yr hyn nad ydyw gyda dynion,
Fe allodd Criſt gyflawni 'n helaith,
Y gorchymmyn cariad perffaith,
A'r un trugarog Criſt galluog,
Eneiniog ynom ni,
Sy 'n cadw 'n cynal, ei ddeddfau 'n ddyfal,
Er mo'r amal yw eu rhi.
Mae 'n maddeu 'n ffyddlon ein dyledion,
O gywir galon gu'
Yn gwneud cymdogaeth hael a helaeth,
Iawn frawdoliaeth yn ei dŷ.

7. Mae etto gweſtiwn mawr i'w holi,
A ydyw ynom wedi eni,
A ninne ynddo ynte 'n unol,
Wedi ein geni o i gnawd yſprydol?
Dechreuad arfaeth trefn naturiaeth,
Yw ganedigaeth dyn,
Llun nis gwelir, llais ni chlywir,
Hyd oni 'n genir bod ag un,
Mae ail gyffelybiaeth ganedigaeth,
Drwy yſprydoliaeth Duw,
Hon yw dechreuad, brawdol gariad,
A doniol roddiad Dynol ryw.

8. Hyn yw dechreuad gwir Griſtnogaeth,
Fod Criſt yn dwad i'w frenhiniaeth,
A'i eni 'n gowled yn y galon,
Lle mae llywodraeth ei elynion,

Lle

Lle mae twyſogion Belial greulon,
A Mamon yn eu myig,
Trwy gyfrwyſdra rhain a dwylla,
Y dynion ffela doetha eu dyſg,
Cybydd-dod, balchder, trais a thrawſter,
Meddyliau ofer iawn,
Anghrediniaeth, drwg genhedlaeth,
Sy i'r Ieſu mewn gelyniaeth lawn.

9. A hen gynfigen filen falais,
Y ſydd oddiamgylch a ſwydd ymgais,
Chwant y cnawd a chwant y llygad,
Sydd yma ag accw 'n cadw marchnad,
Pleſer maſwedd, anifeiledd,
Yw 'r ffoledd ſy yn eu ffair,
I gynal meddwdod ag anghydfod,
Yn llyſu a gwrthod llais y gair,
A dyna 'r arfog, lu banerog,
Cleddyfau miniog mawr,
Pan ddelo i'n calon frenhin Seion,
Fe dynn ei elynion dano i lawr.

10. Y brenhin Dafydd yn yr yſpryd,
Oedd wr a'i canſu nhw er y cynſyd,
At Dduw rhoe weddi ddifri ddygyn,
Yn ddi wyrni am ddial arnyn,
Gan ddweud yn ebrwydd, cyfod Arglwydd,
Yn drawydd heb ymdroi,
A gwaſgar ymmaith dy elynion,
Par i'th gaſeion ffeilſion ffoi,
Rhown ninne bwyllus, weddi awyddus,
A llef ſoniarus ſain,
Am ddyfod dialedd, Duw 'r gwirionedd,
A'i yrru 'n rhyfedd ar y rhain.

11. Tra bo 'r gelynion hyn yn glynu,
Tu mewn i'n mynwes mae nhw 'n mynnu,
Ffrwyth y bywyd a'r meddylie,
'R cnawd a'r yſpryd a r ſerchiade,

Ni

Ni cheiff yr enaid hôff air yno,
Na ſugno llaeth y ſaint,
Gan genhedlaethau drwg gynneddfau,
Sydd mewn meddiannau o fronnau ei fraint,
Trigolion cynta *Canaan* lowna rhaid eu difetha fyth,
Ond te ni chawn mo'i grawn i'n maethu,
Na ei harchwaethu tra bo chwŷth.

12. Fel ag y gorfu i'r Iſraeliaid,
Ladd Brenhinhoedd yr Amoriaid,
A meibion Anac oedd ben yno,
Gryfa cowri gorfu eu curo,
Cynneddfau natur yr un yſtyr,
Sy 'n gawri pybyr iawn,
Ag fel Brenhinoedd a chenhedloedd,
Yn finteioedd lluoedd llawn,
Pa gowri gwrol, rhwyſg Brenhinol,
Mo'r awdurdodol dynn,
Ag ydyw 'r byd a'r cnawd a'r cythrel,
O's awn i'r rhyfel a rhai hyn.

13. Mae addunedau bedydd Criſtion,
I 'mdrechu a rhain yn filwr ffyddlon,
Wedi iddo gael y fuddugoliaeth,
Mae mewn meddianne o'i lle a'i lluniaeth,
Yn mynd i undeb Duw a'i burdeb,
Ymhreſenoldeb Ne'
Cael bara bywiol gwledd yſprydol,
O mo'r lwyddol yw ei le,
Phiolau llownion ſy yno ddigon,
Ac arlwy rhoddion rhâd,
Pob cynhaliaethu i'n heneidiau,
Cyfreidiau ſy 'nghynteddau n Tad.

14. Heb Dduw heb ddim er ſtad Arglwyddi,
A Duw a digon er tylodi,
Nid oes ar neb ſydd yn ei ofni,
Un amſer ddiffyg dim daioni,

Ni a gawn a geiſion, mewn ffordd union,
Dda foddion ganddo ſe,
I wneud trugaredd, luſen lwyſedd,
Yn iawn a lhuniedd yn eu lle,
Fe wna 'n cymdeithas, i ni 'n urddas,
Iawn bwrpas addas yw,
Wrth ei chynwys yn gariadus,
Yn ol gwir wllys downus Duw.

Carol ar Greeks in Troy; annogaeth i geiſio yr un peth anghenrheidiol.

XLI.

1. FY ngharedigion frodyr,
Fel diwyd fwyn wrandawyr,
Sy 'n ceiſio clywed cyſſur bybyr bwyll,
Pa gyſſur mwy i'w ddymuned?
Nag unig feddyg ened,
I ware pechaduried yn ddi dwyll,
Mae llawer o gynghorion,
Rhybuddion a bygythion,
I ddynion yma 'n ddyſg,
Er hyn mewn gair ſylweddol,
Un peth ſydd angenrheidiol,
I'w 'morol yn ein myſg,
Hyn gyda Mair garedig,
Yw dewis rhinwedd unig y rhan dda,
Sef rhan o etifeddiaeth,
Y ſaint yn eu brenhiniaeth,
Rhan helaeth na leiha.

2. A hon yw y rhan ddymunol,
A roddwyd yn gyfrifol,
I ddynion yn feddiannol y grafol Grift,
Hwn ydyw pren y bywyd,
A'r perl godidawg hyfryd,
I'n tynnu ni o bob adfyd trymllyd trift,
Am dano y manwl chwilie,
Yr hên Brophwydi a'r feintie,
Drwy boen er dechre 'r byd,
Yn anwyl fab diddanwch,
I'w galw i ddiogelwch,
A heddwch yma o hyd,
A rhai enillodd feddiant,
O hono gafodd lwyddiant yn ei wledd,
Mae etto ddrws agored,
I'r penna o bechaduried,
I'w nodded yn un wedd.

3. Pob achos mawr o bechod,
Pob meddwdod ac anghydfod,
Pob croes a difoes dafod trallod drwg,
Pob fynniol rwyftrus anian,
O'r wllys a dyrr allan,
Pob llid yn tannu 'n llydan aflan ŵg,
Tra byddom heb feddiannu,
'R hwn a ddichon ein heddychu,
Sef Iefu ei hun,
Trwy rinwedd grym ei degwch,
Mae 'n toddi calon galedwch,
Ac anwadalwch dyn,
Ei gariad a'i ragorol wir air er union
Reol, i ni a rydd,
Difgleirdeb ei oleuni,
Yn ganwyll i'n digoni,
A'n hyfforddi ni yn y ffydd.

4. Ond dynion wrth naturiaeth,
Sy 'n ceifio gwneud difgyblaeth,

A delw gwir frawdoliaeth berffaith bur,
Gan fynd ynghyd i'r unfan,
Mewn howddgar ddull oddiallan,
Brydweddol gwmni diddan wiwlan wyr,
Wrth ddefod arfer gymwys,
Gwir ydi a threfir gariadus,
I'r eglwys oll yr awn,
Gwafanaeth Duw 'n gyfonol,
A phregeth araith wrol, ddigonol yno gawn,
A ninne mewn danghofiad,
Aelodau corph cyd gydiad cariad cu,
Fel defaid anwyl dofedd,
Ymddygiad mwynaidd agwedd,
Griftnogedd lariedd lu.

5. Lle bytho Crift ei hunan,
Tu fewn yn cadw trigfan,
Pob ffurf a threfn oddiallan fy 'n dda oll.
Ond te nid yw 'n defode,
Sy odidawg ofodiade,
Ond gwagedd megis chware campie coll,
Fe a'r cwbl ar ddiflaniad,
Pan ddelom o'r addoliad,
Di gariad fydd ein gwedd,
A Satan orfoleddus,
Yn tramwy a meddiant rymus,
Arglwyddus yn ein gwledd,
A'r diwedd fydd cynfigen,
A meddwdod cas a chynnen cyffur chwith,
Ni phrifia 'r gelyn creulon,
Er gweled gwenied ddynion,
Gnawd rhyddion yn gwneud rhith.

6. Oll cofiwn yn ddifrifol,
Am Iefu 'n Dduw mynwefol,
I'n gwared rhag annuwiol ryfyg noeth,
Hwn fydd yn bwrw Satan,
A'i holl arfogaeth allan

Er

Er maint ei rwyſg a'i aflan dwrddan doeth,
Nid eill o'n hir mo'r aros,
Fo ddienga rhag ymddangos mewn diddos da,
Ni ſaif mewn barn yn Eon,
Ynghynulleidfa 'r cyfion,
Ar hyd union ffordd nid â,
Er hyn mae 'n llew rhuadwy,
O'n hamgylch yma 'n tramwy,
Llawer tro,
Gan geiſio a allo ei lyngcu,
'D ŷm ni abal a'i wrthwynebu,
Heb Griſt i w faeddu fo.

7. Nid Criſt o bell i'w ganfod,
Fel delw ffurf ne gyſgod,
Ond ſylwedd byw 'n gwir briod yn ein bron,
Mae 'r bywyd yma 'n dyfod,
Or galon ddyfn ei gwaelod,
Duw ſy 'n ei godi o geudod hanfod hon,
A'r arogl hwn o fywyd,
Yw 'r aif ddyn di frycheulyd,
Sy 'n yſpryd yn bywhau,
Hwn yw 'r rhan dda ddymunol,
A'r un peth angenrheidiol,
Oen haeddol i'w fwynhau,
Hwn ydyw 'r perl puredig,
A'r tryſor ſy 'n guddiedig iawn i ddyn,
Mae achos chwilio am dano,
Ond Duw ſy 'n ei datguddio,
Pan fynno o hono ei hun.

8. Yn hwn ei hun yn unig,
Mae gras yn gynwyſedig,
A phob rhyw beth ſy 'niffyg arom ni,
Hwn ydyw gwreiddyn cariad,
A ffynnon bywyd teimlad,
Trugaredd iawn weithrediad un a thri,
Y ſe ydyw ſylfaen heddwch,
Bodlonrwydd a thawelwch,

Hyfrydwch ſy yn ei fron,
Ag er ei fwyn a'i erfyniad,
Yr ŷm ni 'n cael bwyd a dillad,
Haul, Lleuad, helynt llon,
Mae 'n dal i fynu 'r faner,
I attal barn cyfiawnder digter du,
Rhag diſgyn yn ein penne,
I dalu 'r pwyth hyd adre,
Am fynych feie a fu.

Carol Plygain ar Greeks in Troy.

XLII.

1. YMlawenhaed pob Criſtion,
Am Iechydwriaeth dirion,
Cyd ganwn odlau cyſſon ffrwythlon ffri,
I gofio 'r dydd y ganed,
Derbyniwr i bob ened,
Mo'r raſol ydyw nodded ein Duw ni,
Mo'r helaeth yn ei roddion,
Mo'r ddidwyll ei addwydion, mo'r union yn ei air,
'Roedd arfaeth Duw yn ei ymddwyn,
Ynghroth yr addewyd addfwyn,
Cyn geni 'r forwyn Fair,
Er hyn ordeinie n dyner,
Ei eni fo ynghyflawnder amſer hon,
A'i gynwys e yn eginyn,
Cadd fagu maethu a meithrin,
Ei Brenhin ar ei bron.
2, Ganedigaeth Criſt ond chwilio,
Sy 'n amlwg wedi egluro,

Nid

Nid rhaid ail adrodd etto mo'no i'n myſg,
Ond ſynwyr i ni ſyniad,
Am achos ei ddyfodiad,
A pheth ſydd i ni ddirnad yn ei ddyſg,
Mewn cariad ei doſturio,
I achub byd ar baſio, nid i gondemnio y daeth,
Yn gyfaill pechaduried,
I arwain y rhai deillied,
O'u cyflwr caled caeth,
I roi maddeuant pechod,
I wneuthur hedd a chymmod ac Iachaad,
I ollwng carcharorion,
I droi 'r di ras afradlon i dirion wledd ei dâd.

3. Pan oeddym golledigion,
Eſtroniaid a chaeth weiſion,
Dan bwys digofaint gyfion digllon du,
Aberthodd Criſt ei hunan,
Dros bechod mawr a bychan,
I'n dwyn i'w ſanctaidd winllan gorlan gu,
Pell oeddym gwedi 'n gadel,
Oddiwrth wladwriaeth *Iſrel*,
Heb demel, heb un Duw;
Yn awr daeth mawr ymwared,
Gwnaed Criſt yn ddrws agored,
Ar led i'r angred ryw,
Na fyddwn anghyſurus,
Mae 'n haeddu ag awen felus ganu ei fawl,
Fod i ni fraint mo'r ddedwydd,
Dan ſêl yn Salem newydd,
Faith hylwydd y fath hawl.

4. Mae 'n rheidiol i ni yſtyriaid,
Rheolau 'r Iſraeliaid,
Yn bobl Dduw fe'u henwed hyn ſy wir,
Had *Abraham* o'r cynfyd,
Plant rhyddion yr addewyd,
Ac etifeddion bywyd, howddfyd hir,

Gwnaeth Duw a rhain gyfammod,
Fe'u codai 'n eglwys wiwglod,
I gynal defod iawn,
A'i bresennoldeb gole,
'Ddisglaeriai drwy 'r cysgode,
Ar eu hallore llawn,
Roedd cariad priodasol,
Mwyn wiw-serch a mynwesol,
Bywiol bwys,
Rhwng Duw a'i bobl *Isrel*,
Na thraetha tafod angel,
Mo'r undeb dirgel dwys.

5. Ar wir Berthynas yma,
A barodd i'r *Jehova*,
Roi ei fab fel ŷch i'r lladdfa,
Tynna twn,
Nid allai eu hanghrediniaeth,
Mo droi ei dragwyddol arfaeth,
Na thorri 'r cariad perffaith,
Helaeth hwn,
Ac er nas derbyniasant,
Mo frenhin y gogoniant,
Ond Croeshoeliasant ef,
Rhoes weddi bur wllysgar,
Am faddeu eu bai 'n fodlongar,
Ddioddefgar lafar lêf,
Nid aeth mo'i weddi 'n ofer,
Fe ennillodd ffafr a phurder dyner Duw
Fe gariodd ei waed gwirion,
Faddeuant i'w elynion mo'r rasion oedd ei ryw.

6. A'i gariad aeth ar gyhoedd,
Yn nês i bob ynysoedd,
I blith yr holl genhedloedd lluoedd llawn,
A rhain a gaent dderbyniad,
Ac fel yr Iuddewon ddwad,
Wrth alwad dan ordeiniad yr un dawn.

Dirymmodd galed rwyme,
Y ddeddf a'r ordinhade,
Dileue 'r ſgrifen law,
Dattododd drwy ei farwolaeth,
Ganol-fur y gwahaniaeth,
Gan droi 'r Elyniaeth draw,
Yn awr mewn cariad ſerchog,
Mae 'n gwahodd dynion llwythog,
Dowch yn llu,
Holl gyrrau 'r byd yn gyfa,
Trowch eich hwynebau atta,
Yw'cân *Jehova* cu.

7. Mae 'n daer yn gwadd pob diras,
Fr ſwpper a'r briodas,
I brofi o wledd ei deyrnas ar ei daith,
Ond daliwn etto ſulw, pa fodd mae Criſt yn galw,
Wrth ſain yr Efengyl groyw hoyw ei hiaith,
Mae 'n galw 'n ddigon eglur,
Ar bob math o bechadur er mor fudur yw,
A'r fawl ſy a chluſtiau i wrando,
A ettyb fe dry atto, gan geiſio delio a Duw,
Ni wiw mo'r pennu opiniwn,
Na chrefydd o'r un ffaſiwn ore ei phwys,
Heb undeb perthynaſol,
A Chriſt drwy ras yſprydol,
Cred duwiol cariad dwys.

8. Am danom ni 'n enwedig,
Eglurwn ryw ychydig,
Gwag fywyd rhydd cenhedlig, ydyw 'n hoes,
Ni adwaenom fawr o ſylwedd,
Mewn rhagrith na gwirionedd,
Am grefydd enwog rinwedd oen y groes,
Er ein bedyddio i gredu,
A nabod enw 'r Ieſu a byw dan ras,
Ond gras yn fwyd profiadol,
Ni chowſom ni 'n Iachuſol,

Yn

Yn ei feluſol ſtas,
Mae gras yn dyſgu purdeb,
I ymwadu ag annuwioldeb undeb yw,
Gwna ſuchedd gyſattebol,
I w proffes egwyddorol,
Lle raenio ar ddynol ryw.

9. Lle mae Brenhiniaeth Ieſu,
Mae gras yn cael teyrnaſu,
A'i yſpryd yn diddanu teulu 'r tŷ,
Ond prin y credwn ninne,
Fod teyrnas Duw a'i freintie,
Yn y byd yma 'n unlle i'w hadde 'n hŷ,
Ond 'r eglwys lân drwy 'r hollfyd,
Sy 'n addef Criſt ei 'nwylyd,
Yn fywyd iddo fyw.
Ni fedd y cywir griſtion,
Na gras na gweithred gyfion,
Ond Criſt, a digon yw,
Can's ynddo ef yn unig,
Mae gras yn gynwyſedig gan y ſaint,
A phob rhinweddau dwyfol,
Fydd fywiol donie yſprydol,
Cyfrifol yw ei fraint.

10. Cymerwn Griſt yn briod,
Mae pob peth ganddo 'n barod,
Ar dydd dyweddi ar ammod yn ei rym,
A gweithred y briodas,
Wedi 'ſgrifennu o bwrpas,
Efengyl gair y deyrnas gore dim,
Nid yw fe 'n ceiſio ganddon,
Ond enaid, corph a chalon,
Yn wael eu moddion fel y maent,
Gan bechod wedi diwyno,
Pe bae allu i ymollwng iddo,
'N glain heno fe a'u glanhaent,

Y

Y ſe yw 'r *Jorddonen* burlan,
A ŷlch wahanglwyf *Namaan*,
A'i gnawd fel baban bach,
A'r ffynnon lle mae rhyddid,
I bechod ac aflendid,
Fe newid glâf yn Iach.

Carol Plygain ar Kings Farwel.

XLIII.

1. CYN dechre amſer terſynedig,
Ac adeiladu 'r byd gweledig,
Nid oedd creadur mawr na bychan,
Ond Duw 'n ymddangos iddo ei hunan,
O hono ei hun heb lun gwrth-ddrychau,
Gweledig ſylwedd na chyſgodau,
Fe wnae Duw Nêr, Haul, Lloer a Sêr,
A'r Peder Elfennau,
Dwr, Tan, a Daiar, Awyr deneu,
Yn gywir iawn, a gâir ei enau,
Fe wnaeth Angylion ac yſprydoedd,
Dyn, Anifail, dan y nefoedd,
A phob peth byw, yn ei ryw o amryw niferoedd,
Ac yno dweudai mai da ydoedd,
Heb athrodion i w weithredoedd.

2. Pan ddaeth y greadigaeth amlwg,
O'r mawr ddirgelwch yma i'r golwg,
Hon a gyſgododd y creawdwr,
Ac a ddoe 'n llenn i guddio ei lluniwr,
Pan gwympodd dyn mewn gwyn drwg anian,
Yn wael ei ſytt yn nwylo Satan,

Gwnaeth

Gwnaeth hyn yn glos, i Dduw 'n ddi os,
Ail ddangos ei hunan,
Yn y cnawd a'i eni 'n faban,
Oreu gwiw-gorph o wraig egwan,
Pan ymddanghosodd llun ei berson,
Hyn oedd ryfeddod gan angylion,
Gweled gwawr creawdwr mawr,
Ar lawr daiarolion,
Gwedi diosg ei wisg a'i goron,
Yn gwisgo am dano natur dynion.

3. Fe wisgwyd Adda 'r cynta a phurdeb,
A delw Duw ag anfarwoldeb,
Gan drwm drueni gwedi ei godwm,
Aeth yn ddychrynllyd noeth a chroenllwm,
Yn wag yn adyn ag anwydog,
Heb gysgod gwisg na phais na ffedog,
A dyna lun, a delw 'r dyn,
Yn llwyd elyn llidiog,
Gan gulni enaid gwael newynog,
Yn dwyn baich du o bechod euog,
Colli ei gred mynd yn llygradwy,
Dan ei hen-gloff dynn wahanglwy,
Am fwytta o'r pren, sura sen,
Yn Eden ffynadwy,
Digofaint Duw fel tân llosgadwy,
Oedd yn ebrwydd iddo 'n wobrwy.

4. Pan ymddanghosodd yr ail Adda,
Yn ddyn tylawd ynghnawd y cynta,
Cadd wisgo ei natur noeth wradwyddus,
I fynd trwy ana ei frawd truenus,
Fe wisgai ei bechod megis lifre,
Dan wasg o ing fe wisgai ei ange,
Fe gariai ei sen, ar ei ben,
Nes mynd i'r pren, diodde,
Lle mewn gwir ffynniant y gorphene,
Godi dynion o'u cadwyne,

Pen

Pen y ſarph i lawr a ſathrodd,
A'i weithred hudol a ddatododdd,
Pob brychni bron, yn 'r oes hon,
Pob pechod condemniodd,
Pob camwedd dynion a ſaddeuodd,
A ne wen gaere i ni agorodd.

5. A ddarfu i Grift gyflawni 'r cwbwl?
Pa beth a fydd i ni etto feddwl?
Do, fe a wnaeth bob peth yn barod,
Ceiſiwn fyned i w gyfarfod,
Does dim yn eiſiau o'n hiechydwriaeth,
Fe i gwnaeth hi ei hun yn gwbl helaeth,
Ond eiſiau i ni ei chymryd hi,
I'w meddiannu 'n ddi weniaeth,
Yn ol y gair ſy 'n dwyn tyſtiolaeth,
Ei bod hi 'n ſuddiol etifeddiaeth,
Fe eill y plant afradlon cyndyn,
Drwy fawr niwaid feirw o newyn,
A bara n rhad yn nhŷ eu tad,
A gwahoddiad iddyn,
O s byddant feirw a galw arnyn,
O wall am borth ni eill neb wrthyn.

6. Mae Criſt trwy ſain yr ſengyl olau,
Gwelwn yn ein galw ninnau,
I'r wledd a'r ſwpper mawr a arlwyodd,
Mae wedi drwſio 'n gyflawn droſodd,
Does yno ddiffyg dim danteithion,
Ond eiſiau cael y gwaddedigion,
Pob ſeigiau ſydd, gras a ffydd,
Yn rhydd, a phob rhoddion,
Difrifwch, edifeirwch calon,
A gwiwlan ddonie i'r gwaela o ddynion,
Diddanwch yſpryd a gorfoledd,
Cariad hefyd gwir etifedd,
Pob rhinwedd dda, a'n cryfhâ,
Sydd yma 'n ddi omedd,

Bara

Bara 'r bywyd gwin ddigonedd,
A wnaed i gynnal enaid gwannedd.
7. Tra bytho dyn yn byw 'n ddieithrol,
I fywyd Criſt a'i ras yſprydol,
Cynneddfau ei enaid ſy yn newynu,
A chwantau 'r cnawd yn fwy 'n cynyddu,
Nid ydyw hanes Criſt yn gyfan,
Ond megis ſynbal iddo 'n tincian,
Neu efudd glâs, floedd di flâs,
Yn ſeinio bas, anian,
Yn mynd trwy 'r gluſt i mewn ac allan,
Tra byddo dyn yn un a'i hunan,
Pe caem ni 'n torri o'n gwraidd ein hunen,
A'n himpio i nôdd y wir winwydden,
Danghoſai 'r ffrwyth, oedd lawn ei lwyth,
Cyn adwyth, yn Eden,
A ffrwythau 'r wlad tu draw 'r *Jorddonen*,
Yngardd yr enaid, lle mae 'r ddraenen,
8. Drain ac yſgall ffrwyth ddaiarol,
Sy 'n tyfu yn enaid dyn anianol,
Ac ni ddaw grawnwin y gwirionedd,
Oddiar y rhain ſydd oer eu rhinwedd,
A pherlau Duw ſydd megis lili,
Ymyſg y drain mae rhain yn codi,
O'r achos hyn, cadd Ieſu gwŷnn,
Heb rafyn eu profi,
A'i gywir wyneb ei goroni,
A'i uno a drain yn ei drueni,
Y pechod ſy arnom ni 'n breſennol,
Drwy 'n chwantau a'n gwniau anigonol,
Fu arno 'n llwyth, a phrofai o'u ffrwyth,
Boen adwyth, benydiol,
Dyna ei elynion cryfion nerthol,
Sy 'n goſod heddyw ei farn gyſtuddiol,
9. Pa beth oedd *Herod*, *Pontius Pilad*,
A rhai a'i dygodd dan gondemniad?

Y

Y dyrfâ a'u ffynn âc a'u cleddyfe,
A'r hen *Iuddewon* a'i gwatware,
Nid oeddŷnt oll ond ei greaduriaid,
Ac ynte ei hun am gadw eu henaid,
Faint yw ei fri, well genym ni,
A'i addoli, yn ddeiliaid,
Ac etto a'n calon yn eſtroniaid,
I ffordd lanwaith y ffydloniaid,
Mae yſpryd Iuddew drwy dueddiad,
Ymhawb o honom heb wahaniad,
Er cael yn driſt, enw Criſt,
Mae anghriſt yn dwad,
A dyna 'r anwir dan arweiniad,
Sy 'n caru gwadu 'r cywir geidwad.
10. Trown i lwybyr y ffordd olion,
A dyſgwn gan gogoniant Seion,
Diſgwyliwn am y feren fore,
A gyſyd allan o'n calonne,
Y gair di dwyll yw 'r ganwyll gynnes,
Sydd am ennyn yn ein mynwes,
Daliwn hon ger ein bron,
Yn ffyddlon ein proffes,
Gan droi oddiwrth hudoliaeth diles,
Bwyd eulynnod bydol anwes,
I hyn yr ymddanghoſodd Ieſu,
Yn greadur i n gwaredu,
Oddiwrth ddrwg naws, pob yſpryd traws,
Cawn daſg haws i'w dyſgu,
Ag i fyw ynom a theyrnaſu,
Boed hynny Amen, a Duw yn mynnu.

YR AIL RHAN.

Cerdd, ar freuddwyd y frenhines; Damheg y Winllan wyllt.

I.

1. PAN oeddwn i ar heol,
Man dyrus daiarol,
Ar daith angenrheidiol yn rhodio,
Ces yno le hynod, i gaſglu myfyrdod,
Doi allan yn gafod ag eto,
Mi welwn Winllan, maes mawr llydan,
A ſafai gynt, mewn helynt wiwlan,
Gwinllan gaerog, oedd flodeuog,
Werdd fel Eden, Ardd oludog,
Perchennog hon a'i meiſtyr,
Goſododdd hi i lafur-wyr,
Diſgwyliai doe 'r ymgleddwyr,
A'u llafur iddo 'n llwyth,
Ond etto 'r doldir oni edrychir,
Yn ffyrnig atto eiff yn goedtir,
Fe ae 'r llafurwyr yn oferwyr,
E'g luſo 'r gwaith oedd reitia ei wneuthur,
Nes mynd yn rhywyr iddyn,
A'r winllan aeth yn ſydyn,
Yn wyllt na thyfai welltyn,
O'i phriddyn yn ei ffrwyth,
2. Rhown olwg manylach,
'Roedd hon dir afiach,
A chwedi cau 'n ſothach câs weithian,
'N llawn drain a mieri, boncyffion braiglwyni,
Tebyccach i gelli na gwinllan,

Edrychais

Edrychais etto, 'mhle roedd yno,
Y llu arferent ei llafurio,
Doen ar fy nghyfer, wrth eu harfer,
Gan dawlu eu hadyd ar llawn hyder,
Yfgeler oedd difgwiliad y doe fo byth ar dyfiad,
Am nad oedd rhŷch chwyfiad mewn toriad yn y tir,
Er hyn parhau, wnae rhain i hau,
A llywio llyfnu i'w wellau,
A'r tir yn berthen, mo r aflawen,
Na finniai dannedd ôg mo'i donnen,
Pe llyfnei hwn gan 'mlynedd,
Dan ogau dyna wagedd,
Llafurio mewn oferedd,
A chael anhunedd hir.

3. Wrth lyfnu 'r tir anial,
'Nhwy ddweudent yn ddyfal,
A'u cân oedd yn amal, fel 'n yma,
Pe tyfai 'r hâd hefyd, o'r winllan wenwynllyd,
Doe ddigon o buryd a bara,
Ynddi gwreiddie, pob rhinwedde,
Dail goneftrwydd arwydd ore,
A gwir gyffurie, cydwybode,
Planhigyn cariad yn ei flode,
A llyfie pwyll a phurdeb,
Dail fobrwydd a doethineb,
A ffrwythe pob duwioldeb ffyddlondeb yn ei le,
A phawb yn canmol, y gerdd dduwiol,
Dyna ganu da digonol,
Gwir yw 'r geirie eber finne,
Ond pam na r loefwch i 'r ardd lyfie?
A'i 'mhlith twmpathe eithin,
Daw gynydd da eginyn,
A'i yn y drain daw grawnwin?
Yn gyfin ow! nag e'.

4. Clywn alwad yn fuan,
Ar eraill oddiallan,

Dowch chwithe i'r faith winllan fethianllyd,
A nhwythe yno 'n ſefyll,
A'r galwad yn crybwyll,
'Roedd ganddo gwyn ddidwyll gan ddweudyd,
Dowch braenerwch, ac na hauwch,
Fel y rhain mewn drain a dryſwch,
A'r gwyr yn dwad wrth y galwad,
Symbylu eu hire a hwylio eu harad,
Eu hedrychiad oedd gyfflybieth,
I arddwyr tir er toreth,
Mi dybiais o u gorchwylieth,
Doe drinieth ar y drain,
Gwaeddi allan, twrw taran,
Rhoi amal ſonllef yn y winllan,
Gaſaelu 'n filen, codi r wialen,
A dechre turio drwy bob tarren,
A'u Hychen wedi hawchio,
Yn gryfion i laſurio,
Er hyn mae natur rhuthro,
A rhuo yn y rhain.

5. Pob un yn ymboeni, dal yn y tew lwyni,
A'u gweddi yn y treſi 'n petruſo,
Does arwydd y gwelir y maes yn llafurdir,
Neu r erddir o n ydtir iawn etto,
Pe tyſai 'r hade, meddai nhwythe,
Teurai 'r gwyr doe r tir ar gore,
I'e pe tyfe, frwyn ar frynnie,
Heb wlybaniaeth wrth eu bone,
Fe fydde 'r fath ryfeddod,
Na fu, ni fydd i ddyfod,
Nid yw had da 'n dygymmód,
A hynod le fel hyn,
I dir di doriad di fudd dyfiad,
Nid gwiw gyrru ôg nag arad,
Ych nag aſyn, march na milyn,
Mewn dyruſgoed ni oreſgyn,

Fyth

Fyth monyn heb gymynydd,
A bwyall ar eu yſgwydd,
I dorri gwraidd y cedrwydd,
A chwalu 'r aflwydd chwynn.

6. Pob gwaith a phob amcan,
Sy i weithwyr y winllan,
Ag amſer o's mynnan hwſmonaith,
Y twyall yn gynta ydyw r offer hwyluſa,
I dorri 'r coed yma i gyd ymmaith,
Ac ennŷn tân, i'w lloſgi 'n lan,
Oll hyd y maes yn lludw mân,
Heb ddifa 'r gwraidd, pwy fyth a faidd,
Hau yno Wenith, Rhŷg na Haidd,
Tymhoraidd yw tymheru,
Y tir yn glir i'w arddu,
Cyn troi na hau na llyfnu,
Chwi wyddoch hynny 'ch hun,
Ar ol lloſgi 'n llŵch, y dryſni 'n drŵch,
Troi 'r cleddyf dur i wneuthur ſŵch,
A'r waywffon, trowch plygwch hon,
Yn bladur at y llafur llon,
Achoſion fydd i'w cheiſio,
Mae r tir yn ſiwr o gnydio,
Daw nerth yr ŷch ag efo,
Lle tynno gwedd gydtun.

7. Edrychwch ar hwſmon,
Sy 'n trefnu ei orchwylion,
Gan hwnnw mae llownion winllanoedd,
Ei dir a lafuria, digonir e' o fara,
'Does eiſie yn ei gylla na'i gelloedd,
A hauo ei hade, ar draws carnedde,
Cyrre anialwch mewn cornele,
Mae 'r drain yn tagu peth i fethu,
A'r llall yn deiſio cyn addfedu,
Ac fellu darfu ei gyfri fel gwellt pen tai 'n dihoeni,
Pladurwr ni all ei dorri, na'i fedi i lenwi ei law,

Nid wyfi ond crybwyll, y ſtât erchyll,
Mae r maes ofer yma 'n ſefyll,
Pan ddoir i'w ganfod, pawb a ddannod,
Eich bod chwi 'n tytu n Hwſmyn tafod,
A ffonnod, man effynne, fe'ch curir gan ſâch gornie
Cân baban bloeſg ei bibe,
I'ch bronne och! a braw.

8. Tra chyndyn a chandryll rwi'n dwad yn dywyll,
Ym mhob dull yn cynnull f' amcanion,
Er gwaeled y gelfydd, mae rhyw beth yn rhybudd,
Mewn cerydd o ddeunydd i ddynion,
Mae 'r Winllan ddyrus, yma 'n cynwys,
Yſſum trigle ſtat yr eglwys,
Hanner clywed, gair agored,
A ddeuall call a'r llall ymholed,
Na farned neb yn fyrbwyll,
A ddweuded yma 'n ddidwyll,
I guro rhain ag eraill yn ffrewyll i ddeffroi,
Y rhai ſy 'n yſtig lyfnu 'r goedwig,
Fel cynnar adar cyn aredig,
A'r lleill ſy 'n dwad yno a'r arad,
Cyn arloeſi 'r dryſni cauad,
Er Argyhoeddiad iddynt, mae yſtyr hyn o deſtyn,
Nid eill cydwybod undyn, orafun i mi roi.

9. Pa r achos damhegion cwmpaſog fadroddion,
Na ddodid gwir union yn gryno?
Y ſain yma ſy 'n amal,
Cyn hyn wedi eu cynnal,
Ni fynnant ymattal ddim etto,
Pan droir yn ol, gan rai di rol,
Y farn' a' fo 'n eu ffeindio 'n ffol,
Cyfiawnder ffraeth o hirbell aeth,
Damhegion ſydd ymhig ei ſaeth,
A chwlwm caeth a chaled, penodi 'r un a'r aned,
Ty di ydi 'r gwr a ddalied,
Yn tynnu 'r weithred hon.

Sylwedd

Sylwedde yſprydol, ſy 'n ddieithrol,
Heb gyfflybiaethe llunie allanol,
Nid wrth olygus ddrŷch yr eglwys,
O'r tu allan i'r deuallus,
Rwi 'n cynwys hyn mewn caniad,
Am Winllan wyllt ei thyfiad,
Pob un a'i gwel ſy a llygad,
Gwir brofiad ger ei bron.

Cerdd o gwynfan at blwyfolion Llangollen, dros *Simon Thomas* oedd yngharchar yn Rhuthun: I'w chanu ar Spaniſh baven.

II.

1. CANU ar awen cwyno rwi,
O'm gallu bloeſg i Gollen blwy,
I'r neb a fynno o honynt hwy,
Waeth genny at bwy rwi 'n danfon,
At un neu fwy, at ddau neu fil,
O'r gwyr grymmuſa, haela hil,
A agoro ddrws trugaredd cil, eu calon.

2. A dyma 'r cwyn ni wna'i mo'r cêl,
Mi a'i dweuda 'n ddwys a doed y ddêl,
Dros *Simon Thomas* ſy yn y jêl,
Yr wyfi 'n uchel achwyn,
A llwm yw 'r gŵr, mewn lle mo'r gaeth,
A chyfri leied drwg a wnaeth,
Ryfeddu rwi par fodd yr aeth o i Ruthun.

3. Carcharu gŵr mae 'n chwerw ei gân, } *llwyth neu*
Am faw moch neu feie man, } *ddau o*
Roedd hynny 'n dangos angerdd tân, } *dail moch*
Cynddaredd anian ddiras, } *oedd dech-*
Gwreichionen oedd yr achos mawr, } *reu 'r*
Sathrafai brodyr hon ar lawr, } *cwerylu.*
Ond rhwng gelynion hi aeth yn awr yn eirias

4. Dowch a rhowch eich pennau ynghyd,
Fel union frodyr yn un fryd,
Na adawn mo n gwladwr yn y glud,
Dan benyd caeth-fyd cethin,
O's gellir trugarhau yn rhwydd,
I dynnu o'r llid y dyn er llwydd,
Heb wyro cyfraith breiniol fwydd y brenin.

5. Trugaredd wrol frawdol fryd,
Sy 'n pafio 'r farn gadarna i gyd,
Ped fae ni n arfer hon o hyd,
Ae 'r byd fel pryd paradwys,
Arfer Crift oedd trugarhau,
Wrth garcharorion a u rhyddhau,
Diddanu 'r lleſg ac eſmwythau 'r caethiwus.

6 Am wrando 'n fwyn ar gwyn y gwan,
O'i garchâr fyth a'i gyrchu o'r fan,
Mae Duw 'n cymheryd hynny o ran,
Hyd heddyw i'w anrhydeddu,
Am drugarhau drwy gywir hêdd,
Rhoi llaw i r gwag a'r lloerig wèdd,
I mi fy hyn y rhoefoch medd yr Iefu.

7. Nid trwy rŷm y gyfraith gre,
Dan wybr wen 'r â neb i'r ne,
Mae 'n rhaid i r Efengyl gael ei lle,
Sy 'n yftyr madd 'n waftad,
Madde ein dyled galed gur,
Fel yr ŷm yn madde i n dyled wŷr,
Dyna iaith yr Efengyl bur ei bwriad.

8. Pwy

8. Pwy ſydd etto 'n delio 'n dynn?
A maddeu i'w frawd, tlawd ni fynn,
Mae 'n dweud yngweddi 'r Ieſu gwynn,
Gwna di fel hyn a'm ſinne,
Erfyni ar hwn am ſadde n rhôdd,
A'th waith dy hun y dyn a'th clôdd,
Nad oes i'r Arglwydd union fôdd i ſadde.

9. Darllenais yr Efyngyl wenn,
Am ferenin llŷs ne ryw ŵr llenn,
A rhyw ddyledwr mawr dros benn,
Yn haeddu ſenn oedd ganddo,
A hwnnw 'n driſt o'i flaen a drôdd,
Maddeue 'r brenin iddo o'i fodd,
Pan nad oedd gando ddim a rodd, o'i 'r eiddo.

10. A hwu mewn ango gwallgo a gwŷn,
Aeth at ddyledwr iddo ei hun,
Dechreue daro a dwrdio 'r dyn, modd dygyn a'i lindagu,
A hwnnw ymbilie a'i ddwylo 'mhleth,
Gan gwyno ei fod a'i fyd ar fęth,
Ow! aros nes y delo beth, i dalu.

11. A'r gŵr anghofus ffroſtus ffraeth,
Gwrando ar gwyn ei frawd ni wnaeth,
Ond mynd a'i roi mewn carchar caeth,
Wrth gyfraith helaeth holiad,
Ymddigiai r brenin ynddo ei hun,
Pan glywodd beth a wnaethai 'r dyn,
Fe'i barnodd ynte dan yr un, gondemniad.

12. Fel ag y gwnelo dyn ar dir,
Y gwneir ag ynte cyn bo hir,
Fel y meſurwn ni yma 'n wir, yr ail feſurir i ni,
O's calon galed genŷm fŷdd,
Pan ddel cyfyngdra dua dŷdd,
Cul adwy farn, caled a fŷdd, Duw celi.

13. A'r gŵr trugarog enwog un,
Y mae trugaredd Duw 'n gydtun,
Ond ydyw hwn yn dweud ei hun,

A'r cyndyn, mi 'm gyndynnaf,
Ac am y truan medd Duw tri,
Sy n crynu dan ty ymadrodd i,
Wrth hwnnw mewn diftyrwch mi, dofluriaf.

14. Cofiwn weifion ufudd Duw,
Gore eu gradd goreurog ryw,
Abraham, a *Dafydd* wiw, *Job*, *Lot*, a'r cyfryw ddynion,
Zacceus, *Cornelius*, *Peder*, *Paul*,
Rhoent fiample da mewn rhwydda rhol,
Fel y canlynem ninne eu hôl, nhw 'n union.

15. Mae r gair am *Enoc* eglur yw } Un *Enoc* a *Jere-*
Ei fod e'n rhodio gyda Duw, } *mia* ei fab a rodd
A *Jeremiah* r prophwyd byw, } y dyn yngharch-
O feddal ryw oedd rowiog, } ar.
Nid ydyw r fgrythyr mewn un mann,
Yn dweud i rhain garcharu 'r gwann,
Mewn garw nŷch na gwyro 'n anrhugarog.

16. Ond gwell y calyn ffordd y rhain,
Na dewis cynnen llwybr Cain,
I fagu hen gynfigen fain,
I'n brawd ein hunain heno,
Sail y prophwydi bod ag un,
Yw câr dy gymmydog fel dy hun,
Ac os cyffry gwyn na chwfg un hun, yn honno.

17. Y Prophwyd *Jeremi* profi a wnâ,
Yn erbyn blin gyndynrwydd blâ,
Medde am rai cyndyn a neccâ,
Mai 'r fath gyndynna oeddent,
Fod ganddyn dalcen putten wraig,
Gwynebe a gruddie fel y graig,
A fugun laeth didennau 'r ddraig a dynnent.

18. Er hyn 'roedd Duw yn trugarhau,
Pan fydde rhai n yn meddalhau,
Pan fyddai *Pharo* yn ei goffau,
Fe barai i'r noddau beidio,
Mae 'n pechod ninne a'n beie 'n bwys,

Rhaid

Rhaid i ni gael maddeuant ddwys,
Gwell i ni bawb cyn mynd i'r gwys ei geisio.

19. Wel bellach garedigion glân,
Ystyriwch gwynion hyn o gân,
A gwnewch eich gore o fawr i fân,
Er mwyn y truan treiwch,
I gael o'n rhydd mae n brudd mewn brad,
O'i chwerw loes dowch wyr ei wlad,
Egniwch beth i wneud llesad 'n arswydwch.

20. Gormod gwradwydd cwilydd cawn,
Fod yma 'r fath elyniaeth lawn,
Carcharu dynan egwan iawn,
Medd rhai 'n anghyfiawn hefyd,
Ni ydyw 'r gŵr na llofrudd gwaed,
A lledrat ganddo chwaith ni chaed,
Dyled ni fasai o'n traha wnaed yn ehud.

21. Ac os dyledwr mae 'n dylawd,
Ar ol carcharu braenu brawd,
'Chan nhw am eu poen, ond croen a chnawd,
A drygair gwawd, y gwledydd,
Nid ydyw 'r golled fydd yn eich cod,
Ond bechan iawn wrth golli 'ch clod,
Gan Dduw a dynion dyna nôd, anedwydd.

22. Fe dalai 'r dyn ped fae 'n rhydd,
Yn ara dêg o ddŷdd i ddŷdd,
Ni thâl o byth o yno bŷdd,
Mewn cwlwm cystudd caled,
Peidiwch chwi a delio 'n dynn,
Ped fae fo 'n talu ond hyn a hyn,
Cewch gyflawn dal gan Iesu gwyn gogoned.

23 Fe dal yr Arglwydd meddwch chwi,
Hol. Ni thâl e' ddim o'm harian i,
Nid fellu gwneir y dyn yn ffri,
Wrth union gyfri 'r gyfraith?
O's methwch chwi wrth y gyfraith gael,

Bodlonrwydd

Att. Bodlonrwydd cyfa mwya mael,
Fe dâl yn lyr Efengyl hael yn helaith.

24. Ni welai 'r un gyfraith yn ei gau,
Ond drwg ewyllus un neu ddau,
Mae 'n fawr nad ellid trugarhau,
I ddattod barrau byrrion,
O's oes drugaredd yn y wlâd,
A bwyfa un o'r mwftard hâd,
Rwi 'n difgwyl fymud a rhyddhâd i Simon.

25. Oes yma neb mewn tre na llan, o natur y *Samari-*
A wrendi 'n fwyn ar gwyn y gwan, [*tan*
I wneuthur rhan cymmydog?
Ped fafe modrwy aur am ei fŷs,
Ac arian lafie ar gyrre ei gryŝ,
Fe gowfai ei gyrchu o'r gwarche i lŷs, luofog.

26. Fy ffryns a'm glân gymdeithon ffri,
Beth bellach ydyw 'ch rhefwm chwi,
Oes cenad iawn i'm caniad i, y leni gael cyflawniad,
Na thybiwch fod yr Efengyl wen,
Yn beth i chwerthin am ei phen,
Mi roes i chwi yma lawer fen, i'w fyniad.

27. Yftyriwn araith helaith hon,
A gwiliwn dwyll y galon donn,
Mae 'n gofyn cariad pur o'n bronn,
I rhai fy elynion i ni,
Yn ol yr Efengyl oni wnawn,
Arni 'n dyft pam y gwrandawn?
Mae 'n fylwedd pob trugaredd dawn, daioni.

21. Nid oes gan i i w wneud o'n rhydd,
Yr un awdurdod ond fy ffydd,
A'm gweddi ar Dduw a dynion fydd,
O allu ag ufudd wllys,
Trown drugaredd at ei gri,
Yn ol Athrawiaeth un a thri,
Fel ag y mae 'n harogliad ni 'n yr eglwys.

29. 'Rŷm

29. 'Rŷm ni yno ar ein glinie 'n glau,
'N gweddio ar Dduw am drugarhau,
Wrth bawb ſydd mewn caethiwed cau,
A blin garcharau, chwerwon,
Mae hyn gan ſiwred i ni a ſêl,
Na wrendi 'r Arglwydd ond a wnél,
Yn ol ei weddi 'n wir ddi gél, o'r galon.

30. Wel dyma le i wneud gweithred dda,
Tofturio wrth gulni cledi r clâ,
Mi wn pwy bynnag wr a'i gwna,
Llaw Dduw a nertha ei wrthie,
Gwnewch yn ffeſt eich cwſt a'ch cwŷn,
A cheiſiwn etto oddiyno ei ddwyn,
Y chwi yn y farn a chanu 'n fwyn, wna ſinne.
Trugarhâd ei chyrredd ni chawd.---Er cwynfan,
Er cantod ei nychdawd,
Roedd perffaith gariad pur-ffawd,
Yn rhy brinn i'w rhoi i w brawd.

Cerdd yn datgan am ddaioni Duw yn nhrefn ei ragluniaeth, ac yn hyttrach, yn anfon ei fab yn iechydwriaeth dynol ryw; ac mo'r angenrheidiol bod mewn undeb yſpryd ag ef, ac nad ŷm ni ond llwyr druenus *hebddo* ef, *ond vnâdo* ef y *gallwn* ni *gyflawni pob peth*, i'w chanu ar *Dol Bel*.

III.

1. CAN, cân, a gweddi hefyd heb wahân,
A ddylid gloi 'n addoliad glân,
I'n tarian Dduw a'n tŵr,

Swydd

Swydd angenrhaid pob enaid byw,
Deunyddio 'r dalent a rodd Duw,
Pob dawn a rhinwedd weddedd wiw,
Sydd anwyl rodd i ddynol ryw,
Cyfraniad aberth eurwerth ŷw,
O's bydd Duw yn caniadhau,
Ei ddoniau ei hun i ddyn i'w hau,

2. Iôr, iôr: Creawdwr nef a thir a môr,
Mae ganddo i ni dosturi ystôr,
O'i dryfor fy 'n ddi drai,
Fe roes ei fab o i fynwes glyd,
Er mwyn dileu pechodau 'r byd,
Yr hwn a n prynodd oll mewn pryd,
Trwy ofid trwm a'i fywyd drud,
Pob peth anghenrhaid i ni o hyd,
Pob rhybudd teg i'n parodtoi,
Er mwyn ei ras y mae yn ei roi,

3. Mawr, mawr: yw 'n trugareddau ninnau 'n awr,
Duw fy a'i haelioni 'n llenwi 'r llawr,
Mo'r werthfawr yw ei waith,
Mae gennym brawf o hyn mewn bri,
Fod ein rhoddion heb ddim rhi,
Fel y mae llanw 'r mo'r yn lli,
A phawb yn fyniad yr un fi,
Mai Duw trugarog i'w 'n Duw ni,
Daioni yw hyn fod Duw 'n ei hau,
A ninneu o hyd yn ei mwynhau.

4. Down, down: I garu gwledd y gair a glown,
At brofiad dyfnach trymach trown,
A gwir ddeffrown ar ffrwfl,
O'n bod yn canmol cymmaint yw,
Ei drugareddau goleu gwiw,
Ond pa drugaredd ryfedd rŷw,
Sydd fwya dwys ynghyfri Duw?
Mi wn yr ettŷb pob dyn byw,

Mwya trugaredd dan y ne ;
Oedd rodd ei fab o'i 'eiddo fe,

5. Gwir, gwir : a weddai ei gloi a'i adde 'n glir,
Hon ydyw r fwya ar for a thir ag ellir fyth ei gael,
A gawn ni holi i brofi ein bron,
Oes genym ni fwynhad o hon?
O gilai gwraidd y galon gron,
Yn rhoi i ni faeth a lluniaeth llon,
Yn ein cryffau fel cywir ffon,
Ac nid ymhell tu draw i r bedd,
Ond yma 'n wlith o dwymyn wledd.

6. Nês, nes : nid yw 'r anwydog er bod gwrês,
Ymhell oddiwrtho a thân a thes,
A rhai 'n cael lles o'u llwydd,
Faint ydym ninnai nes yn awr,
Er dyfod etifeddiaeth fawr, i aneirif lu o'r nef i lawr,
Sef i r ffyddloniaid euraid wawr,
A ninnai 'n llyrfion ar y llawr,
Bodloni ac oedi hebddi o hyd,
Tan a roi 'r barn i'n tynnu o r byd,

7. Un, un : Mewn crifiion byw yw Duw a dŷn,
A gras da helaeth Crift ei hun,
A'n gwnâ 'n gydtun a'n tad,
Fel hyn mae 'r enaid yn mwynhau,
'N meddiannu ac yn glynu 'n glau,
Ymreintiau Seion trwy nefau,
At ei cheidwad i'w hiachau,
A chywir ffydd yn ei chryffau,
Cyn torri 'r goftrel bridd ger bron,
Cyn ymbellhau o'r babell hon.

8. Prŷd, prŷd : i ni fwriadu mewn un fryd,
Cyn mynd i'r farn o hyn o fyd,
Briodi 'r nwylyd nêf,
Od oedi wnawn nid ydym nês,
Cynghorion ac arwyddion rês,
I'n mawr wellhau ni wna 'n mo'r lles,

Pregethu

Pregethu gwraidd y gair mewn gwres,
Wedi iddo egino 'n deifio ar dds.
Ni ddaw mo'r ffrwyth i fynu 'n ffri,
Heb Grift ei hun yn un a ni.

9. Efe: a'i gnawd yfprydol nodol nê,
Yw 'r tir daionus lwccus le, i gario hade 'r gair,
Mae 'n derbyn y gorchymmyn fydd,
Am garu Duw a dyn bob dydd,
A'n holl elynion yn ddi ludd,
Am edifeirwch ac am ffydd,
Oddiwrth y rhain fe a'n gwna ni yn rhydd,
A'r deddfau moefol fyniol fain,
Er cyd eu rhif mae 'n cadw rhain.

10. Dŷn, dŷn': A gais wneud llawer rhith a llun,
I ffri gyflawni rheini ei hun ni wnaeth yr un erioed,
Nid ynom ni na dim a wnawn,
Mae cariad brawdol ddduwiol ddawn,
Ond yn y cywir hwn y cawn,
Wir frawdoliaeth hyfryd iawn,
Mae 'n Harglwydd nêr yn lleſter llawn,
O olew cariad heb laccau,
O s ynddo glynwn heddyw 'n glau.

11. Siwr, fiwr: Di ammeu ar goedd, mai dyma 'r gŵr
Sy ag yfpryd barn yn gadarn dwr,
Egorwr ar y gair,
A thrwy fod yma 'n benna 'n byw,
Yn ei yfpryd gwynfyd gwiw,
Y mae 'r pechadur gwael ei ryw,
Yn wneuthurwr ar air Duw,
O hono ei hun y dyn nid yw,
Ond cyfrifedig ynddo fe,
A wnaeth gyflawniad yn ei le.

12. Un, un: O honom ni yn ein hanian wŷn,
Ni char gymmydog fel fe ei hun,
Wrth dêg orchymmyn Duw,
Amhofibl yw yn ein golwg wan,

Mae

Mae 'r gair mo'r gry 'n ein tynnu tan,
Y tonnau rhwyſtrau ſy yn ein rhan,
Er hyn mae 'r Arglwydd ar y lann,
A thrwy fod ynddo yn impiau plann,
Mae 'n bofibl yma gyda ge,
Gywiro 'n lân y gair i'w le.

13. Llef, llef: ei air ſeliedig unig ef,
Fo i n hargyhoeddi ni o'r net,
Yn gyfraith gret ei grym,
Fel y bo ni 'n rhowiog i barhau,
Bawb yn ein hoes ac heb wanhau,
Drwy unfryd clos frodorion clau,
A'n dwyn i r undeb dan yr iau,
A rhwymyn cariad yn ein cau,
A beunydd bod yn byw 'n ddi ball,
Oll er lles y naill i r llall.

Y gan hon a wnaed gyntaf i gymdeithas clwb, blwyddyn, 1771. Ac all fod yn berthynol i bawb yn gyffredin.

Un arall o'r un ddull a'r un meſur.

IV.

1. MAITH, maith: Yw gair o wir o gywir iaith,
Mewn barn a grym heb arno graith,
Yn lanwaith yn ei le,
Am y gynulleidfa llonna ei llun,
Sy 'n byw dan enw bod yn un,
O'r ſwm nid oes un perſon dyn,
O honi ar ei ben ei hun,
Yn iach yn glâ mae 'r cyfa ynglun,
A chwedi addunedu i'r nôd,
Ac ymgyfylltu fellu i fôd.

2. Clau,

2. Clau, clau: A da ydyw rhwymiad i barhau,
I gynal gweniaid ſy 'n lleſgau,
A henaint brau ddaw 'n brudd,
A hyn ſydd lafur yn ei le,
I'w gludo wrth raid mewn gwlad a thre,
Y llês a wnawn oll îs y ne,
Ond llês ryw ddŷdd a fŷdd efe,
I'n dal ar graig ſel adail gre,
Y peth a hauo dyn a fêd,
O's da yno rown, da i ni rêd.

3. Hyn, hyn: a ellir ddirnad ſyniad ſynn,
Gwedi hau, daw efrau, a chwŷn,
Ar lawer tyddyn teg,
Er ceiſio trefnu naddu nod,
Erthyglau glân wrth eglur glôd,
Mae llawer twyll ddi bwyll yn bôd,
Yn Diwyno rheini dan y rhôd,
Temptaſiwn poeth yw cyfoeth côd,
Rhaid fod yn ddoeth, a farno 'n dda,
Yn wych a chlos, rhwng iach a chlâ.

4. Hawdd, hawdd: yw gwyro barn a thaflu i'r clawdd
Gyfiawnder pur, wrth wneuthur nawdd,
Ac anawdd nâg i gwyn,
Mae achos clir i'r iach a'r clâ,
I gario nôd cydwybod dda,
Hon yn y farn a'n cadarnha,
Fel mil o dyſtion i ni gwna,
O's cywir fydd hi a'n cryfha,
Ne o's euog yno y ſai,
Yn doſtur bwngc i dyſtio 'r bai.

5. Gall, gall: fod genym wydd o'r wir ddi wall,
A'r bapurun heb ddim pall,
I'w deall yma 'n dêg,
Nid ym ni haws er dim wna hon,
Heb wyddor briod yn ein bron,

A atteba i lais cydwybod lon,
I gilio 'r dwyll o'r galon donn,
Wrth ei phwys a nerth ei ffon,
Gwnae hon gyfiawnder hyd ei bedd,
Heb wyrni o hyd a barn a hedd.

6. Braw, braw: fod cymmaint llu yn rhwymo ei llaw
I wneud cyfiawnder oddi draw,
Yn hylaw ag yn hardd,
Mae 'n brudd eu gweled braidd y gall,
Y naill ymddiried dim i'r llall,
Na raid yſpio a gwilio gwall,
Diben moel, drwg dybiai mall,
Pa beth ſy 'n peri cymmaint pall?
Ond eiſiau bod erthyglau byw,
Tu fewn a deddf i ofni Duw.

7. Gwnae, gwnae: Egwyddor bur ei gwedd pe bae,
Wregyſu o n cwmpas megis cae,
I'n gwarchau yn y gwir,
Mae Angel Duw fel magwyr gre,
O amglych pawb a'i hofnant e'
Fe'i ceidw 'n lluoedd yn eu lle,
Yn wirion iawn dan awyr ne,
'D rhaid iddynt foddion ond efe,
Ni cheiff un gelyn byd na chnawd,
Mo'r dallu eu bron i dwylio brawd.

8. Dyn, dyn: Sy a'i natur wedi llygru ei llun,
A'r hen egwyddor ſy ynddo ynghŷn,
Yn ddrwg ei gwŷn a'i gwedd,
Mae 'n addunedu lawer gwaith,
A'i law fe rydd ar ddolen fraith,
Er hyn mae ei feddwl yn rhy faith,
Nid edwyn mo'no ei hunan chwaith,
Yma ar dir ni wyr mo'i daith,
Ni chwbwlha mewn gyrfa gaeth,
Mo'r addunede yn ole a wnaeth.

9. Down, down: yn ol a welwn ac a glown,
I ſynio am ras, i hyn ymrown,
A gwir ddeffrown yn ffri,
Daw r holl bregethe gore gwir,
Yn dyſt i n herbyn cyn bo hir,
Cyſiawnder clau ſynn fatter clir,
Mae ei ſwyall ar bob cangen ir,
Tyrr hon a ſo 'n diffrwytho 'r tir,
Ffown ymmaith rhag y llid a fydd,
I'r ddinas noddfa redfa rydd.

10. Cawn, cawn: Ddyſgeidieth ymhob peth a wnawn
Defodau 'r wlad, rydd i ni lawn,
Athrawieth iawn a thêg,
Mae llyfre 'r clwb a'u llafur clau,
Yn gofyn gennym eu glanhau,
Dibennu 'r cyfan heb neccau,
Mae hyn i n fforddio ni i goffau,
Am lyfr y bywyd ſy i barhau,
Ond yw ſe 'n gofyn Duw a i gŵyr,
Gael ar ein llaw ei glirio 'n llwyr.

11. Pwy, pwy: A ddichon etto glirio ei glwy,
Na thalu hatling fach neu ddwy,
Yn wobrwy am ei warth?
Nid oes enaid, nag oes un,
A dâl ddyledion ddyfnion dyn,
Ond fel y cymrodd Duw n gydtun,
Fodlonrwydd gan ei fab ei hun,
Hwn yn ei loes a'i waedlyd lun,
Gâdd dalu 'r ffyrling eitha 'n ffri,
I glirio 'r llyfre yn ole i ni.

12. Hyn, hyn: Sy i'n hargyhoeddi o'n fyrthni ſynn
A'n hyſu i garu, ein hieſu gwyn,
A gwneud a ſynn efe,
A dyna 'r diben mawr y daeth,
I oddef cerydd cyſtudd caeth,
Ei hun yn batrwm i ni a wnaeth,

O gariad gwreſog ſerchog ſaeth,
Cyfrannai ei ſywyd i ni 'n faeth,
Er mwyn i ninne ymuno 'n iawn,
Mewn undeb a ffyddlondeb lawn.

13. Clyd, clyd: yw gweled brodyr yn byw ynghyd,
Gan mo'r waſgarog ydyw 'r byd,
Mewn ofer ynſyd nwy,
Mae 'r Arglwydd Ieſu 'n caſglu ei blant,
Fel iar ei chywion oreu chwant,
Dan aden cariad ſyniad ſant,
Iw myſg ni thrig, na dig na dant,
Dan yn un gŵr ped ſae nhw 'n gant,
Boed fellu bo 'r gymdeithas hon,
Dan enw brawd yn un eu bron.

Carol tan bared, yn dangos allan ddieithred yw cariad brawdol; ar *Farwel Ned Pyw.*

V.

1. GWrandewch gyffeſiad i'w goffau,
Pob un ſy 'n glau am glywed,
A gwan gynghanedd ſylwedd ſal,
Yw hon o's tal ei ſtyried,
O's tal ei hyſtyr difyr dw,
Hi dal ei chadw ychydig,
Am annerch wael cymmerwch hon,
Neu rowiog lon galennig,
Pan oedd yn flodeuol,
Y grefydd griſtnogol,
Yr achos dechreuol, o'r caniad arferol,

Oedd cofio 'n gymmwyfol am Iefu,
Tra cadwyd gwirioned,
Mewn fel am ei fylwedd,
Bu 'n felus orfoledd, nes dwad o'r diwedd,
Oferedd gwael egredd i'w lygru.

2. Cann gwylie a fydde 'n fawr,
Mae hynny 'nawr yn oeri,
A drwg arferiad gwlad a thre,
Sydd yn ei le fo'n codi,
Mwy falchder trawfler trais,
A mwy o lais cynfigen,
Diffodd canwyll ffrewyll ffraeth,
A chynne gwaeth gwreichionen,
Pob anian drygioni, 'n amlhau mewn rhifedi,
A chariad yn oeri, a'r ddaiar yn llenwi,
O ffrwythe trueni trwy anwir,
Heb fawr yn yfyriol,
O'r peth angenrheidiol,
Ond byw yn anianol,
A gwneud fel arferol,
O's bydd yn anrafol ni rufir.

3. Fel hyn o hyd mae 'r byd yn bod,
Er maint fy o ddannod i ni,
Da ydyw r da pob dyn fy 'n dweud,
A drwg i'w gwneud drygioni,
Mae rhefwm dynion yma ar dir,
Yn adde 'r gwir agored,
Ond natur amur fegur fwrth,
Sy 'n gwyro oddiwrth y weithred,
Pob gradd a chenhedleth,
Sy 'n canmol brawdolieth,
Fod cariad pur berffeth,
Yn well na Brenhinieth,
Does un etifeddieth mo'r fuddiol,
Pan eler i chwilio, mhlith dynion am dano,

Ni welwn ni mo'ño, ychydig wrth dreio,
O hono fudd yno 'n feddianol.

4. Eſtronedd allud yn ein gwlad,
A'n bro 'dyw cariad brawdol,
Prin y gwelir ol ei droed,
Ni bu fe rioed mo'r reidiol,
Er bod etto ymbell un, yn paentio ei lun o'i lynu
Yn eu gwleddoedd union glod,
I'w faner fod i fynu,
Ond be dal llun arian,
Na phrŷn ac na werthan,
Ne ddelw merch wenlan,
Wrth geiſio iddi gufan,
Fe dwylle un ei hunan a honno, } *Picture of*
Ac etto ni chymrwn, } *a pretty*
Mo 'n twyllo deuallwn, } *Girl.*
Am olud a welwn,
Y bai pan wybyddwn,
Gwrthodwn nis mynnwn ni mo'no.

5. Cyn pwyſo 'r aur mewn gwlad a thrè,
Pob un a'i gyrre i gerdded,
I ffwrdd yr aen heb hwi na herr,
Yn burion er eu byrred;
Ar ol eu pwyſo a'u cael yn brin,
Er henw 'r brenin hynod,
Gwrthodau pawb y gini bâch,
Cae ei alw 'n wrâch eurychod,
Pe codem i'r fantol, wir grefydd yſprydol,
A chariad pur brawdol,
Y wanna o blu 'r wennol,
Sydd fwya pwrpaſol i'w pwyſo,
Mae rhain yn y clorian,
Yn llai na 'r aur bychan,
Ni fedd y wîld lydan,
O gariad pur anian,
Ond tippyn tu allan i'w twyllo.

6. Gwir gariad brawdol medd rhyw un,
Sydd ore i ddyn feddiannu,
Ond ydyw hwn i w gael yn rhâd,
Pa beth a nad ei brynu?
O's mynnwn brifio werth o'n iawn,
Diame cawn ni goftio,
Cybydd-dod, balchder llawer llun,
O eiddo dyn am dano,
Cynfigen a males, cyfrwyfter a rhodres,
Twyll, cnafri, chwant mantes,
Does un o rhai henwes,
Yn gar nag yn gares i gariad,
O's ydym yn barnu, yn fuddiol i feddu,
Ag o's mynnwn ei brynu,
Rhaid gwrthod a gwerthu,
A gyrru y rhai hynny ar wahaniad.

7. Ond gwell gan yfpryd y byd hwn,
Pan ddel i gweftiwn gwaftad,
Y rhain i w trin hyd fin ei fedd,
Na'i gwerthu er cyrredd cariad,
Er hyn pe bae ni 'n bwrw 'r drael,
Mae mwy o fael i w dderbyn,
O gariad hael a'i gred ei hun,
Nag oddiwrth un o honyn,
Ceir meddwl bodlonus,
Wna r enaid yn happus,
A r corph yn wŷch iachus,
Mae cariad yn cynwys,
Pob peth fy ddaionus, ei ddeunydd,
Mae 'r ddaiar yn ddigon,
I borthi ei thrigolion,
Er maint fy o anghenion,
Mae mwy o weddillion,
Ped fae ni n un galon a'n gilydd.

8. Pum rhinwedd dda fy 'n rhan i ddyn,
Ac heb yr un mae bagad,

Meddwl

Meddwl bodlon, calon rŷdd,
A gobaith ffŷd a chariad,
Nid oes mo rhain blanhigion hardd,
Yn tyfu yngardd naturiaeth,
Talentau ydynt maent i'w cael,
Yn ddigon hael a helaeth,
Pob un fy 'n eu gofyn,
Mewn diffyg am danyn,
Mae rhain yn eu derbyn,
Drwy brofiad heb rafun,
A Duw ni ad iddyn mo'r diodde,
Pan ddelom i ddirnad,
Eu grym a u gweithrediad,
'Dae 'r gorlan ar deilad,
Heb eidion na Dafad,
Bydd pob peth drwy gariad ar gore.

Cerdd yn erbyn meddwdod: ar gyfarfod da, neu *well met.*

VI.

1. RWI 'n gyrru at bob gŵr,
Cwmnhiwr mwyn hoyw,
Sy 'n caru ſwyn cwrw,
Dal ſulw, rwi n'ſiŵr,
Ar gyflwr ein gwlad,
Am ſeddwdod rwyfi,
'N mynegi f' annogaeth,
Niſeilaidd fywoliaeth,
Naturiaeth yw hi, dyreidi di râd,

Pob criſtion glan ryw, ſedyddwyd ond yw,
Fe ar ddelw 'r gwir Dduw,
Dae 'r cyfryw 'n yſtyrio,
'R adduned ſydd arno,
Na feddwo 'n ei fyw,
Ac etto mae dyn,
A'i natur ynglŷn, wrth drachwant a gwŷn.
Gorchymmyn y drindod,
Nid yw yn ei ganfod,
Na'i bechod ei hun.

2. *Noe* gynt o'i wirfodd,
Pan feiddiodd e' feddwi,
Dangoſodd ei noethni,
Mewn dryſni ſe 'mdriodd ynfydodd yn fawr,
Ac fyth gwelwn fod,
Ar feddwdod yn wradwydd,
Anfeidroi ynfydrwydd,
Dyna arwydd ei nod,
Iw nabod yn awr,
Mae 'n bechod mo'r boeth,
Fe dywys y doeth,
A'r cyfrwys wr coeth,
Yn annoet gynhenus,
Ei feiau rhyfygus anafus a noeth,
Y meddw ymhob parth,
A ddengys fel arth,
Ei noethder yn warth,
Nid diwarth i'w diod,
Oddiwrthi mae pechod,
Yn dyfod yn darth,

3. Cawn ſiampl i gyd,
O'r cynfyd ſe'i cenfydd,
Pob llonwych ddarllenydd,
Mae cywilydd y byd, yw coledd y bir,
Bu 'n dramgwydd i gant,
Drwy drachwant eu natur,

Clais annoeth i ſynwyr,
Pechadur a ſant,
Dan warant yn wir,
Lot gynt oedd yn un dewiſol o ddyn,
Troes meddwdod ei lun,
Bu n wrthun ei weithred,
Gael dau o faſtardied o'i ferched ei hun,
Mae meddwdod yn dâd, i lygredd y wlad,
O hono daw hâd ryw fagad ryfygus,
Meddyliau cableddus drygionus yn gad.

4. Pob chwerwedd a chur,
Pob llwybr enllibedd,
Anghydfod anhunedd,
Rhwng gwragedd a gwŷr,
Anifyr eu naws,
Cynfigen a ddwg ffrwyth amlwg i'w theimlo,
Oddiwrtho feddwdod yw honno,
A dry efo drŵg i'w dreio fo 'n draws,
Pob dyri goeg fas,
Ddi reſwm ddi râs: pob crebyn,
Air crâs, diflas a deflir,
Yn feddw pan fyddir a gofir o gâs,
A difrod bob dŷdd, ar eiddo i ni rŷdd,
A ſyched y ſydd, nas derfydd er diod,
Pob achos i bechod o feddwdod a ſydd.

5. Mae 'r Arglwydd ei hun
Yn g'rafun rhag gormod,
Glythineb a meddwdod, gan ddannod i ddyn,
Fo n feddwyn ei fai,
St. *Paul* yr un don,
Am ddynion medd i ni,
Na fydd un o rheini,
Sy 'n meddwi oni thro'n,
Yn *Sion* a fai,
Eſaias wir ſant, rhydd geryddd i gant,
Gwae 'r meddwon eu maut,

A yſant nes y gweithie,
Y gwin yn eu gene a chynne 'n eu chwant,
Gwatworus yw gwin,
Terfyglyd a blin,
Medd ſelyf ddoeth fin,
A'i ddilyn ni ddylid,
Ond fel ac y gellid drwy drefnid ei drin.

6. Mewn meddwdod y mae,
Yn gwarchae 'r ſynhwyrau,
Y fall a'i biccellau yn dechreu pob ffrae,
Lladdiadau di Dduw,
'R hen dwyllwr nid all,
Yn ddiball a i ddobor,
Mo 'n temptio ni 'n ſobor,
I nemmor o wall, mae 'n ammeu na wiw,
Pan ddalio ni a i ddôl, yn feddwon ddi rôl,
Yn waedwyllt a ffôl, anſuttiol yn ſottio,
Bydd hawdd iddo ein hudo i rodio ar ei ol,
Pryd hynny gwna fo, y llwynog yn llo,
Mae 'n cymmyſg y co, yn curo 'n y coryn,
A'r tafod yn ferwyn ſel olwyn ar dro.

7. Nid oes yr un nod, mwy hynod gan ddiafol.
Ar ddelw 'r daiarol, ddyn bydol yn bod,
Na meddwdod, un modd,
Cyfnewid ei lun pob un o'i aelodau,
Yr yſpryd a'r moeſau cyneddfau 'r holl ddŷn,
Drwyddyn ą drôdd,
Mae 'r enaid fel hyn yn ſwrth ag yn ſynn,
A Satan a'i tynn, yn erbyn cydwybod,
I wneud yn ei feddwdod y pechod na fynn,
Y pen yn gwanhau, pyrth cariad yn cau,
A'r galon yn ffau, neu gaerau agored,
Ac ynddi mae 'r *Aſpied* fel gwybed yn gwau,

8. Oll cedwch mewn co drwyddo 'r madroddion,
Fy mrodyr un galon holl feddwon y fro,

I'w

I'w rhifo ydyw rhain,
Dilynwn yn ol, ſynhwyrol gynghorion,
Gair Duw a i orchmynion,
Gwir purion gair *Paul*, gyſonol ei ſain,
A rhodiwn yn rhydd yn deg wrth liw dŷdd,
Na fyddwn ddi ſudd, mewn awydd i ddiod,
Cyfeddach a meddwdod, yw ffierdod y ffydd,
Cadwed pob un ei leſtr ei hun,
Yn lanwaith ei lun, i ganlyn yr Arglwydd,
Mewn buchedd o newydd a dedwydd yw 'r dyn.

Cerdd arall ar yr un meſur, gwahodiad i helwyr Ddyfod i hela ac i welthau ar wraig weddw dlawd a llawer o blant amddifaid, y cymhelliad hwn roed at Benaethiad ac uchelwyr plwyf Llangollen, ac eraill oddiamgylch.

VII.

1. RWI 'n danfon ar dwyn, gain addfwyn,
Gyneddfe i'ch gwahodd i'r unlle,
Iawn fodde 'n o fwyn, a digwyn yw 'r daith,
Anturiaf at wŷr ucheiwyr a chalon,
Ac wllys da rhyddion,
A ffyddlon a phur fo n gywir i'r gwaith,
Dros weddw 'n y fro, gwraig William y gô,
Rwi 'n dwad ar dro, i geiſio iddi gyſſur,
A chariad ei brodyr difeſur yw fo,
Gwir weddw ydyw hon, bur unig ei bron,

A'i

A'i phen dan y donn,
A'i gweinion genhedlaeth,
Yn gofyn i'w mammaeth eu lluniaeth yn llon.

2. O honynt mae wyth,
O dylwyth a deilied,
A hithe ydyw 'r nawfed,
Ond lludded yw 'r llwyth, i ddiffrwyth i'w ddwyn,
Heb feddu 'r un Tad mae 'n brofiad yn brifo,
Pob un ac a deimlo,
Er llunio gwellhad trwy fyniad rhyw fwyn,
Cymdogion hon fy, am daro ar ei thu,
Mewn cariad mwyn cu,
Yn mynnu pwynt manna,
Gwneud diwrnod o hela, i'r lladdfa daw llu,
Ar achos mo'r glir, ni arbedaf yn wir,
Ddim tai perchen tir, da gwelir i'w galw,
Pob cyfaill co hoyw fy 'n cadw ci hir.

3. Af at fgwier Llwyd fyberwyd naws bura,
O Drefor am drofa,
I hela fo g'wyd, mae 'n hylaw i'r gwaith,
Llwyd arall ar dir, adwaenir rhydonnen,
Atteba i'r un diben,
Wrth angen yn wir, fe'i denir i'r daith,
Anhercha 'r graig ddu, ar tylwyth o'r tŷ,
Da cynnes waed cu, rhaid gyrru i'r Fynechtid,
Ymweled a gwendid yw credid y cry,
Gŵr llonn fydd ger llaw, 'n yr accar fair draw,
Llwyd enwog lle daw, un hylaw a hwylus,
Da'i allu da'i wllys haelionus ei law.

4. Mi a 'n glaiar i'r Glynn dros fonyn o fynydd,
Ca helwyr co hylwydd,
Ar gynnydd y Tŷ gwyn,
Wy 'n ofyn yn nes,
Talygarth 'r un art,
Nid cywart mewn Caeau,
Fo 'u gwel ar eu gwalau,

Gwna

Gwna hwn chwareu ei bart,
Ar Llwydiart er lles,
Morus Evans mawr ſel,
Sydd ganddo 'n ddi gêl,
A'r Wennar ni y w l drafel yn ormod,
O's bydd 'ſgyfarnogod, a diod lle dêl,
O's trinaf mewn treſn,
Rhaid cymhell y ceſn,
Blaen nantyr, drachefn,
Mae 'n anrheſn eſgluſo,
Neu ballu 'r neb allo,
'S cawn lunio cân leſn.

5. Fe ddaw 'r Tŷ 'n y ddôl,
Yn ſiriol ddi ſorriant,
A llwydiaid y Pennant,
Ni ſafant yn ol; rhagorol yw 'r gwŷr,
Rhaid bellach roi tro,
Taer gloſio tu ar Glwyſeg,
A mynd at rai mwyndeg,
Yn rhwydd-deg mi a'u rho, i gario 'r un gur,
Plas Ucha geiff fod, a'r Iſa 'r un nod,
Yn glynu yn y glod, a Hafod yr abad,
A gwilied neb ddwad, yn gauad ei gôd,
Ni fedrais wrth ri, roi 'ch henwau da chwi,
Yn barchus mewn bri, ond henwi 'ch trigfannau,
Gobeithio gwnewch faddau, ſy o feiau arna ſi.

6. Mae hanner gair mall,
Drwy angall fadroddion,
Ymhigau damhegion, yn ddigon i'r call,
I'w ddeuall yn dda,
Chwi 'dwaenoch ſy llais,
Fel mowr-gais am ergyd,
A'r adar drwy rydid a drewid o drais,
A glymais i 'n gla,
Cymydogion heb ſon, rwi 'n diſgwyl y don,

Yn

Yn rhwydd ac y rhon, dda roddion o'i reiddo,
Mi glywais rhai 'n addo gobeithio na thro n,
O honynt mae rhi, drwy gyrrau 'n bro ni,
A rhai 'n cadw ci,
A rheini ſydd hebddo,
A mawr dalent i w dwylo,
Rwi cofio attoch chwi.

7. O ddolfawr (yn ſiwr pob gwr o geneddfau,
Hyd waſtad ac orchrau,)
I dai blaenau 'r dŵr yn ſwccwr neſhewch,
Doed graddau da eu gras,
O'r plâs yn y pentre,
I vale cruſis y croeſe,
O'u cyrre heb ddim cas,
Cymwynas a wnewch,
Mae gwŷr ar du 'r gwann,
Drwy draian y llann,
Yn Nhrefor mae rhann,
Nhwy hwylian, i hela,
Yn ſiriol at Sara,
Mi a'i mynna i'r un mann,
Pob Heliwr hir ffonn,
Pob Bragwr ger bron,
Pob Sioppwr lliw llon,
Y Perſon a'r Clochydd,
Tafarnwr, Melinydd, blaid hylwydd at hon.

8. Pennoda i chwi 'r dydd,
Mae 'n ddedwydd i'w adel,
Yr hên wyl mihangel,
I'r drafel, led rŷdd,
Y rhybudd mi a'i rho,
Dewiſwch chwi 'r lle,
Fo gore i chwi guro,
Am Geinach neu Gadno,
I'w treio mhob tre, hyd frynnie 'n y fro,
Bydd ymbell brŷf brŷch, yn achub yn wych,

Er

Er hynny mhob rhych,
Bydd mynych gwn meinion,
Gan amled ar gwreichion,
I'w ymlyd i r gwrŷch,
Er gwched y gwŷr, a'u parod gŵn pur,
Yn llammu dros fur,
Mo'r bryſſur anhoſwch,
Pan elo i'r anialwch y goedhwch a gur.

9. Och! Saled y ſwn ar bwrdwn di burder,
Cynhaſa cân ofer,
Yn cellwer a'r cwn ni a beidiwn am bêth,
Eich gwadd i'r un lle, yn dade i'r amddifed,
Yw m dolur a'm dyled,
Er nodded Duw ne, da fodde di feth,
Pan ddelo chwi lawr, ar fyddin mo'r fawr,
Hardd gweled eich gwawr,
Bydd dirfawr y dyrfa,
Cyſſurus i Sara 'ch ciniawa chwi nawr,
Cewch groeſo glan ffri, yn hael ganddi hi,
A'r ddiod yn lli, yn llenwi, 'r holl annedd,
A thannau a chynghanedd iach hoywedd i chwi.

10. Ymwelwn yn llon,
Ar gweddwon cyſſuddiol,
A byddwn wybodol,
Wyr brawdol ger bron,
Y gwaelion eu gwedd,
Ymgleddwn yn glyd, a'n golud ein gilydd,
Ein gyrfa ni a dderfydd,
Mynd beunydd mae 'r byd,
O'r bywyd i'r bedd,
Mae 'n tryſſor fel trêth, i'r awdwr di feth,
'R hwn pia pob peth, y cyweth a r caeau,
Treſtadaeth y teidiau, a'r plaſau mur plêth,
Ddoe 'n perchen pob parch,
Yn mynd ar gefn march,

Duw

Duw foru 'n rhoi arch, i'w gyfarch a'i gyrred,
A'i fwrw fe o'i fowredd i orwedd i'w arch.

11. Mae 'r fgrythur yn fon,
Am weddwon yn amal,
Gan erchi i ni 'n ddyfal,
Eu cynnal pan fo n yn weinion ar wall,
A wafgar eu dda lle mwya bo eu eifieu,
Chwanega eu dalenteu,
Ond te fe leiha o s peidia mewn pall,
Mae bywyd a budd, i'w dderbyn ryw ddydd,
Yr hael a fo rhydd, a genfydd y gwynfyd,
Tan odfa tynn adfyd, ceiff olud ei ffydd,
O s hauwn had llawn,
Ffrwyth cariad fyth cawn,
Gynhafa 'r un grawn.
Duw cyfiawn a'n cofia,
Trugaredd blagura, blodeua mewn dawn.

Diwedd.

A'r gwyr clau wladwyr clydion---da'u tymer,
Doent yma hwyliafon,
Bwynt hela, buant haelion,
Wrth waedd hallt y weddw hon.

Cerdd

Cerdd ar gwel yr adeilad, i ofyn hela i hen bobl Sal weniaid; cwyn at eu ceraint a'u gwladwyr am ychydig o gynnorthwy iddynt, yr hwn a elwid yn gyffredin Samuel y Cwacer, hen wr diniweid, fyddai yn ei amſer yn arferyd meddyginiaeth a phyſygwriaeth i Ddynion ac i Dda, ac yn gyfarwydd yn y gelfyddyd honno, y cymhelliad cyntaf at Wŷr Iâl.

VIII.

1. I Ganol Ial rwi'n danfon,
At haelion garedigion fwynion fynwes
Heb fynd i hir chwedleua,
Ar fyrder mi fynega i chwi fy neges,
Beth wnâ 'r anghenus clwyfus clâ,
Ond ceiſio cyſſur drwy ffordd gywyr,
Pan ddarffo ei lafur,
Mae 'n ſynwyr iddo o's â,
Fynd at y rhoddwr llawen,
Sy ar dir yn perchen da,
Duw tad: Mewn rhyfedd gariad rhad,
Y fe ſy 'n rhoddi pob haelioni,
Ac weithie 'n peri tylodi hyd y wlad,
Fel nad ymffroſtio pobol an'ſtyriol yn eu ſtâd.

2. Dros Samuel Jones mae 'nhrafael,
Phyſygwr Dyn a 'Nifael, a fyddo 'n afiach,
Neu 'r henw hyſbyſa i lawer,
Yw Samuel yr hen gwr cer ond bod hynny 'n goegcach
Hwn ſy: A'i wreigan egwan gu,
Mewn gŵth o oedran, er hyn ni fedran,
Hwy etto amcan, wneud dafan yn eu tŷ,
O phyſygwriaeth gywraint,
I attal henaint hŷ,
Mae hwn: A chanddo gwmni gwn,
Sef henaint druan,
A phettai ei hunan,
Gwna 'r ſŷth yn drwſtan,
A'i gefn fel crymman crwn,
Er cryfed yw 'n hyſgwyddau, gwna 'n pennau,
'N ormod pwnn.

3. Y ddeuddyn hyn rwi 'n henwi,
Daeth henaint i'w dihoeni,
Ac nid ei hunan,
Mae ei gyſaill gydag eſo, un angen
Fydd yn trettio, ac yn arfer trottian,
Ni fyn: hwn fyth gymdeithion tynn,
Dowch i wared heb galon galed,
A mael i 'mweled,
A'r hên henuried hyn,
Cewch dâl am bob anghenraid,
I'r gweniaid gan Dduw gwyn,
Ni wn i: A fedrai 'ch henwi chwi,
Mewn cyſſon eirie, ond gwna fy ngore,
Am gael i'r gole, 'r llythrenne oll wrth ri,
I 'ch gwahodd yn fy llythyr tan awyr attom ni.

4. John Parry o'r Cowrt rwi i ch annog,
A Samuel Parry ŵr enfog, y ddau o'r unfan,
A Thomas Parry puredd ſydd hen-wr ſyth a dewredd
O'r ſaith daran,
Ffrynd cu: un Thomas Simon ſy,

A chyda hwnnw gydymmaith gloyw,
Dan ddelw tittw *, mae 'n cadw cwrw crŷ,
Sef Thomas fwyn ab Rachar cyfeillgar howddgar hŷ,
Ac un: John Parry i'w henwi ei hun,
O'r Tŷ Ucha chwe gŵr yma,
Myfi 'ch diſgwylia n gynlleidfa llonna ei llun,
A'ch wllys da 'n gariadus ddaionus i'r hen ddyn.

5. Os oes o'ch cymdogion eraill,
Un gŵr o gâr neu gyfaill am ei gofio,
'R un peth i'w gwneud luſeni,
Er nad wyfi n ei henwi deued yno,
A chlowch: bryd fydd y dydd y dowch,
Yr yſtwyll neſa, mae hwylio hela,
Y boregwaith yma,
Oddiwrth eich trigfa trowch,
'Y diwrnod hwn yn gyfa,
Nid yw fo n rhydda rhowch,
Heb os: Pan deloch gynta dros,
Fwlch rhyw felen, daw gwyr Llangollen,
Yn lluoedd llawen, dan ſiſien drwy bob ſos,
At ddeg ar gloch i redeg,
I foel y glwyſeg glos.

6. Dowch chwithe 'n gwladwyr ninne,
Drwyddoch i gyd radde a ch code cadarn,
Ni fynnwch gael mo'ch galw,
'R dydd heddyw wyr glân,
Hoyw yn galon haiarn,
Wrth ri: Nid wi n eich henwi chwi,
Yr y'ch chwi 'n aros bawb yn agos,
Nid rhaid i'm ddangos mo ffrwyth yr achos ffri,
Chwi wyddoch hwn ar gore ſe alle 'n well na'm fi,
Bob un: mi 'ch cadwa chwi n gyttun,
Nis gwn i amcan, pwy fawr pwy fychan,
Pwy letta ei arian,
Nid wyſ ond trwſtan ddyn,

* *Tafarn y gath.*

Pwy oreu o'i gyfneſeified,
Ond holed pawb ei hun.
7. Wel dyna fi 'n ddi fales,
Wedi dweud fy neges broſes bryſur,
Gobeithio yn hyn o eirie,
Na 'gorais i mo'm gene, i ganu 'n ſegur,
Ond y daw: rhyw dryſſor oddi draw,
I'r hen boblach, ſydd *Salach, Salach,*
A'r byd yn brinnach a llymmach dan eu llaw,
Ac angeu wrth eu Sodleu,
Yn dangos rhyche y rhaw,
Ger bron yr hyna ar y ddaiar hon.
'D yw 'r byd ond benthig dros ychydig,
Ni cheiff bonheddig mo'r ffatr y ffyrnig ffonn,
Lle gweloch fwya ddiffyg, rhowch un galennig lonn.
8. Yſtyriwch egwan agwedd,
Dechreuad dyn a'i ddiwedd gwaeledd gwelwch,
Nad ydyw tiroedd mowrion,
Nag arian ddim ond rhoddion un Duw 'r heddwch
Tylawd: yw pob hyfrydol frawd,
I'r byd pan ddelo, heb ronyn ganddo,
Heb nerth i 'm dreiglo,
Heb gnu i guddio ei gnawd,
Heb geniog o gynhyſgaeth,
Heb luniaeth yd na blawd,
'Run hyd: pan eir i'r bedd o'r byd,
Yw Tir a Thyddyn y cardottun,
A'r gore ei ffortun ſo 'n frenhin uchel fryd,
Nid ydyw 'r hyn ſy ganddo,
Ond eiddo i'w gado i gyd.

Ac ſe ddaeth y ffraeth wyr ffri---llu enwog,
Llawena cwmpeini,
Mynaſant iawn, gyflawni, } *Diwedd.*
'R gan hon, ac uno a hi.

Cerdd

Cerdd arall ar yr un meſur, cyffelyb i'r un teſtyn, cwyn y Prydydd dros ei Chwaer oedd yn Wraig weddw dlawd yn magu plant amddifaid.

IX.

1. GLYN dyfrdwy glau drigolion,
Dros weddw daer rwi'n danfon, union annerch
Gobeithio wyr ſyberlan, y gwir wrandewch,
Heb duchan, ar gwynfan gwan-ferch,
A hi: yw fy chwaer mi 'ſbyſa i chwi,
Ei chledi a'i diffyg, yn wreigan unig,
Rwyf am roi cynnyg at wyr caredig ri,
Da eu nawdd ſy 'n perchen eiddo,
A chred i wrando ei chri,
Gan hon: i'w maethu a lluniaeth llonn,
Mae pedwar gwenied o blant ymddifed,
A'r byd yn galed 'och brudded yw ei bron,
Dan angen du gydymmeth di ffafreth yw ei ffonn.
2. Mae angen du lle delo,
Yn ŵr arfog, mynn ei foſtio,
Ran mae o'n feiſtr,
Nid oes un gŵr goreurog,
A'i ceidw ſo yn weinidog mwy na'r neidr,
Ond nŷch: yw gweled gwrda gwych,
Yn gorfod iddo, ymoſtwng tano,
Yn wâs i'w foddio,
Mynn yno rodio ei rŷch,

Rhoes lawer dewr i duchan fel gwrachan yn y gwrych
Wrth hyn: Nid rhyfedd. ſadwedd ſynn,
Ei fod o'n waſgwr caled ddeliwr,
I'r gwan di ſwccwr fel taer orthymmwr tynn,
I lwytho 'n drwm a'i lethu, a'i dorri ſynu ſynn.

3. Rwi 'n gwadd i dy 'r wraig weddw,
Fwyn glau gymdeithion gloyw,
Gan alw 'n uchel,
A'u dobor dyna 'r diben,
Yn erbyn rhyſyg angen,
Rhy ferr ei gengel,
Yn ddwys: Plwy Corwen lawen lwys,
I'r perwyl yma, y chwi waho.lda,
O'r ddwy-dref iſa, a'r Gwyr penna i gario 'r pwys,
I 'mddifaid ac i weddwdod,
Yn wir dadmaethod mwys,
Mewn gair: Cynghanedd groywedd grair,
Mi henwa 'r diwrnod,
Y cawn gyſarſod,
I wneud eiſteddfod,
A phenod hyn o ffair,
Hwn ydyw 'r Sadwrn cynta,
Gyfeiria ar ôl gwyl fair.

4. Tu arall i ſwlch Rhiſgog,
O's medrai gael cymmydog rhywiog rhadlon,
Neu gâr ŵr mwyn-deg euraid,
I'r weddw neu amddifaid gweniaid gwynion,
Rwi 'n dâer: a glew mhob annedd glaer,
Gan ledu f' aſgell, dros lawer cyfell,
Mae gennyf ddichel i gymhell ymbell aer,
A ddelo gyda myfi,
Ac a chweri mhlaid fy chwaer,
Wŷr ffri: Er dim ni fynnwn i,
Mo'r gyrru ar undyn,
Na'i cael i'm calyn,
Heb wllys ganddyn fel llong yn erbyn lli,

Oni bydd deheuwynt cariad,
A'i chwthiad efo chwi.

5. Ond mi wn nad yw fy haeddiad,
Yn ddigon mewn iach dyniad yno i ch denu,
Ac wrth ei fod mo'r fychan,
Byth er fy mwyn fy hunan,
Ni wna'i mo hynny,
Ond er mwyn, y gwr rhagorawl gwyn,
Sy 'n rhoddi eiddo, i'r fawl y mynno,
Heb neb eill feio,
Am iddo oddiarno ddwyn,
Mae 'n erchi lle bo
C ledi roi elufeni o fwyn,
Y fe: A grym ei awdurdod gre,
A ddygodd hefyd y weddw i adfyd,
A'i gwr i'r gweryd, a'r un anwylyd ne,
Sydd etto 'n dad i'r gwenied,
Mewn lludded ymhob lle.

6. Meddiannau r byd fydd ganddo,
Fel Mor yn llenwi a threio,
Neu wlith yr awyr,
A'i fwydd dad hylwydd teilwng,
Yw codi graddau a u gyflwng,
Drwy rywiog yftyr,
Am hon: agorai 'r gwir ger bron,
Nad diogi a'i dygodd,
Nag afrad gwirfodd,
A'i tylododd neu ei tynnod iflaw tonn,
Ond gwendid a drudaniaeth,
Drwy law rhagluniaeth lon,
Praw prudd: O'r hen *Samariaid* fydd,
Pan eu cyfyngwyd, gan brinder bywyd,
Rhagluniaeth hyfryd anfonwyd yno 'n fudd,
A r newyn bwyd a beidiodd,
Fe doddodd mewn un dydd.

7. Fel hyn mae Duw 'n drugarog,
Yn llenwi y rhai newynog rhwydog rheidus,
Ac weithiau 'n gyrru 'r llawnion,
Yn weigion mewn colledion ac yn drallodus,
Gair drud: i r gŵr goludog clyd,
A'i dir yn cnydio, oedd dweudyd wrtho,
Y nos hon heno, cei amdo 'n lle dy yd,
Ac eraill a gynhafa ac a feda thithe 'n fud,
Gwaith Duw: fy 'n rhyfedd i bob rhyw,
Nid gofalon dinerth dynion,
Heb ei fendithion fy 'n foddion i ni fyw,
Drain heddyw, geilw ein golud,
A blinder yfpryd yw.

8. Ond pam 'r ordeinwyd dynion,
Rhai 'n weigion a rhai 'n llownion ar ol eu llunio,
I gyd o'r unrhyw ddeunydd?
Ond dyma 'r achos beunydd i chwi efbonio,
Duw a wnaeth: y byd fel union faeth,
I gŷd yn waftad, yn ei ddechreuad,
Heb ddim gwahaniad,
Nes dwad ceidwad caeth,
Sef pechod yn rheolwr,
Can hwyliwr gweithiwr gwaeth,
Ar ei ôl ae 'r byd yn ynfyd ffol,
Rhai i gafglu Mamon, a rhai 'n afradlon,
Hwn yw r Anghyfion fy 'n gwiro 'r union rôl,
Tylawd a chwaethog hefyd, a ddaliwyd yn ei ddôl.

9. Ped fae ni 'n gwrando ac yftyr,
Gair Duw ac yn ei wneuthur eglur oglud,
Pob mefur ae 'n gymhwyfach,
Gwaftadach a buddiolach hynny ddylid,
Gair Duw: pwys mefur cywyr yw,
Pe cae fo 'n ffyddlon, reoli dynion,
Troe 'r cam yn union, yn ol ei raflon ryw,
Ni chae na thrais na chamwedd,
Na gwag oferedd fyw,

Mae

Mae 'r byd, tir, môr a'u dryſor drud,
Yn gyflawn ddigon, i dorri anghenion,
Yr holl drigolion a'r gwenion ſy ynddo i gyd,
A'i rannu ſo 'n gymhedrol,
Ar dduwiol frawdol fryd.
10. Wel bellach garedigion,
Mi draethais i ſy ngwynion dros yr Anghenus,
Diolchgar ydwyf etto,
I bawb a'i cynnorthwyo,
'N ei byd caethiwus,
Ar dir: rwi n barnu 'n rhyfyg clir,
I m ſod gan hyfed,
A 'ch gwadd gan belled,
Ond gweled drymed,
Ei chowled coeliwch wir,
Mi feiddiais roi 'nghelfyddyd,
I eſmwytho ei hadfyd hir,
At wyr: A wnel ſyberwyd bur,
Myfi ddanfona, 'r cymhelliad yma,
Does odid wrda, wneiff edrych arna 'n ſur,
Oni bydd calon cybydd,
A'i deunydd fel y dur.

Gwnae 'r dynion burion ſyberwyd---heb nag,
Ar neges a gafwyd,
Gwrandawodd y Gwyr diwyd,
Ar waedd lêf, y weddw lwyd.

Cerdd ar Charity Miſtreſs, yſtyriaeth at y gwladwyr o amgylch y Glynn fechan Llanſtffraid, pa rai a wahoddwydd i hela ac i gynnorthwyo Sion Wmffre Lewis, yr hwn oedd yn weddw y pryd hwnnw, a llawer o blant amddifaid ganddo.

X.

1. WIR garedigion howddgar gwllyſgar llon,
Sobreiddia eu bron,
Mawr gyſſur ydyw 'ch dyſod,
I'r ymdaith hynod hon,
Gwahoddwyd chwi yma heddyw,
Wŷr gloyw 'n glau, er mwyn gwellau,
A chymmorth plant ymddifad,
Mewn cariad heb naccau,
Ymweled a'r trueinied,
Pan ſo nhw tan gaethiwed hir,
Pob union grêd, gwel yn ddyled,
Gyflawni 'r weithred wir,
Mae Duw yn addo gwynfyd,
Am wneud ſyberwyd ddiwyd dda,
I'r iſel fryd, ſy 'n byw 'n y byd,
Mewn adfyd cledfyd cla.

2. Duw ydyw rhan y tlodion, a'u tirion dad,
Er llawn wellâd,
Er hyn drwy ddwylo dynion,
Mae 'n danfon rhoddion rhâd,

Duw

Duw pia 'r byd cwmpaſog luoſog le,
Dan awyr ne' dyledwyr ydyw dynion,
I wneud ei orchmynion e,
Nid ydyw Duw n berſonol,
Yn rhannu a i haeddol law ei hun,
A'r gwirdduw gwynn, cyfrannu fynn,
Ordeiniodd hyn i'r dŷn,
A dyma ei ddyſg ddiyſgog,
Dyled goludog i dylawd, pob un heb oed,
Gadd dalent doed, cyfranned rhoed i'w frawd.

3 A welo ei frawd mewn diffyg, heb gynnyg un,
Doſturi i'r dyn, mae 'r gair yn dweud fod hynny,
'N angharu Duw ei hun,
Y ffordd i nabod gweiſion a dynion Duw,
Yn ol eu rhyw, cael ynddynt nodau cariad,
Gwir fwriad gore i fyw,
Mae Criſt yn nodi ei weiſion,
A Chariad grym arwyddion gras,
Yn blant i'w dad, i fyw mewn ſtad,
O gariad yn ddi gâs,
O na bae genym gariad,
Drwy gywir dyniad i bob dŷn,
Gwnaen y tylawd, mewn bri fel brawd,
O n hanwyl gnawd ein hun.

4. Bydd rhai yn gwneud trugaredd,
Er cyrred clod anwadal nod,
A rhai o ran cymdogaeth gwybodaeth ſy yno 'n bod,
A rhai er mwyn cael heddwch,
Fel na thriſthaer eu hwyneb claer,
Pan fo 'r tylawd wrth geſio,
I'w blino 'n dirio 'n daer,
Y wir eluſen gymwys,
Di lŷs âwyddus wllys yw,
A'i hyſtyn hi, yn unig ffri,
Er mwyn daioni Duw,
Yn hyn roedd ebyrth Abel,

A'i

A'i gywir ſel mewn goreu ſain,
O deimlad dwys yn paſio pwys,
Aberthau cyſrwys Cain.

5. A ſedro wrth wneud eluſen,
At druien droi, a Duw 'n ei gloi,
Ni wyr deheulaw hwnnw,
Pa ſaint mae 'r aſw 'n roi,
Mae llawer rhyngom ninne,
Rwi 'n adde 'r gwall, a bod mo'r ddall,
O gariad i gyd uno, a llwyddo 'r naill y llall,
Ow: pam yr ŷm mo'r ynfyd,
A charu golud bywyd byrr?
Pwy wyr pa hyd, y peru 'r byd,
Nai terfyn bryd y tyrr,
Nyni welſom newid graddau,
Yn amal yn ein dyddiau ar dir,
Cawn etto hyn o ſiamplau ſynn,
Ni hwyrach cyn bo hir.

6. Fel megis doe y daethom y cowſom ddrud,
Dryſorau 'r byd, maent yn ein dwylaw heddyw,
Fel clauar elw Clyd,
Ar fyrr fel pettai foru,
Er meddu mael a golud gwael,
Y collwn ni ein holl ynill,
Ac eraill yn ei gael,
Er maint yw rhwyſg daiarol,
A braint brenhinol reiol radd,
Angeu gawr pan ddelo eu hawr,
O'u llwyddiant mawr a'u lladd,
Nid y mwya eu gywaith,
Yw 'r mwya eu doraith ger bron Duw,
Ond y mwya wnaeth, drugaredd i gaeth,
Sy 'n bennaeth yno 'n byw.

7. Am wllys mwyn cariadus, wŷr downus da,
Myfi 'ch coffa, gobeithio nad oes undyn,
Fel cyndyn a naccâ.

Doed pawb yn ol eu gallu, nid taſgu 'r un,
O'i hawl ei hun, cyfrennwch eich eluſen,
Yn llawen deg eich llun,
Dwy hatling ſy 'n dderbyniol,
Gan wŷr di waddol euraid wêdd,
Rhoed gwych a gwael, a chalon hael,
Yn ol y fael, a ffydd,
Lle 'r hauodd Duw 'n helaethach,
Mae gofyn tynnach arnynt hwy,
Deuallwn ni, o'u ffrwythau ffri,
Mae 'n diſgwyl medi mwy.

Rhoeſon wobrwyon i'w brawd---yn hwylus,
Bu 'n helaeth ei gardawd,
Wrth hyn o druth wan draethawd,
Doent i wledd y dyn tylawd.

Cerdd ar galon drom, i ofyn Mul gan Mr. *Llwyd* o Ben y Lann, i *Peter Davies* o'r Eglwyſegle.

XI.

1. Y Meiſtr Llwyd a nodwyd i ni,
Yn ŵr o alwad i reoli,
Ar Benn y Lann, i'r gwan mae 'n gynnydd,
Ac yn glod-wych yn y gwledydd,
Piler abal plwy Rywabon, a chluſt agored,
Clyw ef ochened, clâf achwynion,
Pob gwan a'i oernad gwena arnoch,
Gan eich bendithio,
A'i gweddi etto ogwydda attoch.

2. Canu

2. Canu rwi am cwyn y rwan,
Dros un adwaenoch wanna dynan,
Gŵr o waedol wych gyneddfau,
Ond chwilio ei wraidd a'i uchel raddau,
Llawn oedd ſtad ei dad a i deidie,
Ac ynte i adfyd,
Yn cael ei ymlyd, i fin clemle,
Bu 'n Feiſter Davies ddechreu ei amſer,
Pan droed e' i fegio,
Fel Arth i'w baitio fo aeth yn Beter.

3. Dylaſai fod yn Aer treſtadol,
Ar dir y 'glwyſeg le achleſol,
Oni bae fariaeth ei rieni,
A'i dŷ lediodd i dylodi,
Ond Duw ſy 'n rhannu rhoi a chymryd,
Y fe pia 'r cyfan,
Ie tyrrau gwiwlan Tir a golud,
Gwna weithiau fythod mân yn Bebyll,
Pan welo 'n deilwng,
Ei ran i'w gyſtwng mowrion geſlyll.

4. Mae 'r gair hyd heddyw, mai cybyddion,
Traws fu yma, 'n treiſio am famon,
Oedd rhai o'i 'nafied galed galon,
Yn cneiſio a hifio cnafon hyfion,
Yn awr eu heppil rai anhappus,
Yn gorfod dioddef,
Iâs y gwelleſ, eiſiau gwallus,
Aeth trais yn elw, a'r elw ymchwyddodd,
Wrth geiſio 'r wybren,
Accw i'r dommen y codymmodd.

5. Ped faſai 'r enw doetha a'r aned,
Yn dweud yn amſer ei henafied,
Y gorfyddai i Meiſtr Dafis,
Gwyno 'n ſal-brŷt gwan iſel-bris,
A hel ei fywyd hyd y dryſau, mewn cyfyngder,
Noethaf dymmer gwnaethud ammau,

Pwy

Pwy goeliafai am ben y glwyfeg o frig uchelwyr,
Mawr a Meiftyr mo'r rymmufleg.
6. Ond dyma 'r gŵr fy 'n prynu 'r amfer,
A werthodd eraill mewn gwafgwchder,
A drud yw balchder ac oferedd,
Pan ddel byd gwelw bywyd gwaeledd,
Ac nid ei fai fo ei hun mae 'n hynod,
A yrrodd fowrwall,
Gwag ofer-fall i'w gyfarfod,
A chario ei genedl peth nis gallai,
Ond rhaid yrwan,
Yn gorryn bychan gario eu beichiau.
7. Ond nid cyhoeddi rhain a u hanes,
Yw terfyn agwedd taer fy neges;
Hyn yw fy nheftyn dygyn digas,
Sef eich cymmynu am eich cymmwynas,
Rhaid gofyn rhôdd, o ch gwirfodd wllys,
I ymendio ar Beter, ple mae rhyw feger, mo'r rhyfygus
Nes cael y rhodd, mae 'n bur anfoddog,
Gan dda 'wyllyfiwr,
Dedw'ddol wladwr diddyledog.
8. Mae 'n dechreu fon am ryw wafaneth,
Cario glo a rheibio rhywbeth,
Meini llifo neu fytattws,
Neu bynnau o bottiau i'r Bala a'r Bettws,
Pe cae fe ful neu geffyl gwerthfawr,
A gymrai g'ledfyd,
Garw brin-fyd ar gwrr bron-fawr,
Ni wiw rhoi Ceffyl iddo o'ch Gwagen,
Ni thal o wrth olwg,
I fyw ar fwfwg mo r ddwy fefen.
9. Er nad yw fe ond drŷw go fychan,
Mae ynddo natur y Barcuttan,
I arogli ei fwyd ymhell oddiwrtho,
A chymryd cwmpas i fynd atto,

Fe

Fe dwaenai 'ch natur oſtwngedig,
Mai gŵr ſyberwych,
Da i w fath ydych di fethiedig,
Fe wyr dyn angall dan ei angen,
Pwy ydyw 'r gore,
Am deimlo ei loeſe, amla ei 'luſen.
10. Mae 'n ddigon eluſen helpio Peter,
O's gellwch mendiwch hwn mewn mwynder,
Am Ful i eiſte anifail yſtwyth,
Neu ddiog Ferlyn a ddwg fowrlwyth,
Dyma 'r dolur mawr ar dialedd, ſy yn ei flino,
A mentrodd guro, am nawdd trugaredd,
Gobeithio ceiff ef genych groeſaw,
Ac heb fynd allan,
Gan ŵr rhywioglan, yn rhy waglaw.

Ar canu fellu cae fod,---Llwyd Eurfodd,
Ymrwymodd i r ammod,
'Goſtiai 'r gŵr o'i giſt a'i god,
Am wan fawl, un o'i fulod.

Cân y Cardottyn Eon, neu Sturdy Beggar, dichell yſtrywgar y prydydd i ofyn cyfrwy, yn gyntaf Cerd y Cweſt: ar hun gwenlliain.

XII.

1. CLYWCH fy nghyffes hanes hynod,
Yma o fowrdaith fy myfyrdod,
Mae 'n anhawdd celu blinder meddwl,

Traetha

Traetha fo allan i chwi 'n gwbwl,
Mynd yr oeddwn i ryw ſiwrne,
Ar fy march i rodio 'r gwylie,
A chwedi ymdrwſio 'n lled ganolig,
Er hyn i gyd roedd arnaf ddiffyg,
Roedd geni geffyl a waſnaethai,
Ond am fy nghyfrwy mi wn na thalai,
Mo'r dwy geiniog gan wŷr digonol,
Ond tynnu oddiwrtho fo 'r ddwy warthol.
2. Roedd pedwar gŵr bonheddig heini,
Yn cyd ymdeithio gyda myfi,
A rhain yn gwneuthur cweſt cyd rhyngddyn,
Ynghylch y gwarthus gyfrwy gwrthun,
Y cynta oedd Mr. Uchel Olwg,
Gŵr ag ymadrodd go dafod-ddrwg,
A henw 'r ail oedd Meiſtr Angen,
Ar llaw i'r gene a'r din i'r dommen,
Mr. Goneſtrwydd, oedd y trydydd,
Gŵr a'i glod drwy gyrrau 'r gwledydd,
Mr, Digywilydd yn bedwaredd,
Gŵr pwyllog eiriau pell am gyrredd.
3. Gofynnodd Mr. Uchel Olwg,
Pam yr oedd fy nghyfrwy cynddrwg?
Mr. Goneſtrwydd eber finne,
Sydd yn rhy yſgafn ei boccede,
Pan ddelo arian at ei ddwylo,
Bydd Mr. Angen yn ei yſpeilio,
Ond te mae 'r gŵr ar goreu ei wllys,
Cawn fod yn perchen Cyfrwy parchus,
Ond ebr Mr. Uchel olwg,
Mr. Goneſtrwydd, dowch er Tolwg,
Prynwch iddo fo Gyfrwy newydd,
Rhag cywilydd gwlad, a brad i Brydydd.
4. Mr. *Goneſt.* Cadd gennyf unwaith hanner coron,
I brynu Cyfrwy 'n oneſt ddigon,

Ac Uchel Olwg a'i hattebe,
Dô, dô, rwi 'n cofio hynny ar gore,
Fo gadd am hwnnw garp o Gyfrwy,
Gan y Cobler o Glynn Dyfrdwy,
A hwnnw oedd wedi torri ei leng-gig,
A'i gefn a'i 'fgwyddau a'i 'fennau 'n finig,
Prynu hên rhaid prynu eilwaith,
Bargen fâl oedd hon yfywaith,
A drutta marchnad er ei eni,
A wnaeth y Prydydd ond priodi.

5. Rhowch iddo ddeuddeg fwllt neu bymtheg,
I brynu Cyfrwy newydd glandeg,
Mr. Goneftrwydd a fodlonai,
I wneuthur hynny gynta gallai,
Ar hyn mi glywn y Mr. Angen,
Yn dechre grwgnach rhag y fargen,
Rhoi arian mawr am Gyfrwy tano,
Mae llawer peth fydd reitiach iddo,
Efgudiau i'r plant a chant o ffwndwr,
Mae eifiau talu i'r Gwŷdd a'r Tailiwr,
A thalu 'r arian gadd o fenthyg,
Rhent a thrêth pob pêth fy 'n ddiffŷg.

6. Mr. Goneftrwydd erbyn hynny,
Roedd ynte 'n dechreu calon galedu,
A tharo gyda Mr. Angen,
Ni oedd 'r un Cyfrwy i'w gael drachefen,
A'r ddau a ddweuddai mo'r ddi gyfur,
Y cawn farchogaeth ar y ftrodur,
Ac Uchel Olwg aeth i wylo,
Rhag fefyll at y fargen honno,
Mr. Digywilydd oedd yn gweled,
Fod yftrodur gul yn galed,
Ail gododd hwn y cwêft o newydd,
Dan ddweud mi fynna Gyfrwy i'r Prydydd.

7. Goneftrwydd a'i hattebai 'n fuan,
Pa fod y mynnwch heb ddim arian,

Digywilydd, Mi a'i mynna n wir 'rwi'n bur wllyſgar,
Goneſt. Gwyliwch wneud y gwr yn lleidar,
Na wna 'n wir os wy'n ei lygru,
Mi gwna fo 'n dippyn gwell na hynny,
Mi wna iddo feggio Cyfrwy 'n bwyllog,
Oddiar wŷr ſyber hael trugarog,
Ar hynny Angen a Goneſtrwydd,
Rhoent iddo eu dwylo mewn bodlonrwydd,
O's ceiff o rywbeth am ei feggio,
Ar gefn ei Geffyl rhoed a gaffo.

8. Rhag hynny Mr. Uchel Olwg,
Oedd yn ymſgrwttian dan wneud cilwg,
Ei lygaid oedd ar ſilff uwchafiaeth,
Ni fedrai ei gwyro at ddrych beggeriaeth,
Mr. Digywilydd a'i perſwaedie,
Mai dyna 'r ffordd y gwnawn i ore,
Mae llawer gŵr o well hwn yma,
Ac uwch ei ſtad, yn balch gardotta,
Nid wyfi 'n gyrru mo'no i'r dryſe,
Ond ſyber geiſio mewn llythyre,
Ar hynny 'r gŵr a led fodlonodd,
Ac i'r caſt hwnnw 'r cweſt cytunodd.

9. Mr. Digywilydd a droes atta,
Ac a'm cynghorodd fel hyn yma,
Rhaid itti wneuthur Cerdd bleſerus,
I ryw wyr enwog yn yr ynys,
A gofyn Cyfrwy nid pwngc afrad,
A dweud mai fi roes itti genad,
Di gei un a'i 'r neges ganddynt,
A'i cân i wrthod hyn oddiwrthynt,
Gwnes inne ei gyngor onor enwog,
Gyrru 'r awen ddwyen ddiog,
Nid ydyw hyn ond gwag freuddwydion,
Mae etto chwaneg o'r achwynion.

Cerdd arall ar *hope to have*, i ofyn y Cyfrwy gan dri o Uchelwyr o blwyf *Llangollen*.

XIII.

1. FY nghyd wladwyr a'm cymydogion,
Chwi wyddoch bellach yr achoſion,
A barodd i mi yrru attoch,
Mi dreiaf heno dri o honoch,
Rhaid i mi daflu 'r matter yma,
Ymhellach na 'm cymdogion neſa,
Mae cymwynaſau rheini 'n amal,
Yn ſy 'nhynnu o lawer magal,
Pan ſwi 'n anghenus gwnan ſy nghynal,
Ac chwaith ni yrra at benna bonedd,
Mo 'm cwyn anghenog mewn cynghanedd,
Ond mewn gwir awydd i'r goreuon,
O'r bobol haeledd wladedd lwydion,
Tri gŵr o agwedd trugarogion.

2. Nis gwn i pryn a henwai gynta,
Ond dig am hynny ni ddiſgwylia,
Ar lann Dyſrdwy mi ddechreua,
Ac ar i wared mi gyfeiria,
Rhoſ un Edward (wr hynoda,)
Wynne o Ddolſawr yn y ddalfa,
A chwedi hyn ar daith mi dithia,
At Edward Edwards o'r Plâs Ucha,
Ymlaen y Glwyſeg wardeg wrda,
Mi af oddiyno i Dreſor Iſa,
Ac ym Mrynn Howel mi ddiſgynna,

Att Edward Moeſen i ormeſa,
Ffei o'r ffaſiwn ddigywilydd-dra,
On dyna fulen am dyfaela.

3. Y tri Edwardiaid Duw a'ch catto,
Cyfrwy newydd 'rwi 'n ei feggio,
O'r fath a fynnoch nid wi'n taſgu,
Ond boddio 'ch hunain wrth ei brynu,
O's geill eich wllys da fy helpio,
Yma am unwaith rwi 'n dymuno,
Maddeuwch i mi am un tro ehud,
Nid wyfi ar feddwl gwneud celfyddyd,
Deuallwch gwelwch o dolli 'ch golud,
Er treio f'annerch tri ofynes,
Rhag bod ar un yn ormod gormes,
Na ddelo 'nd hynny i dorri 'ch pyrfau,
Mo gyffes prydydd ar bappurau,
Ple mae 'r un begger mo'r lym ei bigau.

4. Er hyn roedd achos beggio 'n ddygyn,
Chwi glywſoch fynd y Cwêſt yn f' erbyn,
Tan ddaeth Digywilydd wr diogela,
Gore fforman geirieu ffurma,
Fo barodd i mi 's canu fedrwn,
Feggio Cyfrwy o'r fan a fynnwn,
Ni feddwn inneu fawr garennydd,
Yn unlle i'w galw 'n well na'u gilydd,
Ac yn wŷr abal i hyn o rybudd,
Mi geiſiais gyrredd y gwŷr gore,
Er nad wi 'n haeddu ganddynt garre,
Ond ddallt eu bod yn perchen golud,
Ac yn burion am fyberwyd,
Fe wyr y llwynog lle mae llownfyd.

5. Gobeithio na bydd i'm cynghanedd,
Fynych grugo 'r un o'ch gwragedd,
Nag 'r un o'ch Aerod plant na'ch wyrion,
I chwi 'n fy edliw a chwyn anfodlon,

Ond teimlo 'ngyflwr hyd yr eitha,
Ni fedrant na thoſturiant wrtha,
Chwi glywſoch gynne 'r farnedigaeth,
Nad oes fyth Gyfrwy i mi wrth y gyfraeth,
Oni fedrai gyrredd o dwy feggeriaeth,
Gan i mi ddechre cymryd arna,
Ni waeth gwneud ſmonaith ar gardotta,
Gofyn blawd i-w roi 'n fy mhottes,
Gyda 'g ŷd, a gwneud ſaith neges,
Mi fedra garol pob begeres.

6. Peth digon gweddus mi wn y gwyddoch,
Ar ol cael Cyfrwy hardd melyn-goch,
A fyddai gweled Ffrwyn i'w galŷn,
Fel dillad newydd o'r un brethyn,
Wel dyna 'r Faladein fydd genny,
O's pawb fydd fodlon i'w chyflawni,
Ac onide nid oes mo'r ddyled,
Mae 'n rhaid i mi fodloni i'm lludded,
Yn tremio a chanu trom ochened,
O's metha 'r gan a gwneud y neges,
Aeth yn ofer waith y nyſes,
Mi geiſiais gadw mhen fy hunan,
Nid allai wrth fy ſynwyr lledwan,
O's yw fo i f' achub yn rhy fychan.

7. Gan i mi wneud y fath denantied,
A minne 'n anhy a mhen gan wanned,
Pwy etto gaf, rhyw ŵr o gyfri,
I fod yn oruchwyliwr i mi?
A hwn fydd Edward Jones o'r Bache,
O's gwneiff o gymryd ſiars y llyfre,
Mae 'r buliau wedi gwneud i ſynu,
Ni cheiſiai ganddo fe ond golygu,
O's daw fe 'n ddigoſt rhaid gofalu,
Am roi yn ei dwylo 'r ſgriſenadau,
A derbyn eilwaith y tryſorau,

Fel nas gorfyddo arnai ludded,
Ond dweudyd wrthynt pan ga ei gweled,
Duw a enillo i'r gwyr eu colled.

8. Pa ham y canwn i i'r Edwardied?
Pam? Ond am fy mod yn tybied,
Eu bod yn ddynion calon rowyog,
Am wrando ar fy 'ngwyn anghenog,
Un Edward dwyfog enwog ynad,
A gurodd ddelwau 'r gau addoliad,
Dyna 'r brenhin yn ei amfer,
Goreu gariodd goron lloeger,
Er bod brenhinoedd luoedd lawer,
Cewch chwithau fod dan glod y gwledydd,
Am roi brawdol ran i brydydd,
Yn nyddiau 'ch ŵyrion gwneir eich canmol,
Coffa eich henwe a geirie gwrol,
Lle bo gantorion go naturiol.

A rhain, fal cywrain, wyr cu,---Puredig,
Wnae 'r prydydd i fynu,
Cyfrwy Ffrwyn, er cwyn, canu,
I hwn yn fwyn, hyn a fu.

Cerdd ar *neithiwr ac echnos*, Diolch i'r Gwyr am eu rhodd.

IX.

1. FY ngwyllyfwyr da caredig,
Hael galonnau a'u hardd galennig,
Chwi fuoch ffyddlon fwynion fynwes,
I fy nghoffa ar ol fy nghyffes,

Mae 'n gofus genni a gefais gennych,
Derbynniodd f'awen gecfen goegfych,
Pan wnaethym gwyn wrthych gynorthwy,
A minne a gwyneb pres cyfrwyfaidd,
Pwy allai wneuthur mo'r wenithaidd
Un ddichell mwy gafraidd, am Gyfrwy.

2. Llunio buliau a llenwi baled,
Yn hŷ ddiethrol hyrddu 'r weithred,
Gyrru a dal fel gwŷr a dyled,
I rwyd mewn awydd rai di niwed,
A llef oeredd y llafuriais,
I rhain am gofyn er hyn a gefais,
O'r peth a gychwnnais ei chwennych,
Ni heuais i ond gwŷg a gwagyd,
Er hyn cês fedi pori o'u puryd,
A derbyn fyberwyd fy burwych.

3. Mi fum ddigywilydd rwyfi 'n gweled,
A hyn mewn gwall am gwnae 'n ddi golled,
Mi ddoes i berchen Cyfrwy newydd,
Drwy ryw fath o rith Goneftrwydd,
'Nghylch gan deilynged wrth bob rhefwm,
A chyflog Ffidler, briff neu offrwm,
Ond tippyn mwy llaw-drwm i'w 'm lled-rith,
Fe ellir offrwm prês geinhiogai,
A minne 'n gofyn cwrs o fylltai,
Ni thalai mo'r carrai i'm wŷr cyrrith.

4. Fel hyn y trewais wrth waed rhywiog,
Cael mwy na'm difgwyl modd di yfgog,
Am hyn rwi 'n talu diolch ufudd,
I bawb yn gwlwm fel ei gilydd,
Ac yn neillduol rwi 'n ddyledus,
I Harry aer F'ew'rth Edward Mofes,
Mewn grymmus hôff 'wllys ni phallodd,
Ar gair yn amal a geir fel 'n yma,
Odid Fab ar Dâd ymendia,
Ond hwn o'r howddgara rhagorodd.

5. Am gywir aerod y gwŷr erill,
Nid oeddent yno gwedi ymgynull,
A phed faſent nid ŵi'n ame,
Nad oedd eu hwllys da fel ynte,
Ond am y Tadau hyn a ddweuda,
Ond ceiſio eu rhoddion cês o'r rhwydda,
Heb oſio fy naga am fy nigwydd,
Cael Cyfrwy o eiddo 'r tri gwr diddrwg,
I foddio Mr. Uchel Olwg,
Mae 'n amlwg drwy gilwg Digywilydd.

6. Nid oedd fy mryd i wrth ddechreu 'ch cynnyg,
Am ofyn dim ond Cyfrwy 'n unig,
Ond fel y cododd trachwant blyſig,
I gwyno am Ffrwyn wrth ganu 'n ffreinig,
Tybio 's cawn i 'r naill yn hwylus,
Y cawn i 'r llall heb ball yn bwyllus,
Mynd fellu 'n awyddus rwi'n adde,
Er bod yn wladaidd hi aeth yn lewdid,
Am ddau Gyffylog ar un ergid,
Mi ledais mewn rhydid fy rhwyde.

7. Fy nghan nid allai ganmol moni,
Er bod yn ennillwr arni,
Rhyw demptaſiwn taer a'm twyſodd,
A minne 'n medru teg ymadrodd,
Yn chwant y cnawd a i wnniau rheibus,
Drwy hud, a lledrith rhy dwyllodrus,
Traws wllys rhyfygus a fagodd,
A chwedi ymddwyn trachwant trecha,
Ar y fagal wammal yma,
Yn ol ei rwyſg arwa 'r eſgorodd.

8. A dyma ddiben eich holl ddobor,
Sydd i'ch anrhegu heb ddim yn rhagor,
A phei medraſwn ganu amgenach,
Mi ddanfonaſwn yn drefnuſach,
Dyn wyſi fy 'n llawn trafferthion,
Yn ymbalu a phob helbulon,

Heb

Heb fawr ddyddiau gwylion 'm galwad,
Fel hyn mae 'r gân a geir o'm gene,
Fel y dêl nid fel y dyle,
Nid chwaith fel y mynne 'nymuniad.

9. Diolch mawr yn awr yw nyri,
Dwl yw f' echwyn a dalaf i chwi,
Diolch pur mewn yſtyr waſtad,
Diolchgarwch am eich cariad,
Bendithiòn fel y gwlith gafodydd,
Fo 'n eich calyn o un bwygilydd,
Am wneuthur i brydydd ran brodyr,
Duw ro i chwi hiroes enioes unol,
A llwyddiant ar eich da preſennol,
A bywyd iachuſol a chyſur.

Cerdd arall ar yr un Meſur i Annerch Mr. *Edward Foúlkes* Yſtiwart glo Moſtyn, yr hwn oedd ben Cyfaill prydyddion, a phan glywodd e y canu uchod a wnelſid i'r *Ed wardiaid,* fo duchanodd yntef m chowſai fod yn un a'r gwŷr, i ro cengl neu rywbeth wrth y Cyfrw i'r prydydd.

A Chenais fel y mae 'n canlyn.

XV.

1. MI glywais ddweud rhagorol newydd,
A barai i'm lonni o bur lawenydd,
Fod Edward Foulkes fy mrawd cariadus,

A'm hen gyfell well-well wllys,
I'e clywais iddo gwyno ei golled,
Na bafai ynte, 'n un o nhenantied,
A'i henw ar y pared ŵr pura,
Fel hyn y dweudai 'r hael ŵr fyber,
Gyda'i Gyfrwy bafai 'n blefer,
Gan inne roi Crwpper i r Creppa.
2. Meiftr Digywilydd oedd yn gwrando,
Fo glywai ei fiarad i w gyfuro,
Fo fynnai ofyn iddo 'n ufudd,
Farch i gario 'r Cyfrwy newydd,
Meiftr Goneftrwydd daeth i atteb,
Fod hynny 'n ormod anghyfondeb,
Di wnei di 's cei rwydeb ddyreidi,
Ni fedrai mo'r bodloni i gnafiaid,
Wneud cymaint cam a gŵr diniwaid,
I godi begeriaid yn gowri.
3 Ar hyn Digywilydd a droed allan,
Ni chae fod ar y cweft yn ffor-man,
O ran fod ynddo awydd gormod,
I ofyn dobor di gydwybod,
A Mr. Goneftrwydd a gymerwyd,
I fynu 'n fforman fe' i conffurmwyd,
I fynd yn ddi arfwyd i w orfedd,
A Mr. Angen hir ei bregeth,
A fynnai 'n rheibus ofyn rhywbeth,
Gan Mr. Ffoulkes heleth ŵr haeledd.
4. Mr. Goneftrwydd a ofynne,
Pa beth yw y rhodd ach boddia chwithe?
Mr. Angen. ond par o Fwttiws efo 'r Cyfrwy,
A fyddai 'n ddigon cymmeradwy,
Eber Goneftrwydd paciwch ladron,
Pa beth fy 'n witfio 'r gwyr boneddigion?
Chwi wnewch lân ei galon yn gwla,
Roedd Uchel Olwg ynte am rywbeth,

Ond

Ond bod yn erbyn ei naturieth,
Ymyrreth ac areth beggera.

5. Gofodwyd cweſtiwn ar ei gyfer,
Am ei fôt yn hyn o ſatter,
Gwyllyſiodd ynte 'n bur deimladwy,
Gael Cluſtog wrth yſgil y Cyfrwy,
Ac nid oedd Mr. Uchel Olwg,
Ddim am feggio honno 'n amlwg,
Ond drwy ryw daer gilwg dirgeledd,
Ar hyn Goneſtrwydd aeth yn guchiog,
I hel y cweſt yn garpiau lleuog,
Rhy fachog a chwannog yw 'ch 'winedd.

6. Fe rodd y Mr. Foulkes haelionus,
Lawer iawn i'r Prydydd eufus,
O Lwytheu o lo da groeſo gwreſog,
Hyn oedd orfoledd hin oerfelog,
Ond rheitiach talu diolch iddo,
Am hyn na cheiſio chwaneg etto,
Rhag brifo a diniſtro Goneſtrwydd,
Digywilydd etto ofynnodd genad,
Gofus ŵr a gae fo ſiarad,
Rhowch yma ar ddwys dorriad ddiſtawrwydd.

7. Ar ol i'r cwêſt roi goſteg iddo,
Dyma ei reſwm yn ddi ruſo,
Lle caffo cymro cais drachefen,
A hawdd yw gofyn rhoddwr llawen,
Ebr Goneſtrwydd minne wela,
Mai ceiſio wnewch lle cewch i ſwya,
Mae caſtiau mal yna 'n y mlino,
Digwilydd: Ni wiw mo'r gofyn rhodd gan gerlyn,
Nid rhaid i chwithau o's ceir gan landdyn,
Nag achwyn na grafun na grifio.

8. Pleſer Hael yw gwneud haelioni,
Dyna natur hwn a'i ffanſi,
Oni bae fod ymbell lân ei galon,
Ni byddai ond ofer waith prydyddion,

Mae

Mae Ffoukes yn fwy na brawd i brydydd,
Mae 'n gefnder hefyd diwair ufudd,
Wrth Achau 'r carennydd cywireinia,
Mae ei lond o wir fyberwyd burlan,
Ei euraid wllys da rêd allan,
Fel gwin dros y gwppan o'i goppa.

9. Mr. *Goneſt*: Nid ydyw canu ond gwagedd egwan
I dwyllo ffyliaid am eu harian,
Mr. *Digwilydd*: Nid ydyw arian nhwythau ond gwagedd
I ddwyllo 'r cyfrwys at ormodedd,
Mae llawer cybydd llawna caban,
Yn caſglu pentwr mawr drwy ffwdan,
I'r unfan o arian i er'ill,
Gwedi dyfod cod i'w afel,
Bydd hawdd ei rhifo 's â hi 'n rhyfel,
Rhaid gadel i wŷddel ei weddill.

10. Mr. *Goneſt*: Syr, mae 'ch ſiarad yn diſglaerio,
Ond gormod awydd ſy 'n eich duo,
Ond ydyw 'n orthrwm cwlwm caled,
Ofyn March i'r gŵr gan hyfed,
Mr. *Digwilydd*: O's darfu gofyn gormod cyfri,
Haws yw goſtwng peth na chodi, —
Mi a gymrwn lai gwedi o'i law gadarn,
Gwnaeth Mr. Angen gynne ei gyffes,
Am Fwttiws dyna ddwad nes-nes,
A'r buſnes mewn dyfes mwy difarn.

11. Ond rhaid i Mr. Ffoulkes gydnabod,
Ein bod ni 'n gwneuthur cwêſt cydwybod,
Cymheryd Bwttiws yn lle Ceffyl,
Fo gadd ei ffafro a'i Safio 'n ſuful,
Mr. Goneſtrwyddd ŵr toſturiol,
Achubodd iddo 'n d' oedd o'n weddol,
Dair pynt yn wybodol neu beder,
Am iddo gwyno 'n yr achos yma,
Roedd yn ſy mryd i yrru ſo i'r eitha,
Am Geffyl llawn groppa 'n lle Crwpper.

12. Roedd

12. Roedd Meiſtr Uchel Olwg enwog,
Yn leicio 'r Bwttiws yn lle cluſtog,
Ar bul a wnaed ond eiſiau arwydd,
Henw a ſêl Mr. Goneſtrwydd,
Ebr Goneſtrwydd ceiſiwch Fwttiws,
Ni waeth ped fae 'nhw o grwyn pytattws,
Yn gwplws i gorpws mo'r garpaidd,
Digywilydd a'i hattebai 'n danbed,
Y mynnai fo grwyn dyniewaid blwyddied,
Fel melted a gweiried yn gwyraidd.
13. A rhaid eu cael nhw wrth feſur cymwys,
Yn ddigon helaeth ac yn hwylus,
Mae hyd y gwadan lydan leder,
Yn dippyn byrrach na thri chwarter,
A'r goes ychydig llai na llathen,
A mwy ei phybyrwch na phabwyren,
A ſawdl hir galen wegilog,
A'i gwneud nhw 'n eſmwyth i'w gymalau,
Mae ei draed yn geimion ar eu hochrau,
A i fodiau a i figyrnau fo 'n gorniog.
Mr. *Goneſt.* Peth cymwys iawn i wr yn beggio,
Gymryd rhodd y modd y caffo,
Ond gwir yw 'r hen ddihareb hynod,
Mae 'n anhawdd rhyngu bodd bedlemod,
Goneſtrwydd oedd yn blino 'n gwrando,
Am fod ei ryfyg yn ei rifio,
Dechreuo ld ei ddondio am ei ddwndwr,
A chroeſi ei henw o'r llyfrau 'n fuan,
Rhag ofn cael gwradwydd mawr a gogan,
I ffwrdd o'r cowrt allan a'r twyllwr.
15. Er hyn Digywilydd yn y diwedd,
Am gario ei ran yw'r gore ei rinwedd,
Y fo ydyw r gwr a feder gyrredd,
I ddwyn o g'ledi ddynan gwladedd,
Beth a dâl brawd i ful, o brydydd,

Na

Na fedro galyn ffordd Digywilydd,
Hyd lle rhydd Goneſtrwydd gynhwyſtra,
Ond da ydyw bod Goneſtrwydd hefyd,
Rhag i Ddigywilyd gyrraedd golud,
Trais ynfyd, tro ehud, mewn traha.

Tair coron gron, yn gryno,
Coſtiai i'r gŵr caſt o'i go.

Cerdd i ddiolch am y Bwttiws; ar y meſur elwir, Conceit y Prince *Rupert*.

XVII.

1. WEL dyma ſyberwyd lon hyfryd lan hardd,
Cael Cyfrwy a Ffrwyn eur-dlws a Bwttiws i'r (bardd
Pwy ae 'n yſlyſen penna ſlaf?
I wiſgo clocs a 'ſgudieu claf,
Gwell gennyf ganu hyd yr haf,
Ond braf ydyw 'm bri,
Taro wrth frodyr tirion,
Wŷr howddgar eu hanrhegion,
Hôff rhadlon a ffri,
Mawr dryſor a roeſant o'u meddiant i mi.

2. Mi geibiais, mi balais, mi 'm boenais a'r byd,
Mi heuais, mi fedais, mi rwymais yr ŷd,
Er chwſu ar waith ni chês i erioed,
Mo lwybyr Mammon yſgafn droed,
Mwnws rhydd i mi nis rhoed,
Er hyn doed a ddêl,

Nid

Nid ydyw 'r byd mo'r galed,
I'm gwthio i ddim gan gaethed,
Rwi 'n gweled heb gêl,
Y graig i'r wenynen yn ddilen o fêl.

3. Tra bytho tryſorau pêr ffrwythau pur ffri,
Ar helw rhai haelion daw moddion i mi,
Ond cyſtal ſtôr ac yſtad,
Yw rhagluniaeth ymhob gwlad,
Mae Duw yn danſon rhoddion rhâd,
Drwy ordinhâd glân,
Hau na medi 'n gynnar,
Na throi na thrin y ddaiar,
Ni wna 'r Adar mân,
Er hynny dan ganu, heb newynu byw wnân.

4. Pwy ddyrnai mewn 'ſgubor eſgobaeth na phlwy,
Mi gana ymbell benill bydd f' ynnill yn fwy,
Mi wn na fedd un o fil,
Gwir yw hyn o'r gwerin hil,
Un Eſgus gwell nag yſgil,
I ddiogi ynghil pyſt,
Na phrydydd gwan amcannion,
A derbyn dobrau mowrion,
Mae digon o dŷſt,
Mai gormod o ffoledd i'm gymryd y ffuſt.

5. Ond etto rhaid peidio a beggio rhag barn,
Mae 'n ormod gwneud power gwyr ſyber yn ſarn,
A Mr. Uchel Olwg mi wn,
Sy 'n gweled beggio 'n galed bwnn,
I wr mewn bwttiws anair twnn,
Yw 'r ffaſiwn, waith ffôl,
Ac onide ni phriſiwn,
Er gwario hynny feddwn,
Mi eiſteddwn ar ſtol
Mi fedra 'r ffordd rwydda, i'w hela 'n ei hôl.

6. Bu Mr. Ffoulkes enwog gymydog i mi,
Mewn calon nis ciliodd offrymodd yn ffri.

Fe

Fe wnaeth y Prydydd mennydd mul,
Gafa cwyn a'i goefau cul,
Fel gwr Bonheddig erbyn Sul,
Neu erthyl gwyr o waed,
Mi gefais Fwttiws newydd,
Da iawn o burion deunydd,
Yn ebrwydd fe eu gwnaed,
Yn llawn ddigon trefnus,
A lluniaidd i m traed.

7. Ped fae r boneddigion a'u rhoddion mo'r hawdd,
A Ffoulkes, ni chawn fyned drwy ludded i glawdd,
Ond gwell gan rhain wario eu ftad,
Ar ddwylo Sais yn ddilefad,
Ni feder Cymro yn y wlad,
Gael trawiad i w trin,
Ei frefiad a gyfrifant,
Yn forod ni 'm gyfurant,
Ar fwyniant ei fin,
Pe byddai yn ei fennydd awenydd o win.

8. Ped fafwn i 'n gofyn i gyndyn o garl,
Y Bwttiws mewn llythyr a gwneuthur cryn barl,
Cyn yr aethai 'r gwr i r gôft,
Buafai 'n fwy ganddo o foft,
Fy ngweled i wrth y fflan-gell bôft,
Mae hynny 'n dôft iawn,
Beggio na rhyfygu, wrth f'wllys i rai fellu,
Na chanu ni chawn,
Am hynny at wr mwynedd da ei rinwedd yr awn.

9. Nid oes gan i bellach amgenach mi a'i gwn,
Ond diolch di weniaeth yn helaeth i hwn,
Y Mr. Ffoulkes ydyw fe,
Goreu ei rodd a droediodd dre,
'Dae ar fy llaw wneud eich lle,
Yn y ne, mi wnawn,
Hir iechyd a fo i chwi rhwydeb a mawrhydi,

Daioni a phob dawn,
O haelioni a ſyberwyd,
Fe 'ch lluniwyd yn llawn.

Englynion a wnaed i Mr. *Edward Ffoulkes*, am ryw Luniau neu Pictures roddes ef yn Eglwys Llan Haſa Sir y *Fflint*, ſef ei Eglwys blwyf ef.

XVIII.

1. DUW 'r hedd, di gamwedd, Mae 'n gymwys,
Wr haeddol---am rhoddion yn 'r Eglwys,
A'ch dygo chwi 'r goleuni glwys,
O Brydain i Baradwys.

2. Llun Dafydd, uſudd, afieth,---A'i delyn,
Dyna dalent berffeth,
A llun Organ burlan beth,
Dyn ydych a dawn odieth.

3. Angylion, gwnnion, a ganant---yn rhadol,
Anrhydedd a moliant,
Cewch gwmni naws heini ſant,
Gannoedd mewn gogoniant.

Hugh Jones a'i Cant.

A

A danfonodd Mr. *Ffoulkes* yr Englynion uchod attaf finne i ganu chwaneg, a chenais fel y mae 'n canlyn.

XIX.

1. YMHOB part, Edwart, ydi---y goreu,
A garaf i'm cwmni,
Dŷn yw ef na adwaen i,
Mo'i lanach am haelioni.
2. Ond er hyn, dygyn, rwi 'n digio---I'm brawd,
Mwyn Brydydd weddio,
Gwan weddi i w foli fo,
Anhoff anwes na ffynno.
3. O's lluniau, delwau, di alwad---Aberthodd,
I borthi chwant y llygad,
D yw 'r lluniau medd darlleniad,
A delw 'r saint ond dilesad.
4. Mawr haeddiad, am y rhoddion,---a lunier,
Yn eulunnodd mudion,
Nid oes wrth braw, athrawon,
Nerth rhad Duw 'n y weithred hon.
5. Etto gweddio 'n ddwys,---y rwi finnau,
O erfyniad gymmwys,
Am rodiad ymharadwys,
Er goreu mael i'r gŵr mwys.
6. Ond nid am lun, un, anian---at olwg,
Llun Telyn nag Organ,
Ond sylwedd un, ei hunan,
Sef *Shiloh* lwys a'i law lân.

7. Harddu a llyfnu 'r lle---a wna delwau,
A dylion gyfgode,
Er hyn nid mân degane,
A'n wobr noeth a neb i'r ne.

8. Nid rhedeg, anrheg, o un-rhith---roe 'r Gŵr,
Drwy gariad di gyrrith,
Ond beio ar Huw 'n bwrw rhith,
Llyfn rhowiograen llawn rhagrith.

9. Ffowces a rôdd, o i fodd ufudda.---Urddas,
I harddu Llan Hafa,
Accen mil a'i canmola,
Mewn llais têg am wllys da.

10. Gwnai gorlan y llan yn llonnach---Dŷn glan,
Ei arian ni eiriach,
Mi gwranta na-bu grintach,
Nai rodd o'i fodd yn râdd fâch.

11. Haeddai glod, parod, air pur,---Nid hefyd,
Am wneud Dafydd, papur,
Rhoi cerfiad ar y côr-fur,
Ddelwau mân i 'ddoli 'r mur.

12. Pe rhoefai lun, ei hun, heno---Wr difyr,
Er bod Dafydd yno,
O flaen Saint wedi baintio,
Addolai feirdd ei ddelw fo.

Cerdd i ofyn Maen Leſtr môch, gan *Edward Mathews*, naddwr cerrig crybwylliad am faen llifo gan *Robert Roberts*; crybwyll *Edward Williams*, am ddwad trwy lidiart y clô, wrth bont Cyſyllte; ar feſur, Llêf Caer Wynt.

XX.

1. FY ffrynd Edward Mathews, clywch gyffes,
I'ch coffa, hyd attoch fy meddwl,
Yn fanwl anſona,
Mi wn y rhowch oſteg, ŵr breudeg,
I brydydd; da gennych ei nwyfus,
Lafurus leferydd,
O ran eich bod yn caru ei waith,
Ar gynghanedd mwynedd maith,
Pe medrwn araith *Horas*: i nyddu,
Negeiriau 'n addas, fel 'falau ffrwyth pereiddflas,
Nid oes gan innau o nghwmpas,
Ond darnau crabas diras dôn,
Ond chwi a'u derbyniwch fel y bo'n,
Peth hawdd i'w cymmell cyfell cu,
Mewn anian hael, a minnau 'n hŷ,
Am hynny, rwyfi 'n tebyg, y galla'i wrth,
Fy rhyfyg, gyrraedd un o'i gerrig,
Am dani a bwriad unig,
'Dwy yma 'n cynnyg dim ond cân,
Dim pris ni fydd, mae 'r prês yn fân.

 2. A'r

2. A'r garreg wy'n ofyn, mae 'r teſtyn yn tyſtio,
Fydd Leſtr yſgwarog, gryn ddulog a ddalio,
Ddau hobaid o olchion, llawn ddigon fydd honno,
Dim mwy at f' achoſion nid wyfi 'n ei cheiſio,
Yn garreg o ganolig ffrwyth, a gwylio ei bod,
Yn ormod llwyth, un eſmwyth hawdd ei chario,
Mae 'r wedd yn lleſg i w lluſgo,
Fel hyn y bydd hi i m boddio, ni ddo'i ddim,
Attoch chwi etto, dracheſn i gwyno clulio clôch,
Mewn gorwag fawl a m garreg fôch,
Wrth drefn naturiaeth,
Un mwyn di fariaeth,
Di oferedd.

14. Yn

14. Yn bedair blwydd ar hugain oedran,
Inghanol blodeu dyddieu diddan,
I galwodd Duw fe 'i fyw 'r ail fywyd,
Gobeithio i'w ganfod byth mewn gwynfyd,
Duw dyro râs wrth hyn o fiampl,
Mewn bywyd buan,
I ninnau 'n gyfan gymryd gofal,
Ac yn doſturus iawn yſtyried,
A chyfri ein dyddiau,
Hyd forriant angau fiwra tynged.

Cerdd yſtyriaeth ar farwolaeth *Mary Philips* merch i Mr. *Philips* o'r Tŷ 'n y Rhos Plwy Llanfarthin; yr hon oedd efo ei Thaid yn y Llechwedd gwyn: I'w chanu ar Dol Bell.

XXXII.

1. PRudd prudd: ac oer yw ſwn y gwir y fydd,
Cloch alar gri i lychu 'r grudd,
Yn hir yw 'r newydd hwn,
Machludodd lloer mae 'n oer yn awr,
Mewn tynna loes mynd hon i lawr,
Mae amal gwyn am loyw ei gwawr,
Gwelir mil a galar mawr,
Pwy ddiangc o gyrredd ange gawr?
Ni arbeda neb y byd a wnaeth.
Mewn cywir ſwydd yn farc i'w faeth.

2. Trwm, trwm: a phwyfau blinach na phais blwm,
Yw 'r hiraeth fydd o aruth ſwm,

Dros

Dros lawer cwm y cerdd,
Gorchgudd ar lawenydd yw,
Syndod rhyndod i bob rhyw,
Defni ar fronnau dyfn oer friw,
Pawb oedd a'u gwaedd pe byddai gwiw,
Am y wenithen lawen liw,
I'r llawr a roed yn oed ei nwy,
Mae llawer ôch! am wen-lliw 'r ŵŷ.

3. Hon hon: oedd Mary Philips bur ei bron,
O'r Tŷ 'n y Rhôs fwyn linos lonn,
A ffyddlon galon gu,
A aeth mewn agwedd ſadwedd ſynn,
I'r llychaidd gwys, o'r llechwedd gwyn,
Gwych rywiog le, goruwch y Glynn,
A phridd Llann Farthin huling tynn,
Sy ar ei hwyneb ſiwr yw hyn,
Diweddai ei byd, doe ei dyddie i ben,
Gan friwiau chwith yn y frech wen.

4. Clôd, clod: Da iawn anrhydedd dan y rhod,
Weddeiddia bun oedd iddi 'n bod,
Un hynod yn ei hoes,
Da oedd ei mawl, ar duedd mwyn,
Ddinam ddynes yn ymddwyn,
Aur ewig ſerch, o rywiog ſŵyn,
Agorai 'n dêg ei geiriau ar dŵyn,
I bob tlodaidd gwannaidd gŵyn,
Yn ddifalch iawn mewn dawn a dyſg,
Och! hylla modd ei cholli o'n myſg.

5. Llawn, llawn: Naturiol ſynnwyr yſtyr iawn,
Llawenydd harddwch degwch dawn,
Golygon rhadlawn
Rhwydd; a gwaedol oedd hi a gaed o lu,
Uchelwyr tyner o bob tu, o ryw 'r Philipiaid,
Hardd-blaid hŷ; ac o'r Treforiaid euraid blu,
Drachefn o'r Cefn yr Wmffreaid cu,
Sy 'n para fyth ymhob rhyw fan;
Yn bledwyr gwŷch, ar blaid y gwan.

6. Gwir

6. Gwir, gwir: fod bwriad arall iddi ar dir,
Yn lle claddu ei chorphyn clir,
Anifyr oedd y nod,
Yr oedd y gangen g'lommen glyd,
Wedi ei dyweddio,
I 'mrwymo 'nghyd;
Ag Aer cyfrifol cywir fryd,
Sef Edward Wynne a hyn o hyd,
Tra byddent beunydd yn y byd,
Roedd rhyngddynt gariad maith i gur,
Cu lana parch calonnau pur. } Mr. *Wynne* o *Ddolfawr.*

7. Dall, dall: Yw bwriad dynion meirwon mall,
Awn oll i'r llŵch y naill a'r llall,
Heb arnom ball o'r byd;
Roedd yma 'ddwydion,
Mowrion maith;
Au rhoi drwy gred mewn gweithred fraith,
A dwylo tyſtion chwech neu ſaith,
A hyder gormod ar y gwaith,
Heb neb yn dirnad hyn o daith,
Fod angau glas yn hogi ei gledd,
A'r fenyw bur ar fin ei bedd.

8. Clau, clau: o union ddull, un oedd y ddau,
Ped faſai Duw yn
Caniadhau i gau 'r ammodau mwyn,
Er maint y purder ofer yw,
Rhoi ferch rhy dynn, ar undyn byw,
Ni lwydda dim 'a luddio Duw, y fe ſy 'n raenio,
Ar ddynol ryw;
Gobeithio i'r wir winwydden wiw,
Gael gwell dyweddi heb wyrni 'n ben,
Priodas Aer paradwys wen.

9. Bu, bu: Marwolaeth hon yn alaeth du,
Doluriau toſt i deulu 'r Ty,
Oedd ei diweddu yn wir,

I'w mam a'i Brodyr, gwewyr gwael,
A i Thaid a'i Nain, am riain hael,
Oedd mewn cyfyngdra trymma trael,
A phawb o'i phobl wrth ei ffael,
Nid oedd fawr gyfur yno i gael,
Ond gwendid natur eglur oedd,
Drwy yſtyr blin yn driſta bloedd.

10. Siwr, ſiwr: Bu caeth ruddfannau dagrau dŵr,
O'i bod yn gorph a'r bedwar gŵr,
Yn myn'd i'r llygwr llŵch,
Di nawdd wahaniad ydoedd hon;
I'w hanwyll gariad,
Brathiad bron; am ſynwes lwys y Fenws lonn,
Pan gollai 'r dydd ar wenlliw 'r donn,
A rhoi iddi gryd o'r ddaiar gron,
A'i gado 'n brudd bun deg ei bri,
A chan ffarwel i'w hoedel hi.

11. Nŷch, nŷch: a ſynn oedd clywed ſŵn y clych,
A gweled rhoi mewn gwaelod rhŷch,
Ddiſgleir-ddrych, harddwych hon,
Yn un ar hugain yno ei rhoed,
Yn floddeu 'r bedd,
Ieuengedd oed; i'w gwaſgu 'n gaeth,
Mewn gwiſg o goed,
Dan y clai, yn dynn fe'i cloed,
Lle ni thrŷ na llaw na throed,
Tan ddoir i alw 'r meirw mud,
Ac i roi barn ar gyrrau 'r byd.

12. Gwaith, gwaith: ordeiniodd Duw oedd hyn o (daith
Nag wylwch ac na chwynwch y chwaith,
Yn hir-faith, ar ei hôl,
Mae ſy nghyfarchiad ſyniad ſwyn,
At Betty Foulkes ſy 'n drwm ei chwyn,
Fi chares a'i chyfeillies fwyn,
Nhw fuon rowiog fel yr ŵyn,
Yma 'n ddownus,

Yn

Yn ymddwyn ;
Rwi n gyrru i d'annerch air di
Dwyll ; i gymryd cyfur bybyr bwyll.
13. Daw, daw : Cennad angau briwiau braw,
Mae ei faeth ar linyn yn ei law,
In taraw 'n ddiſtaw ddwys,
'Rym dan ei warrog yma 'n wir
Mae ganddo ein harwain gledde hir,
Hwn fy n merthyru môr a thir,
Pob gloyw roſyn claerwyn clir,
Pob cangen laſ-wen,
Aur-wen ir; pob uchel frenhin brigin braint,
A roes i'w fedd ni ruſa ei faint
14. Ail, ail : yw bywyd dyn i gwympiad dail,
Neu dŷ ofodwyd heb ddim fail,
Ar dir yn adail deg,
Er cael ei gynyſgaeddu 'n glyd.
A gwerthfawr dlyfau o berlau 'r byd,
A glendid harddwch tegwch pryd,
Dawn ſynwyr ffraeth dyſgeidiaeth drud,
Pa beth ſy 'n dal y rhai'n ynghyd,
Ond anadl einioes byrroes bwynt,
Fel un o r gwawn o flaen y gwynt,
15. Ffael ffael :
I'r gallu mawr i golli 'r mael,
Pan tyddo 'r ffroenau a'r genau gwael,
A'r corph ar drafael driſt,
Yno ſyrth y nerth a'r nwy,
Prydferthwch hwn ni welwn mwy,
A'r golud teg fe giliant hwy,
Yr awr gyfynga cletta clwy, ar gofid fyth
Yn gafod fwy ; y goſtrel bridd ſydd leſtr brau,
Ni hybir hon i hir barhau.
16. Ffydd, ffydd : O Ieſu dod i ni nos a dydd,
A maddeu ein hanwireddau ſydd,
Yn haeddu cerydd hir,

Credwn yſwn a bwyttawn,
O groeſo Duw mewn gras a dawn,
Y ſoru gwyl i feirw gawn,
Ar ol y meirw na thriſthawn,
Hwn ſydd yn brudd-der ofer iawn,
Er wylo 'r Môr, ni welir mwy,
Yn y byd hwn mo'u bywyd hwy.

Cerdd o goffadwriaeth am *William Williams* o Gaer Fâch, ymhlwy *Llanrhaiadr* ym Mochnant, gwr Ieuangc fu farw o'r Frech wen, ar feſur elwir Trymder.

XXXIII.

1. CLywch alarnad caniad caeth o hiraeth dwys,
Am wr Ieuengaidd iraidd aeth yn gaeth i'r gwys
Angau ſydd yn neſau,
I daro 'r corphyn briddyn brau,
I ddeddfau hwn rhaid ufuddhau diau y daw,
Fo eilw 'r gwael fel y gwŷch, ni fetha eu rhoi
'N yr un fath ddrych; heb feddu dim
Ond gwledd y rhych a gloddio rhaw.
2. Er mai peth cyffredin yw,
I'r byw 'n y byd,
Fod angau 'n ordinhâd gan Dduw,
Bob rhyw bryd,
Pan goller anwyl gyfaill clau,
Blaedd o ſerch heb leſhau,

A

A geiff fyned i'w goffau, er mae ffôl,
Ei deulu fyddant wrth ei fedd, braw a'u cloes,
Fel briwiau clêdd;
A llawer wyneb oer ei wedd, ar ei ôl.

3. Er byn nid allwn feio ar un, mae ofer yw
Ond rhoi cyfur ymhob dyn o air Mab Duw,
Y fe 'dyw 'r adgyfodiad fydd,
Mae 'n bywyd ynddo i gyd ynghudd,
Fe 'i cyfyd i oleuni dydd o flaen ei dad,
Pwy bynnag ynddo gredo 'n grŷ,
Er marw ei gorph i'r ddaiar ddu,
Y fe ydyw 'r bywyd ynddo fy 'n llwyddiannus had.

4. Bu yn y Seintiau gorau i gyd y gwendid hwn,
Pan fyddai Duw 'n eu galw o'r byd roedd galar bwnn,
Galarai *Rachel* am ei phlant,
Ni chymrai gyfur fynwyr fant,
A *Mair* a *Martha* chwerwa chwant gowfant gur,
O briddo eu Brawd briw oedd a brad,
A'r hiraeth hwn fyth ni ymâd,
Ac anwyl deulu Mam neu Dad, bwriad bur,

5. Am William Williams yr un wedd gwannedd
I'w Dad a'i Fam uwch ben ei fedd, (gŵyn,
A'i ddwy Chwaer fwyn,
Roedd gwaedd o bwys guddio ei ben,
Tan y llŵch tynna llenn,
Drwy friwiau a chur o'r Frêch wen, diben dwys
Eu braw oedd doft briddo dyn,
Mewn gwelu llaith gwaela llun,
Mab unig oedd enwog un, yn y gwys.

6. Yn nam un ugain diddan oed, a dyddiau nwy,
Ymlodeu Ieuengtyd yfgafn droed, a'u hardd-oed hwy,
Y rhoed ei gorphyn fydyn fenn a'i air a'i barch
Ar ei ben; yn Llanrhaiad waftad wen yftod wir,
A'i enaid aeth i newid oes,
At yr hwn ynddo a'i rhoes,
I'r ail fywyd arail foes, einioes hir.

7. Cym'rwch galon radlon rydd,
Bob dydd heb dwyll,
Gwell na galarnad profiad prudd,
Yw ffydd a phwyll,
Ni ddaw mo'r meirw yma mwy,
Mae hynt ein taith ni attynt hwy,
Ni wyddom heno o honom pwy 'n gynta i'r pen,
Rhyw fywyd yn ymfymmud fydd,
Gennym yma redfa rydd,
Fel cwympiad dail arwydd brudd oddiar bren.

8. Marw yw'r byd er mae byw, am awr bach,
Y foru n farwol raddol ryw,
Sydd heddyw 'n iach,
Er glendid hardd galondid hy,
Er braint a pharch cyfarch cu,
Ni arbed angeu a'i fwa du, fywyd un,
Nid cryfder na chyfrwyfter chwaith,
A'i try fe 'n ol rhag trefnu ei waith,
Fe ŵyr ammodau dyddiau taith, diweddiad dyn.

9. Serch rhieni i'w hanwyl blant,
Mowrchwant mwyn,
Sy 'n rhoi galar maith i gant,
Methiant gwyn,
Gwendid fy 'n y cnawd ynglyn,
Na fedr ei berfwaedio ei hun,
Wedi colli delw ei ddyn duwiol ddawn,
Ond arfer ffydd a gweddi bur,
Fe gilia 'r galar fiomgar fur,
Derfydd trymder caethder cur, cyfur cawn.

10. Er bod hwn mewn bywyd da, mwyna moes,
Yn howddgar fel planhigyn hâ, yn ei oes,
Cynneddfau da naturiol ddyn,
Sy 'n dda n eu lle,
Heb ddiwyno eu llun,
Braint yw nhw i rai,
A brwn yw 'r un, hebddyn hwy,

Ond

Ond nid er mawl parch na chlod,
I ddyn bydol am eu bod,
Ond rhown i'w rhoddwr dan y rhod, fowr-glod fwy,

11. Pan elo dyn gorphyn gwan dan y ne,
Yn aer y llwch yn nhir y Llann, oera lle,
Y derfydd ei amcanion gŵŷch,
A'i anrhydedd yn y rhŷch,
Yn welw ei drefn waela dŷch, frŷch ei fron,
Fel *Job* gynt yno geilw 'n dâd, *Job* xvii. 14.
Bwll y bedd waeledd ftâd,
A'r prŷf fy Mam wrth ordinhâd ydyw hon.

12. Marw 'n Ieuangc diangc dâ, llawena llwydd
Oddiwrth gyfyngder blinder blâ, redfa rwydd,
Gadel pechod yma 'n grwn,
A beiau tywyll y byd hwn,
Gofalon byw fy fel yn bwnn,
Ar fil yn bod, gadel trallod ym mhob tre,
Cael anian lonydd yn ei le,
Y goron aur o gaerau ne, goreu nôd.

13. Nid oes i r corph ond amdo ac arch, o'r da i gyd
Er cyrraedd gynt enw o barch, yn y byd
I huno i'r llwch, â hwn a'r llall,
Yn dlawd, yn noeth, yn fud, yn ddall,
Meddiannau 'r byd yn ddi ball, i arall eiff
Pan elo dyn i'w dyddyn du, fe doir ei gnawd,
A daiar gnu: Pe'i Brenhin a fu,
Yn Lloegr gu, llygru geiff.

14. Gwelwn nad oes ball, i'r byd, o hyd na hedd,
Ond marw a chladdu i'n gyrru i gyd,
Yn fud i fedd,
Nid oes ar ôl na ffôl na ffel,
I gorph yr un ond gair ffarwel,
Pan fyddo ei ddwyn i'w fedd yn ddel drafel drift,
A darllen yno air neu ddau,
A chlul ar glôch i'w goffau,
Tra bo 'r ddaiar yn ymgau am y gift.

Cerdd ar galon drom, yſtyriaeth ar farwolaeth *Edward Prys* o'r Wayn Uchaf, gŵr o Lanrhaiadr Dyffryn Clwyd, a gweinidog i Sir *Richard Mil'wn*, yr hwn a gafodd farwolaeth ddi ſwtta yn y Caſtell, fel y damweiniodd i un o'r gweithwyr daflu yſtyllen o le uchel yn ei ben ef; yr hyn a fu y flwyddyn 1764.

XXXIV.

1. POB gwr grymmus nwyfus afiaeth,
Llawen-gu arail llawn gwroliaeth,
Cofiwch angeu yn nyddieu nodded,
Cyn terfynu 'r Corph a r Ened,
Mae 'n ffol i'r iach ddweud hwyrach hiroes,
Ar derfyn dirfawr fel iâ un-awr yw ei enioes,
Ni wiw hyderu ar dŷ daiarol,
A mil gan angau i ni o rwydau anwaredol.
2. Ni cheir na chiſt, na chaer, na chaſtell,
Na dinas gadarn Tŵr na 'ſtafell,
Na dur, na mur, ar dir na moroedd,
O waith llaw Seiri 'r holl amſeroedd,
I attal angau ſaethau llymion, terfynol ſwyddog,
I bob gradd enwog ryw o ddynion,
Gwnaeth hyd eu dyddiau megis dyrnfedd,
Ar fyrr darfyddant,
Fel lliteiriant o'u holl fowredd.

3. Bu

3. Bu yma ddamwain i ddiddymmu,
Enioes anwyll gyfaill mwyn-gu,
Edward Prŷs, ar frys cadd alwad,
Drwy fawr gynnwrf ar ferr gennad,
Ynghaſtell clyd Syr Richard Miltwn,
Na ddêl fyth drifft-awr;
Ing a phwysfawr angeu o'i ffafiwn,
Hwn oedd yn iâch uwch ben ei orchwyl,
Heb nŷch na gwendid, na chlwy na gofid yn ei gyfyl.

4. Yn llawen rywiog fel yr Eos,
Heb ammeu dim fod angeu 'n agos,
Ond angeu hŷf, a'i gleddyf gwaedlyd,
Oedd yno 'n diſgwyl am ei funud,
A'i draed gwlân yn cerdded atto, a i ddwrn marwol,
O bren durol yn ei daro,
Yn rhith pob eulyn gelyn goleu, at yr henaidd,
A'r dewr Ieuengaidd y daw 'r angeu.

5. Weithiau 'n wayw garw gerydd,
Drwy ddoluriau 'n boenau beunydd.
Weithiau 'n treulio 'r cnawd yn araf,
Bob yn ronyn heb fawr anaf,
Weithiau teri 'n anweledig, heb glais na briwiau
A drych ei nodau dychrynedig,
Weithiau drwy 'r elfennau mudion, mae yn amlygu
Ei oruwch allu, a'i archollion.

6. Weithiau dyn mewn brad a bwriad,
Yn angeu i arall o anghariad,
Un arall etto ar oſgo muſgrell,
Yn angeu cyfyng i w ben cyfell,
Fel ac y cafodd hwn ei derfyn,
Daeth law cyd weithiwr,
Oedd wan wiliwr iddo 'n elyn,
Wrth daflu yſtyllen nis deuallodd,
Fod angeu ffyrnig yn llew poenedig, lle pennododd.

7. Wrth farn gyſonol reol rywiog,
Y dyn o'i ddiwedd nid oedd euog,

Mae

Mae llawer ſiawns o anfodd i ni,
A hyll ei nerth na allwn wrthi,
Ac ynte a'i blaened galed gilwg,
I golli ei einioes,
Dan y drym loes yn dra amlwg,
Mae rhai dynion wedi hordeinio,
I gael terſyniad,
Ar yrfa a'i thyniad o'r fath honno.

8. Bu fawr alar o'i farwolaeth,
Yn y Caſtell a'r gymdogaeth,
Sian ei Wraig ei ſynwyr agos,
Gwall oer och! a gollai o'r achos,
Ond fel 'roedd Duw 'n ei dal i fynu,
Yn fam ymgleddgar mewn du alar i'w mân deulu,
A llef y plant ymddifaid truain,
Oedd fwy anghyſur gwayw lafur i'w gwylofain.

9. Yn hyn o odſa trymma tremiad,
Y doe 'r boneddigion howddgar ddygiad,
Adre o Lundain drwy lawen daith,
A'r dyn eur-teg dan ei artaith,
Synna ſaeth, pan ddaeth i'w lyſoedd,
I fron Sr. Richard,
Blaened Edward blined ydoedd,
Gwaedd o boen oedd ei ddibennu, munud oeredd,
A yrrodd Fonedd i ruddſannu.

10. Pan aeth y newydd chwith archwaethiad,
I lenwi 'r heol i Lanrhaiad,
I blith ei dylwyth adwyth ydoedd,
Yno ei farw i niferoedd,
Dwyn i alar dua niwlen, ei geraint agos,
Ar yr achos oer yw 'r ochen,
Newydd triſt i gluſtiau ei blentyn,
Oedd yno 'n tario i'w dad ymado mewn munudyn.

11. Anhyfryd hefyd i'w frawd Dafydd,
Ac oer iawn awel gair y newydd,
I'w dair chwiorydd yn drŵch o eira,

Neu

Neu ja yn y galon anian gwla,
Mary ac Anne a Sian lwys enau, (ddafnau,
A'u caeth ochneidion yn wylo 'n ddyfnion loywon
A Robert Roberts pan gae 'r newydd,
Ei frawd ynghyfraeth,
Yn faith ei hiraeth fyth o'i herwydd.

12. Ac etto Robert Jones ei gefnder,
A ddaeth o Lunden y cyfamfer,
Yn union erbyn ei farwolaeth,
A'i galed agwedd gladdedigaeth,
Cae galon drom fod fiom i fymud,
Y pura o'i ffryndie,
Gwr a garai i'w gario i'r gweryd,
Ac amryw eraill o'i gydnabod,
Mewn triftwch troftyn,
Gwayw oedd arnyn gofio ei ddyrnod.

13. Pan aeth i'w arch mewn parch a chariad,
Ei gymydogion glân eu dygiad,
Roedd llawer iawn o rhai'n drwy burdeb,
Yn grefynnu o'i groefineb,
A'r holl weinidogion euraid agwedd,
Oed yn y Caftell,
Wrth briddo eu cyfell, yn y ceufedd,
Yn llenwi 'r fonwent a'u gruddfannau,
A braw briwedig, o'u mewn yn yfig eu mynwefau.

14. Ei holl alarwyr natur rywiog,
Cymrwch bellach gyfur pwyllog,
Gwaith goreu i ni fodloni o'n gwirfodd,
Byth heb os am beth a bafiodd,
Ni ddaw ddim attom yma etto,
O'i gyfyng garchar,
Er mawr allar Môr o wylo,
Pan elo dyn i dy ei hir gartre, yno 'r erys,
Hyd oni ddengys diwedd angeu.

15. Siampl i ni gymryd rhybudd,
Oedd ei wahaniad a'i ddihenydd,

Ni

Ni wyr y Gwŷr a'r ſynwyr gore,
Yn y byd mo hyd eu hede,
Y rhai ſydd heddyw 'n hoyw gryfion,
Geill angeu eu ſathru,
Cyn y foru accw 'n feirwon,
Berr yw 'r einioes bâr yw 'r anian,
A meddwl ofer,
Yw rhoddi hyder ar dda hedan.

16. Gŵr oedd Edward gwir ddi rodres,
Gŵr da ei fawl a gair di fales,
Iâch ei ymadrodd a chymhedrol,
Gwyneb goneſt a ſynhwyrol,
Un llon yſgafn llawen oſgo bodlon beunydd,
Heb wŷn aflonydd yn ei flino,
Caredigol i'w gymdogion, gwir ddifyrrwch
A mawr ddiddanwch myrdd o ddynion.

17. Ei oed oedd un arddeg a deugien,
Pan aeth ei gorph i'r ddu Ddaiaren,
Gobeithio a'i rhaid ei ddaioni,
O'r bywyd byrr i'r byd a bery,
Pan ddelo angeu i reſtio 'r corphyn,
Yno dengys, penyd echrys poen a dychryn,
Ei henw yw Brenhin dychryniadau,
Rhai yma welodd y loeſau weithiodd ol ei ſaethau.

8. Chwi welſoch gellwair yno 'n colli,
Yn troi 'n ochneidion ddwyfron ddifri,
Chwi glywſoch ſŵn pob rheſwm ſein-gar.
Yn du-las gilio 'n adlais galar,
Chwi welſoch foeſe chware a chwerthin,
Yn drymder meddwl,
Dan wrthddrych cwmmwl erthwch cimmin,
Chwi welſoch ŵr oedd gynne 'n lyſti,
A'r ceiliog rhedyn,
Yn bwn a gwydyn boen i'w godi.

19. Wrth hyn ond iawn y gelwir angau,
Drych niweidiol dychryniadau,

A'r

A'r fath anffurfiad tremiad trymma,'
Yn ei waith ammwyll, a wnaeth yma,
Byddwn parod i ympirio,
Mewn duwiol fuchedd,
Rhag barn a dialedd erbyn delo,
I ddangos croes ei dduloes ddelw,
Daw 'n gynnar gennad cyfion fwriad cofiwn farw.

Bedd Argraph.

XXXV.

A	Wel o hoede 'N Deo dwy afae enir ol	}	l	Ehed I gludf had Ef Yno 'r	Daiar a

Aethym i'm dirym dŷ oeredd---yn fud,
I fod yn Etifedd,
O'r ddwy-lath âr eiddiledd
Digon o'r byd, gan i 'r bedd.

Neu 'r Englyn uchod fel hyn.

Awel o hoedel eheda---Daiar,
A'n Deol i gludfa,
Adwy afael had Efa,
A enir oll yno 'r â.

Crybwylliad

Crybwylliad i *John Edwards* y prydydd pan oedd ef yn *Llundain* ddyfod adref at ei wraig.

XXXVI.

Awd		oe		ardd		yd		oi	i		ŵ								
i		a yw		od		a		yw			e								
Br	d		th	f		Br		d		th	f		th						
au		ai		awr		iw a		wy			ŷ								
aw	'	yw i		un		io		i			â								

Neu fel hyn,

Brawd doeth fardd, Bryd doi i'th fŵth,
Brŷ da yw'th fod, Brad yw 'th fêth,
Brau daith fawr, Briw adwyth fŷth,
Braw 'dyw i'th fun, Briodi 'th fath.

Cyfieithiad o bennill Saeſnaeg.

XXXVII.

DINAS yw 'r byd yma ſydd,
Yn llawn heolydd ceimion,
Angau yw 'r farchnadfa brudd,
Lle 'r ymgyferſydd dynion,
Dae 'r bywyd fel marſiandaeth pryn,
I godau dyn i'w gadw,
Byw wnai 'r goludog byth mewn ſfawd,
A'r dyn tlawd, gae farw.

Cerdd ar Charity Mrs. ychydig hanes Am Gaynor Hughes y fenyw o Landderfel, yr hon ſy 'n gorwedd Ers Pedair blynedd, ac yn byw heb ddim cynhaliaeth.

XXXVIII.

1. CLYWCH draethod hynod hanes,
Mewn cyffes cân, geill mawr a mân,
Ei gymryd yn athrawiaeth,
Drych o ragluniaeth glân,
Fel y mae Duw 'n rhybuddio,

Yn

Yn gwaethio 'n gwadd pob oes a gadd,
I'w cymhell fuddiol foddion,
Arwyddion amryw radd,
Mae rwan wir amlygiad,
O weithrediad, un a thri,
Ei ddyfg a'i ddawn, fel llythyr llawn,
Sy 'n Eglur iawn i ni,
Ar fenyw 'n Sir Feirionydd,
Mae 'n dangos arwydd,
I ni 'n fiwr; na chlybwyd chwaith,
Fod y fath waith, ar diroedd maith, na dwr.

2. Un Gaynor Hughes,
Yw 'r Ddynes, medd cyffes gwyr
A farnai 'n bur; ei bod ers pedair blynedd,
Yn gorwedd yn ddi gur,
Yn llonydd heb ddim lluniaeth,
Cynhaliaeth dyn, ni fynnai 'r fun,
Ond ymborth oddi uchod,
Da hynod Duw ei hun,
Heb ddim daiarol doraith,
Ond llwyaid unwaith
Yn y dydd; o ddwr glan gwael, faint fwy o fael,
Gan Dduw mae 'n gael yn gudd,
Nid drwy fara 'n unig, hyn fy 'n weledig,
Yn y wlad; mae dyn yn byw,
Ond drwy air Duw, mo'r ryfedd yw ei râd.

3. Mae hon yn wrthrych heddyw, i'n galw ni,
Drwy groyw gri;
I yftyr gair yr Arglwydd,
Bob dydd o'i herwydd hi,
Beth dybiwn i fy 'n cadw y fenyw 'n fyw,
Ond gallu Duw;
Mae ei ryfeddodau 'n amlwg,
I'n golwg, ac ein clyw,
Mae 'n howddgar ei hymadrodd,
Medd rhai a'i clywodd,

Yn

Yn rhoi clod; i Dduw 'mhob mann,
Sy yw chadw 'n wann,
Yn unig dan ei nod,
A'i gwaedd a'i lleſ mewn gweddi,
Heb ddiſtewi nos na dydd,
'N cael praw bob pryd, o 'ſprydol fyd,
Dda fywyd iddi 'n fudd.

4. Mae cynhyrfiadau yſprydol, a nefol nod,
Diball yn bod; drwy wendid cnawd yn gweithio,
I Dduw egluro ei glod,
Pwy ŵyr ar y ddaiaren, pa ddiben dwys,
Grymmuſol mwys; pa ddirgel waith rhyfeddol,
Gwrddrychiol bywiol bwys,
A ddengys Duw yn eglur,
Ei hunan drwy greadur hon,
Fe allai daw neu fod ger llaw;
Ryw gur a braw, ger bron,
Nid oes un gwrthddrych rhyfedd,
Heb ryw ddialedd brudd o'i ol,
Cyn dangos gŵg, drwy dêg fe 'n dŵg,
On bywyd drwg di rôl.

5. Bod hon a'i bywyd dynol, daiarol ſtâd,
Mewn marwhâd; oddiallan yn ddi allu,
Er hynny mewn parhâd,
Mae 'r anian fyw yſprydol, o nerthol nwy,
'N cynyddu 'n fwy; hon fydd yn attal ange,
Mawr gledde marwol glwy,
Ond te nid eill y corphyn,
Brau mo'r byw ronyn,
Heb ei raid; er gwledd dwr glan,
Ae ar wahân, i'r lludw mân a'r llaid,
Nid ydyw 'r byd wybodol,
O'i bywyd anfeſurol ſwm,
Ni adwaenom ni mo'i hanaian hi,
Ond y trueni trwm.

6. Mae 'n amlwg wrth ei gwaelder,
Er's llawer dydd,
Mewn cyflwr cudd
Fod Duw drwy wendid etto,
'N perfſeithio, nerth i'w ffydd,
Er mwyn amlygu ei hynod ryfeddod fawr,
I ninne 'n awr;
Gwnaeth hon fel llyfr i'n dyſgu,
Lle mae 'n ſgrifenu i lawr,
Mae gallu Duw yn eglur,
Drwy bob Creadur,
Natur nwy; ond gwelwn fod,
O'i nefawl nod, yn hon ryfeddod fwy,
Amhoſibl gyda dynion,
Heb faeth o foddion,
Iddi fyw; ond medi heb hau,
A'i glod yn glau,
Wna gweithrediadau Duw.

7. Llaw Dduw ſydd yn ei chynnal,
Gan attal nerth,
Peccellau certh,
Gan roi iddi ffrwyth ei winllan,
Heb arian, ac heb werth,
Rhoes luſern am ei chanwyll a didwyll laeth,
Y gair yn faeth;
I'w chadw dros rai dyddiau,
Hyd y pennodau wnaeth,
Pan ddelo i ben ei chyfri, gorfoledd iddi,
Brofi ei braint; mewn hyfryd hedd,
Tu draw i'r bedd,
Cyfurus wledd y ſaint,
Pob un ſydd ei yn gweled,
Mae 'n ddrych agored,
I chwi i gyd: gael golwg gwiw,
A'r wrthiau Duw,
Sy 'n cadw 'r fenyw cyd.

8. Mae

8. Mae bywyd dyn a'i ange, diameu yw,
Bob gradd a rhyw,
Yn llaw yr Hollalluog,
A'r gwir ardderchog Dduw,
Ffon dafl a chareg deneu,
A laddai 'r cawr,
Goleiah i lawr:
Lladd Jonah fu yn ei Grombil,
Nid allai r Morfil mawr,
Llau allodd ddifa Herod,
Nid allai 'r llewod,
Oll a'u llu; er newyn hir,
Er cledi clir, ladd Daniel gywir gu,
Dwyn anadl hon o'i gene,
Ni ddichon ange,
A'i faethe fynn: Gwir ganiadtaad,
Y nefawl Dad, a i ordinhad yw hyn.

Y TRYDYDD RANN.

Cywydd i'r Anrhydeddus Arglwydd Frenhin SIOR Y III. pan goronwyd ac y dyweddwyd ef a'r Frenhines CHARLOTTE y flwyddyn 1761.

I.

FFrwythlon-dir, bro-dir, Brydain,
Cân beraidd, gyfonaidd, fain,
Mynn fawl têg, mae 'n fael i ti,
Gyflawniad, gu fu leni.
Cyfodwyd, ordeinwyd, un
Hŷf lew gwrol flaguryn,
O'r anwyl gŷff freiniol gaingc,
Ar ei fwydd-fawr orfedd-faingc,
Mewn undeb, ffyddlondeb, lawn
Ddi och-lef yn heddychlawn,
Cyflwynwyd, tecca flaenor,
Troediodd fêl, y Trydydd SIOR.
Cymwys i'n Heglwys hoyw-glod,
Iraidd glain roi i Dduw glod,
A fynnodd etto 'n fwyniant,
I Brutûs dir Broteſtant.
Gorfoledd a mowredd mwy,
O rydid cymeradwy,
Iddo gael dyweddi gu,
Dda ddownus i'w ddiddanu,
Dwyfaidd waith dewifodd un,
CHARLOTTE Frenhines eurlun,

Gangen

Gangen ireidd-wen dda wraidd,
Gloyw ei mynwes, g'lommenaidd.
Un dda ei gair yn ddi gâs,
I'n gwiw Ethol gyweithas,
Reolaidd Eglwyſaidd glod,
Waed anwylaf doe 'n aelod,
Eglwys paradwys Prydain,
Yn ei rhyw 'n un enw a rhain,
Ei ſynwyr ſy ddatſeiniad,
Ail aur glŷch i lawer gwlâd,
A'i glendid gloyw-wyn-der,
Mal Rhaiadr ſy 'mhelydr ſêr.
Lliw eira wawr a lloer wen,
Dirion wiwlwys deyrnwialen,
Pur loyw raen yr Ynys,
Glaer ei lliw 'n goleuo 'r llŷs,
Y jor nâf iach, o'r nef wen,
A lwyddo ein Holewydden,
(Wâr ddiwair fron) werdd ir frig,
Yn nhy Dduw 'n hoywaidd ewig.
Wrth gymmaint ein braint a'n bri,
O'n Brenin ſy 'n wobr i ni,
Mae 'n gobaith ar daith wir dêg,
Trwy yr un-Duw Tirion-deg,
Am lwydd-fyd pan ſo 'mladdfa,
Lewaidd daith dan lywydd da,
Gelynion digalonnant,
O's ſai SIOR is Ieſu ſant,
Brad oer hŷf yw bryd y rhain,
Bwriadu 'n erbyn Brydain,
Codant Ynys y cedyrn,
Lloegr goch ar eu hyll egr gyrn.
Na wnant gweithiant eu gwaethaf,
Duw yw 'n cledd nid dynion claf,
Bu 'n ſagwyr benna fugail,
I'w ſiwr wir was, SIOR yr ail,

Mae etto 'n fforddio ffydd,
At rwydeb gwaith y trydydd,
Duw I r o dryfor dy ras,
Dyro dwrn da i r deyrnas,
Dy gyfraith berffaith burffydd,
Ynglef rad a'n tengyl rydd,
Yn eigion bron ein Brenin,
I fod yn well na'i fwyd na'i Win,
Boed ffawd a bywyd ei ffydd,
'Run dwf a'r Brenin Dafydd.
'N da ddyfynnu deddf union,
A barn hardd heb wyrni 'n hon,
Yn hyf yn troi 'r cleddyf clir,
Trwy 'r union at yr anwir,
Yn fur dur i'w frodorion,
Yn Llew gwarr grŷf yn Lloegr gron.
A CHARLOTTE wir gyfurlan,
Ei gu lwys gywely lân,
Mewn cariad bwriad bura,
Bo n pennu tyft pob pwynt da,
A i gair o ddoeth gywir ddawn,
Ar yfly's buchedd raflawn,
Yma etto mae atteg,
I Eglwys Duw wiwglws dêg,
Gyda 'n gwlad i gadw 'n glau,
Dda addoliad ddiddelwau,
Eneinied Duw a nod da,
Yn ddi nam y ddeuddyn yma,
Ag olew gras o glau gred,
Dan y ddoniol adduned,
Yn briodas addas wedd,
Dawn cariad Duw 'n eu cyrredd,
Da iawn happ yn dwyn heppil,
Deulu gwir had dilwgr hil,
Etifeddion cyfion cu,
Diwair naws, i deyrnafu,

Yn ffrwythlon blanhigion hâf,
O'r gwin-wydd goreu gwnnaf,
Yn floddeu per a gerir,
Ail i ddail olewydd ir,
Yn cryfhau breichiau ein bro,
Dull addien Duw a'u llwyddo,
Yn fur adail i Frydain,
Goreu rhyw bo gair y rhain.
Cadw i'n gwlad mewn cariad cu,
Dy dda wâs o Dduw Iesu,
'R Brenin SIOR bur union ferch.
Ar ei orfedd ŵr eur-ferch,
A CHARLOTTE mewn oes hir-lawn,
I arfer doeth-der ei dawn,
Rhwydd hynt iddynt i addef,
Y fywiol ffydd gretydd gref,
Yn deg iawn mewn da gynnydd,
Amen, yn faith mae hyn fydd.

Cywydd marwnad coffadwriaeth am y Parchedig a'r ffyddlon wladwr Mr. *Richard Parry* o *Langollen*.

II.

AIL yw hyd byrr-fyd bâch,
I wynn farrug neu fyrrach,
Ail yw oes Dyn waela ſtâd,
I awr-wydr ar ei rediad,
Yr Ieuangc ar fange a fu,
A fwrw oll ei friallu,

Gan balliant nwyfiant a nerth,
Beth yw dyn a thw dinerth?
'Ede' wan ydyw einioes,
Yr hoyw yr hwya ei oes,
Darfod nefu i'w derfyn,
Mewn byd têg mae bywyd dyn,
Tynnu mae mal tonn y Môr,
O'r Acíwyd, tu a i Elor.
Er Maei nag er Aur melyn,
Er Tir da torrir y dyn,
Er fynwyr clos neu air clau,
Na chyngor ni eiriach angau,
Un-gwr ffel o gorpholaeth,
Na Menyw ffri a i min ffraeth,
Er bod yn darfod bob dydd,
Gwelwn iyw un neu gilydd,
Hyn pan ddaw mae 'n traw i fron,
Ceir dagrau caredigion,
A mawr gri am oeri gwrês,
Dymuniad waed eu mynwes.
Och! Alaeth mae 'n gaeth y gwyn,
Mae oer och! Mawr yw r achwyn,
Och! Am ŵr a chymmeriad,
Anwyl oedd ef yn ei wlad,
Richard Parry henwi hwn,
Ar ei ol i rai welwn,
Sydd brudd-der drymder am dro,
Ddu iawn gur iddyn gario.
Roedd dolef waedd ei deulu,
Yn wafg ddwys dan y wifg ddu,
Parodd alar prudd wylo,
I freft penaethiaid ei fro,
Mae cannoedd yma 'n cynwys,
O i ol ar dir alar dwys,
Marged ei wraig a i mowr-gwyn,
Gwewyr maith am ei gŵr mwyn,

Riſiart ei fab a'i raſol,
Aer adawai ar ei ôl,
Awel oerni alarnad,
Braw oedd y dydd briddo ei dad,
Marged ei ferch draſerch drud,
Wenith-lan a i chwyn aethlyd,
A'i phriod ŵr hoff frawd aeth,
Yn ei herwydd mewn hiraeth,
I Siân ei fam ſenn a fu,
Gwayw ludded o'i gladdu,
Mari ei chwaer mor chwerwedd,
Roi brawd byth 'n briod y bedd.
Och! I rhain oll ei golli,
Awr ddu hallt oeredd oedd hi,
Briw duloes braw a dolur,
Ei weled oedd galed gur,
Yn ei arch yn dywarchen,
Braw i bawb heb air o'i ben.
Da wladwr diwael ydoedd,
Ac un da i'r gweiniaid oedd,
Uchelwr o wŷch alwad,
Boneddigaidd gloywaidd mewn gwlad,
Da ei glod a i wybodaeth,
Da 'n ei oes diau a wnaeth,
Da ei gyngor i'w frodorion,
Caredig hwyrfrydig fron,
Da addfwyn, enaid deddfol,
Gwyddai ſwm, rheſwm, ei rhol.
Cymmydog, rhywiog, a rhwydd,
Yn yſtyr, ffordd goneſtrwydd,
Mewn iawn gred, yn gariadus,
A'i nawdd i roi, yn ddi rus,
Yn ofni Duw ni fynnai dwyll,
Orthymmus, na thro ammwyll,
Ym mhob cwrr, mewn happ cariad,
Yn unol a'i dŷ, 'n anwyl dâd.

Tawelwch,

Tawelwch oedd i'r teulu,
O hyd, trwy ei fywyd, tra fu,
Yn howddgar, lafar ei lef,
Yn ddiddig, yn dda ei ddioddef,
Yn llawen, wen, ei enau,
Areithiwr clir, ieithiwr clau.
Er maint, a fo 'n braint a'n bri,
Er chwennych, mowr-barch i ni,
Dyma ran, mwya ei rinwedd,
Arch o barch, yn rhŷch y bedd,
Er moddion mawr, a meddiant,
A meusydd, ar gynnydd, gant,
'N fydyn, y dyn, osodir,
Yn llwyd iawn, mewn llai o dir.
Y dyn, fydd wedi eni,
Yma o wraig, nid mawr ri,
Yw ddyddie ei oes, foes, ferr
'Nafus, helbulon ofer,
Pe bae rymmus, nwyfus, nerth
Yn grwn-fawr, yn gawr anferth,
Pe meddai fyd, a modd fawr,
A hwn ymmaith, cyn nemmawr,
Mor huddol, yw anrhydedd,
A'r oes bâch, yn nrŵs y bedd.
Och! 'madel, a chymmydog,
I dŷ o glai, dan dêw gl[illegible]g,
Daiaren, Llangollen, gwys,
Aml gyrph, i'w ymw[illegible] gorphwys,
Gyda'i gu deulu dilŷth,
Mintai fawr, mae yntef fyth.
Rhoi ffarwel, i'w gorph euraid
Hynawfaidd ryw, hyn fydd raid,
Ni wiw wylo, awelon,
O drymder, neu brudd-der bron
Mae i ninnau, 'mhen ennyd,
Byth i'r bedd, o barthau 'r byd,

Yn

Yn feirw fud, fe 'n S'mmudir,
Ar ein taith, i'r un hynt hir.
Cofiwn, fod ar ein cyfer,
Fyd dros fyd, wedi 'r oes ferr,
Mae bywyd, gwynfyd, i'w gael,
Rhag gwall gyfyng, gwell gafael,
Yn y ſtat hon, yſtod hir
Wedi 'r boen, y derbynnir,
Yr enaid, i wir einioes,
Ddiwair hâd, at Dduw a'i rhoes.
Oferedd, waeledd, wylo
Yn ben brudd, am neb o'n brô,
Tewi Sôn, a bodloni
Duw 'n ddilys, boed d'wllys, di
Dweudyd, os colled ydoedd
Duw i ni wnaeth, da iawn oedd.
Cymrwch, ymgeiſiwch, gyſur
Mewn nawdd pwyll, amynedd pur,
Rhodio r byd, mae 'n rhaid i'r byw
'N rhyddion, tra pery heddyw,
Oes ddaiarol, ſy ddi-rym,
Feru roir, i feirw r ŷm,
Nid yw hyn, wedi ei hau,
O gnawdol, wan ganiadau,
Ond egwan ffurf, yn goffaad,
O i ddyddiau, a'i ddiweddiad,
Gobeithio fod, byth ei fawl,
Draw o'n gwydd, yn dragwyddawl,
Dan afael gu, nefol gâr,
Paradwys, braint priodor.
Mewn gair yn fyrr, gywir fodd,
Ei oedran, i'w iawn adrodd,
A rifir, heb orafun
Chwitha gwaith, chwe wyth ag un.
Oed Iefu cu, d'wyfog hedd,
Ddydd ei arwyl, i orwedd,

Y rhif un, mi rhôl unwaith,
Atto rhôf fwm, tri rhif faith,
Duw dad anwyl, dod i ni,
Hawl urddas, dy deyrnas di
'N henaid, wedi 'r corph huno,
Amen byth, mae yno bo.

Cywydd i ofyn Pais, yr hon a eilw 'r fais, Coat, gan y parchedig Mr. *Pyw* o'r Tŷ Gwynn yn Iâl: I *Elis Wynne* dyn Tlawd yn byw wrth *Wrexham*.

III.

ANTURIAF a gyrraf gân,
Gymreig-waith, O mor egwan!
I'r Tŷ Gwynn at ŵr tèg wawr,
Rhwydd-fwyn bendefyg rhodd-fawr,
Pyw yw efe, pwy o'i fath,
Tumpan Aur ar y Twmpath,
Dyfgydd mydrwaith dewis-gerdd,
Da iawn gais, a edwyn gerdd,
Di gymmar yw, da gymraeg,
Ni fritha enw 'r frythonaeg,
Ni wna mor cam ar Fam-iaith,
Riddyn yw, am wreiddin Iaith.
Mawr yw eich clod gan dlodion,
Dan alwad da 'n y wlad hon,
Y rhai'n a chwardd arnoch chwi.
Deg wên am eu digoni,
Mwys gwaredd ymyfg gwerin,
At heddwch trowch hawdd eich trin,

Bonedd

Bonedd drwy ſerch a'ch perchant
Yn wâs i ſwydd Ieſu ſant. } *yn Offeiriad.*
Dros ddynan lledwan llwyd-wedd,
Uchel waed a chul ei wedd,
Rwi 'n anfon ger bron eich breſt,
Am ſwy mael mae ſy moleſt,
A nyſais pais rwi 'n oſyn,
Liwus wawr i Elis Wynn,
Dilladog diwall ydych,
Coſiwch edrychwch y drŷch,
Boed amlwg i'r neb a deimla,
Llwm yw dyn ond lle mae dâ,
E ddaeth hwn o ddoeth hynod,
Foneddigion clydion eu clôd,
Twmmiaid euraid gnawd iraidd,
Dedwydd wryſg ydoedd ei wraidd,
O'r gwenith gwyn 'r aeth gwannyd,
Tlodion o bigion y byd,
Gwynn dlws yw ei genedl ef,
Anrhydeddus rhaid addef,
Peidiaſ ni phoenaſ goſſau
Yma i chwi mo i achau,
Gwaed gwych ond gwrthddrych gorthrwm,
Greſyn ſod yn llipryn llwm,
Pla i'r Iarll, o'r plu eur-lliw,
Wynn welw aeth, yn wan ei liw,
Ond pluen o'ch aden chwi,
Yn ei liw a wnae'i loywi.
Pe cae ſippog wlanog lew,
A lled-trom rhag ias llwyd-rhew,
Rhyw hugan glydd rhag y glaw,
'Does heddwch nes ei haddaw,
I chwi am dani bob dydd,
Rhed y glod 'r hyd y gwledydd.
Ni wiw cyfri proſi pris,
Y gaffaeliad geiff Elis,

Dyma

Dyma 'r tâl ſâl ei ſylwedd,
Arian ar fŷs aur ni fedd,
Diolch pur ar bapurun,
Can an hôff clôff o bob clun,
Can dan fai cyndyn a fydd,
Ffraethineb ffrwyth awenydd,
Ond trafael hynt o ryfyg,
Rhoi ſothach gwaccach na gwyg,
I byw rwydd-lan bereidd-lais,
A'u hoffrwm fel patrwm pais.
Wel dyna wlan y deunydd,
Pwy bynnag heb nag a'i nydd,
Ceiſiwch ryw nydd-wraig gyſon,
Iawn dda hwyl i nyddu hon,
Gwŷdd ſoniaſ gweddus hynny,
A Phannwr, Tailiwr i'r Tŷ,
Ac yno ni ofer genais,
Gau ffals bwngc ceiff Elis bais.
Llwyddiant ar eich holl eiddo,
Ar gynnydd beunydd y bo,
Na ſo fe lai, o ſlewyn,
Mwy tŵ geiff yn y Tŷ Gwynn,
Bendith ri 'r gwlith ar y gwlan,
Gwirlwydd ar Braidd y gorlan,
Wyn ar eu hôl yn 'rhewlydd,
Ar wndwn, fyrddiwn, a fydd,
Mi wnes, y llês, ellais i,
Fel mae nhalent yn holi,
Bellach rwyf ar balliant,
Gyrraf chwi garw yw fy chwant,
Y mawr bwn eiff, ar ben iach,
Y Prelad pwy wrolach,
Tynnu 'r gwan druan o'i drwch,
Mewn gwall mi wn y gellwch,
Cyſtal i hwn a hen-aur,
Gnu pais dew gan y poſt aur,

Rhagor

Rhagor ni chewch o'm rhigwm,
Ond hyn raid roi er cloi 'r clwm,
Pais am y Cywydd peiſwyn,
O leſaad i Elis Wynn.

Cywydd gweledigaeth y Creaduriaid, ſef y Llwynog y March a'r Dylluan.

IV.

A'M fi 'n canſod, wrth rodio,
Ar fryn, mewn dieithr fro,
Le cymmwys, i orphwys awr,
Anturiais, huno teir-awr,
Ac yn fy hun, cyntun caeth,
Dygwyd, i'm weledigaeth.
Mi 'm gwelwn, fel mewn gwaelod
Dyffryn dwl, meddwl fy mod,
Dyffryn a Phrennau diffrwyth,
Ceimion, a phrinnion o ffrwyth.
Ac yn ol hyn, gwelwn haid
Erwin, o greaduriaid,
Llawer o rhai'n, yn Llewod,
Grymmuſol, a nerthol nod,
Rhai 'n Eirth, yn rhuo 'n wrthun,
Yn oer eu llais, yn arw eu llun,
Roedd Bwyſtſilod, gwaelod, gwaeth
Llu egr ffel, llai gorpholaeth,
Mal cŵn, debygwn, eu bod
Llawn o ŵg, yn llwynogod.
Gwelwn Feirch, rhai 'n gulion fan,
Hefyd, a rhai 'n gyhwfan,

'N

'N gaethion glos, yn gweithio 'n glau,
'N dynn eu poen, dan eu pynnau,
Ymbell Farch, dihafarch, hŷf
Cyfan-groen, uchel cefn-gryf,
Rhai bob math, ymbell Gâthan
Merlynod, a Mulod mân.
Myrnnwn olwg, manylach
Mwy ar bwys, y mawr a'r bâch,
Beth oedd clud, eu caled-waith,
Eu pynnau mawr, a'u poen maith,
Traul y Meirch, trwy lym orchwyl
Yma rioed, heb nemmawr ŵyl,
Cludo, 'ſglyfaeth i faethu,
Llwynogod, Llewod, a'u llu.
Rhyw fwrdwn, clywn ar fyrder,
Dial hyll, a dala herr,
Uchel barl, am well arlwy,
Ymladd mawr, am leoedd mwy,
A llawn ŵg, y Llew a wnaeth,
Foes glaf, am fwy o 'ſglyfaeth,
A'r March ydoedd, mor chwidir,
A'i ofid am, fwy o dir,
A'r Llwynog, yn ŵr llonydd,
Heb ſon, ond gwrando be ſydd,
Gwyddai mae 'r Llew, crêf ewin
Feiſtrolai 'r March o's troe 'r min,
Gwnae 'r llamffwrch, llafn-dwrch, llyfn-dew
Ynghwrr llwyn, gynhori 'r Llew,
Codi o'i wâl, mewn malais
Ffraeth ei ffroen, mal oen ei lais,
Y Llewod, hynod, heini
Dowch yn nes, a gwrandewch ni,
O's gwylofain, am yſglyfaeth,
Yr ŷch chwi 'n gul, a chwyn gaeth,
Rhodiwch, yn fwy rhuadwy,
A'ch hwyl fawr, cewch elw fwy.

Beth

Beth a wnawn, i gael llawn lles?
Ebr rhyw Lew, hir ei lawes
Ebr Madun, dafod mwdarch,
Pynorio mwy, wneir ar y March.
Wedi hyn, aeth yn gryn gri
A llawn arch, y Llew n erchi,
Tynhau 'r cenglau, 'mhob conglydd,
'S oedd pilyn a rhwymyn rhydd
Pynorio, pwnnio 'n arwach,
Rhoi Plwm, gryn ſwm, yn y ſach,
Gyrru mhell, a fflangellu,
Barrog dro, 'n taro bob tu.
Clywn ddoleſ, oer frêſ, ar frŷs,
Tôn y Meirch, tan eu mowr-chwŷs,
'Larwm, ſal wrth Elorau,
Yn nydd cyrph, newydd eu cau,
Rhai'n cwynſan, a rhengc anferth,
Go bell yn ol, gan ball nerth,
Y blaen a'r ol, blin o'r iau,
A'r waſg oedd, ar eu ſgwyddau.
Er hyn ceirch, mynnai 'r Meirch, mawr
Happus-fyd, er pwn pwys-fawr,
Y rhai bychain, druain, draw
Oedd fwya dirym, i'm daraw,
Y cadarn-feirch Eleirch oedd,
'N medru ffroenio, 'r dyffrynnoedd,
Yn llawn dynn, mewn meillion da,
'N ffyrfion, gan wair a phorfa,
Ni 'dawai rhain, dir rhydd,
I'r Da man, ond y Mynydd,
'Chae ferlyn och gan fowr-lwngc,
Y lleill, oedd gymmaint eu llwngc,
Ond Tir gweynydd, tua 'r gwanwyn,
Pen talar, branar a brwyn,
'Chae Ful bach, afael i'w ben,
Dammaid, ond gwellt y dommen.

Dyna, 'r truana, triniaeth,
A welwn i oll, wael iawn aeth,
Roedd pynnau rhai'n, a'u penyd,
Mor gaeth, a rhai mwya i gyd,
Rhai am orwedd, rhwym erwin,
A'u bonau 'n glai, hyd ben glin,
Un a gogwydd, yn gwegian,
'Llall yn ôl, a'i allu 'n wann,
Ar rai 'mhob mann, roedd anrhefn,
Ymbell, un candrell, ei cefn,
Flew hir-fyth, fal i'w harfwyd,
A'u 'fennau mal cledrau, clwyd.
Grefynnais, ryw gwrs ennyd,
Wrth bwys, a rhagoriaeth byd,
Y rhai man fal, 'r ŷm yn fôn,
A dewr-feirch, iraidd dyrfion,
Mwy na'u rhann, mynnai rheini,
Eu dafau brâf, fy heb ri,
Ymhyrddu, 'n gam eu hurddas,
I'r doldir, a'r glynn-dir, glâs,
Gan un, roedd digon i naw,
Tair gwinllan, tan 'r un ganllaw,
A thri-maes, yn fathr-ammarch,
Yn grwn i mewn, gan 'r un March,
Tynnu Erw, at un arall,
I ynnill lle, 'r naill y llall.
Wrth athrylith, nerth rhy-lew,
O's chwannog, Llwynog, a Llew
Chwantus, ydyw r March yntau,
Mor ddyfn, a'r mwya o'r ddau.
Rhy ferr rhy fach, i'w achos,
Oedd y Ddaiar, glaiar, glos,
Fe wnae udiad, ofnadwy
Eifiau bod maes, a byd mwy.
Tua min nôs, er dangos, dig
Ergydiodd, draw o'r goedwig,

Heden

Heden gôch, ananad gan,
Dwrdio 'r Llew, doe 'r Ddylluan,
A'i holion, iddo 'n helaeth,
Yrrai ar ffrŵſt, eiriau ffraeth;
Dweud i'r Llew, di 'dyw 'r llywydd
Cymmer dy le, mawr dy lwydd,
Ond pam, yn dy ddinam, ddydd
Mae 'r llywodraeth, mor lled-rydd?
Pa wêdd, mae camwedd, cymmaint
Hyd y fro, lle mae dy fraint?
Tir da fynn, y tordyn Feirch,
Dyma arfer, y mor-feirch
Y cawr mawr, llwngc y rhai mân,
Geir i'w bachau, gwae 'r bychan,
Yr un modd, o ran mediant
Y mae 'r Meirch hyn, a'u mawr chwant.
Y Llwynog, cynffonnog, ffel
Ddaiar-gi, a ddoe 'n ddirgel,
Eger naws, agor a wnaeth,
'Th lygad, di a'th hiliogaeth,
Ond llygad, 'drychiad, o drais
Agorai fel, garw falais,
Mae llygad arall, dall, dwl
A di fudd, yn dy feddwl
Goreu llygad, i gadarn
Trugaredd, buredd a barn,
Gwell heb lygad, bwriad bar,
Efo naws drwg, fo 'n 'ſtrywgar,
Ail agor, oleu lygad
'Styriaeth wlith, toſturi 'th wlad.
Dweudai 'r Llew, da 'r Dylluan,
Cynghoreſt, mewn goneſt, gan
Y bwgan bo, big a bach,
Gwrwm hyll, gyrr ym mhellach.
Etto 'r Llew, o's gwrandewi,
Gogan fawr, gei gennyf fi,

Gwelais fod, y llywodraeth,
Drwy 'r dyffryn hwn, gwn, yn gaeth;
Gwelais y Meirch, gloyw-feirch, glan,
'N marchogaeth, y Meirch egwan
Deffro, yn llawr y dyffryn,
A llunia hwyl, well na hyn
I'r man Adar, darparwyd,
Fintai fawr, ryw faint o fwyd.
Pob crachen, darren, o dir
At gae mawr, a gymmerir,
Gan Meirch mawr, eurwawr arwydd,
'Cheiff byrr fo gwan, borfa gŵydd
Ceifio rhann, cwys y rheini
Haws, ceit caws, o gutt y ci.
Rwyt tithau r Llew, llyfndew, llonn
A'th fud-lais, yn frith fodlon,
O's cei o hyd, waeth byd, pwy
Grŵth hir-lwth, gario 'th arlwy,
Drwy 'r dyffryn hwn, fi wn, fod
Dewr-der, dy fawr awdurdod,
Attal bob trais, a'th llais, llym
A dyro beth i'r di rym,
Diwallu rhai'n di elli
Pwy mwy teg, pe i mynnit ti?
Pwy gryfach, hyfach, hefyd?
Hir dy fraich, o rhoi dy fryd,
Lle cydiodd, y llu cadarn,
Erw at faes, ow! na roit farn.
Dwyn pynnau, dan eu penyd,
Mae 'r Meirch bach, ammarch y byd,
Ochain fyth, ow! na chaen fwyd,
Llym efgyrn, lle i ymyfgwyd,
O trigant, 'cheit ond drygair
Ac er'ill, a gweddill, gwair.
'Nghrŵg bo 'r lleuog, Ddylluan,
Ferch mul, efo dy Feirch man,

Gyw di nerth, geden wrthun,
Fentri di 'r Llew, 'r futtra i llun,
Mae th aden, eſo thydi,
Gewai doeth, ond te gwae di
Coeg-wawd, ewinedd cigwain,
Reibus ei chêg, a r bais chwain,
Rodres-gwch, mewn dyrys-goed,
Ben cath, bawa yn y coed.
Raid 'mi, eroti, roi taith,
A mawr chwalu 'r Meirch eilwaith,
Dwyn oddiar un, dyna ddrwg,
Lleill i'w gael, daw hyll gilwg,
Y Cowri mawr, y ceir mwy
Rhannaf i, rheini fwy-fwy,
Gwneud gwan a chrŷ, fry, 'r un fraint,
Unioni 'r cam, ni wneir cymmaint,
'N heddychol, fi ni ddichon,
Mo waſtadhau, 'r yſtât hon.
Gwaſtadhau, rhannau, rheini
Oll yn deg, ni elli di,
Ond mae lle, da i wellhau,
Byd iſel, heb fod eiſiau,
Rho i waelion, y rhelyw
Di elli gael, 'n well nag yw.
Y cae cam, accw cymmer,
Dôl y rhaib, ac erw dal herr,
A r tir trais, torr y treſi,
A gydwyd wrth, dy gae di
Maes braich hir, tir, y taerion
Dôl budr elwa, henwa hon
'Parc cyrraedd, bu Huw Corryn,
'Sian biccyn heſb, 'n byw cyn hyn,
Dyna 'r gwir, y rhan-dir, hwn
I dda man, a ddymmunwn.
Eber y Llew, yn bur llon,
Di heliaiſt, haid o holion,

Gwers hir a geiriau o ſwm,
Ni 'th rhuſaf, yn iaith rheſwm,
Pe rhoeſai ryw, gyw, go gall
Aderyn, o waed arall,
Dirnad hyn, Aderyn tô,
Mewn urddas, mi wnawn erddo,
Rhyw dderyn, o rhoe ddyri,
O dlawd walch, yn dy le di.
Pe'i coſiai 'r Llew, croen-dew, cry
A henwais, clywaiſt hynny,
Gan Adar ereill, cyfeillgar,
I ti lŵth gêſt, lu a'th gâr,
Mae gwraidd a had, y gerdd hon,
Er doe, gan 'r Adar duon,
A'u profiad, holiad, heleth
O ran y pwngc, ſy 'r un peth
Ond bod eu ſain, gywrain, gu
Cynnes, yn fwynach canu.
Clywaiſt, y rhain, cluſt yr hŵch,
A'u cwyn wrthit, can erthwch,
Gwae, gydio gae, gyda gwall
O warth erwin, wrth arall,
Gan ddweud, am it wneud, yn ol
Union rywiog, iawn reol
Edliwiânt, i wlad lywydd,
Na wnêl farn annuwiol fydd.
A dwyſach, y dweudaſant
Rhoi at hyn wir, etto wnant
Clorian 'n gŵyrol, fantoli
Ffieiddian o'th, feddiant di
Clau arwydd, ydyw clorian
A gwrth-ddrych, rhwng gwych a gwan
Llywodraeth, rhag twyll hy-drais,
Er dal treſn, a dial trais
Clorian, o's yw 'n anghywir,
Chwareu têg ni cheir yn tir.

Dweudaſant, ni wadant, wedyn
Ar fywiol hwyl, air fel hyn,
Y meſur, y meſuri
Fydd ſiwr o d'ail, feſur di;
Mae ammod, rhwym llywodraeth
I wneud yn well, nid yn waeth,
Uniawn farn, pan ſo wyrni,
Siwr yw hyn, y caſheir hi.
Yn Iach Lew, oni chlywaiſt
Hyn oll, beth bynnag a wnaiſt,
O clywaiſt hyn, clywaiſt hau,
Fellu ſŵn, fy llais innau.
Rhwng milyn, a milyn, mae
'S wyt drin-gar, oſod rhan-gae,
Digon i'r cry, ſy, er i r ſal,
Llwm gwan, gael lle i mgynnal,
At gry-farch, pe'i troe dy grafangc,
Mynnit wair er maint ei wangc,
Dippyn i'r Merlyn, a'r Mul
A'r mein-gorph, Farch rhummen-gul
Ni 'myrrai 'r Llew, mor llawer
Gwedi hyn i gadw herr,
Ffarwel hyll gyw, ffrewyll gân,
Ffarwel i'r Llew, rhoe 'r Ddylluan,
Wedi caffael, eu cyffes,
Yn dyffryn oer, deffro wnes
Och ſeddwl, ni chanfyddwn,
Na Llew iawn hŷf, na llun hwn,
'Deryn du, na Dylluan,
Yno na Meirch, yn un man,
Na Llwynog, drygio, ei drais
O 'niſgwyliad, nis gwelais
Holl doraith, fy mlinderoedd,
Wele breuddwyd, ynfyd oedd.

D I W E DD.

12612 d. 8.